# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 30/06/2015

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Cwestiwn Brys: y Digwyddiadau Trychinebus yn Nhiwnisia
Urgent Question: the Tragic Events in Tunisia

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'—y Wybodaeth Ddiweddaraf
3. Statement: 'Towards Sustainable Growth: an Action Plan for the Food and Drink Industry 2014-2020'—an Update

4. Datganiad: Y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol—Flwyddyn ers ei Chyflwyno
4. Statement: The Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Act—One Year since Introduction

5. Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Donaldson
5. Statement: The Welsh Government Response to the Donaldson Review

6. Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Metro
6. Statement: Update on the Metro System

7. & 8. Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 a Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015
7. & 8. The Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015 and the Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015

9. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015
9. The Town and Country Planning (Fees for Applications and Deemed Applications and Site Visits) (Wales) Regulations 2015

10. Dadl ar Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd o dan Adran 1 o Ddeddf Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
10. Debate on the Welsh Ministers' Report on the Compliance with the Duty under Section 1 of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011

11. Cyfnod Pleidleisio
11. Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:29 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:29

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:29

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding OfficerY

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

On behalf of the National Assembly for Wales, I want to express our heartfelt sympathies to the families and friends of those who have lost their lives or have been injured in the recent terrorist atrocities in Tunisia.

Ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, hoffwn fynegi ein cydymdeimlad llwyraf â theuluoedd a chyfeillion y rhai sydd wedi colli eu bywydau neu wedi cael eu hanafu yn yr erchyllterau terfysgol diweddar yn Tunisia.

13:29

## Cwestiwn Brys: y Digwyddiadau Trychinebus yn Nhiwnisia

## Urgent Question: the Tragic EventsY in Tunisia

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question on this matter under Standing Order 12.66, and I call on Andrew R.T. Davies to ask the question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys ar y mater hwn o dan Reol Sefydlog 12.66, a galwaf ar Andrew R.T. Davies i ofyn y cwestiwn.

13:29 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer.

Diolch, Lywydd.

*Yn dilyn y sylwadau cychwynnol a wnaeth y Prif Weinidog ar y digwyddiadau trychinebus yn Nhiwnisia, a wnaiff ddatganiad llawn ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol? EAQ(4)2387(FM)*

*Following initial comments made by the First Minister on the tragic events in Tunisia, will he make a full statement on his current understanding of the situation? EAQ(4)2387(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, Presiding Officer. The facts, of course, have been widely reported. On 26 June, a radicalised university student, armed with a Kalashnikov, killed innocent tourists on the beach at Port El Kantaoui in Tunisia. He continued his attack into the Imperial Marhaba Hotel and onto the streets, where he was shot dead by Tunisian police. It's believed that he was a lone gunman and part of an ISIL-inspired network, but Tunisian security forces are investigating whether he had support from possible accomplices.

Gwnaf, Lywydd. Mae'r ffeithiau, wrth gwrs, wedi cael eu hadrodd yn eang. Ar 26 Mehefin, lladdodd myfyriwr prifysgol wedi'i radicaleiddio, gyda dryll Kalashnikov, dwristiaid diniwed ar y traeth ym Mhort El Kantaoui yn Tunisia. Parhaodd ei ymosodiad i mewn i'r Imperial Hotel Marhaba ac ar y strydoedd, lle cafodd ei saethu'n farw gan heddlu Tunisia. Credir ei fod yn saethwr unigol ac yn rhan o rwydwaith wedi'i ysbrydol gan ISIL, ond mae lluoedd diogelwch Tunisia yn ymchwilio pa un a oedd ganddo gefnogaeth gan gyd-droseddwyr posibl.

Trudy Jones, who was 51 years old and from Blackwood, was on holiday with friends, and she is thought to have been on the beach in Sousse when a gunman began firing on Friday, and she was killed. Other Welsh people were injured or caught up in the terrorist attacks and further details are still emerging. It is unknown at this stage whether there are any further Welsh casualties or fatalities.

Roedd Trudy Jones, a oedd yn 51 mlwydd oed ac o'r Coed Duon, ar wyliau gyda ffrindiau, a chredir ei bod hi ar y traeth yn Sousse pan ddechreuodd y saethwr danio ddydd Gwener, ac fe'i lladdwyd. Cafodd Cymry eraill eu hanafu neu eu dal yn yr ymosodiadau terfysgol ac mae mwy o fanylion yn dal i ddod i'r amlwg. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd a oes Cymry eraill ymhlith y rhai a gafodd eu hanafu a'u lladd.

Llywydd, at least 18 British nationals have been killed and the number is likely to rise to around 30 as further identifications are completed. I can say that the Foreign and Commonwealth Office are leading the UK Government response to events in Tunisia, with logistical support from the Ministry of Defence. My officials have been in contact with the FCO throughout the weekend and, of course, remain in contact. I'm sure, however, that I speak for all Members in this Chamber when I say that our thoughts are very much with the families of those who are suffering so much at the moment.

Lywydd, mae o leiaf 18 o ddinasyddion Prydain wedi cael eu lladd ac mae'r nifer yn debygol o godi i tua 30 wrth i gamau adnabod pellach gael eu cwblhau. Gallaf ddweud bod y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn arwain ymateb Llywodraeth y DU i'r digwyddiadau yn Tunisia, gyda chefnogaeth logistaidd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae fy swyddogion i wedi bod mewn cysylltiad â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad trwy gydol y penwythnos ac, wrth gwrs, yn parhau i fod mewn cysylltiad. Rwy'n siŵr, fodd bynnag, fy mod i'n siarad ar ran pob Aelod yn y Siambr hon pan ddywedaf ein bod yn cydymdeimlo'n fawr iawn â theuluoedd y rhai sy'n dioddef cymaint ar hyn o bryd.

13:31 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for that detailed statement on your understanding of the horrors that unfolded in Tunisia, and, in particular, we on this side of the Chamber offer our condolences to the family of Trudy Jones, who, undoubtedly left on what was to be a very happy holiday and who is not to return. Our deepest sympathies go to her family and friends at this very troubling time.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am y datganiad manwl yna ar eich dealltwriaeth o'r erchyllterau a ddigwyddodd yn Tunisia, ac, yn arbennig, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cydymdeimlo â theulu Trudy Jones, a adawodd ar yr hyn a oedd yn i fod yn wyliau hapus iawn, yn ôl pob tebyg, ac na fydd yn dychwelyd. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'i theulu a'i ffrindiau ar yr adeg ofidus iawn hon.

We also acknowledge the heroics of many people as well, such as Mathew James, who acted as a human shield, protecting his fiancée and other members of his family; we can truly identify with such heroics in the face of such evil, but, ultimately, what we saw last Friday, regrettably, will not be the last incident of its kind unless we unite and face down such terrible terror events wherever they occur in the world.

Rydym ni hefyd yn cydnabod gweithredoedd arwrol llawer o bobl hefyd, fel Mathew James, a weithredodd fel tarian ddynol, gan amddiffyn ei ddyweddi ac aelodau eraill o'i deulu; gallwn wir uniaethu â gweithredoedd arwrol o'r fath yn wyneb drygioni o'r fath, ond, yn y pen draw, yn anffodus, nid yr hyn a welsom ddydd Gwener diwethaf fydd y digwyddiad olaf o'i fath oni bai ein bod ni'n uno ac yn brwydro yn erbyn digwyddiadau terfysgol ofnadwy o'r fath lle bynnag y maen nhw'n digwydd yn y byd.

I would like to ask two questions of you, if I may, First Minister. The first question is: how is the Welsh Government working with the Foreign and Commonwealth Office to support Welsh casualties, Welsh survivors, and also returning tourists from the resort, who witnessed such horrors and atrocities that wouldn't be out of place in a war zone, so that some of the sponsored bodies that the Government supports here in Wales, such as the health service and, in particular, social services, can, if they are required, offer that support for people who witnessed such a traumatic event? Some people will obviously be carrying injuries from that event. And what, given the discussions that his officials have had with the Government in Westminster, who lead on many of these issues, does he expect, over the coming days, announcements on the repatriation of people back from the resorts, and ultimately, any other news that we might expect on casualties, with another 12, at least, bodies to be identified, which could be from Britain?

Hoffwn ofyn dau gwestiwn i chi, os caf, Brif Weinidog. Y cwestiwn cyntaf yw: sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad i gefnogi'r Cymry sydd wedi'u hanafu, Cymry sydd wedi goroesi, yn ogystal â thwristiaid sy'n dychwelyd o'r man, a welodd erchyllterau mor ofnadwy na fyddai allan o le mewn safle rhyfel, fel y gall rhai o'r cyrff noddedig hynny y mae'r Llywodraeth yn eu cefnogi yma yng Nghymru, fel y gwasanaeth iechyd ac, yn enwedig, y gwasanaethau cymdeithasol, os oes eu hangen, gynnig y gefnogaeth honno i bobl a oedd yn dyst i ddigwyddiad mor drawmatig? Yn amlwg, bydd gan rai pobl anafiadau yn sgil y digwyddiad hwnnw. A beth, o ystyried y trafodaethau mae ei swyddogion wedi eu cael gyda'r Llywodraeth yn San Steffan, sy'n arwain ar lawer o'r materion hyn, mae'n ei ddisgwyl, dros y dyddiau nesaf, o ran cyhoeddiadau ar ddychwelyd pobl yn ôl o'r mannau hyn, ac yn y pen draw, unrhyw newyddion eraill y gallem ni eu disgwyl am farwolaethau ac anafiadau, gydag o leiaf 12 corff arall i gael eu hadnabod, a allai fod o Brydain?

13:33

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

At this moment in time, not all bodies have been identified. I can inform Members that I do receive the daily situation report from the FCO, and from the wider UK Government departments and embassy and consulate staff who are involved. It's clear that there will be more confirmed fatalities. At the moment, the identification process is still ongoing. I know that there are many UK embassy and consulate staff on the ground, who are, at this moment in time, working closely with other UK departments and agencies to ensure that people can come home, and I know that the Ministry of Defence has been involved in that process.

Ar hyn o bryd, nid yw pob corff wedi ei adnabod. Gallaf hysbysu'r Aelodau fy mod i'n derbyn yr adroddiad ar y sefyllfa'n ddyddiol gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, a chan adrannau Llywodraeth y DU yn ehangach a'r staff llysgenhadaeth a chenhadaeth dan sylw. Mae'n amlwg y bydd rhagor o farwolaethau'n cael eu cadarnhau. Ar hyn o bryd, mae'r broses adnabod yn parhau. Gwn fod llawer o staff llysgenadaethau a chenadaethau'r DU yn gweithio, ar hyn o bryd, yn agos gydag adrannau ac asiantaethau eraill y DU er mwyn sicrhau y gall pobl ddod adref, a gwn fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cymryd rhan yn y broses honno.

At this moment in time, the objective is to identify those who have been killed, to return those who have been injured back to the UK, and then, of course, to deal with the injuries that people have suffered as a result of the events there.

Yr amcan ar hyn o bryd yw adnabod y rhai sydd wedi cael eu lladd, i ddychwelyd y rhai sydd wedi cael eu hanafu i'r DU, ac yna, wrth gwrs, i ymdrin â'r anafiadau y mae pobl wedi eu dioddef o ganlyniad i'r digwyddiadau yno.

I think it's also worth noting that we understand that there will be a need to provide people with emotional support. There are many people who witnessed the events that occurred in Tunisia and they will, of course, have to come to terms with what they observed and witnessed when they were there. The Welsh NHS, of course, will stand ready to support all those people who need counselling, perhaps, in the future and any help with any physical injuries, as Members would expect. But, at this moment in time, the information that we have is that the effort is going in—this, of course, is what we would expect, inevitably—to identifying the bodies that remain in order that families may be properly informed and, of course, to ensure that people are returned home as quickly as possible.

Rwy'n credu ei bod hefyd yn werth nodi ein bod yn deall y bydd angen rhoi cefnogaeth emosiynol i bobl. Mae llawer o bobl a welodd y digwyddiadau yn Tunisia a bydd yn rhaid iddyn nhw, wrth gwrs, ddod i delerau â'r hyn y maen nhw wedi ei arsylwi a'i weld pan roedden nhw yno. Bydd y GIG yng Nghymru, wrth gwrs, yn barod i gefnogi'r holl bobl hynny sydd angen cwnsela, efallai, yn y dyfodol ac unrhyw gymorth gydag unrhyw anafiadau corfforol, fel y byddai'r Aelodau yn ei ddisgwyl. Ond, ar hyn o bryd, y wybodaeth sydd gennym ni yw bod yr ymdrech yn cael ei gwneud—dyma, wrth gwrs, yw'r hyn y byddem ni'n ei ddisgwyl, yn anochel—i adnabod y cyrff eraill fel y gellir hysbysu teuluoedd yn briodol ac, wrth gwrs, i sicrhau bod pobl yn cael eu dychwelyd adref cyn gynted â phosibl.

13:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:36 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. I thank the First Minister for his statement, and I would like to echo the sentiments that have already been expressed here this afternoon. The attack upon holidaymakers in Tunisia last week was deplorable and reflected a heinous disregard for human life. On behalf of Plaid Cymru—The Party of Wales, I want to express my condolences to the families of those who were murdered and injured. Our thoughts go out to all people, wherever they live in the world, who have to live with the daily terror of violence. There is too much of it in too many places in the world, and this attack has brought it close to home. We too pay tribute to Trudy Jones and Mathew James.

Diolch, Lywydd. Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad, a hoffwn ategu'r safbwyntiau sydd eisoes wedi eu mynegi yn y fan hon y prynhawn yma. Roedd yr ymosodiad ar y bobl a oedd ar eu gwyliau yn Tunisia yr wythnos diwethaf yn warthus ac yn adlewyrchu diystyrwch erchyll o fywyd dynol. Ar ran Plaid Cymru—The Party of Wales, hoffwn gydymdeimlo â theuluoedd y rhai a gafodd eu llofruddio a'u hanafu. Rydym ni'n cydymdeimlo â phawb, lle bynnag maen nhw'n byw yn y byd, sy'n gorfod byw gyda'r arswyd dyddiol o drais. Mae gormod ohono mewn gormod o leoedd yn y byd, ac mae'r ymosodiad hwn wedi dod â hynny'n agosach atom ni. Rydym ninnau hefyd yn talu teyrnged i Trudy Jones a Mathew James.

Those lucky enough to return home have been left injured and traumatised, and the families of those killed have been left heartbroken. At times of such repulsive actions, humanity can be shown at its very worst. It can also show its best. It's been reported that local people created a human shield around the resort in an attempt to protect those inside, and there have been further stories of care, compassion and bravery. At a time of such tragedy we can also see that people demonstrated the very best of humanity, and it is in that spirit that we can and must overcome the forces of hatred in all of its forms and of perpetual conflict. I'm sure that all of us here, and the First Minister, would agree.

Mae'r rhai sydd wedi bod yn ddigon ffodus i ddychwelyd adref wedi eu hanafu ac wedi dioddef trawma, a thorrwyd calonnau teuluoedd y rhai a laddwyd. Ar adegau o weithredoedd ofnadwy o'r fath, gall dynoliaeth gael ei dangos ar ei gwaethaf oll. Gall hefyd ddangos ei gorau. Adroddwyd bod pobl leol wedi creu tarian ddynol o amgylch y dref mewn ymgais i amddiffyn y rhai y tu mewn, a bu rhagor o straeon am ofal, tosturi a dewrder. Ar adeg o drychineb o'r fath gallwn hefyd weld bod pobl wedi dangos dynoliaeth ar ei gorau, ac yn yr ysbryd hwnnw y gallwn ni ac y mae'n rhaid i ni oresgyn grymoedd casineb ar bob un o'i ffurfiau a gwrthdaro parhaus. Rwy'n siŵr y byddai pob un ohonom ni yma, a'r Prif Weinidog, yn cytuno.

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. It's difficult, of course, to try to understand the mindset of the person who carried out these attacks. What we can say with firm certainty is this: the views of the gunman are not shared by the vast majority of the people of Tunisia. The views of the gunman are not shared by the vast majority of Muslims. We all saw film footage of local people trying to help. We all saw film footage of local people providing support to those who had been affected, and I thank the people of Tunisia for the support that they have provided.

Byddwn. Mae'n anodd, wrth gwrs, ceisio deall meddylfryd y sawl a gyflawnodd yr ymosodiadau hyn. Yr hyn y gallwn ni ei ddweud gyda sicrwydd pendant yw hyn: nid yw barn y saethwr yn cael ei rhannu gan fwyafrif llethol pobl Tunisia. Nid yw barn y saethwr yn cael ei rhannu gan y mwyafrif llethol o Fwslimiaid. Gwelodd pob un ohonom ni'r ffilmiau o bobl leol yn ceisio helpu. Gwelodd pob un ohonom ni ffilmiau o bobl leol yn rhoi cymorth i'r rhai a oedd wedi cael eu heffeithio, ac rwy'n diolch i bobl Tunisia am y cymorth maen nhw wedi ei ddarparu.

We know that this wasn't an isolated incident. There were other incidents across other parts of the world. We saw what happened in Kuwait; we saw what happened, but for very different reasons, in Carolina as well. Tunisia is a country that has made a good transition from being, effectively, a country that was un-free to an open democracy. It's for that reason, I believe, that the country is particularly targeted by those who abhor democracy and those who wish to claim that democracy is alien to their own particular interpretation of a religious tradition. But the people of Tunisia, just as the people of Wales and the UK share with them, want to see freedom. They want to see prosperity and they wish to welcome visitors to their country safely. They will, I have no doubt, abhor the attacks that occurred in their own country, and their actions show how abhorrent these attacks were to them.

Rydym ni'n gwybod nad oedd hwn yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun. Roedd digwyddiadau eraill ar draws rhannau eraill o'r byd. Gwelsom yr hyn a ddigwyddodd yn Kuwait; gwelsom yr hyn a ddigwyddodd, ond am resymau gwahanol iawn, yn Carolina hefyd. Mae Tunisia yn wlad sydd wedi pontio'n dda o fod yn wlad nad oedd yn rhydd, i bob pwrpas, i fod yn ddemocratiaeth agored. Am y rheswm hwnnw, rwy'n credu, y mae'r wlad yn cael ei thargedu'n benodol gan y rhai sy'n casáu democratiaeth a'r rheini sy'n dymuno hawlio bod democratiaeth yn estron i'w dehongliad penodol eu hunain o draddodiad crefyddol. Ond mae pobl Tunisia, yn union fel y mae pobl Cymru a'r DU yn ei rannu gyda nhw, eisiau gweld rhyddid. Maen nhw eisiau gweld ffyniant ac maen nhw eisiau croesawu ymwelwyr i'w gwlad yn ddiogel. Byddant, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth, yn casau'r ymosodiadau a ddigwyddodd yn eu gwlad eu hunain, ac mae eu gweithredoedd yn dangos pa mor ffiaidd oedd yr ymosodiadau hyn iddyn nhw.

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you very much, Presiding Officer. Could I thank the First Minister for his statement and answers to questions this afternoon? The events of last Friday in the beautiful country of Tunisia are truly shocking to all of us and an affront to all right-thinking people of all faiths and none. I would like to offer on behalf of the Welsh Liberal Democrat group our sincere condolences to the family and loved ones of Trudy Jones, and indeed to the whole community of Blackwood, which I know has been completely shocked by the events. The manager of the care home where she worked, transforming the lives of people, spoke very movingly of her record of service, but also spoke of the need to support one another. Would the First Minister recognise that those people returning, or those people touched in any way by this tragedy, will need support from services that are under the control of Welsh Government, and commit to making sure that those are made available?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad a'i atebion i gwestiynau y prynhawn yma? Roedd digwyddiadau dydd Gwener diwethaf yng ngwlad brydferth Tunisia yn wirioneddol syfrdanol i ni i gyd ac yn sarhad ar bawb yn ei iawn bwyll o bob ffydd a dim ffydd. Hoffwn gydymdeimlo'n fawr ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru â theulu ac anwyliaid Trudy Jones, ac yn wir â chymuned gyfan y Coed Duon, y gwn sydd wedi cael ei syfrdanu'n llwyr gan y digwyddiadau. Siaradodd rheolwr y cartref gofal lle bu'n gweithio, yn gweddnewid bywydau pobl, yn deimladwy iawn am ei chofnod o wasanaeth, ond siaradodd hefyd am yr angen i gefnogi ei gilydd. A fyddai'r Prif Weinidog yn cydnabod bod y bobl hynny sy'n dychwelyd, neu'r bobl hynny sydd wedi eu cyffwrdd mewn unrhyw ffordd gan y trychineb hwn, angen cymorth gan wasanaethau sydd o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, ac ymrwymo i wneud yn siŵr bod y rheini ar gael?

As was said by Leanne Wood, there have been incredible tales of bravery emerging from Tunisia, whether that be hotel staff forming a human shield to protect tourists, or, indeed, Mathew James, who threw himself in front of the attacker to save his loved one. I understand that Mr James is now back home and is safe and in a stable condition at the University Hospital of Wales here in Cardiff, and I'm sure that we would all want to wish him well for a speedy recovery. First Minister, I know that a number of other tourists with serious injuries have been evacuated, but I understand that Mr James is the only Welsh citizen in that position. What discussions have you had, if any, with the tourism companies that have people continuing to be in those resorts and may be having difficulty in evacuating them? What can Welsh Government do to support any efforts to evacuate people who want to leave Tunisia as quickly as possible, and what ongoing discussions are you having with the Foreign Office about advice to Welsh holidaymakers who may be now frightened about plans that they have made for trips later on this summer?

Fel y dywedwyd gan Leanne Wood, bu straeon anhygoel o ddewrder sydd wedi dod i'r amlwg o Tunisia, boed hynny'n staff y gwesty'n ffurfio tarian ddynol i amddiffyn twristiaid, neu, yn wir, Mathew James, a daflodd ei hun o flaen yr ymosodwr i achub ei anwylyd. Rwy'n deall fod Mr James yn ôl gartref erbyn hyn ac yn ddiogel ac mewn cyflwr sefydlog yn Ysbyty Athrofaol Cymru yma yng Nghaerdydd, ac rwy'n siŵr yr hoffem ni i gyd ddymuno'n dda iddo ar gyfer gwellhad buan. Brif Weinidog, rwy'n gwybod bod nifer o dwristiaid eraill ag anafiadau difrifol wedi cael eu symud allan o'r wlad, ond rwy'n deall mai Mr James yw'r unig ddinesydd o Gymru yn y sefyllfa honno. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael, os o gwbl, gyda'r cwmnïau twristiaeth sydd â phobl yn y cyrchfannau hynny o hyd ac a allai fod yn cael anhawster yn eu symud allan? Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi unrhyw ymdrechion i symud pobl sydd eisiau gadael Tunisia cyn gynted â phosibl, a pha drafodaethau parhaus ydych chi'n eu cael gyda'r Swyddfa Dramor am gyngor i'r rhai o Gymry sydd ar eu gwyliau a allai fod yn ofnus erbyn hyn am gynlluniau maen nhw wedi eu gwneud ar gyfer teithiau'n ddiweddarach yr haf hwn?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I'm aware that at least one holiday company is offering refunds to holidaymakers who have booked holidays in Tunisia. The advice I would give to people who are considering whether or not to go on holiday to Tunisia is to follow the FCO advice; that's important. It's not for me to give them advice. It's important that the FCO is able to do that, being, of course, the organisation that has people on the ground. In time, of course, it's actually hugely important that people do go to Tunisia because, if the Tunisian economy suffers greatly because of a lack of tourists, that can only fuel the ideology that caused this atrocity in the first place, although people are bound to be nervous as individuals—that much we accept. I am aware of the fact that there is a significant operation that's being carried out with the armed forces and with the FCO to airlift people home.

Rwy'n ymwybodol bod o leiaf un cwmni gwyliau yn cynnig ad-daliadau i'r rhai sydd wedi trefnu gwyliau yn Tunisia. Y cyngor y byddwn i'n ei roi i bobl sy'n ystyried a ddylen nhw fynd ar eu gwyliau i Tunisia ai peidio yw dilyn cyngor y Swyddfa Dramor a Chymanwlad; mae hynny'n bwysig. Nid fy lle i yw rhoi cyngor iddyn nhw. Mae'n bwysig bod y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn gallu gwneud hynny, fel y sefydliad, wrth gwrs, sydd â phobl ar lawr gwlad. Mewn amser, wrth gwrs, mae'n hynod bwysig bod pobl yn mynd i Tunisia oherwydd, os bydd economi Tunisia yn dioddef yn fawr oherwydd diffyg twristiaid, ni all hynny ond helpu'r ideoleg a achosodd yr erchylltra hwn yn y lle cyntaf, er bod pobl yn siŵr o fod yn nerfus fel unigolion—rydym ni'n derbyn cymaint â hynny. Rwy'n ymwybodol o'r ffaith bod gweithredu sylweddol yn cael ei gyflawni gyda'r lluoedd arfog a chyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad i awyrgludo pobl adref.

At this moment in time, it's not clear whether any others from Wales will be identified as having been injured or killed. We are not in that position yet because not everybody has, sadly, been identified. Nevertheless, I am confident that the UK Government is doing all that it can in order to assist people from all parts of the UK who have been affected by this incident. The leader of the Liberal Democrats is perfectly correct to ask what services should be made available to people to deal with the aftermath. In many ways, of course, the physical injuries that somebody has are easy to observe, and treatment can be offered. But it's the psychological scars that are less easy to identify and need, of course, to be identified as early as possible, and then, help given. There will be people, I have no doubt, who will require counselling after what they have witnessed. There will be people who will need extra help beyond that, possibly, in order to come to terms with what they've seen. We know, of course, that there are examples in history where people have survived events like this and then become immersed in a type of guilt: 'Why me? Why am I somebody who survived?' That's something that's very difficult to predict. Of course, it's important that people, if they feel that way, do seek the assistance that they need in order to help themselves. At this stage, it is very difficult to know how many people will be in that position. But we, of course, stand ready, as Members would expect, to ensure that the Welsh NHS is there to help them.

Ar hyn o bryd, nid yw'n eglur a fydd unrhyw bobl eraill o Gymru'n cael eu hadnabod fel rhai sydd wedi eu hanafu neu eu lladd. Nid ydym yn y sefyllfa honno eto gan nad yw pawb, yn anffodus, wedi cael eu hadnabod. Serch hynny, rwy'n hyderus bod Llywodraeth y DU yn gwneud popeth yn ei gallu i gynorthwyo pobl o bob rhan o'r DU sydd wedi cael eu heffeithio gan y digwyddiad hwn. Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn berffaith gywir i ofyn pa wasanaethau ddylai fod ar gael i bobl i ymdopi â'r canlyniadau. Mewn sawl ffordd, wrth gwrs, mae'r anafiadau corfforol sydd gan rywun yn hawdd eu gweld, a gellir cynnig triniaeth. Ond y creithiau seicolegol sy'n llai hawdd eu darganfod ac mae angen, wrth gwrs, eu darganfod cyn gynted â phosibl, ac yna, rhoi cymorth. Bydd pobl, nid oes amheuaeth gennyf, a fydd angen cwnsela ar ôl yr hyn y maen nhw wedi ei weld. Bydd pobl a fydd angen cymorth ychwanegol y tu hwnt i hynny, o bosibl, er mwyn dod i delerau â'r hyn maen nhw wedi ei weld. Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, bod enghreifftiau mewn hanes lle mae pobl wedi goroesi digwyddiadau fel hyn ac yna wedi ymgolli mewn math o euogrwydd: 'Pam fi? Pam wyf i'n rhywun a oroesodd? 'Mae hynny'n rhywbeth sy'n anodd iawn ei ragweld. Wrth gwrs, mae'n bwysig bod pobl, os ydyn nhw'n teimlo felly, yn ceisio'r cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn helpu eu hunain. Ar hyn o bryd, mae'n anodd iawn gwybod faint o bobl fydd yn y sefyllfa honno. Ond rydym ni'n barod, wrth gwrs, fel y byddai'r Aelodau yn ei ddisgwyl, i sicrhau bod y GIG yng Nghymru yno i'w helpu.

13:44 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to add my sincere condolences to those already expressed to the family and friends of my constituent, Trudy Jones, who lived and worked in Blackwood. It is difficult to comprehend the sad and tragic circumstances. Trudy was a loving mother and a family lady who will be sadly missed. Trudy worked in Highfields nursing home in Blackwood. Her manager described her as an absolute angel and so kind—Trudy would help anybody at any time. I do ask for the family to be granted privacy at this very sad time.

Hoffwn ychwanegu fy nghydymdeimlad diffuant at yr hyn a fynegwyd eisoes i deulu a chyfeillion fy etholwr, Trudy Jones, a oedd yn byw ac yn gweithio yn y Coed Duon. Mae'n anodd amgyffred yr amgylchiadau trist a thrasig. Roedd Trudy'n fam gariadus ac yn fenyw deulu y bydd colled fawr ar ei hôl. Roedd Trudy'n gweithio yng nghartref nyrsio Highfields yn y Coed Duon. Disgrifiodd ei rheolwr hi fel angel llwyr ac mor garedig—byddai Trudy yn helpu unrhyw un ar unrhyw adeg. Gofynnaf i'w theulu gael preifatrwydd ar yr adeg drist iawn hon.

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I don't think I can go beyond the words that the Member for Islwyn has used. What struck me in what he said was the description of Trudy Jones as 'an absolute angel', and that is something that has come clearly from those who are closer to her. I don't think I can add anything to what the Member has said. I think he has encapsulated Trudy Jones and what she meant to her community.

Nid wyf yn meddwl y gallaf fynd y tu hwnt i'r geiriau y mae'r Aelod dros Islwyn wedi eu defnyddio. Yr hyn wnaeth fy nharo i yn yr hyn a ddywedodd oedd y disgrifiad o Trudy Jones fel 'angel llwyr', ac mae hynny'n rhywbeth a fynegwyd yn eglur gan y rhai sydd yn agosach ati. Nid wyf yn meddwl y gallaf ychwanegu dim at yr hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud. Rwy'n meddwl ei fod wedi crynhoi Trudy Jones a'r hyn yr oedd yn ei olygu i'w chymuned.

13:45 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the solidarity we see around this Chamber is an indication of the sort of solidarity that is really needed throughout the world as people unite to actually oppose the evil of intolerance and terrorism, not just from this event, but, unfortunately, for potential future events. I'd particularly like to welcome back to the UK Mathew James, who's already been mentioned, a constituent of mine from Trehafod who, out of dark times and the most tragic and terrible times, is also an indication of the extent within our humanity that people can exhibit the most remarkable and outstanding bravery: an individual who threw himself in front of the gunfire and was shot three times protecting the life of his fiancée. He is now back in the UK. He is now receiving treatment. He is now very positive, and I wonder, First Minister, whether you have time and opportunity to send your regards and wishes to Mathew James.

Brif Weinidog, mae'r undod a welwn o gwmpas y Siambr hon yn arwydd o'r math o undod sydd wir ei angen ar draws y byd wrth i bobl uno i wrthwynebu drygioni anoddefgarwch a therfysgaeth, nid yn unig o ran y digwyddiad hwn, ond, yn anffodus, o ran digwyddiadau posibl yn y dyfodol. Yn arbennig, hoffwn groesawu Mathew James yn ôl i'r DU, sydd wedi cael ei grybwyll eisoes, etholwr i mi o Drehafod sydd, o amseroedd tywyll a'r amseroedd mwyaf trasig ac ofnadwy, hefyd yn arwydd o'r graddau yn ein dynoliaeth y gall pobl ddangos y dewrder mwyaf rhyfeddol ac anhygoel: unigolyn a daflodd ei hun o flaen y bwledi ac a saethwyd dair gwaith yn amddiffyn bywyd ei ddyweddi. Mae yn ôl yn y DU erbyn hyn. Mae'n derbyn triniaeth nawr. Mae'n gadarnhaol iawn nawr, ac rwy'n meddwl tybed, Brif Weinidog, a oes gennych chi amser a chyfle i anfon eich cofion a'ch dymuniadau gorau at Mathew James.

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his comments. An outstanding act of instinctive bravery, I think, is the description that I would apply. I would very much like to send my best wishes to Mathew now, of course, and I hope to be able to go further than that over the next few days in terms of perhaps, if it's possible, being able to visit him as well, if that is convenient to him.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Gweithred anhygoel o ddewrder greddfol, rwy'n credu, yw'r disgrifiad y byddwn i'n ei ddefnyddio. Hoffwn yn fawr iawn anfon fy nymuniadau gorau i Mathew nawr, wrth gwrs, ac rwy'n gobeithio gallu mynd ymhellach na hynny dros y diwrnodau nesaf o ran ymweld ag ef hefyd efallai, os yw'n bosibl, os yw hynny'n gyfleus iddo fe.

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers, but I'd like to thank the Members for their very fitting tributes. I think we should all appreciate the day, and enjoy every day.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill, ond hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu teyrngedau priodol iawn. Rwy'n credu y dylai pob un ohonom ni werthfawrogi'r diwrnod, a mwynhau pob diwrnod.

13:47

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move back to questions on the paper, and questions to the First Minister, and first this afternoon is Elin Jones.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a chwestiynau i'r Prif Weinidog, ac Elin Jones sydd gyntaf y prynhawn yma.

### Hyrwyddo Twristiaeth (Gorllewin Cymru)

### Promoting Tourism (West Wales)

13:47 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo twristiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2376(FM)*

*1. What are the Welsh Government's priorities for promoting tourism in west Wales? OAQ(4)2376(FM)*

13:47

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'r gorllewin, wrth gwrs, yn rhan hanfodol o arlwy twristiaeth Cymru. Bydd ein gwaith marchnata ar draws pob cyfrwng bob amser yn rhoi sylw i'r hyn sydd gan dwristiaeth yn y gorllewin i'w gynnig, ynghyd â phob rhan o Gymru.

West Wales is a vital part of Wales's overall tourism offering. Our marketing, across all channels, will always feature tourism products in west Wales, alongside all the other parts of Wales.

13:47

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, bydd castell Aberteifi bellach yn adnodd twristiaeth pwysig yn y gorllewin, ac rwy'n diolch i chi am agor y castell yn ffurfiol yr wythnos diwethaf. Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau cael eich cadeirio yn fardd a chael y ddawns flodau wedi'i pherfformio i chi yng nghastell Aberteifi. A ydych chi'n cytuno â fi, felly, y bydd y model sydd wedi hyrwyddo a datblygu castell Aberteifi o gyrff ymddiriedolwyr lleol Cadwgan, y cyngor sir a chyrff ariannu i gyd yn dod at ei gilydd i hyrwyddo prosiect treftadaeth fel prosiect economaidd a thwristiaeth, o fudd i'r ardal i'r dyfodol?

First Minister, Cardigan castle will now be an important tourism resource in west Wales, and I thank you for opening the castle formally last week. I hope that you enjoyed being chaired as bard and having the traditional floral dance performed for you in Cardigan castle. Do you agree with me, therefore, that the model that has promoted and developed Cardigan castle of groups including the Cadwgan local trustees, the county council and the funding bodies all coming together to promote a heritage project as an economic and tourism project, will also bring benefits to the area in the future?

13:48

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, nid wy'n credu y byddaf i'n cael y cyfle eto i eistedd yng nghadair y bardd heblaw'r tro hwn. A gaf i ddweud nad oedd castell Aberteifi, mewn ffordd, yn rhan o'r dref am flynyddoedd mawr, o achos y ffaith na allai neb fynd i mewn i'r castell? Roedd yna fenyw, wrth gwrs, a oedd yn byw yno a oedd yn eithaf cymeriad yn y dref, ac, wrth gwrs, yr ofn oedd, unwaith y gwnaeth hi farw, y byddai'r castell ei hunan yn cwympo at ei gilydd. Nid felly y mae hi wedi bod, ac a gaf i dalu teyrnged unwaith eto i'r cyrff sydd wedi bod yn weithgar iawn er mwyn sicrhau nid yn unig y mae'r castell ar agor i'r cyhoedd unwaith eto, ond ei fod wedi cael ei wneud yn saff, yn ddiogel, a bod y tŷ y tu mewn i'r castell wedi cael ei ailagor unwaith eto, achos roedd y lle mewn cyflwr gwael pan welais i fe tua dwy flynedd yn ôl? So, na, enghraifft dda dros ben o beth sy'n gallu cael ei wneud pan fydd pobl weithgar yn y gymuned yn gweithio gyda'r Llywodraeth, yn gallu cael arian Ewropeaidd hefyd—roedd hynny'n hanfodol o bwysig i'r project—er lles y gymuned leol.

Well, I don't think that I'll ever get the opportunity again to sit in a bardic chair, apart from this one time. May I say that Cardigan castle, in a way, was not a part of the town for many years, because of the fact that no-one could enter the castle? There was, of course, a woman who lived there, who was quite a character in the town, and, of course, the fear was that, once she passed away, the castle itself would fall into ruin. That's not how it's turned out, and may I pay tribute once again to the organisations that have been very active in ensuring not only that the castle is opened to the public once again, but that it has been made safe, secure, and that the house within the castle has been reopened again, because the place was in a terrible condition when I saw it about two years ago? So, no, it's a very good example of what can be done when people are active in the community, working with the Government, and also able to get European funding—that was vitally important to the project—for the benefit of the local community.

13:49

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, ynys Sgomer a thraeth Marloes yn fy etholaeth i yw'r unig gyrchfannau yng Nghymru sydd wedi gwneud y rhestr o'r 10 lle gorau yn Ewrop ar gyfer gwyliau teuluol, yn ôl y 'Lonely Planet'. Nawr, rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno â fi fod hyn yn fath o gydnabyddiaeth sy'n amhrisiadwy mewn marchnata sir Benfro yn rhyngwladol. Felly, a allwch chi ddweud wrthym ni ba gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fanteisio ar hyn a hyrwyddo llefydd fel ynys Sgomer?

First Minister, Skomer island and Marloes Sands in my constituency are the only destinations in Wales to have made it onto the list of the 10 best places in Europe for family holidays, according to the 'Lonely Planet'. Now, I'm sure that you would agree with me that this kind of recognition is invaluable in marketing Pembrokeshire internationally. Therefore, can you tell us what specific steps the Welsh Government is taking to take advantage of this and to promote places such as Skomer island?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, rwyf wedi bod i Sgomer ddwywaith. Roeddwn i ar yr ynys tua dwy flynedd yn ôl, os cofiaf i. Roedd yna adeilad wedi cael ei adnewyddu ar yr ynys er mwyn bod yn rhywbeth y byddai pobl yn gallu ei ddefnyddio pan maen nhw ar yr ynys, ac wrth gwrs mae'r ynys yn bwysig dros ben, gydag ynys Sgogwm hefyd, ynglŷn â'r bywyd adar sydd yna. Wrth gwrs, mae'n bwysig dros ben i sir Benfro. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed iawn gyda chwmnïau twristiaeth yn yr ardal i hybu twristiaeth yn sir Benfro. Er enghraifft, nid yn rhy bell o ynys Sgomer mae amgueddfa newydd wedi agor yn Angle, yn Aberdaugleddau fanna, ar lan y Cleddau. Hefyd, wrth gwrs, mae yna arian wedi cael ei roi i Siambr Fasnach a Thwristiaeth Abergwaun ac Wdig er mwyn hybu gogledd sir Benfro fel rhywle i ymweld â hi.

Well, I've been to Skomer twice. I was on the island about two years ago, if I remember to. There were building has been refurbished on the island in order to be something that people would be able to use it when they are on the island, and of course the island is extremely important, with Sgogwm Island, also about the bird life is there. Of course, it is extremely important to Pembrokeshire. We have been working very hard with the tourism companies in the area to promote tourism in Pembrokeshire. For example, not too far from Skomer island there is a new Museum has opened in Angle, at Milford Haven there, on the banks of the Cleddau. Also, of course, there is also the money that's been given to the Fishguard and Goodwick Chamber of Trade and Tourism to promote north Pembrokeshire as a place to visit.

13:51 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, picking up the reference that you've just made, the potential for promoting tourism by attracting cruise ships to west Wales is considerable. However, ensuring a warm welcome and high-quality facilities is critical to developing the visitor experience. In that context, it was Fishguard and Goodwick Chamber of Trade and Tourism that just recently emphasised the importance of such infrastructure in developing that potential to the full.

Brif Weinidog, gan ddilyn ymlaen o'r cyfeiriad rydych chi newydd ei wneud, mae'r potensial ar gyfer hyrwyddo twristiaeth trwy ddenu llongau pleser i'r gorllewin yn sylweddol. Fodd bynnag, mae sicrhau croeso cynnes a chyfleusterau o ansawdd uchel yn hanfodol i ddatblygu profiad yr ymwelydd. Yn y cyd-destun hwnnw, Siambr Fasnach a Thwristiaeth Abergwaun a Wdig bwysleisiodd dim ond yn ddiweddar pwysigrwydd seilwaith o'r fath i ddatblygu'r potensial hwnnw i'r eithaf.

First Minister, recognising the importance of supporting communities that are improving their destination management, what can Welsh Government do to further promote investment in the area, and also, potentially, to create a positive climate for the development of the long-awaited Fishguard marina?

Brif Weinidog, gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi cymunedau sy'n gwella eu rheolaeth o gyrchfannau, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i hyrwyddo buddsoddiad yn yr ardal ymhellach, a hefyd, o bosibl, i greu hinsawdd gadarnhaol ar gyfer datblygu marina hir-ddisgwyliedig Abergwaun?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, there are six cruise ports in Wales. Two of them are in Pembrokeshire, at Milford and Fishguard, and Fishguard has been identified, together with Holyhead, as the most suitable for the development of new facilities, given the depth of water and access to tourist attractions. In terms of the cruise business, I can say that a long-term strategy for the cruise business in Wales is presently being undertaken, because we know that the present port facilities generally are not yet adequate for the ships that are under construction now and over the course of the next five years. So, we are looking at how we can ensure that the great growth that we've seen in cruise business in Wales continues in the future, and our port facilities are able to accommodate the new ships that are being built.

Wel, ceir chwe phorthladd mordeithio yng Nghymru. Mae dau ohonyn nhw yn Sir Benfro, yn Aberdaugleddau ac Abergwaun, a nodwyd Abergwaun, ynghyd â Chaergybi, fel y rhai mwyaf addas ar gyfer datblygu cyfleusterau newydd, o ystyried dyfnder y dŵr a mynediad at atyniadau i dwristiaid. O ran y busnes mordeithio, gallaf ddweud bod strategaeth hirdymor ar gyfer y busnes mordeithio yng Nghymru yn cael ei llunio ar hyn o bryd, gan ein bod yn gwybod, yn gyffredinol, nad yw'r cyfleusterau porthladd presennol yn ddigonol eto ar gyfer y llongau sy'n cael eu hadeiladu nawr a thros y pum mlynedd nesaf. Felly, rydym ni'n ystyried sut y gallwn ni sicrhau bod y twf mawr rydym ni wedi ei weld yn y busnes mordeithio yng Nghymru yn parhau yn y dyfodol, a bod ein cyfleusterau porthladd yn gallu darparu ar gyfer y llongau newydd sy'n cael eu hadeiladu.

### Strategaeth Ganser Llywodraeth Cymru

### The Welsh Government's Cancer Strategy

13:52 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth ganser Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2370(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's cancer strategy? OAQ(4)2370(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae ein cynllun cyflawni ar gyfer canser yn dangos y camau rŷm ni'n eu cymryd ym maes gwasanaethau a chanlyniadau canser. Ddoe, er enghraifft, cyhoeddom ni sut mae'r grŵp gweithredu canser yn buddsoddi £1 miliwn ychwanegol y flwyddyn i ailfodelu a gwella gwasanaethau canser yng Nghymru.

Our cancer delivery plan sets out the actions we are taking in cancer services and outcomes. Yesterday, for example, we announced how a further £1 million a year is being invested by the cancer implementation group to remodel and improve cancer services in Wales.

13:52 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Fe fyddwch chi yn ymwybodol, Brif Weinidog, o ymgyrch Mr Irfon Williams o Fangor, Hawl i Fyw. Fe ddaeth newyddion da ac addawol yn dilyn ei driniaeth ym Manceinion yn ddiweddar yma. Mae Mr Williams wedi ymddwyn gydag urddas yn ystod y cyfnod anodd yma, ac mae'n awyddus iawn i gwrdd â chi i drafod sefyllfa cleifion tebyg iddo fo. A fyddech chi'n barod i ymateb yn gadarnhaol i'r cais yma?

Thank you very much. You will be aware, First Minister, of the campaign by Mr Irfon Williams from Bangor, Hawl i Fyw—Fighting Chance. There has been good and promising news following his treatment in Manchester recently. Mr Williams has behaved with dignity throughout this difficult time, and he is very keen to meet with you to discuss the situation of patients similar to him. Would you be willing to respond positively to that request?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, nid wy'n gwybod eto beth fyddai nod unrhyw gyfarfod. A gaf i ddweud ar y dechrau: rwy'n falch dros ben i glywed bod pethau'n mynd yn dda i Mr Williams, wrth gwrs? Mae wedi cael ymateb anarferol iawn i'r cyffuriau y mae arnynt, ac mae hwnnw'n rhywbeth i'w groesawu. Mae hwnnw'n dangos rhywbeth am ei gymeriad e hefyd, byddwn i'n dweud, o achos y ffaith ei fod e wedi gwneud yn dda. A gaf i ddweud hefyd wrth Mr Williams fod yna gyfle iddo fe nawr i wneud cais unwaith eto i system yr IPFR, ceisiadau cyllido cleifion unigol, gan ei fod e wedi dangos ei fod e'n eithriadol ynglŷn â'r ymateb y mae e wedi ei gael i'r cyffuriau hyn? Rwyf wedi gofyn i'r canllawiau gael eu newid er mwyn sicrhau eu bod yn hollol glir, lle mae pobl yn cael ymateb fel hyn, fod yna gyfle iddyn nhw unwaith eto i ofyn am gyllido trwy'r IPFR.

Well, I don't know yet what the aim of such a meeting would be. May I say at the outset that I'm very pleased to hear that things are going well for Mr Williams? His response to the drugs he's on has been very unusual, and that's to be welcomed. That shows something about his character, too, I would say, because of the fact that he has done so well. May I also say to Mr Williams that there is an opportunity for him now to make another application to the individual patient funding requests fund, IPFR, given that he has demonstrated that his response to the drugs he's had access to has been exceptional? I have requested that the guidelines be amended to ensure that they are quite clear that, when people get a response like this to certain drugs, there is an opportunity to ask again for funding through the IPFR.

13:54 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the cancer legacies we suffer in Wales is from our industrial heritage and exposure to asbestos, and this 4 July is Action Mesothelioma Day, which hits this country particularly hard. Of course, there's an event in the Assembly tomorrow lunchtime to promote this. Will you make a statement on the Welsh Government's support for the highlighting of the incidence of asbestos and Action Mesothelioma Day, and for people who live with this terrible condition in Wales?

Brif Weinidog, daw un o'r etifeddiaethau canser rydym ni'n eu dioddef yng Nghymru o'n treftadaeth ddiwydiannol ac amlygiad i asbestos, ac mae'n Ddiwrnod Gweithredu ar Fesothelioma ar y 4 Gorffennaf hwn, sy'n taro'r wlad hon yn arbennig o galed. Wrth gwrs, mae digwyddiad yn y Cynulliad amser cinio yfory i hyrwyddo hyn. A wnewch chi ddatganiad ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i amlygu nifer yr achosion o asbestos a Diwrnod Gweithredu ar Fesothelioma, ac i'r bobl sy'n byw gyda'r cyflwr ofnadwy hwn yng Nghymru?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Of course. I understand the Deputy Minister for Health is due to attend the Senedd event tomorrow. We welcome, of course, the charter that's been drawn up by Mesothelioma UK. We will of course continue to work to ensure enforcement agencies are protecting people from the dangers of asbestos. We were saddened that the Member's own Bill was rejected by the Supreme Court.

Wrth gwrs. Rwy'n deall y bydd y Dirprwy Weinidog Iechyd yn bresennol yn y digwyddiad yn y Senedd yfory. Rydym yn croesawu, wrth gwrs, y siarter sydd wedi ei lunio gan Mesothelioma UK. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod asiantaethau gorfodi yn diogelu pobl rhag peryglon asbestos. Roedd yn peri tristwch i ni bod Bil yr Aelod ei hun wedi ei wrthod gan y Goruchaf Lys.

13:55 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your Government's cancer strategy states that the Welsh population should have an excellent chance of surviving, wherever they live in Wales. As with any plan, what matters is delivery. How will your Government improve cancer survival rates if the practice of downgrading urgent referrals from GPs is allowed to continue, knowing that no two patients are alike, knowing that the general referral system of ticking boxes and red flags cannot hold true for every patient, and knowing that we cannot have a tailor-made patient? Thank you.

Brif Weinidog, mae strategaeth ganser eich Llywodraeth yn datgan y dylai fod gan boblogaeth Cymru siawns ardderchog o oroesi, ble bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru. Fel gydag unrhyw gynllun, yr hyn sy'n bwysig yw cyflawni. Sut bydd eich Llywodraeth yn gwella cyfraddau goroesi canser os caniateir i'r arfer o israddio atgyfeiriadau brys gan feddygon teulu barhau, o wybod nad oes unrhyw ddau glaf yr un fath â'i gilydd, o wybod na all y system atgyfeirio gyffredinol o roi tic mewn bwlch a baneri coch fod yn iawn ar gyfer pob claf, ac o wybod na allwn gael claf sydd wedi'i deilwra? Diolch yn fawr.

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I'm not sure I understood the question, but if we look at our figures, we know that, for 31-day waits for treatment and 62-day waits for treatment, we are ahead of England. The reason for that is that GPs are being vigilant in referring people. The vast majority of people who are referred to specialist care, who are suspected of having cancer, happily don't turn out to have cancer, but it's absolutely right to say that our GPs have done an excellent job in referring people as quickly as possible. We see that in the statistics, and we expect to see that reflected in the five-year survival statistics and beyond, over the next few years.

Nid wyf yn siŵr fy mod i wedi deall y cwestiwn, ond os edrychwn ni ar ein ffigurau, rydym ni'n gwybod, ar gyfer arosiadau 31 diwrnod am driniaeth ac arosiadau 62 diwrnod am driniaeth, ein bod ni ar y blaen i Loegr. Y rheswm am hynny yw bod meddygon teulu yn bod yn wyliadwrus wrth atgyfeirio pobl. Yn ffodus iawn, nid oes gan fwyafrif llethol y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio at ofal arbenigol, y tybir bod ganddynt ganser, ganser mewn gwirionedd, ond mae'n gwbl gywir i ddweud bod ein meddygon teulu wedi gwneud gwaith rhagorol yn atgyfeirio pobl cyn gynted â phosibl. Rydym ni'n gweld hynny yn yr ystadegau, ac rydym ni'n disgwyl gweld hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr ystadegau goroesi pum mlynedd a thu hwnt, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

13:56 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Early detection is a very important part of the cancer delivery plan. Is the First Minister aware that Breast Test Wales has the highest cancer detection rate of any screening service in the UK? What does he think can be done to improve the uptake in the other screening services, such as cervical cancer and bowel cancer?

Mae canfod yn gynnar yn rhan bwysig iawn o'r cynllun cyflawni ar ganser. A yw'r Prif Weinidog yn ymwybodol mai Bron Brawf Cymru sydd â'r gyfradd canfod canser uchaf o unrhyw wasanaeth sgrinio yn y DU? Beth y gellir ei wneud, yn ei farn ef, i wella'r nifer sy'n derbyn gwasanaethau sgrinio eraill, fel canser ceg y groth a chanser y coluddyn?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It's to do with publicity, of course, and making people aware of the potential risks, and also making it as easy as possible for people to access the tests. Breast Test Wales is an excellent example of where that's been done, with mobile units and with awareness being very high amongst women. We are seeing the benefits of that. The Member's absolutely right to say that, with every cancer, early detection is crucial. With some cancers, early detection isn't possible, but breast cancer isn't one of those. So, early detection for that particular form of cancer is absolutely fundamental to increasing someone's survival rate beyond five years in the future.

Mae'n ymwneud â chyhoeddusrwydd, wrth gwrs, a gwneud pobl yn ymwybodol o'r risgiau posibl, a hefyd ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl gael mynediad at y profion. Mae Bron Brawf Cymru yn enghraifft ardderchog o ble mae hynny wedi ei wneud, gydag unedau symudol a chydag ymwybyddiaeth yn uchel iawn ymhlith menywod. Rydym ni'n gweld manteision hynny. Mae'r Aelod yn llygad ei le i ddweud, gyda phob canser, bod ei ganfod yn gynnar yn hanfodol. Gyda rhai mathau o ganser, nid yw'n bosibl eu canfod yn gynnar, ond nid yw canser y fron yn un o'r rheini. Felly, mae canfod y math penodol hwnnw o ganser yn gynnar yn gwbl hanfodol i gynyddu cyfradd oroesi rhywun y tu hwnt i bum mlynedd yn y dyfodol.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr. Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:57 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd.

First Minister, the person who's been tipped to be your next party leader has said that Wales was underfunded when he was your party's Chief Secretary to the Treasury. He said that he maintained the Government line and didn't speak out. First Minister, how would you describe someone who says something publicly knowing it to be untrue?

Thank you, Presiding Officer.

Brif Weinidog, mae'r person y rhagwelir fydd arweinydd nesaf eich plaid wedi dweud bod Cymru wedi ei thanariannu pan oedd ef yn Brif Ysgrifennydd eich plaid i'r Trysorlys. Dywedodd ei fod wedi cyd-fynd â phenderfyniad y Llywodraeth ac na leisiodd ei farn. Brif Weinidog, sut byddech chi'n disgrifio rhywun sy'n dweud rhywbeth yn gyhoeddus gan wybod nad yw'n wir?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I lead my party in Wales, so I don't know who you're talking about.

Wel, fi sy'n arwain fy mhlaid yng Nghymru, felly nid wyf yn gwybod am bwy ydych chi'n sôn.

13:58 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's a very flippant answer, First Minister.

Dyna ateb gwamal iawn, Brif Weinidog.

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Flippant question.

Cwestiwn gwamal.

13:58 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's not a surprise at all that you have sidestepped the issue, because you sidestep issues every week here. This is a question about the NHS, about our schools, and about our communities suffering from decades of underinvestment. If the then Labour Chief Secretary to the Treasury knew that Wales was being short-changed almost a decade ago, why did your party choose to do nothing about it?

Nid yw'n syndod o gwbl eich bod chi wedi ochrgamu'r mater, gan eich bod chi'n ochrgamu materion bob wythnos yma. Cwestiwn am y GIG yw hwn, am ein hysgolion, ac am ein cymunedau sy'n dioddef o ddegawdau o danfuddsoddi. Os oedd Prif Ysgrifennydd Llafur i'r Trysorlys ar y pryd yn gwybod bod Cymru'n cael ei thanariannu bron i ddegawd yn ôl, pam gwnaeth eich plaid ddewis gwneud dim am y peth?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am not here to explain the actions and comments of others. It's a matter for them to explain. What I do know is that we have been the party pushing hard for the funding floor. My view is that Barnett is no longer relevant, and it's about time that Wales got its share of funding and that Scotland wasn't seen as untouchable as far as funding is concerned. Would she join me in saying that Scotland should be funded according to need and that Barnett therefore needs to go?

Nid wyf yma i egluro gweithredoedd a sylwadau pobl eraill. Mater iddyn nhw yw esbonio. Yr hyn yr wyf yn ei wybod yw mai ni yw'r blaid sydd wedi bod yn ymdrechu'n galed i gael y llawr ariannu. Fy marn i yw nad yw Barnett yn berthnasol mwyach, ac mae'n hen bryd i Gymru gael ei chyfran o gyllid ac nad yw'r Alban yn cael ei hystyried yn anghyffyrddadwy cyn belled ag y mae cyllid yn y cwestiwn. A wnaiff hi ymuno â mi i ddweud y dylai'r Alban gael ei hariannu yn ôl angen a bod angen cael gwared ar Barnett felly?

13:59 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I am here to speak on behalf of Wales. [Interruption.]

Brif Weinidog, rwyf i yma i siarad ar ran Cymru. [Torri ar draws.]

13:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Order.

Trefn. Trefn.

13:59 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

For you to distance yourself from a Labour leadership contender is quite staggering. First Minister, your party introduced the funding formula that disadvantaged Wales from the very outset. You refused to address the matter when your party formed the UK Government in 1997, and your party said nothing when it was elected to lead the first devolved Government. You've sat on the Holtham report, and you refuse to take responsibility for raising just some of the money that you spend. You refuse to support parity of funding for Wales with Scotland. First Minister, what is it about Wales that makes your party want to single us out for disadvantage?

Mae'r ffaith eich bod chi'n ymbellhau eich hun oddi wrth ymgeisydd i arwain y Blaid Lafur yn eithaf syfrdanol. Brif Weinidog, eich plaid chi gyflwynodd y fformiwla ariannu a roddodd Cymru dan anfantais o'r cychwyn cyntaf. Fe wnaethoch chi wrthod rhoi sylw i'r mater pan ffurfiodd eich plaid Lywodraeth y DU ym 1997, ac ni ddywedodd eich plaid ddim pan gafodd ei hethol i arwain y Llywodraeth ddatganoledig gyntaf. Rydych chi wedi anwybyddu adroddiad Holtham, ac rydych chi'n gwrthod cymryd cyfrifoldeb am godi dim ond rhywfaint o'r arian rydych chi'n ei wario. Rydych chi'n gwrthod cefnogi cydraddoldeb â'r Alban o ran cyllid i Gymru. Brif Weinidog, beth ynglŷn â Chymru sy'n gwneud i'ch plaid fod eisiau ein neilltuo ni i fod dan anfantais?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Again, the obsession with Scotland. Does she not listen to Dafydd Elis-Thomas—

Unwaith eto, yr obsesiwn gyda'r Alban. Onid yw hi'n gwrando ar Dafydd Elis-Thomas—

14:00 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You raised Scotland.

Chi soniodd am yr Alban.

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—on her own benches? She doesn't like to be criticised, does she? There's a streak of intolerance there. Does she not listen to Dafydd Elis-Thomas on her own benches, who said last week that the obsession with Scotland was costing her party? Why doesn't she just, for once, make the point about standing up for Wales, as we do on these benches, rather than talking about Scotland on and on, and on and on? It shows that we on these benches are the true party of Wales. [Interruption.]

[Yn parhau.] —ar ei meinciau ei hun? Nid yw'n hoffi cael ei beirniadu, ydy hi? Mae yna ryw fymryn o anoddefgarwch yno. Onid yw hi'n gwrando ar Dafydd Elis-Thomas ar ei meinciau ei hun, a ddywedodd yr wythnos diwethaf bod yr obsesiwn gyda'r Alban yn costio i'w phlaid? Pam na wnaiff hi, am unwaith, wneud y pwynt am sefyll dros Gymru, fel rydym ni'n ei wneud ar y meinciau hyn, yn hytrach na mynd ymlaen ac ymlaen, ac ymlaen ac ymlaen yn siarad am yr Alban? Mae'n dangos mai ni ar y meinciau hyn yw gwir blaid Cymru. [Torri ar draws.]

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We now move to the Leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Diolch yn fawr. Symudwn nawr at Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

14:01 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, your Government has set a target to reduce carbon emissions by 40 per cent by 2020. Between 2012 and 2013, the last time figures were available, greenhouse gas emissions in both England and Scotland fell by some 4 per cent. Could you explain why, in Wales, we saw an increase of 10 per cent over the same timescale?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi gosod targed i leihau allyriadau carbon o 40 y cant erbyn 2020. Rhwng 2012 a 2013, y tro diwethaf yr oedd ffigurau ar gael, gostyngodd allyriadau nwyon tŷ gwydr yn Lloegr a'r Alban tua 4 y cant. A allwch chi egluro pam, yng Nghymru, y gwelsom gynnydd o 10 y cant yn ystod yr un cyfnod?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. It's to do with industry and it's to do with increases in production, particularly in industries such as Tata Steel, which, of course, are major contributors to carbon emissions, but without which, of course, we'd end up with many thousands of jobs fewer in Wales. So, in some ways, it's as a result of increased economic activity. But, nevertheless, it's true to say that inevitably has an effect on carbon emissions.

Gallaf. Mae'n ymwneud â diwydiant ac mae'n ymwneud â chynnydd o ran cynhyrchu, yn enwedig mewn diwydiannau fel Tata Steel, sydd, wrth gwrs, yn gyfranwyr mawr at allyriadau carbon, ond hebddynt, wrth gwrs, byddai gennym ni filoedd lawer yn llai o swyddi yng Nghymru yn y pen draw. Felly, mewn rhai ffyrdd, mae o ganlyniad i gynnydd mewn gweithgarwch economaidd. Ond, serch hynny, mae'n wir i ddweud bod hynny, yn anochel, yn cael effaith ar allyriadau carbon.

Senedd.tv
Fideo Video

14:01 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, I can't help think that that's a bit of an excuse. Over a quarter of coal burnt in Europe is burnt by Germany, and they are significant producers of both steel and iron—in fact, the biggest producers of steel in the EU and the seventh-biggest producer of steel in the entire world—yet, since 1990, Germany have decreased their greenhouse gas emissions by 27 per cent, while still producing both steel and iron, compared to just a drop of 12 per cent in Wales. In Scotland, electricity generation from coal increased in 2012 and generation from gas fell, yet Scotland have managed to reduce their emissions, too. Does your Government remain committed to delivering on the 2020 target?

Brif Weinidog, ni allaf beidio â meddwl mai tipyn o esgus yw hynny. Llosgir dros chwarter y glo a losgir yn Ewrop gan yr Almaen, ac maen nhw'n gynhyrchwyr sylweddol o ddur a haearn—y cynhyrchwyr mwyaf o ddur yn yr UE a dweud y gwir, a'r seithfed cynhyrchydd dur mwyaf yn y byd—ac eto i gyd, ers 1990, mae'r Almaen wedi gostwng ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr 27 y cant, gan barhau i gynhyrchu dur a haearn, o'i gymharu â gostyngiad o ddim ond 12 y cant yng Nghymru. Yn yr Alban, cynyddodd cynhyrchiant trydan o lo yn 2012 a gostyngodd cynhyrchiant o nwy, ac eto mae'r Alban wedi llwyddo i leihau ei hallyriadau hefyd. A yw eich Llywodraeth yn dal i fod wedi ymrwymo i gyrraedd targed 2020?

Senedd.tv
Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we have the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and that explains our position as a Government. We have environmental legislation and there are challenging targets that have been considered as part of that legislation. Now, it's correct to say that we do have—I would suspect disproportionately high—energy-intensive industries that employ many, many thousands of people. One way of cutting our carbon emissions at a stroke would be to close those facilities down. We don't want to do that; we want to make sure that people have those jobs and it means that trade-offs have to be made. That doesn't mean, of course, you ignore the situation. I know that Tata, for example, have been exceptionally proactive in reducing their carbon footprint and reducing their energy use.

Wel, mae gennym ni Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae honno'n esbonio ein safbwynt fel Llywodraeth. Mae gennym ddeddfwriaeth amgylcheddol a cheir targedau heriol a ystyriwyd yn rhan o'r ddeddfwriaeth honno. Nawr, mae'n gywir dweud bod gennym ni ddiwydiannau ynni-ddwys—anghymesur o uchel, byddwn yn amau—sy'n cyflogi miloedd lawer iawn o bobl. Un ffordd o leihau ein hallyriadau carbon ar unwaith fyddai cau'r cyfleusterau hynny i lawr. Nid ydym ni eisiau gwneud hynny; rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod y swyddi hynny gan bobl ac mae'n golygu bod yn rhaid cyfaddawdu. Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, eich bod yn anwybyddu'r sefyllfa. Gwn fod Tata, er enghraifft, wedi bod yn eithriadol o ragweithiol o ran lleihau eu hôl troed carbon a lleihau eu defnydd o ynni.

Senedd.tv
Fideo Video

14:03 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, Germany can produce more steel than anyone else in the EU and still bring its carbon emissions down. Perhaps, Presiding Officer, the First Minister misheard me: is the First Minister committed to delivering his 2020 target? Because he didn't actually say that he was. Now, one way to actually make the sea change that you need to make in dropping carbon emissions is actually to ensure that we are open for business and can do business in small scale community-owned renewable projects—just like Germany, actually, where community-owned renewables account for almost half of its electricity generation—yet companies like Dulas here in Wales say it's harder to do business in Wales than anywhere else in the UK. Will your Government look at international lessons we can learn where community-owned renewables account for such large parts of generation to ensure that you can indeed, if you're still committed to it, reach your 2020 target?

Brif Weinidog, gall yr Almaen gynhyrchu mwy o ddur nag unrhyw un arall yn yr UE a dal i ostwng ei hallyriadau carbon. Efallai, Lywydd, na chlywodd y Prif Weinidog fi'n iawn: a yw'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i gyrraedd ei darged 2020? Oherwydd, ni ddywedodd ei fod mewn gwirionedd. Nawr, un ffordd o wneud y newid mawr y mae angen i chi ei wneud i ostwng allyriadau carbon yw sicrhau ein bod ni ar agor ar gyfer busnes ac yn gallu cyflawni busnes mewn prosiectau adnewyddadwy ar raddfa fechan sy'n eiddo i'r gymuned—yn union fel yr Almaen, a dweud y gwir, lle cynhyrchir bron i hanner ei thrydan gan gwmnïau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned—ac eto mae cwmnïau fel Dulas yma yng Nghymru yn dweud ei bod yn fwy anodd cyflawni busnes yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU. A wnaiff eich Llywodraeth edrych ar y gwersi rhyngwladol y gallwn eu dysgu lle mae cwmnïau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned yn gyfrifol am rannau mor fawr o gynhyrchiant er mwyn sicrhau y gallwch yn wir, os ydych chi'n dal i fod wedi ymrwymo iddo, gyrraedd eich targed 2020?

Senedd.tv
Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, we're committed to the target and, yes, we want to see more community regeneration projects, and that's why, of course, Ynni'r Fro was put in place, but I have to say that the chances of seeing an increase in renewable energy are almost zero, given the UK Government's decision recently to withdraw all subsidies from onshore wind and to withdraw all subsidies from photovoltaic cells. I don't know whether they've bought a lot of hamsters to run on wheels in order to power electrical generation over the course of the next 10 years, but it does show the vacuity of UK energy policy under the current UK Government.

Ydym, rydym ni wedi ymrwymo i'r targed ac, ydym, rydym ni eisiau gweld mwy o brosiectau adfywio cymunedol, a dyna pam, wrth gwrs, y sefydlwyd Ynni'r Fro, ond mae'n rhaid i mi ddweud bod y siawns o weld cynnydd mewn ynni adnewyddadwy bron yn ddim, o ystyried penderfyniad Llywodraeth y DU yn ddiweddar i ddiddymu pob cymhorthdal o wynt ar y tir ac i ddiddymu pob cymhorthdal o gelloedd ffotofoltäig. Wn i ddim a ydyn nhw wedi prynu llawer o fochdewion i redeg ar olwynion er mwyn pweru cynhyrchiant trydan yn ystod y 10 mlynedd nesaf, ond mae yn dangos diffyg polisi ynni'r DU o dan Lywodraeth bresennol y DU.

Senedd.tv
Fideo Video

14:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudaf nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv
Fideo Video

14:05 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, what is your understanding of the current state of play around the basic payment scheme?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, beth yw eich dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol o ran y cynllun taliadau sylfaenol?

Senedd.tv
Fideo Video

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We're looking to see which of the options we should look at, whether there should be a flat rate or whether there should be an area rate.

Rydym ni'n edrych i weld pa un o'r dewisiadau y dylem ni ei ystyried, pa un a ddylid cael cyfradd unffurf neu a ddylid cael cyfradd ardal.

Senedd.tv
Fideo Video

14:05 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a huge issue of concern for rural Wales and, in particular, many thousands of farmers the length and breadth of Wales. It is because your Government was taken to court back in December and caved in on the steps of the court that obviously the industry has so much uncertainty about the future payment rates, which are still to be announced by your Government. Can you tell us when the Welsh Government will be bringing forward the announcement so that the industry can at least have some certainty? They might disagree with the model that you'll bring forward, but they do need to be working in an area of certainty.

Mae hwn yn fater o bryder enfawr i gefn gwlad Cymru ac, yn benodol, miloedd lawer o ffermwyr ar hyd a lled Cymru. Aethpwyd â'ch Llywodraeth i'r llys yn ôl ym mis Rhagfyr gan ildio ar risiau'r llys ac oherwydd hynny, mae gan y diwydiant, yn amlwg, gymaint o ansicrwydd am gyfraddau talu yn y dyfodol, sy'n dal i fod heb eu cyhoeddi gan eich Llywodraeth. A allwch chi ddweud wrthym pryd fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y cyhoeddiad fel y gall y diwydiant gael rhywfaint o sicrwydd o leiaf? Efallai y byddant yn anghytuno â'r model y byddwch chi'n ei gyflwyno, ond mae angen iddyn nhw fod yn gweithio mewn maes o sicrwydd.

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is ongoing at the moment. As I said to the Member, we're looking at at least two models as to how the system will work. I am confident that we will have a system in place in order to pay farmers in good time, as we always have done in the past.

Mae hynny'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Fel y dywedais wrth yr Aelod, rydym ni'n edrych ar o leiaf dau fodel o ran sut y bydd y system yn gweithio. Rwy'n hyderus y bydd gennym ni system ar waith er mwyn talu ffermwyr mewn da bryd, fel rydym ni bob amser wedi ei wneud yn y gorffennol.

14:06 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

So, I deduce from that that you have no idea when you're going to make this announcement. I mean, obviously, there has been speculation—[Interruption.] There's been speculation that you're going to make that statement at the Royal Welsh Show. But, whichever way the statement is made and confirmation is brought forward, do you believe that there will be a significant impact on the payment window, which starts on 1 December, or do you believe that the Welsh Government will be able to make the full payment to businesses, come 1 December, that is so important for the survival of those businesses the length and breadth of rural Wales?

Felly, rwy'n cymryd o hynny nad oes gennych chi unrhyw syniad pryd yr ydych chi'n mynd i wneud y cyhoeddiad hwn. Hynny yw, yn amlwg, bu dyfalu—[Torri ar draws.] Bu dyfalu eich bod chi'n mynd i wneud y datganiad hwnnw yn Sioe Frenhinol Cymru. Ond, sut bynnag y caiff y datganiad ei wneud ac y rhoddir cadarnhad, a ydych chi'n credu y bydd effaith sylweddol ar y cyfnod talu, sy'n cychwyn ar 1 Rhagfyr, neu a ydych chi'n credu y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud y taliad llawn i fusnesau, erbyn 1 Rhagfyr, sydd mor bwysig i oroesiad y busnesau hynny ar hyd a lled Cymru wledig?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I mean, Members in the Chamber here from all parties said, 'Declare your interest'. He didn't do that. But, from our point of view, we are confident of the fact—he doesn't have to worry about being paid, I'm sure—that payment will be made on time, and as we have always planned, in the future. We've been in this position before where it has been a challenge to put in place a new payments system, but that has been done. There will be an announcement in a very short space of time as to how the system will work, and I have no doubt that farmers need not fear that payments will be made on time, as we in Wales have always done in the past.

Wel, hynny yw, dywedodd Aelodau o bob plaid yn y Siambr yma, 'Datganwch eich buddiant'. Ni wnaeth hynny. Ond, o'n safbwynt ni, rydym ni'n hyderus o'r ffaith—nid oes rhaid iddo boeni am gael ei dalu, rwy'n siŵr—y bydd y taliad hwnnw'n cael ei wneud yn brydlon, ac fel rydym ni wedi ei gynllunio erioed, yn y dyfodol. Rydym ni wedi bod yn y sefyllfa hon o'r blaen lle mae wedi bod yn anodd sefydlu system daliadau newydd, ond mae hynny wedi cael ei wneud. Bydd cyhoeddiad mewn cyfnod byr iawn o amser o ran sut y bydd y system yn gweithio, ac nid oes gennyf amheuaeth nad oes angen i ffermwyr ofni y bydd y taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon, fel yr ydym ni yng Nghymru bob amser wedi ei wneud yn y gorffennol.

14:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I raise a point of order, Presiding Officer?

A gaf i godi pwynt o drefn, Lywydd?

14:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A point of order? I'll take it now; it's usually taken later.

Pwynt o drefn? Fe'i derbyniaf nawr; fe'i derbynnir yn ddiweddarach fel rheol.

14:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

That's why I've stood up, because the First Minister believes that I've asked a question because I have a personal interest in it. It was a general question that affects the interests of agriculture generally. [Interruption.]

Dyna pam yr wyf wedi sefyll ar fy nhraed, oherwydd bod y Prif Weinidog yn credu fy mod i wedi gofyn cwestiwn gan fod gen i fuddiant personol ynddo. Cwestiwn cyffredinol oedd hwn sy'n effeithio ar fuddiannau amaethyddiaeth yn gyffredinol. [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order, order.

Trefn, trefn.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

The Members' declaration of interests clearly shows that I am a farmer. I have an interest, obviously, in the scheme. There is no hiding of that interest. [Interruption.]

Mae datganiad o fuddiannau'r Aelodau yn dangos yn eglur fy mod i'n ffermwr. Mae gen i ddiddordeb, yn amlwg, yn y cynllun. Ni ellir cuddio'r buddiant hwnnw. [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

There is no undeclared interest. I appreciate that on the Labour benches, obviously, they've tried to use the press before—

Nid oes unrhyw fuddiant heb ei ddatgan. Rwy'n sylweddoli, ar y meinciau Llafur, yn amlwg, eu bod nhw wedi ceisio defnyddio'r wasg o'r blaen—

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I'm sorry, can we just reach the point of order?

Mae'n ddrwg gen i, a allwn ni gyrraedd y pwynt o drefn?

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

[Continues.]—to besmirch politicians in this Chamber. But I don't believe it is appropriate, when I'm questioning the First Minister, for him to cast aspersions that I am motivated out of personal gain.

[Yn parhau.]—i bardduo gwleidyddion yn y Siambr hon. Ond nid wyf yn credu ei bod yn briodol, pan fy mod i'n holi'r Prif Weinidog, iddo awgrymu mai elw personol yw fy nghymhelliant.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I'm sorry, that wasn't a point of order.

Mae'n ddrwg gen i, nid pwynt o drefn oedd hwnna.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I'm sorry, Llywydd, but if the leader of the opposition has made a declaration he should tell people how much money he gets. That's transparency.

Mae'n ddrwg gen i, Lywydd, ond os yw arweinydd yr wrthblaid wedi gwneud datganiad, dylai ddweud wrth bobl faint o arian mae'n ei gael. Dyna yw tryloywder.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I'm sorry—

Mae'n ddrwg gen i—

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

That's out of order, that.

Mae hynna'n gwbl annheg, hynna.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I don't intend to pursue this. What Andrew R.T. Davies raised wasn't a point of order. It was a point of information. But I don't wish to continue that debate.

Nid wyf yn bwriadu parhau â hyn. Nid oedd yr hyn gododd Andrew R.T. Davies yn bwynt o drefn. Pwynt o wybodaeth ydoedd. Ond nid wyf yn dymuno parhau'r ddadl honno.

Senedd.tv Fideo Video

**Denu Llongau Gwyliau**

**Attracting Cruise Ships**

14:08 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddenu llongau gwyliau i Gymru? OAQ(4)2377(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on attracting cruise ships to Wales? OAQ(4)2377(FM)*

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i hyrwyddo Cymru fel lle arbennig i longau gwyliau ddod. Yn 2015, bydd 46 o longau yn ymweld â Chymru o'i gymharu â 23 o longau yn 2014, gyda chynnydd cyffredinol o 155 y cant ers 1 Ionawr 2013.

Welsh Government is working to promote Wales as a high-class cruise destination. In 2015, 46 ships will visit Wales compared with 23 ships in 2014—an increase of 155 per cent as of 1 Jan 2013.

14:08 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb yna. Mi oedd yna siom yng Nghaergybi yn ddiweddar pan gafodd llong fawr ei throi i ffwrdd oddi wrth y porthladd, yn bennaf oherwydd pryderon bod y 'jetty' presennol—'jetty' diwydiannol, wrth gwrs—yn anaddas ar gyfer llong o'r maint yna yn y tywydd fel ag yr oedd hi. Ond rwyf yn siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn cytuno efo'i Weinidog economi na allwn ni adael diwydiant mor bwysig â hyn i siawns. Rŵan, mae yna ran o borthladd Caergybi, rhan o'r cei, a allai gael ei ddatblygu yn ddoc pwrpasol parhaol ar gyfer llongau 'cruise' o'r math yma. A all y Prif Weinidog roi ymrwymiad i gefnogi ac i roi cymorth i unrhyw waith dichonoldeb i ystyried y posibilrwydd o'r math yna o ddatblygiad a rhoi cefnogaeth ym mha bynnag ffordd y gall y Llywodraeth ei rhoi i sicrhau bod y math yna o ddatblygiad yn gallu digwydd?

Thank you for that response. There was some disappointment in Holyhead recently when a large cruise ship was turned away from the port, mainly because of concern that the current jetty—an industrial jetty, of course—was inappropriate for a cruise ship of that size in the prevailing weather conditions. But I am sure that the First Minister would agree with his Minister for economy that we can't leave such an important industry to chance. There is a part of Holyhead port, part of the quay, that could be developed into a purpose-built dock for cruise ships of this kind. Can the First Minister give a commitment to support and assist any feasibility work to consider the possibility of that kind of development and also to give support in any way the Government can to ensure that that kind of development can take place?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Roedd yna broblem, mae'n wir i ddweud. Rwyf yn deall bod y broblem wedi cael ei datrys ar gyfer tro nesaf y bydd y llong hon, y Celebrity Silhouette, yn dod i Gaergybi ym mis Awst. Ond yn y tymor hir, mae'n bwysig, wrth gwrs, i ddatblygu'r porthladd er mwyn sicrhau bod mwy o longau yn gallu dod i mewn i'r porthladd ei hunan. Fel y dywedais yn gynharach yn yr ateb a roddais i William Powell, rydym ni'n ystyried beth a ddylai'r strategaeth fod ar gyfer y porthladdoedd yng Nghymru sydd yn cymryd llongau fel hyn, ac rydym ni'n deall, wrth gwrs, bod Caergybi a hefyd Abergwaun gyda'r cryfaf o ran beth sy'n gorfod cael ei wneud i ddatblygu'r porthladdoedd yn y pen draw. Rydym ni'n i gyd yn moyn gweld Caergybi yn tyfu, wrth gwrs, fel lle sydd nid yn unig yn cymryd 'ferries' mewn o'r Iwerddon, ond hefyd fel rhywle sydd yn dod â thwristiaid i mewn i Gymru.

There was a problem, that's true to say. I understand that the problem has been resolved for the next time that this ship, the Celebrity Silhouette, comes to Holyhead in August. But in the long term, of course, it's important to develop the port in order to ensure that more ships can come into the port itself. As I said in my earlier answer to William Powell, we are considering what the strategy should be for the ports in Wales that can receive such ships, and we understand, of course, that Holyhead and also Fishguard are amongst the strongest as regards what would need to be done to develop the ports ultimately. We all wish to see Holyhead growing, of course, not just as a place that accepts ferries from Ireland, but also as somewhere that brings tourists into Wales.

14:10 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in September last year the Deputy Minister for Sport, Culture and Tourism stated that the first American cruise ships would start to dock at the newly improved Llandudno pier from 2015. With ports in the south and west of Wales having already welcomed their first cruise ships of the year, can I ask the First Minister for an update on when Llandudno will be fully open for business? I think it's important that we don't just raise expectations without looking at the full, practical implications. Is it possible for cruise ships to dock at the Victorian Llandudno pier, or for passenger tenders to dock at old Victorian wooden jetties? Thank you, First Minister.

Brif Weinidog, ym mis Medi y llynedd, dywedodd y Dirprwy Weinidog Chwaraeon Diwylliant a Thwristiaeth y byddai'r llongau gwyliau Americanaidd cyntaf yn dechrau docio ym mhier Llandudno, sydd newydd gael ei wella, o 2015. Gyda phorthladdoedd yn y de a'r gorllewin eisoes wedi croesawu llongau gwyliau cyntaf y flwyddyn, a gaf i ofyn i'r Prif Weinidog am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd fydd Llandudno yn gwbl agored ar gyfer busnes? Rwy'n credu ei bod yn bwysig nad ydym yn codi disgwyliadau heb ystyried y goblygiadau ymarferol llawn. A yw'n bosibl i longau gwyliau ddocio ym mhier Fictoraidd Llandudno, neu i longau teithwyr ddocio ar hen lanfeydd pren Fictoraidd? Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it is the case, of course, that at one time there was a regular summer passenger service to the Isle of Man that left from the pier in Llandudno—I remember that very well—but not for some years. But, nevertheless, the work that is needed to identify whether Llandudno would be able to take cruise ships, or, indeed, other forms of visitor ships in the future, is still ongoing.

Wel, mae'n wir, wrth gwrs, y bu gwasanaeth teithwyr haf rheolaidd i Ynys Manaw a oedd yn gadael o'r pier yn Llandudno ar un adeg—rwy'n cofio hynny'n dda iawn—ond nid ers rhai blynyddoedd. Ond, serch hynny, mae'r gwaith sydd ei angen i ddarganfod a fyddai Llandudno'n gallu derbyn llongau gwyliau, neu, yn wir, mathau eraill o longau ymwelwyr yn y dyfodol, yn parhau.

14:11 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, when a big cruise liner goes into port, obviously, it makes a huge impact on that one day and that one location, but, if we want a more sustainable approach to attracting cruise income for Wales, then something like the Hurtigruten, which operates in Norway—which stops point to point in many, many places along the coast—and stays within our local economy, might actually be a more sustainable option for our smaller tourism businesses, and I'm wondering what discussions you've had about developing those shorter and smaller cruise operations.

Brif Weinidog, pan fydd llong wyliau fawr yn mynd i mewn i borthladd, yn amlwg, mae'n cael effaith enfawr ar yr un diwrnod hwnnw ac ar yr un lleoliad hwnnw, ond, os ydym ni eisiau dull mwy cynaliadwy o ddenu incwm llongau gwyliau i Gymru, yna gallai rhywbeth fel y Hurtigruten, sy'n gweithredu yn Norwy—sy'n stopio o bwynt i bwynt mewn llawer iawn o leoedd ar hyd yr arfordir—ac yn aros o fewn ein heconomi leol, fod yn ddewis mwy cynaliadwy i'n busnesau twristiaeth llai, ac rwy'n meddwl tybed pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael ar ddatblygu'r gweithrediadau llongau gwyliau byrrach a llai hyn.

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

These are things that are being considered as part of the long-term strategy to attract cruise business into Wales. Of course, we want to make sure that we attract ships of different sizes. The emphasis has been on making sure our facilities can cope with the bigger ships in the future. That doesn't mean, of course, that we ignore the potential that is there with the smaller cruise ships as they sail around Wales.

Mae'r rhain yn bethau sy'n cael eu hystyried yn rhan o'r strategaeth hirdymor i ddenu busnes llongau gwyliau i mewn i Gymru. Wrth gwrs, rydym ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn denu llongau o wahanol feintiau. Bu'r pwyslais ar wneud yn siŵr bod ein cyfleusterau'n gallu ymdopi â'r llongau mwy yn y dyfodol. Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, ein bod yn anwybyddu'r potensial sydd yno gyda'r llongau gwyliau llai o faint wrth iddynt hwylio o gwmpas Cymru.

## Mynediad i Ofal Cynradd

## Access to Primary Care

14:12 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad i ofal cynradd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)2381(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on access to primary care in Mid and West Wales? OAQ(4)2381(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Health boards, including those in the mid and west, are implementing local plans to improve access to the right care, at the right time, closer to home.

Gwnaf. Mae byrddau iechyd, gan gynnwys y rhai yn y canolbarth a'r gorllewin, yn rhoi cynlluniau lleol ar waith i wella mynediad at y gofal iawn, ar yr adeg iawn, yn nes gartref.

14:13 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank you for that answer. Last week, Hywel Dda Local Health Board announced the recruitment of two new consultants to Withybush hospital, and that is extremely welcome. At the same time, the health Minister gave the go-ahead for the £20 million Cardigan health centre, and that again is fantastic news for that region. Do you agree with me, First Minister, that these developments demonstrate a confidence in the future, and what impact do you think this could have in terms of attracting new primary care professionals to that area?

Diolchaf i chi am yr ateb yna. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ei fod wedi recriwtio dau ymgynghorydd meddygol newydd i ysbyty Llwynhelyg, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr. Ar yr un pryd, rhoddodd y Gweinidog Iechyd sêl bendith ar gyfer canolfan iechyd £20 miliwn Aberteifi, ac mae hynny eto'n newyddion gwych i'r rhanbarth. A ydych chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, bod y datblygiadau hyn yn dangos hyder yn y dyfodol, a pha effaith ydych chi'n credu y gallai hyn ei gael o ran denu gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol newydd i'r ardal honno?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Hugely important. I know the mid Wales healthcare collective, and the work that's gone on around that, has been hugely important in terms of working with practitioners to develop a healthcare system for the rural west. We've seen the investment that's been made into Withybush. We've seen also consultants in Withybush providing solutions themselves to particular issues, particularly with regard to A&E, and, of course, the announcement about Cardigan will provide a fantastic health centre, including a minor injuries unit and other services for the local community.

Hynod o bwysig. Gwn fod cydweithfa gofal iechyd y canolbarth, a'r gwaith sydd wedi ei wneud yn gysylltiedig â hynny, wedi bod yn hynod o bwysig o ran gweithio gydag ymarferwyr i ddatblygu system gofal iechyd ar gyfer cefn gwlad y gorllewin. Rydym ni wedi gweld y buddsoddiad hwnnw sydd wedi ei wneud yn Llwynhelyg. Rydym ni hefyd wedi gweld ymgynghorwyr meddygol yn Llwynhelyg yn cynnig atebion eu hunain i faterion penodol, yn enwedig o ran damweiniau ac achosion brys, ac, wrth gwrs, bydd y cyhoeddiad am Aberteifi yn darparu canolfan iechyd ardderchog, gan gynnwys uned mân-anafiadau a gwasanaethau eraill ar gyfer y gymuned leol.

14:14 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Unfortunately, none of the consultants recruited were consultant urologists, and this is an area that has been pushed out to GP surgeries. This is a time in people's lives when they are desperately needing to see someone quite quickly; they've often got a problem with their—I'm sorry, I've forgotten the word for it; the equipment that is attached to them. The problem is that a lot of GP surgeries do not have the consultant nurse or doctor who is able to attach such devices to people, and so we've got a lot of people within the Hywel Dda trust who are struggling to get urology services at a community level or at a hospital level. And I wondered, First Minister, what you can do to urge Hywel Dda to look at rectifying this situation because it affects an awful lot of people, especially gentlemen with prostate cancer problems.

Yn anffodus, nid oedd yr un o'r ymgynghorwyr meddygol a recriwtiwyd yn wrolegwyr ymgynghorol, ac mae hwn yn faes sydd wedi cael ei wthio allan i feddygfeydd teulu. Mae hwn yn gyfnod ym mywydau pobl pan fo wir angen iddynt weld rhywun yn eithaf cyflym; yn aml, mae ganddyn nhw broblem gyda'u—mae'n ddrwg gen i, rwyf wedi anghofio'r gair ar ei gyfer; yr offer sydd ynghlwm wrthynt. Y broblem yw nad oes nyrs neu feddyg ymgynghorol mewn llawer o feddygfeydd teulu sy'n gallu rhoi dyfeisiau o'r fath ar bobl, ac felly mae gennym ni lawer o bobl yn ymddiriedolaeth Hywel Dda sy'n cael trafferth i gael gwasanaethau wroleg ar lefel gymunedol neu ar lefel ysbyty. Ac roeddwn i'n meddwl tybed, Brif Weinidog, beth allwch chi ei wneud i annog Hywel Dda i edrych ar ddatrys y sefyllfa hon, gan ei bod yn effeithio ar lawer iawn o bobl, yn enwedig dynion â phroblemau canser y brostad.

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will write to the Member on that. More generally, of course, we would want to see GP surgeries providing services like that that don't have to be provided in hospital; that much is true. The finance has to be arranged for that—we understand that. I'm unaware of the particular issue with regard to neurology, but I will write to the Member with the findings of my investigations.

Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod am hynny. Yn fwy cyffredinol, wrth gwrs, byddem eisiau gweld meddygfeydd teulu yn darparu gwasanaethau fel yna, nad oes rhaid eu darparu yn yr ysbyty; mae cymaint â hynny'n wir. Mae'n rhaid trefnu'r cyllid ar gyfer hynny—rydym ni'n deall hynny. Nid wyf yn ymwybodol o'r mater penodol o ran niwroleg, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda chanfyddiadau fy ymchwiliadau.

14:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un o'r pryderon mwyaf amlwg y daw pobl ataf i gydag ef o ran gwasanaethau cynradd iechyd yw amser aros i gael apwyntiad gyda'r meddyg teulu. Un o'r rhesymau am hynny, wrth gwrs, yw bod diffyg, yn aml iawn, yn enwedig yn y canolbarth a'r gorllewin, mewn practisiau sydd â nifer o feddygon teulu yn rhan ohonynt. Pa asesiad ydych chi'n ei wneud fel Llywodraeth o'r angen i rai o'r cleifion yma weld meddyg teulu, neu sut allan nhw, i fod yn onest, gael eu gweld gan ymarferwyr nyrsio uwch—'advanced nurse practitioners'—yn enwedig rhai sydd yn gallu rhoi presgripsiwn yn ogystal? Mae'n ymddangos i mi fod modd cyflwyno'r dull yma er mwyn lleddfu'r oedi sydd mewn meddygfeydd teuluol?

One of the most prominent concerns brought to me by people in terms of primary care services is the waiting time for an appointment with a GP. One of the reasons for that, of course, is that there is very often a shortage of practices that have a number of GPs, particularly in mid and west Wales. So, what assessment are you making as a Government of the need for some of these patients to see a GP or, indeed, how could they be seen by advanced nurse practitioners, particularly those who are able to prescribe also? It appears to me that this method could be introduced in order to reduce the delays in GP surgeries.

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt teg. Rydym wedi gofyn i bobl, wrth sgwrs, ddewis yn ddoeth—'choose well' yn Saesneg—a'r lle cyntaf i fynd iddo yw'r fferyllfa, ac o fanna, wrth gwrs, at nyrs o fewn practis meddyg teulu, ac wedyn at feddyg. Mae nyrsys yn gallu gwneud llawer, wrth gwrs, i helpu pobl, ac nid oes eisiau, felly, gweld meddyg teulu. Rwy'n gwybod fod enghreifftiau ar draws Cymru o systemau mewn lle gan sawl meddygfa lle gall pobl fynd i weld nyrs heb gael apwyntiad—jest mynd i mewn—ac, wrth gwrs, mae nyrsys yn gallu delio â'r rhan fwyaf o'r problemau sydd gan bobl pan fyddant yn mynd i'w gweld. Felly, byddem yn hybu ac yn annog meddygfeydd i ystyried system fel'na o weithio, er mwyn tynnu pwysau i ffwrdd o'r meddygon teulu, fel nad ydynt yn delio ag achosion nad oes raid iddyn nhw eu gweld, ac, wrth gwrs, er mwyn ei wneud yn rhwyddach i'r cyhoedd.

I believe that's a fair point. Of course, we've asked people to choose well, and the first port of call should be a pharmacy and then a practice nurse within a GP surgery and then the doctor himself. A nurse can do a lot to assist people, of course, and there is no need, therefore, to see the GP. I know that there are examples across Wales where systems are in place in a number of surgeries where people are able to see a nurse without an appointment—you just go in—and, of course, nurses can deal with the majority of problems that people present with. Therefore, we would encourage surgeries to consider that kind of system in order to take the pressure off the GPs, so that they don't have to deal with cases that they don't need to see, and, of course, to make it easier for the public.

14:17 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, earlier this year, your Government renegotiated the general medical services contract to create a sustainability fund to protect access to primary care in deprived and rural areas. It was anticipated that that fund would be available by the end of June, which is today, and that fund is going to be absolutely crucial in securing the ongoing provision of a GP service at Llanwrtyd Wells. Can you confirm that applications to that fund will now be able to be made by general practitioners who wish to access it?

Brif Weinidog, yn gynharach eleni, ail-gytunodd eich Llywodraeth y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol i greu cronfa gynaliadwyedd i ddiogelu mynediad at ofal sylfaenol mewn ardaloedd difreintiedig a gwledig. Rhagwelwyd y byddai'r gronfa honno ar gael erbyn diwedd mis Mehefin, sef heddiw, ac mae'r gronfa honno'n mynd i fod yn gwbl hanfodol i sicrhau'r ddarpariaeth barhaus o wasanaeth meddyg teulu yn Llanwrtyd. A allwch chi gadarnhau y bydd ceisiadau i'r gronfa honno yn gallu cael eu gwneud erbyn hyn gan feddygon teulu sy'n dymuno cael mynediad ati?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I'm not aware of there being any difficulty in terms of that fund. It's there for a reason, and the Member's outlined that reason. I'm familiar with the situation in Llanwrtyd, but it is important, of course, that when the fund is made available, the applications are made in order to ensure that rural family medical services can be preserved and enhanced.

Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw anhawster o ran y gronfa honno. Mae yno am reswm, ac mae'r Aelod wedi amlinellu'r rheswm hwnnw. Rwy'n gyfarwydd â'r sefyllfa yn Llanwrtyd, ond mae'n bwysig, wrth gwrs, pan gaiff y gronfa ei rhoi ar gael, bod ceisiadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau y gellir cadw a gwella gwasanaethau meddygol teulu yng nghefn gwlad.

## Rhaglenni Tlodi Plant (Ymgysylltu â Rhieni)

## Child Poverty Programmes (Engaging with Parents)

14:18 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei rhaglenni tlodi plant yn ymgysylltu'n llawn â rhieni? OAQ(4)2371(FM)*

*5. How does the Welsh Government ensure that its child poverty programmes engage fully with parents? OAQ(4)2371(FM)*

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, family engagement is at the heart of Flying Start, Families First and Communities First, because supporting both parents to achieve better employment, health and education outcomes is a central part of tackling poverty.

Wel, mae ymgysylltu â theuluoedd yn ganolog i Ddechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf, gan fod cefnogi'r ddau riant i sicrhau canlyniadau cyflogaeth, iechyd ac addysg gwell yn rhan ganolog o drechu tlodi.

14:18 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, successive reports have recognised the importance, for the welfare and development of their children, of both parents remaining closely involved in the lives of their children following separation, and yet fathers frequently feel excluded from services. What data, therefore, do the Welsh Government compile and hold on the levels of engagement with fathers by Welsh Government programmes, including Flying Start, Families First and Communities First, or otherwise how does it monitor this important matter?

Wel, mae adroddiadau olynol wedi cydnabod pwysigrwydd, i les a datblygiad eu plant, y ddau riant yn cymryd rhan agos ym mywydau eu plant ar ôl gwahanu, ac eto mae tadau'n aml yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o wasanaethau. Pa ddata, felly, mae Llywodraeth Cymru yn ei gasglu a'i gadw ar y lefelau o ymgysylltiad â thadau gan raglenni Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf, neu sut mae'n monitro'r mater pwysig hwn fel arall?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I suppose it's difficult to actually monitor levels of engagement from fathers, but I can say to the Member that we do expect local authorities to actively promote services to fathers and support their engagement. Many services are providing dedicated support specifically tailored to the particular needs of fathers, including providing fathers' groups and employing dedicated dads' workers, as they're called. Training has also been provided for staff to ensure that they are better able to engage with fathers and to build relationships with them.

Mae'n debyg ei bod yn anodd monitro lefelau ymgysylltiad gan dadau mewn gwirionedd, ond gallaf ddweud wrth yr Aelod ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol fynd ati i hyrwyddo gwasanaethau i dadau a chefnogi eu hymgysylltiad. Mae llawer o wasanaethau'n darparu cymorth pwrpasol wedi'i deilwra'n benodol i anghenion penodol tadau, gan gynnwys darparu grwpiau tadau a chyflogi gweithwyr tadau penodedig, fel y'u gelwir. Darparwyd hyfforddiant i staff hefyd, i sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu â thadau'n well ac i feithrin perthynas â nhw.

14:19 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, would you agree with me that community-focused schools are very important in terms of engaging with parents and communities? Far too many of our schools are still closed at weekends, weekday evenings and, indeed, school holidays. It would be very beneficial for parents and communities in Wales if we were to have more consistent accessibility and availability of our schools. I wonder if you would commit to exploring possible mechanisms to achieve that greater consistency.

Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi bod ysgolion bro yn bwysig iawn o ran ymgysylltu â rhieni a chymunedau? Mae llawer gormod o'n hysgolion yn dal i fod ar gau ar benwythnosau, fin nos yn ystod yr wythnos ac, yn wir, yn ystod gwyliau'r ysgol. Byddai'n fuddiol iawn i rieni a chymunedau yng Nghymru pe gallai'n hysgolion fod yn hygyrch ac ar gael yn fwy cyson. Tybed a wnewch chi ymrwymo i archwilio dulliau posibl i sicrhau'r cysondeb mwy hwnnw.

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We would encourage, of course, schools to be made available as far as possible to the community. The difficulty is sometimes the design of the school. The older schools are not designed to be secure for use after school hours and newer schools are. We would expect any new-build school to be able to be accessible to the community beyond school hours and that needs to be reflected in the design of the school itself. I've seen many examples across Wales where a certain section of the school can be kept open beyond schools hours and the rest of the school can be kept secure, and of course the facilities of the school and, indeed, outside of the school—the school grounds—can be made available. So, yes, in the future, all schools will be in that position, but there can be some difficulties with some of the older schools that weren't designed to be open after hours.

Byddem yn annog, wrth gwrs, i ysgolion gael eu rhoi ar gael cyn belled â phosibl i'r gymuned. Yr anhawster weithiau yw cynllun yr ysgol. Nid yw'r ysgolion hŷn wedi'u cynllunio i fod yn ddiogel i'w defnyddio ar ôl oriau ysgol ond mae ysgolion newydd. Byddem yn disgwyl i unrhyw ysgol sydd wedi'i hadeiladu o'r newydd i allu bod yn hygyrch i'r gymuned y tu hwnt i oriau ysgol ac mae angen adlewyrchu hynny yng nghynllun yr ysgol ei hun. Rwyf wedi gweld llawer o enghreifftiau ledled Cymru lle gellir cadw rhan benodol o'r ysgol ar agor y tu hwnt i oriau ysgol a gellir cadw gweddill yr ysgol wedi'i chloi ac, wrth gwrs, gellir rhoi cyfleusterau'r ysgol ac, yn wir, y tu allan i'r ysgol—tir yr ysgol—ar gael. Felly, bydd, yn y dyfodol, bydd pob ysgol yn y sefyllfa honno, ond gall fod rhai anawsterau gyda rhai o'r ysgolion hŷn na chawsant eu cynllunio i fod ar agor ar ôl oriau ysgol.

14:20 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, last week in questions you showed a very strong preference in relation to Flying Start in Croeserw and Glyncorrwg—that that service should be continued within the communities where it had started and that those communities should not have to travel a great distance to access that service. Later in that meeting, the communities Minister also said that it should continue in September and has written to Members to that effect.

Brif Weinidog, dangosoch ffafriaeth gref iawn yr wythnos diwethaf yn ystod cwestiynau o ran Dechrau'n Deg yng Nghroeserw a Glyncorrwg—y dylid parhau'r gwasanaeth yn y cymunedau lle'r oedd wedi dechrau ac na ddylai'r cymunedau hynny orfod teithio pellter maith i gael mynediad at y gwasanaeth hwnnw. Yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwnnw, dywedodd y Gweinidog cymunedau hefyd y dylai barhau ym mis Medi ac mae wedi ysgrifennu at yr Aelodau i ddweud hynny.

I've now had a letter, which David Rees has received from the chief executive of Neath Port Talbot council that he has shared with campaigners, in which the chief executive effectively says that the alternative provision will be available elsewhere in the upper Afan Valley and that he doesn't feel that there is any obligation on the council to continue that provision within the existing communities of Croeserw and Glyncorrwg—effectively directly contrary to the assurances that we've had in this Chamber. Is it possible, First Minister, that Ministers here could liaise with Neath Port Talbot council to ensure that from September this year Croeserw and Glyncorrwg do have a continuation of that Flying Start service in their own communities?

Rwyf wedi cael llythyr bellach, y mae David Rees wedi ei dderbyn oddi wrth brif weithredwr cyngor Castell-nedd Port Talbot y mae wedi ei rannu gydag ymgyrchwyr, lle mae'r prif weithredwr fwy neu lai'n dweud y bydd y ddarpariaeth amgen ar gael mewn rhan arall o Gwm Afan uchaf ac nad yw'n teimlo bod unrhyw rwymedigaeth ar y cyngor i barhau'r ddarpariaeth honno yng nghymunedau presennol Croeserw a Glyncorrwg—sydd fwy neu lai'n gwbl groes i'r sicrwydd rydym ni wedi ei gael yn y Siambr hon. A yw'n bosibl, Brif Weinidog, y gallai Gweinidogion yma gysylltu â Chyngor Castell-nedd Port Talbot i sicrhau bod y gwasanaeth Dechrau'n Deg hwnnw'n parhau yng nghymunedau Croeserw a Glyncorrwg eu hunain o fis Medi eleni?

14:21 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I haven't seen the letter, but I will ask the Minister to look at the issue on behalf of you, and, of course, the Member for Aberavon, to see what the current situation is.

Wel, nid wyf wedi gweld y llythyr, ond byddaf yn gofyn i'r Gweinidog edrych ar y mater ar eich rhan, ac, wrth gwrs, yr Aelod dros Aberafan, i weld beth yw'r sefyllfa bresennol.

14:22 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, it is strange to hear the Welsh Conservatives talking about child poverty when we know that George Osborne is planning a £5 billion tax credit bombshell for his emergency budget next week, despite their pre-election promises. Of course, if the briefing from the Treasury is to be believed, their plans will slash incomes for 2.7 million families, with many families set to lose £1,700 a year. Would you agree with me that if the Welsh Conservatives are serious about child poverty, they should focus their efforts on getting their UK Government to change their spending plans?

Brif Weinidog, mae'n rhyfedd clywed Ceidwadwyr Cymru'n sôn am dlodi plant pan ein bod ni'n gwybod bod George Osborne yn cynllunio ergyd credyd treth o £5 biliwn ar gyfer ei gyllideb frys yr wythnos nesaf, er gwaethaf eu haddewidion cyn yr etholiad. Wrth gwrs, os yw'r briff gan y Trysorlys i'w gredu, bydd eu cynlluniau'n torri incymau 2.7 miliwn o deuluoedd, a bydd llawer o deuluoedd yn colli £1,700 y flwyddyn. A fyddech chi'n cytuno â mi os yw Ceidwadwyr Cymru o ddifrif am dlodi plant, y dylent ganolbwyntio eu hymdrechion ar gael eu Llywodraeth y DU i newid eu cynlluniau gwario?

14:22 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. We used to say to people, 'If you get a job, your income will increase.' That's just no longer the case. We are seeing more and more examples of in-work poverty, and the proposals that have been put forward would make that worse. I think it could be summed up in this way: the Prime Minister says he wants to remove benefits and tax credits for those in work; he will then try to beg employers to pay more and if they don't, tough luck. That's basically where the Prime Minister is at the moment. It's unfair, unjust and, above all else, naive.

Yn sicr. Roeddem ni'n arfer dweud wrth bobl, 'Os cewch chi swydd, bydd eich incwm yn cynyddu.' Nid yw hynny'n wir mwyach. Rydym ni'n gweld mwy a mwy o enghreifftiau o dlodi mewn gwaith, a byddai'r cynigion sydd wedi eu cyflwyno yn gwneud hynny'n waeth. Rwy'n credu y gellid ei grynhoi fel hyn: mae'r Prif Weinidog yn dweud ei fod eisiau cael gwared ar fudd-daliadau a chredydau treth i'r rhai mewn gwaith; yna, bydd yn ceisio erfyn ar gyflogwyr i dalu mwy ac os na wnânt, hen dro. Dyna safbwynt y Prif Weinidog ar hyn o bryd yn y bôn. Mae'n annheg, yn anghyfiawn ac, yn anad dim, yn naïf.

Senedd.tv Fideo Video

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

## Child and Adolescent Mental Health Services

14:23 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2378(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on child and adolescent mental health services in north Wales? OAQ(4)2378(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We've recently announced an additional £7.6 million a year to support work under way to improve CAMHS across Wales. That represents an 18 per cent increase in current resources.

Gwnaf. Rydym ni wedi cyhoeddi £7.6 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol yn ddiweddar i gefnogi gwaith sydd ar y gweill i wella CAMHS ledled Cymru. Mae hynny'n cynrychioli cynnydd o 18 y cant i'r adnoddau presennol.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Thank you. You will be aware of the immense concern as regards access to services, in particular, for those suffering from eating disorders—I currently have a constituent who is under specialist treatment now in Staffordshire—and it does beg the question why there is no eating disorder unit in Wales. I'm given to understand that the north Wales adolescent centre in Abergele has got six beds long-term empty, has the community intensive support team outreach there, is a secure and well-supported environment, has a school facility, gymnastics provision and all the infrastructure therein for an eating disorder unit. As this is a specialist facility that's been bought and paid for within the past five years—I'm going to be looking into this more closely—would you work with me to look at this as a possibility for a treatment centre for those with eating disorders, because this really is on the rise?

Diolch yn fawr. Byddwch yn ymwybodol o'r pryder aruthrol o ran mynediad at wasanaethau, yn arbennig, i'r rhai sy'n dioddef o anhwylderau bwyta—mae gen i etholwr ar hyn o bryd sy'n derbyn triniaeth arbenigol yn Swydd Stafford nawr—ac mae'n erfyn y cwestiwn pam nad oes uned anhwylder bwyta yng Nghymru. Rwy'n cael ar ddeall bod chwe gwely yng nghanolfan glasoed gogledd Cymru yn Abergele wedi bod yn wag am gyfnod hir, bod allgymorth y tîm cymorth dwys cymunedol yno, ei fod yn amgylchedd diogel â chefnogaeth dda, bod cyfleuster ysgol yno, darpariaeth gymnasteg a'r holl seilwaith felly ar gyfer uned anhwylder bwyta. Gan fod hwn yn gyfleuster arbenigol a brynwyd ac y talwyd amdano yn ystod y pum mlynedd diwethaf—rwy'n mynd i fod yn ymchwilio i hyn yn fanylach—a wnewch chi weithio gyda mi i ystyried hwn fel posibilrwydd ar gyfer canolfan driniaeth i'r rhai ag anhwylderau bwyta, gan fod yr achosion o hyn wir ar gynnydd?

Senedd.tv Fideo Video

14:24

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it depends, of course, on the availability of specialists, and it depends on the numbers of people going through a facility, because, inevitably, with unusual conditions—and thankfully, eating disorders are still unusual, although I take the point that she makes about them being on the increase—it's important that people with eating disorders are treated in specialist centres with specialists who see that condition, day in, day out, week in, week out. I would not want to see a facility open where that expertise was lost to the patient.

Wel, mae'n dibynnu, wrth gwrs, a oes arbenigwyr ar gael, ac mae'n dibynnu ar nifer y bobl sy'n mynd trwy gyfleuster, oherwydd, yn anochel, gyda chyflyrau anarferol—a, diolch byth, mae anhwylderau bwyta'n dal i fod yn anarferol, er fy mod i'n derbyn y pwynt y mae hi'n ei wneud o ran y ffaith eu bod ar gynnydd—mae'n bwysig bod pobl ag anhwylderau bwyta yn cael eu trin mewn canolfannau arbenigol gydag arbenigwyr sy'n gweld y cyflwr hwnnw, ddydd ar ôl dydd, wythnos ar ôl wythnos. Ni fyddwn eisiau gweld cyfleuster yn agor lle byddai'r arbenigedd hwnnw'n cael ei golli i'r claf.

So, we want to see the best services available to the people of Wales. If that means that, at the moment, the best services are available in England, we don't want to create a wall between Wales and England in terms of that service being available to people living in Wales.

Felly, rydym ni eisiau gweld y gwasanaethau gorau ar gael i bobl Cymru. Os yw hynny'n golygu, ar hyn o bryd, bod y gwasanaethau gorau ar gael yn Lloegr, nid ydym eisiau creu wal rhwng Cymru a Lloegr o ran bod y gwasanaeth hwnnw ar gael i bobl sy'n byw yng Nghymru.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:25

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Mae'r ganolfan yn Abergele ag enw da iawn iddi, ond mae hi'n anodd iawn cael mynediad iddi. Mae yna bobl ifanc yn fy etholaeth i, ac yn y gorllewin, sydd yn aml iawn yn gorfod aros misoedd, pan maent ar eu mwyaf bregus, cyn cael help gan arbenigwyr. Beth all eich Llywodraeth chi ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc sydd mewn angen fel hyn yn cael mynediad i'r gwasanaethau hanfodol hyn ar yr adeg gywir?

The centre in Abergele has a very good reputation, but it is very difficult to get access to it. There are young people in my constituency, and in north-west Wales, who very often have to wait for months, when they are most vulnerable, until they are assisted by specialists. What can your Government do to ensure that young people who are in such a need do have access to these crucially important services at the right time?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:25

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, rwyf wedi sôn, wrth gwrs, am yr arian ychwanegol sydd wedi cael ei ddatgan. Bydd yr arian yna'n helpu pobl, nid yn unig i gael triniaeth ond i sicrhau nad yw pobl yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, ac, wrth gwrs, i helpu pobl i gael triniaeth y tu fas i sefydliad yr ysbyty a chael triniaeth o fewn y gymuned.

Well, I have alluded, of course, to the additional funding that has been announced. That funding will help people, not just to receive treatment but it will ensure that people don't become part of the criminal justice system, and, of course, will also assist people in receiving treatment outside the institution of the hospital and have treatment in the community.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:26

## Aled Roberts [Bywgraffiad] [Biography]

Brif Weinidog, mae nifer o bobl ifanc sydd yn aros dros 14 wythnos wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd olaf yma yn y gogledd—o 20 ym mis Ebrill 2013 i 385 erbyn mis Ebrill eleni. Mae gan y bwrdd iechyd yn y gogledd hanes o beidio â defnyddio arian sydd wedi cael ei glustnodi gan Lywodraeth Cymru, os ydych yn edrych ar gofnodion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, er enghraifft. Sut, felly, ydych chi'n sicrhau bod yr arian yma'n cael ei ddefnyddio i'r pwrpas yr ydych chi wedi'i ddynodi, ac a fydd angen i'r bwrdd iechyd yn y gogledd gael cynllun gweithredu penodol a fydd yn bosib i bob un ohonom ei fonitro?

First Minister, the number of young people waiting for over 14 weeks has increased over these past two years in north Wales—from 20 in April 2013 to 385 by April of this year. The health board in north Wales has a history of not using funding allocated by the Welsh Government, if you look at the minutes of the Public Accounts Committee, for example. How, therefore, are you ensuring that this funding is used according to the purpose designated by you, and will there be a need for the health board in north Wales to have a specific action plan that each of us can monitor?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:26

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r arian yna'n cael ei ddynodi yn CAMHS, ac mae'n rhaid i'r arian gael ei ddefnyddio er mwyn, wrth gwrs, sicrhau bod gwasanaethau o dan CAMHS yn cynyddu yn y pen draw. Bydd pob bwrdd iechyd yn gorfod dangos bod yr arian wedi cael ei hala ar hynny.

That funding is designated in CAMHS, and it has to be used to ensure that the services under CAMHS are ultimately enhanced. Each health board will have to prove that the funding has been used on that.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

## Nodyn Cyngor Technegol 8

## Technical Advice Note 8

14:27

### Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol nodyn cyngor technegol 8? OAQ(4)2373(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the future of technical advice note 8? OAQ(4)2373(FM)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:27

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

TAN 8 provides a robust framework for the planning of renewable energy in Wales.

Mae TAN 8 yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer cynllunio ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Senedd.tv
Fideo Video

14:27

### Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you'll be aware of the thousands of my constituents who descended on the National Assembly for Wales in 2011, calling on your Government to scrap or review TAN 8. As TAN 8 nearly entirely focuses on onshore wind, it does seem to me now that it is largely irrelevant, following the UK Government's announcement to end subsidy for onshore wind. Will you be bringing forward a new TAN that will focus on support for a much wider mix of renewable energy?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r miloedd o'm hetholwyr a ddaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, yn galw ar eich Llywodraeth i ddiddymu neu adolygu TAN 8. Gan fod TAN 8 yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar wynt ar y tir, mae'n ymddangos i mi nawr ei fod yn amherthnasol i raddau helaeth, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU i roi terfyn ar gymhorthdal i wynt ar y tir. A fyddwch chi'n cyflwyno TAN newydd a fydd yn canolbwyntio ar gefnogaeth i gymysgedd llawer ehangach o ynni adnewyddadwy?

Senedd.tv
Fideo Video

14:27

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, TAN 8, of course, has nothing to do with the mid Wales conjoined inquiry. It's all a matter for the UK Government. It has nothing whatsoever to do with TAN 8 at all. Nothing. Yes, protesters came here, but they were protesting, I suggest, in the wrong place, because it was the English national planning statement that was being used to deal with this.

Wel, nid oes gan TAN 8, wrth gwrs, ddim i'w wneud ag ymholiad cyfunedig canolbarth Cymru. Mae'r cwbl yn fater i Lywodraeth y DU. Nid oes ganddo ddim o gwbl i'w wneud â TAN 8. Dim byd. Do, daeth protestwyr yma, ond roedden nhw'n protestio, rwy'n awgrymu, yn y lle anghywir, gan mai datganiad cynllunio cenedlaethol Lloegr oedd yn cael ei ddefnyddio i ymdrin â hyn.

I have absolutely no idea what forms of renewable energy the UK Government is trying to promote, if I'm honest. Onshore wind has gone. Photovoltaic cells have gone. Offshore wind is hugely expensive. We have the tidal lagoon, but there's no sign of a strike price on that. I am mystified as to where exactly energy policy is going because, at the moment, it's simply a question of closing off avenues in terms of energy generation, without opening up new ones. I'll wait to see what the UK Government has in terms of its plans to see how energy will be generated in the future. Because, at the moment, not just myself but the energy companies themselves are concerned, and they're beginning to worry about whether the UK is actually a wise place to invest.

Nid oes gen i unrhyw syniad o gwbl pa fathau o ynni adnewyddadwy mae Llywodraeth y DU yn ceisio eu hyrwyddo, a dweud y gwir. Mae gwynt ar y tir wedi mynd. Mae celloedd ffotofoltäig wedi mynd. Mae gwynt ar y môr yn hynod o ddrud. Mae'r morlyn llanw gennym, ond nid oes unrhyw arwydd o bris taro ar hwnnw. Mae'n ddirgelwch i mi beth yn union yw cyfeiriad polisi ynni oherwydd, ar hyn o bryd, mae'n gwestiwn syml o gau llwybrau o ran cynhyrchu ynni, heb agor rhai newydd. Byddaf yn aros i weld beth sydd gan Lywodraeth y DU o ran ei chynlluniau i weld sut y bydd ynni'n cael ei gynhyrchu yn y dyfodol. Oherwydd, ar hyn o bryd, nid dim ond fi sy'n pryderu, ond mae'r cwmnïau ynni eu hunain yn pryderu, ac maen nhw'n dechrau poeni ynghylch a yw'r DU wir yn lle doeth i fuddsoddi.

Senedd.tv
Fideo Video

14:28

### Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Byddai cynllun helaethaf a thargedau, er enghraifft, yn help o safbwynt eich Llywodraeth chi hefyd, Brif Weinidog. A gaf i ofyn i chi, gan fod y Bil cynllunio nawr yn golygu y byddwn ni yma yng Nghymru yn cael fframwaith ddatblygu cenedlaethol, ydy hynny'n golygu bod dyddiad TAN 8 wedi'u rhifo?

A wider scheme and targets, for example, would also assist your Government, First Minister. May I ask you, as the planning Bill now means that we in Wales will have a national development framework, does that mean that the days of TAN 8 are numbered?

Senedd.tv
Fideo Video

14:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, mae pob TAN, wrth gwrs, yn cael ei adolygu nawr ac yn y man, ond does dim pwynt cael targedau heb yr arian, ac nid yw'r arian gennym ni. Rŷm ni'n gwybod fod y 'renewables obligation certificates' yn mynd, a does dim modd inni yng Nghymru dynnu ffyrdd o greu ynni i mewn i Gymru. Does dim pwynt cael targedau heb fod gennych y 'tools' er mwyn sicrhau bod y targedau'n gallu cael eu cyrraedd. Rŷm ni'n gwybod, wrth gwrs, beth yw'r sefyllfa: rŷm ni yn moyn gweld datganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad ac i bobl Cymru, ac rŷm ni yn moyn gweld datganoli'r system sybsidi, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban. Y rheswm pam mae'r Alban—ac rwy'n mynd ymlaen am yr Alban nawr, rwy'n cyfaddef—wedi gwneud mor dda yw achos bod yr Alban yn rheoli'r arian sydd ar gael i'r cwmnïau hyn. Rŷm ni wedi dioddef achos ein bod yn dod o dan system Lloegr a Chymru, a does dim clem gan neb beth nawr yw polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig tuag at ynni, hyd yn oed y cwmnïau eu hunain.

Well, every TAN, of course, is revised from time to time, but there's no point in having targets without the funding, and we don't have the funding. We know that the renewables obligation certificates are going, and it's not possible for us in Wales to attract means of producing energy into Wales. There is no point in having targets without the tools to ensure that the targets can be reached. We know what the situation is, of course: we want to see the devolution of more powers to the Assembly and to the people of Wales, and we wish to see the devolution of the system of subsidies, as has happened in Scotland. The reason why Scotland—and I admit that I'm going on about Scotland now—has done so well is because of the fact that Scotland controls the money that's available to these companies. We've suffered because of the fact that we're under the England and Wales system, but no-one has a clue as to what the current policy of the UK Government is on energy. Even the companies themselves don't know.

## Amddiffyn a Chefnogi Treftadaeth Leol

## Action to Protect and Support Local Heritage

14:30 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi trosolwg o'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn a chefnogi treftadaeth leol? OAQ(4)2379(FM)*

*8. Will the First Minister provide an overview of Welsh Government action to protect and support local heritage? OAQ(4)2379(FM)*

14:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae treftadaeth leol yn rhoi cymeriad unigryw i'n cymunedau a'n trefi, felly mae'n haeddiannol ein bod yn eu gwerthfawrogi a'u gwarchod. Rydym yn cyflwyno nifer o fesurau a fydd yn helpu i adnabod a rheoli treftadaeth o ddiddordeb lleol.

Local heritage gives our communities and towns their distinctive character and so it deserves our appreciation and protection. We are introducing a range of measures that will support the identification and management of heritage of local interest.

14:30 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydych wedi gweld sut y mae adeiladau hanesyddol fel Plas Llanelly yn gallu, drwy feddwl creadigol a chefnogaeth ariannol, cael ei drawsnewid i fod yn drysor cenedlaethol. Yr wythnos diwethaf, fe wnaeth y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi datganiad pwysig ar reoliadau gwerthiant caeau chwarae. Yn sgîl y pwysau cyllidol sydd ar lywodraeth leol nawr, mae gwario ar asedau fel plasty Parc Howard yn fy etholaeth wedi bod dan sylw aelod cabinet hamdden Cyngor Sir Gâr. A ydych yn cytuno â mi bod yn rhaid bod cael prawf o ddiddordeb y cyhoedd ac ymgynghoriad llawn cyn bod unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud i werthu'r lle?

You have seen how historical buildings like Llanelly House can, with creative thinking and financial support, become national treasures. Last week, the Minister for Public Services published an important statement on the sale of playing fields and the regulations therein. Given the financial pressures on local authorities now, expenditure on assets such as Parc Howard in my constituency has been brought to the attention of the cabinet member responsible in Carmarthenshire County Council. Do you agree with me that there should be a test of public interest and a full consultation before any decision is made to sell such a site?

14:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Tri pheth: yn gyntaf, mae hwn yn rhywbeth i'r cyngor. Yn ail, mae beth mae'r Aelod wedi dweud yn synhwyrol iawn yn fy marn i ynglŷn â'i sylwadau fe; ni fyddwn yn anghytuno gyda nhw. Ond yn drydydd, wrth gwrs, gall hwn ddod yn rhywbeth fydd yn dod tu fewn i'r system gynllunio, felly mae Gweinidogion yn ffaelu dweud rhagor ar hwn ar hyn o bryd. Ond, fel dywedais i, mae'r Aelod wedi gwneud ei sylwadau; maen nhw'n sylwadau cryf, a byddwn yn gobeithio bod Cyngor Sir Gâr yn gwrando arno fe.

Three points: firstly, this is a matter for the council. Secondly, what the Member has said is very sensible in my view as regards his comments; I would not disagree with them. But, thirdly, of course, this could become something that comes within the planning system, so Ministers can't say any more on this at present. But, as I said, the Member has made his comments; they are very strong ones and I hope that Carmarthenshire County Council are listening to him.

14:31 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, following oral and written questions from me, your previous heritage Minister gave me certain reassurances about Neath abbey in my region, which comes under Cadw control. Only this month, local members of the community have had to lobby the local council in order to provide a bin big enough to keep the site tidy, so that visitors don't see it looking a mess. Neath abbey should be at the forefront of Cadw's national maintenance and development programme, the forefront of destination management plans, and the forefront of the faith heritage plans. What evidence can you give me that the Welsh Government sees it the same way?

Brif Weinidog, yn dilyn cwestiynau llafar ac ysgrifenedig gennyf i, rhoddodd eich cyn-Weinidog treftadaeth sicrwydd penodol i mi am abaty Nedd yn fy rhanbarth i, sydd o dan reolaeth Cadw. Dim ond y mis hwn, bu'n rhaid i aelodau lleol o'r gymuned lobïo'r cyngor lleol er mwyn darparu bin digon mawr i gadw'r safle'n daclus, fel nad yw ymwelwyr yn ei weld yn edrych yn flêr. Dylai abaty Nedd fod yn flaenllaw yn rhaglen cynnal a chadw a datblygiad genedlaethol Cadw, yn flaenllaw mewn cynlluniau rheoli cyrchfannau, ac yn flaenllaw yn y cynlluniau treftadaeth ffydd. Pa dystiolaeth allwch chi ei rhoi i mi fod Llywodraeth Cymru â'r un meddylfryd?

14:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I know that the Minister is in regular contact with Gwenda Thomas, as the Member for Neath, and I know that Neath abbey is a hugely important asset, not just for the town of Neath and the surrounding villages, but for the wider area. It represents a hugely important part of our past in Wales, and both ourselves as a Government, and indeed, Cadw, find it particularly important to make sure that it's heritage that is maintained for the future.

Gwn fod y Gweinidog mewn cysylltiad rheolaidd â Gwenda Thomas, fel yr Aelod dros Gastell-nedd, a gwn fod abaty Nedd yn gaffaeliad aruthrol o bwysig, nid yn unig i dref Castell-nedd a'r pentrefi cyfagos, ond i'r ardal ehangach. Mae'n cynrychioli rhan eithriadol o bwysig o'n gorffennol yng Nghymru, ac rydym ni ein hunain fel Llywodraeth, ac yn wir, Cadw, o'r farn ei bod yn arbennig o bwysig gwneud yn siŵr ei fod yn dreftadaeth a gynhelir ar gyfer y dyfodol.

14:32 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae wedi dod i'r golwg yr wythnos yma, petai twnnel y Rhondda yn ailagor, hwnnw fyddai'r twnnel hiraf am chwe mis o'r flwyddyn, oherwydd mae yna un yn nhalaith Washington sydd ar gau am hanner y flwyddyn. A ydych chi yn gallu gwneud mwy fel Llywodraeth—rwy'n gwybod bod Gweinidog yr economi yn edrych ar y sefyllfa ar hyn o bryd er mwyn hybu ardaloedd eraill i adfer twneli o'r fath—er mwyn sicrhau bod twneli ar hyd Cymoedd de Cymru yn gallu cael eu hadfer a'u cofio fel rhan cynhenid o'r dreftadaeth benodol honno?

First Minister, it's become apparent this week that if the Rhondda tunnel were to reopen, it would be the longest tunnel for at least six months of the year, because there is one in Washington state that is closed for six months of the year. Could you do more as a Government—I know that the Minister for the economy is looking at the situation at present in order to encourage other areas to restore such tunnels—to ensure that tunnels across the south Wales Valleys can be restored and commemorated as an indigenous part of our heritage?

14:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi cyllido astudiaeth ynglŷn â'r twnnel ei hun, sy'n syniad da dros ben, ac rwy'n talu teyrnged i'r bobl leol sydd wedi ystyried hyn. Ond rhaid i ni weld nawr beth fydd yr astudiaeth yn ei ddangos ynglŷn â beth fydd yn bosib yn y dyfodol.

I know that the Minister has funded a study of the tunnel itself, which is a very good idea and I pay tribute to the local people who have considered this issue. But, we will have to see the outcome of the study to see what's possible in the future.

14:33

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Y

Senedd.tv
Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement and I call on the business Minister, Jane Hutt, to make the statement.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes a galwaf ar y Gweinidog busnes, Jane Hutt, i wneud y datganiad.

14:33

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

There are two changes to report to the business statement for this week's business. The Minister for Education and Skills will make a statement on the Welsh Government response to the Donaldson review. The Minister for Economy, Science and Transport will make a statement updating on the metro system. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers, available to Members electronically.

Mae dau newid i'w adrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gwneud datganiad ar ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Donaldson. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y system metro. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:34

### Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leader of the house, it is possible to have a statement from the Minister for education in relation to transport to faith schools? Rhondda Cynon Taf in my own electoral region are out to consultation at the moment in respect of charging for school transport to faith-based schools in the area. This is causing huge concern to governors, pupils, staff members and parents, who basically see this as a discriminatory move in making access more widely available in the RCT area for faith-based schools. I understand that a similar exercise was undertaken in the city of Swansea, where it was subject to a judicial review and the judicial review found in favour of the petitioners. I would be most grateful if a statement could be forthcoming, outlining what the Welsh Government expects local authorities to deliver in terms of school transport, and what his interpretation is of the Learner Travel (Wales) Measure 2008, which says that there is an expectation that transport should be provided on the same basis that transport to Welsh-medium schools is provided. So, I would be most grateful to understand what that expectation is from the Welsh Government, in relation to that legislation, and, of course, the implications of the judicial review findings that were recently handed down in respect of the case in Swansea.

Arweinydd y tŷ, a fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog addysg ar gludiant i ysgolion ffydd? Mae Rhondda Cynon Taf yn fy rhanbarth etholiadol fy hun yn ymgynghori ar hyn o bryd ar godi tâl am gludiant ysgol i ysgolion ffydd yn yr ardal. Mae hyn yn peri pryder mawr i lywodraethwyr, disgyblion, aelodau staff a rhieni, sydd fwy neu lai'n gweld hwn fel cam gwahaniaethol o ran gwneud mynediad ar gael yn fwy eang yn ardal Rhondda Cynon Taf at ysgolion seiliedig ar ffydd. Rwy'n deall y cynhaliwyd ymarfer tebyg yn ninas Abertawe, lle'r oedd yn destun adolygiad barnwrol a chanfu'r adolygiad barnwrol o blaid y deisebwyr. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai datganiad gael ei wneud, yn amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl i awdurdodau lleol ei gyflawni o ran cludiant ysgol, a beth yw ei ddehongliad o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sy'n dweud bod disgwyliad y dylid darparu cludiant ar yr un sail ag y darperir cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Felly, byddwn yn ddiolchgar iawn i ddeall beth yw'r disgwyliad hwnnw gan Lywodraeth Cymru, o ran y ddeddfwriaeth honno, ac, wrth gwrs, goblygiadau canfyddiadau'r adolygiad barnwrol a gyflynwyd yn ddiweddar ar gyfer yr achos yn Abertawe.

14:35

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Clearly, Andrew R.T. Davies will be aware of the circumstances, particularly the financial circumstances, facing our local authorities as a result of the cut by the UK Government, which, of course, is now having an impact on tough and difficult decisions having to be made at a local level. But, clearly, as Rhondda Cynon Taf council will clearly recognise, this consultation about these changes will have to abide by Welsh Government guidance.

Yn amlwg, bydd Andrew R.T. Davies yn ymwybodol o'r amgylchiadau, yn enwedig yr amgylchiadau ariannol, sy'n wynebu ein hawdurdodau lleol yn sgil y toriad gan Lywodraeth y DU, sydd, wrth gwrs, yn cael effaith bellach ar benderfyniadau caled ac anodd y mae'n rhaid eu gwneud ar lefel leol. Ond, yn amlwg, fel y bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ei gydnabod yn eglur, bydd yn rhaid i'r ymgynghoriad hwn ar y newidiadau hyn gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

14:36

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I request a debate during Government time on animal welfare, to include fox control? Whilst the ban on fox hunting is not devolved, although many of us in this room probably think it ought to be, I believe it would be beneficial for the Assembly to express a view.

A gaf i ofyn am ddadl yn ystod amser y Llywodraeth ar les anifeiliaid, gan gynnwys rheoli llwynogod? Er nad yw'r gwaharddiad ar hela llwynogod wedi'i ddatganoli, er bod llawer ohonom ni yn yr ystafell hon yn ôl pob tebyg yn meddwl y dylai fod, rwy'n credu y byddai o fudd i'r Cynulliad fynegi barn.

14:36

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, Mike Hedges, as he said, is quite clearly aware that hunting with dogs is a non-devolved issue. It's a matter for the UK Government. We are aware, of course, of the 2015 Conservative Party manifesto—there is a commitment to a free vote on repealing the Hunting Act 2004. The Welsh Government strongly opposes any possible repeal of the Hunting Act, and we would hope that the UK Government would have other priorities for its legislative programme.

Wel, mae Mike Hedges, fel y dywedodd, yn amlwg yn ymwybodol bod hela gyda chŵn yn fater nad yw wedi ei ddatganoli. Mater i Lywodraeth y DU yw hwn. Rydym ni'n ymwybodol, wrth gwrs, o faniffesto 2015 y Blaid Geidwadol —mae ymrwymiad i bleidlais rydd ar ddiddymu Deddf Hela 2004. Mae Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu unrhyw ddiddymiad posibl o'r Ddeddf Hela yn gryf, a byddem yn gobeithio y byddai gan Lywodraeth y DU flaenoriaethau eraill ar gyfer ei rhaglen ddeddfwriaethol.

14:36

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i ofyn am ddatganiad arall gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ynglŷn â'r penderfyniad i ddileu cyllid Gyrfa Cymru ar gyfer fetio llefydd profiad gwaith ar gyfer disgyblion ysgol? Mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud ei bod hi'n ystyried ei bod yn bosibl i ysgolion wneud y gwaith hwn eu hunain. Mae ysgolion yn fy etholaeth i yn bendant nad ydy hynny'n bosibl ac, yn wir, nad oes ganddyn nhw'r amser na'r sgiliau i wneud hynny yn ddiogel. Gan fod profiad gwaith yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o addysg plant, mae'n bwysig ein bod yn gwrando ar farn y bobl broffesiynol. Yn ôl un prifathro, mae o'n dweud bod y llythyr wedi cael ei ysgrifennu gan rywun sydd yn amlwg ddim wedi bod yn agos i ysgol ers rhai blynyddoedd. Felly, a gaf i ofyn am ddatganiad pellach ar y sefyllfa hon, os gwelwch yn dda?

May I request another statement from the Deputy Minister for Skills and Technology on the decision to abolish funding for Careers Wales for vetting work experience placements for school pupils? The Deputy Minister has said that she believes that it's possible for the schools to carry out this work themselves. Schools in my constituency are certain that that isn't possible and, indeed, that they don't have the time or the skills to do so in a safe manner. As work experience is considered to be an important part of children's education, it is important that we should listen to the views expressed by professionals. According to one headteacher, he says that the letter was written by someone who clearly hasn't been anywhere near a school for many years. So, may I ask for a further statement on this situation?

14:37

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Alun Ffred Jones has raised this point, I know, and I will get an update from the Deputy Minister for skills on the current situation regarding Careers Wales and its responsibilities.

Mae Alun Ffred Jones wedi codi'r pwynt hwn, rwy'n gwybod, a byddaf yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Weinidog sgiliau ar y sefyllfa bresennol o ran Gyrfa Cymru a'i gyfrifoldebau.

14:38

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, later on today we're going to be hearing from the Minister for Economy, Science and Transport about a huge investment in public transport infrastructure here in south Wales, which is very welcome. But, yesterday, Powys County Council closed its consultation on taking £0.5 million-worth of bus routes out of the county. It will leave some of the villages and hamlets of my constituency without any access to public transport at all. This has caused a huge amount of angst for elderly people, for whom simply going to a shop and buying a pint of milk or a loaf of bread will become an impossibility without the help of a neighbour, or for young people who are trying to access work opportunities. Your Government is very fond of publicising the initiative of Bwcabus in Carmarthenshire, which I understand has made a real difference to public transport infrastructure there. I wonder what the Welsh Government could do to help promote that scheme in other parts of Wales as a viable alternative to public transport route closures.

Weinidog, rydym ni'n mynd i fod yn clywed gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ddiweddarach heddiw am fuddsoddiad enfawr yn y seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yma yn y de, sydd i'w groesawu'n fawr. Ond, ddoe, daeth Cyngor Sir Powys â'i ymgynghoriad ar gymryd gwerth £0.5 miliwn o lwybrau bysiau allan o'r sir i ben. Bydd yn gadael rhai o bentrefi a phentrefannau fy etholaeth i heb unrhyw fynediad at gludiant cyhoeddus o gwbl. Mae hyn wedi achosi llawer iawn o ing i bobl hŷn, pan fo dim ond mynd i siop i brynu peint o laeth neu dorth o fara yn amhosibl heb gymorth cymydog, neu i bobl ifanc sy'n ceisio cael gafael ar gyfleoedd gwaith. Mae eich Llywodraeth yn hoff iawn o hysbysebu menter Bwcabus yn Sir Gaerfyrddin, yr wyf yn deall sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r seilwaith cludiant cyhoeddus yno. Tybed beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i hyrwyddo'r cynllun hwnnw mewn rhannau eraill o Gymru fel dewis ymarferol yn hytrach na chau llwybrau cludiant cyhoeddus.

14:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for that question. Of course, the Minister for Economy, Science and Transport has intervened where she can, within her powers, which are constrained in terms of bus regulation, engaging with local authorities and, indeed, initiating as well as supporting initiatives like Bwcabus. I think there are opportunities that have been used, certainly in the last round of the rural development plan, in terms of funding. Certainly, there are community bus services around Wales that have access to European funding. I know that this is being looked at by Professor Stuart Cole, who is looking at the impact of, not just Bwcabus, but those kinds of community access to community transport schemes around Wales, and I'm sure the Minister will report back on that in due course.

Diolchaf i Kirsty Williams am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ymyrryd lle mae'n gallu, o fewn ei phwerau, sydd wedi'u cyfyngu o ran rheoleiddio bysiau, gan ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac, yn wir, sefydlu yn ogystal â chefnogi mentrau fel Bwcabus. Rwy'n meddwl bod cyfleoedd sydd wedi cael eu defnyddio, yn sicr yn rownd olaf y cynllun datblygu gwledig, o ran cyllid. Yn sicr, mae gwasanaethau bysiau cymunedol ledled Cymru sydd â mynediad at gyllid Ewropeaidd. Gwn fod hyn yn cael ei ystyried gan yr Athro Stuart Cole, sy'n edrych ar effaith, nid yn unig Bwcabus, ond y mathau hynny o fynediad cymunedol at gynlluniau cludiant cymunedol ledled Cymru, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn adrodd yn ôl ar hynny maes o law.

14:40 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I ask you about two areas? Firstly, will you join me—I'm sure you will—in welcoming the proclamation of the Eisteddfod at Caldicot castle last week? The crowds who turned up to see the parade through the town and, indeed, the ceremony itself clearly illustrated the enthusiasm and excitement for this event in Monmouthshire, and it certainly bodes well for next year.

Weinidog, a gaf fi ofyn i chi am ddau faes? Yn gyntaf, a wnewch chi ymuno â mi—rwy'n siŵr y gwnewch chi—i groesawu'r cyhoeddiad yr Eisteddfod yng nghastell Caldicot yr wythnos diwethaf? Roedd y torfeydd a ddaeth i weld yr orymdaith drwy'r dref ac, yn wir, y seremoni ei hun yn dangos yn eglur y brwdfrydedd a'r cyffro am y digwyddiad hwn yn Sir Fynwy, ac mae'n sicr yn argoeli'n dda ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Secondly, can I ask for an update from the business Minister on the programme of upgrades to the A40 through northern Monmouthshire? I've had correspondence with the Minister on the issue of noise mitigation at the Bryn near Abergavenny for some time now; it's an old concrete road surface that's in need of replacement. I'd like to hear an update on that, and also on the issue of the junction of the A40 with the old Raglan-Monmouth road, scene of many accidents and near misses over the years, and, again, a source of much correspondence between me and the Minister. I wonder if we can have a statement on how the Minister is keeping the issue of dangerous road junctions across my constituency and, indeed, the rest of Wales under review to make sure that adjustments are made to those junctions before we have any more accidents.

Yn ail, a gaf i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog busnes ar y rhaglen o uwchraddio'r A40 trwy ogledd Sir Fynwy? Rwyf wedi cael gohebiaeth gyda'r Gweinidog ar y mater o liniaru sŵn yn y Bryn ger y Fenni ers cryn amser bellach; mae'n hen arwyneb ffordd concrid y mae angen ei newid. Hoffwn glywed y wybodaeth ddiweddaraf am hynny, a hefyd am fater cyffordd yr A40 gyda hen ffordd Rhaglan-Trefynwy, lle bu llawer o ddamweiniau a damweiniau a fu bron â digwydd dros y blynyddoedd, ac, unwaith eto, ffynhonnell o lawer o ohebiaeth rhyngof i a'r Gweinidog. Tybed a allem ni gael datganiad ar sut mae'r Gweinidog yn cadw'r mater o gyffyrdd peryglus ar draws fy etholaeth i ac, yn wir, gweddill Cymru dan adolygiad i sicrhau bod addasiadau'n cael eu gwneud i'r cyffyrdd hynny cyn i ni gael rhagor o ddamweiniau.

14:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Nick Ramsay. I'm sure we are all very pleased to hear about the warm welcome in Monmouthshire for the proclamation at Caldicot castle of your forthcoming National Eisteddfod, and I'm sure you're also engaging in helping to raise the funds with your community, and in making sure that it's going to be a very important event in your county and in your constituency. Great opportunities, of course, as a result of that siting of the National Eisteddfod in Monmouthshire.

Diolch yn fawr iawn, Nick Ramsay. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn falch iawn o glywed am y croeso cynnes yn Sir Fynwy i'r cyhoeddi yng nghastell Caldicot eich Eisteddfod Genedlaethol sydd ar ddod, ac rwy'n siŵr eich bod hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o helpu i godi arian gyda'ch cymuned, ac o wneud yn siŵr ei fod yn mynd i fod yn ddigwyddiad pwysig iawn yn eich sir ac yn eich etholaeth. Ceir cyfleoedd gwych, wrth gwrs, o ganlyniad i leoli'r Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fynwy.

On your second point, of course, this is a matter that the Minister keeps under very close and careful monitoring with her officials and, clearly, not only with you engaging with her on particular incidents, but also recognising those dangerous points on the A40 that, of course, in terms of her road safety policies, are very key to her actions.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, mae hwn yn fater y mae'r Gweinidog yn ei fonitro'n agos ac yn ofalus iawn gyda'i swyddogion ac, yn amlwg, nid yn unig gyda chi'n ymgysylltu â hi ar ddigwyddiadau penodol, ond hefyd cydnabod y pwyntiau peryglus ar yr A40 sydd, wrth gwrs, o ran ei pholisïau diogelwch ar y ffyrdd, yn allweddol iawn i'w gweithredoedd.

14:42 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Notwithstanding the statement this afternoon on the development of the metro, I wonder if I could also request a statement specifically on the electrification of the Great Western main line from London to Swansea, given the UK Government's statement last week that rowed back significantly on Network Rail's investment plans. Now, whilst I understand that the UK Government have stated that that electrification project is a top priority, for me, that statement has stopped really quite worryingly short of guaranteeing that that project will not only go the full distance to Swansea, but will go the full distance on time as well. Any delays or curtailments to that project could have serious consequences for passengers across Wales, and I'd welcome a full statement on this.

Er gwaethaf y datganiad y prynhawn yma ar ddatblygiad y metro, tybed a allwn i ofyn hefyd am ddatganiad penodol ar drydaneiddio prif reilffordd y Great Western o Lundain i Abertawe, o ystyried datganiad Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf a aeth yn ôl i raddau helaeth ar gynlluniau buddsoddi Network Rail. Nawr, er fy mod i'n deall bod Llywodraeth y DU wedi dweud bod y prosiect trydaneiddio yn brif flaenoriaeth, i mi, mae'r datganiad hwnnw yn bryderus o bell o sicrhau nid yn unig y bydd y prosiect hwnnw'n mynd yr holl ffordd i Abertawe, ond y bydd yn mynd yr holl bellter yn brydlon hefyd. Gallai unrhyw oedi neu gwtogi ar y prosiect hwnnw arwain at ganlyniadau difrifol i deithwyr ledled Cymru, a byddwn yn croesawu datganiad llawn ar hyn.

I'd also like to request a statement from the Deputy Minister for Culture and Sport, if I may, on the 2017 Champions League final, which, it was announced earlier today by UEFA, will be coming to Cardiff. It is hugely welcome news, and I'm sure we'd all congratulate all of those who've worked towards this, but I would value a statement outlining how the Welsh Government will be working with the stadium, with tourism and industry officials, and with the transport industry here in south Wales to make sure that we give all of our visitors and viewers across the world the best possible experience and showcase everything that Wales has to offer through that event.

Hoffwn ofyn hefyd am ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant a Chwaraeon, os caf, ar rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn 2017, a fydd, cyhoeddwyd yn gynharach heddiw gan UEFA, yn dod i Gaerdydd. Mae'n newyddion i'w groesawu'n fawr, ac rwy'n siŵr y byddem ni i gyd yn llongyfarch pawb sydd wedi gweithio tuag at hyn, ond byddwn yn gwerthfawrogi datganiad yn amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r stadiwm, gyda swyddogion twristiaeth a diwydiant, a chyda'r diwydiant trafnidiaeth yma yn y de i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r profiad gorau posibl i'n holl ymwelwyr a gwylwyr ledled y byd ac arddangos popeth sydd gan Gymru i'w gynnig drwy'r digwyddiad hwnnw.

14:43 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Eluned Parrott. Of course, you will be aware that, last week, on your first question, the Prime Minister did make clear his personal commitment to electrifying the main line from London to Swansea, so, we would therefore expect no slippage regarding the project, despite the ongoing commentary about that. But, I have to say that the Welsh Government and the business community in Wales have been very clear about the economic case for electrification, and the Minister reiterated this in a very constructive conversation with the Under-Secretary of State for Transport, Claire Perry, today. The changes to Network Rail are welcome, and we've been pressing for an overhaul of this organisation for some time. So, I hope that gives you some indication of our engagement as the Welsh Government in terms of pressing forward with this project.

Diolch yn fawr iawn, Eluned Parrott. Wrth gwrs, byddwch yn ymwybodol, yr wythnos diwethaf, o ran eich cwestiwn cyntaf, bod y Prif Weinidog wedi gwneud ei ymrwymiad personol i drydaneiddio'r brif reilffordd o Lundain i Abertawe yn eglur, felly, ni fyddem yn disgwyl unrhyw lithro o ran y prosiect, er gwaethaf y sylwebaeth barhaus ar hynny. Ond, mae'n rhaid i mi ddweud bod Llywodraeth Cymru a'r gymuned fusnes yng Nghymru wedi bod yn eglur iawn am yr achos economaidd dros drydaneiddio, ac ailadroddodd y Gweinidog hyn mewn sgwrs adeiladol iawn gyda'r Is-ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Claire Perry, heddiw. Mae'r newidiadau i Network Rail i'w croesawu, ac rydym ni wedi bod yn pwyso am i'r sefydliad hwn gael ei ailwampio ers cryn amser. Felly, rwy'n gobeithio bod hynny'n rhoi rhyw syniad i chi o'n hymgysylltiad fel Llywodraeth Cymru o ran bwrw ymlaen â'r prosiect hwn.

Well, I know that the Deputy Minister for Culture and Sport has been working hard to achieve this very good news, and thank you for welcoming the fact that Cardiff is to host the 2017 UEFA Champions League final. This is very great news; it's just been announced, and I know that the Deputy Minister—he's not with us at this point this afternoon—is working hard to ensure that we achieve all those benefits that you have outlined, Eluned Parrott.

Wel, gwn fod y Dirprwy Weinidog Diwylliant a Chwaraeon wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau'r newyddion da iawn hyn, a diolch i chi am groesawu'r ffaith y bydd Caerdydd yn cynnal rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA yn 2017. Mae hyn yn newyddion gwych iawn; mae newydd gael ei gyhoeddi, a gwn fod y Dirprwy Weinidog—nid yw gyda ni ar hyn o bryd y prynhawn yma—yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn sicrhau'r holl fanteision hynny rydych chi wedi'u hamlinellu, Eluned Parrott.

14:45 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I ask for a statement from the Minister for Health and Social Services in relation to mental health care in north Wales? Obviously, this Chamber, and everyone in Wales, was shocked to read the Tawel Fan report, which came about as a result of an independent investigation into mental health care on that particular unit at Glan Clwyd Hospital. But there are emerging concerns being reported in the media over the quality of care on the Heddfan unit at Wrexham Maelor Hospital, and I think, Minister, that the public will be seeking reassurances from the Welsh Government that, should those allegations be substantiated—and they are only allegations at the moment, granted—the Welsh Government will do all that it can to ensure that any poor care is being rooted out and dealt with? So, I wonder whether the Minister for Health and Social Services will be able to provide an update in Government time on that particular issue.

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ofal iechyd meddwl yn y gogledd? Yn amlwg, cafodd y Siambr hon, a phawb yng Nghymru, sioc o ddarllen adroddiad Tawel Fan, a ddaeth o ganlyniad i ymchwiliad annibynnol i ofal iechyd meddwl yn yr uned arbennig honno yn Ysbyty Glan Clwyd. Ond ceir pryderon sy'n dod i'r amlwg sy'n cael eu hadrodd yn y cyfryngau am ansawdd y gofal ar uned Heddfan yn Ysbyty Maelor Wrecsam, ac rwy'n meddwl, Weinidog, y bydd y cyhoedd yn chwilio am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru, pe byddai'r honiadau hynny'n cael eu cadarnhau—a dim ond honiadau ydyn nhw ar hyn o bryd, digon teg—y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod unrhyw ofal gwael yn cael ei ddarganfod ac yn cael sylw? Felly, tybed a fydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu darparu diweddariad yn amser y Llywodraeth ar y mater penodol hwnnw.

14:46 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Darren Millar. Of course, the Betsi Cadwaladr health board is responsible and very clearly aware of its responsibilities in relation to the delivery of mental health services. The recent allocation that we have made as a result of consequentials to the health service for mental health has not only been implemented and delivered, but also the Minister has announced the way forward in terms of that spend, and, clearly, putting mental health at the forefront of our priorities and the forefront of our commitment in terms of delivering effective health and social care.

Diolch i chi, Darren Millar. Wrth gwrs, bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr sy'n gyfrifol ac mae'n amlwg yn gwbl ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl. Nid yn unig y mae'r dyraniad diweddar yr ydym ni wedi ei wneud o ganlyniad i symiau canlyniadol i'r gwasanaeth iechyd ar gyfer iechyd meddwl wedi cael eu gweithredu a'u cyflwyno, ond hefyd mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi'r ffordd ymlaen o ran y gwariant hwnnw, ac, yn amlwg, gofalu bod iechyd meddwl yn flaenllaw yn ein blaenoriaethau ac yn flaenllaw yn ein hymrwymiad o ran darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol.

14:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:46

Senedd.tv Fideo Video

## 3. Datganiad: 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'—y Wybodaeth Ddiweddaraf

## 3. Statement: 'Towards Sustainable Growth: an Action Plan for the Food and Drink Industry 2014-2020'—an Update

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the Deputy Minister for Farming and Food—'Towards Sustainable Growth: An Action Plan for the Food and Drink Industry 2014-2020'—an update. I call on Rebecca Evans to deliver the statement.

Symudwn at eitem 3 nawr, sef datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd—' Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'—diweddariad. Galwaf ar Rebecca Evans i gyflwyno'r datganiad.

14:47 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

It has been a year since we launched and published 'Towards Sustainable Growth', the action plan for the food and drink industry, to map out the delivery of the priorities previously identified in the strategy 'Food for Wales, Food from Wales'. The plan identifies 48 actions across five priority themes to achieve sustainable growth in the food and drinks industry in Wales. The plan has been, and continues to be, about action. It is predicated on partnership between Government and industry.

Mae blwyddyn ers i ni lansio a chyhoeddi 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', y cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, i fapio darpariaeth y blaenoriaethau a nodwyd yn flaenorol yn y strategaeth 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru'. Mae'r cynllun yn nodi 48 o gamau gweithredu ar draws pum thema blaenoriaeth i gyflawni twf cynaliadwy yn y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun wedi ymwneud, ac yn parhau i ymwneud â gweithredu. Mae wedi ei seilio ar bartneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant.

We are a pro-business Government, working closely with companies to create growth and jobs in every part of Wales. We have established an overarching and challenging target of 30 per cent growth in sales by 2020, and we are on course to achieve this target. The latest priority sector statistics for farming and food reported a £5.8 billion turnover, which means that we have already achieved 11.5 per cent growth since 2012-13. I have committed to a baseline data study, which is due to report soon. It will, for the first time, provide disaggregated data analysis of the food and drinks manufacturing sector and the subsectors within. I will share a copy of that report with Assembly Members in advance of its publication.

Rydym ni'n Llywodraeth sydd o blaid busnes, yn gweithio'n agos gyda chwmnïau i greu twf a swyddi ym mhob rhan o Gymru. Rydym ni wedi sefydlu targed cyffredinol a heriol o dwf o 30 y cant i werthiant erbyn 2020, ac rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn. Nododd yr ystadegau sector blaenoriaeth diweddaraf ar gyfer ffermio a bwyd drosiant o £5.8 biliwn, sy'n golygu ein bod eisoes wedi cyflawni twf o 11.5 y cant ers 2012-13. Rwyf wedi ymrwymo i astudiaeth data sylfaenol, a disgwylir adroddiad yn fuan. Bydd, am y tro cyntaf, yn darparu dadansoddiad data wedi'i ddadgyfuno ar y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod a'r is-sectorau o fewn hynny. Byddaf yn rhannu copi o'r adroddiad hwnnw gydag Aelodau'r Cynulliad cyn ei gyhoeddi.

I am pleased to announce today that we have full membership to the Food and Drink Wales Industry Board. Whilst it has taken longer than expected, it was essential that the right composition was achieved, and I am pleased to confirm that the board has a very impressive line-up as well as a gender balance. The board will provide strategic direction to Government on the delivery of the action plan. The board is the voice of the industry, for businesses of all sizes and across the supply chain. It is vital that a shared responsibility is developed between Government and industry, and this is where I see the board playing a major part.

Rwy'n falch o gyhoeddi heddiw bod gennym aelodaeth lawn o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Er ei fod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, roedd yn hanfodol sicrhau'r cyfansoddiad cywir, ac rwy'n falch o gadarnhau bod gan y bwrdd aelodaeth drawiadol iawn, yn ogystal â chydbwysedd rhwng y rhywiau. Bydd y bwrdd yn darparu cyfeiriad strategol i'r Llywodraeth ar y gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu. Y bwrdd yw llais y diwydiant, i fusnesau o bob maint ac ar draws y gadwyn gyflenwi. Mae'n hanfodol bod cyfrifoldeb a rennir yn cael ei ddatblygu rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant, a dyma lle rwyf yn gweld y bwrdd yn chwarae rhan bwysig.

The members are: Norma Barry, InsideOut Organisational Solutions; Annitta Engel, D.B.G.E Limited; Catherine Fookes, Organic Trade Board; Justine Sarah Fosh, Improve; Buster Grant, Brecon Brewing; Alison Lea-Wilson, Halen Môn; David Lloyd, Zero2five Food Industry Centre; Katie Palmer, Sustainable Food Cardiff; Llior Radford, Llaeth y Llan; Andy Richardson, Volac; Justin Scale, Capstone Organic; Marcus Sherreard, Dawn Meats; Huw Thomas, Puffin Produce; and James Wilson, Welsh Fishermen's Association.

Dyma'r aelodau: Norma Barry, InsideOut Organisational Solutions; Annitta Engel, D.B.G.E Limited; Catherine Fookes, y Bwrdd Masnach Organig; Justine Sarah Fosh, Improve; Buster Grant, Brecon Brewing; Alison Lea-Wilson, Halen Môn; David Lloyd, Canolfan Diwydiant Bwyd Zero2Five; Katie Palmer, Bwyd Cynaliadwy Caerdydd; Llior Radford, Llaeth y Llan; Andy Richardson, Volac; Justin Scale, Capstone Organic; Marcus Sherreard, Dawn Meats; Huw Thomas, Puffin Produce; a James Wilson, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru.

I would like to thank Robin Jones for all the work he has done as interim chair. Robin was appointed to guide the board through its establishment, and he has dedicated himself to this whilst leading his own company through significant expansion. Robin will now stand down at this point to focus on his company at this important time in its development, and board members will soon elect a permanent chair. Under Robin's direction, we have begun the important work of providing the food and drink industry in Wales with a dynamic, industry-driven voice, which I believe will help deliver a new era of opportunity, growth and success. The 'Bwyd a Diod Cymru' identity is being redefined. It's an overarching identity, which has been successfully used at UK and international exhibitions. The current work is scoping its capabilities and developing the imagery and the narrative that tells the story of Welsh food and drink.

Hoffwn ddiolch i Robin Jones am yr holl waith y mae wedi ei wneud fel cadeirydd dros dro. Penodwyd Robin i arwain y bwrdd drwy ei gyfnod sefydlu, ac mae wedi ymroi i hyn gan arwain ei gwmni ei hun drwy gyfnod o ehangu sylweddol ar yr un pryd. Bydd Robin yn ymddiswyddo nawr i ganolbwyntio ar ei gwmni ar yr adeg bwysig hon yn ei ddatblygiad, a bydd aelodau'r bwrdd yn ethol cadeirydd parhaol yn fuan. O dan gyfarwyddyd Robin, rydym ni wedi dechrau ar y gwaith pwysig o roi llais deinamig, sy'n cael ei sbarduno gan y diwydiant, i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, yr wyf yn credu y bydd yn helpu i ddarparu cyfnod newydd o gyfle, twf a llwyddiant. Mae hunaniaeth 'Bwyd a Diod Cymru' yn cael ei hailddiffinio. Mae'n hunaniaeth gyffredin, a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus mewn arddangosfeydd yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r gwaith presennol yn cwmpasu ei alluoedd ac yn datblygu'r delweddau a'r naratif sy'n adrodd hanes bwyd a diod Cymru.

I have launched the new Food and Drink Wales website, to improve two-way communications with industry, to promote business support, report on trade success, identify new opportunities, and provide updates on policy development. Social media channels have also launched to add to our communications platform. We have hosted a number of events this year to celebrate the best of Welsh produce, including the celebration of last year’s 120 Welsh Great Taste Awards winners. Earlier this month, we also hosted the judging of Welsh entries for the Great Taste Awards 2015. The number of entries increased by 25 per cent from 2014, to 491 products. I wish all those who entered good luck for 31 July, when the results will be published.

Rwyf wedi lansio’r wefan Bwyd a Diod Cymru newydd, i wella cyfathrebu dwyffordd gyda’r diwydiant, er mwyn hyrwyddo cymorth busnes, adrodd ar lwyddiant masnachol, nodi cyfleoedd newydd, a darparu’r wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiad polisi. Lansiwyd sianeli cyfryngau cymdeithasol hefyd, i ychwanegu at ein llwyfan cyfathrebu. Rydym ni wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau eleni i ddathlu’r gorau o gynnyrch Cymru, gan gynnwys 120 o enillwyr Gwobrau Great Taste Cymru y llynedd. Yn gynharach y mis hwn, cynhaliwyd y broses o feirniadu ymgeiswyr Cymru ar gyfer Gwobrau Great Taste 2015 gennym hefyd. Cynyddodd nifer yr ymgeiswyr 25 y cant ers 2014, i 491 o gynhyrchion. Dymunaf bob lwc i bawb a ymgeisiodd ar gyfer 31 Gorffennaf, pan fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi.

The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism and I recently launched ‘The Food Tourism Action Plan for Wales 2015-2020’. Increasing the prevalence of local and regional foods in our shops and on our menus offers immediate and direct benefits to our Welsh economy. Our programme of food events support has been revised after extensive consultation, and the new tiered support reflects the diversity of food festivals and all other food-related events across Wales. There are many actions in the plan to support the development of all food businesses in Wales that have the potential and ambition for growth.

Lansiodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a minnau y 'Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd i Gymru 2015-2020' yn ddiweddar. Mae cynyddu faint o fwydydd lleol a rhanbarthol sydd yn ein siopau ac ar ein bwydlenni yn cynnig manteision ar unwaith ac uniongyrchol i'n heconomi yng Nghymru. Mae ein rhaglen o gefnogaeth i ddigwyddiadau bwyd wedi ei diwygio ar ôl ymgynghori helaeth, ac mae'r gefnogaeth haenau newydd yn adlewyrchu amrywiaeth gwyliau bwyd a’r holl ddigwyddiadau eraill sy'n ymwneud â bwyd ledled Cymru. Ceir nifer o gamau gweithredu yn y cynllun i gefnogi datblygiad yr holl fusnesau bwyd yng Nghymru sydd â'r potensial a’r uchelgais i dyfu.

We have witnessed the delivery of £10.8 million of new business investments in 2014-15, which has safeguarded over 1,365 jobs and created 450 new jobs in food. I have recently agreed to the development of business clusters starting with a microcluster dedicated to the needs of the smallest businesses. We are also developing an impact business cluster to target businesses looking to grow at a rate of 50 per cent a year. These programmes will have at their heart business leaders who will help shape and lead their development—in effect, strategic intervention led by business for business. To develop community benefits, which includes our priority of tackling poverty, our support programmes will work with businesses to deliver the living wage to the food industry workforce.

Rydym ni wedi gweld £10.8 miliwn o fuddsoddiadau busnes newydd yn cael eu darparu yn 2014-15, sydd wedi diogelu mwy na 1,365 o swyddi ac wedi creu 450 o swyddi newydd ym maes bwyd. Rwyf wedi cytuno'n ddiweddar i ddatblygu clystyrau busnes gan gychwyn gyda microglwstwr penodol i ddiwallu anghenion y busnesau lleiaf. Rydym ni hefyd yn datblygu clwstwr busnes effaith i dargedu busnesau sydd eisiau tyfu ar gyfradd o 50 y cant y flwyddyn. Bydd arweinwyr busnes yn ganolog i’r rhaglenni hyn, a byddant yn helpu i lunio ac arwain eu datblygiad—ymyrraeth strategol a arweinir gan fusnesau ar gyfer busnesau, i bob pwrpas. Er mwyn datblygu manteision cymunedol, sy'n cynnwys ein blaenoriaeth o drechu tlodi, bydd ein rhaglenni cymorth yn gweithio gyda busnesau i gyflwyno'r cyflog byw i weithlu’r diwydiant bwyd.

I recently announced that we are investing over £2.5 million during the next two years to ensure that Wales continues to have a strong presence at a series of key UK and international trade events. Trade events in 2014-15 resulted in Welsh companies securing nearly £6 million in additional business, with further opportunities identified of over £16 million. Our trade development programmes offer a range of support to improve commercial skills with the aim of opening up opportunities for producers to supply retailers, discounters, wholesalers, foodservice and independent stores. The trade engagement element of the programme seeks to build and enhance relationships and secure more listings of Welsh food and drink products.

Cyhoeddais yn ddiweddar ein bod yn buddsoddi dros £2.5 miliwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf er mwyn sicrhau bod Cymru’n parhau i fod â phresenoldeb cryf mewn cyfres o ddigwyddiadau masnach allweddol yn y DU ac yn rhyngwladol. Sicrhaodd cwmnïau o Gymru i £6 miliwn o fusnes ychwanegol trwy ddigwyddiadau masnach yn 2014-15, a nodwyd cyfleoedd pellach werth mwy nag £16 miliwn. Mae ein rhaglenni datblygu masnach yn cynnig amrywiaeth o gymorth i wella sgiliau masnachol gyda'r nod o gynnig cyfleoedd i gynhyrchwyr gyflenwi manwerthwyr, manwerthwyr disgownt, cyfanwerthwyr, siopau gwasanaeth bwyd a siopau annibynnol. Mae elfen ymgysylltiad masnach y rhaglen yn ceisio adeiladu’r cysylltiadau a’u gwella gan sicrhau bod mwy o gynnyrch bwyd a diod Cymru’n cael ei restru.

Meetings with some of the major retailers in recent months have created new listing opportunities for 30 Welsh products and new channels to market, including online. A dedicated team will help food businesses access rural development plan funding for their development needs in a straightforward way. The food investment schemes will be ready to launch soon under the new rural development programme. To achieve a joined-up approach to our skills development, our focus will be doing so through the skills implementation plan and the skills gateway to provide a simple, single access point for employers and for the workforce to identify training needs and to source appropriate support.

Mae cyfarfodydd gyda rhai o'r prif fanwerthwyr yn y misoedd diwethaf wedi creu cyfleoedd newydd ar gyfer rhestru 30 o gynhyrchion o Gymru a sianelau newydd i'r farchnad, gan gynnwys ar-lein. Bydd tîm pwrpasol yn helpu busnesau bwyd i gael mynediad at gyllid cynllun datblygu gwledig ar gyfer eu hanghenion datblygu mewn ffordd syml. Bydd y cynlluniau buddsoddi mewn bwyd yn barod i lansio'n fuan o dan y rhaglen datblygu gwledig newydd. Er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o ddatblygu ein sgiliau, byddwn yn canolbwyntio ar wneud hynny drwy'r cynllun gweithredu ar sgiliau a'r porth sgiliau i ddarparu un pwynt mynediad syml ar gyfer cyflogwyr ac i'r gweithlu nodi anghenion hyfforddiant ac i ddod o hyd i gefnogaeth briodol.

Food Innovation Wales will represent the rebranding of our research and development partners to firmly establish Wales as the centre stage for food innovation. We have also been supporting the development of the Dietary Food and Drink Wales Alliance to act as a catalyst for new product development and innovation in dietary food products. This work will be ongoing. The result of it will be seen on our shelves in years to come, but it does demonstrate that the food and drink industry in Wales is always developing and adapting to market forces.

Bydd Arloesi Bwyd Cymru yn cynrychioli ail-frandio ein partneriaid ymchwil a datblygu i sefydlu Cymru'n gadarn fel y prif lwyfan ar gyfer arloesi bwyd. Rydym ni hefyd wedi bod yn cefnogi datblygiad Cynghrair Ddietegol Bwyd a Diod Cymru i weithredu fel catalydd ar gyfer datblygu cynnyrch newydd ac arloesed mewn cynhyrchion bwyd deietegol. Bydd y gwaith hwn yn parhau. Bydd ei ganlyniad yn cael ei weld ar ein silffoedd yn y blynyddoedd i ddod, ond mae'n dangos bod y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru bob amser yn datblygu ac yn addasu i rymoedd y farchnad.

Last year, we took 14 companies to Food Matters Live, a new event dedicated to food, health and nutrition. The event brought together the industry as a whole to tackle one of the most important challenges of our time—the relationship between food, health and nutrition. Alongside our work to promote the Welsh food sector, we will also work with the industry to encourage the provision of healthier choices through reformulation, more appropriate portion sizes, healthier options, wider availability and better labelling. I am convinced, Presiding Officer, that we are on the right path to delivering on our priorities of economy, health and education through a prosperous, resilient and sustainable food economy.

Y llynedd, aethom â 14 o gwmnïau i Food Matters Live, digwyddiad newydd sy'n ymroddedig i fwyd, iechyd a maetheg. Daeth y digwyddiad â'r diwydiant yn ei gyfanrwydd ynghyd i fynd i'r afael ag un o heriau pwysicaf ein hoes—y berthynas rhwng bwyd, iechyd a maetheg. Ochr yn ochr â'n gwaith o hyrwyddo'r sector bwyd yng Nghymru, byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant i annog y ddarpariaeth o ddewisiadau iachach trwy ailffurfio, dognau a faint mwy priodol, dewisiadau iachach, dewisiadau iach ar gael yn ehangach a gwell labelu. Rwy'n argyhoeddedig, Lywydd, ein bod ni ar y llwybr cywir i gyflawni o ran ein blaenoriaethau economi, iechyd ac addysg trwy economi fwyd ffyniannus, cydnerth a chynaliadwy.

14:55 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for your detailed statement and update on the action plan for the food and drinks industry. The Welsh Government does have a very ambitious plan to grow the food and drinks sector by 30 per cent, by £7 billion, by 2020. That's very much to be welcomed. It's a challenging objective, but one that the industry thinks is achievable, with the right support from Government. Minister, you mentioned in your statement that the industry has grown by 11.5 per cent since 2012-13, but will you outline what the year-on-year growth has been in the food and drinks sector since the action plan was published a year ago? With regard to the overall growth objective, I'm sure you would agree with me it's important that this growth goal represents real-terms growth, rather than growth as a result of food inflation. So, would you confirm that the growth goal will be measured in real terms?

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad manwl a'r newyddion diweddaraf am y cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun uchelgeisiol iawn i dyfu'r sector bwyd a diod gan 30 y cant, gan £7 biliwn, erbyn 2020. Mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn. Mae'n amcan heriol, ond yn un y mae'r diwydiant yn credu sy'n gyraeddadwy, gyda'r cymorth cywir gan y Llywodraeth. Weinidog, soniasoch yn eich datganiad bod y diwydiant wedi tyfu 11.5 y cant ers 2012-13, ond a wnewch chi amlinellu beth fu'r twf o flwyddyn i flwyddyn yn y sector bwyd a diod ers cyhoeddi'r cynllun gweithredu flwyddyn yn ôl? O ran yr amcan twf cyffredinol, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno â mi ei bod yn bwysig bod y nod twf hwn yn cynrychioli twf mewn termau real, yn hytrach na thwf o ganlyniad i chwyddiant bwyd. Felly, a wnewch chi gadarnhau y bydd y nod twf yn cael ei fesur mewn termau real?

When the action plan was launched, your predecessor said, and I quote, that the plan is 'completely focused on delivery', and that all actions are time-specific and will be measured against outcomes. Indeed, the very first action was to establish a food and drinks industry board, which would be fully established in 2014, and we were told that this board would be fundamental to the successful achievement of the 30 per cent growth goal. Therefore, I welcome the announcement that the board has now got its full complement of members; I welcome that announcement today. It doesn't have a chair yet, and is yet to be fully established, so will you set out clearly why it has taken 12 months for the board to be fully established? I understand that the first meeting of the shadow board was originally scheduled to be held in December but didn't take place until March—the introductory meeting didn't take place until that point. I know that you felt that initial applications for the board's membership weren't representative of the whole food supply chain, and I'm pleased that you say the board now has the right composition, but why do you feel that there was a reluctance on behalf of parts of the industry to apply? Small businesses, for example, may struggle to take time away from their businesses, so how does the Welsh Government intend to ensure that this important part of the food and drink sector is adequately represented?

Pan lansiwyd y cynllun gweithredu, dywedodd eich rhagflaenydd, ac rwy'n dyfynnu, bod y cynllun yn 'canolbwyntio'n llwyr ar gyflawni', a bod yr holl gamau gweithredu yn benodol o ran amser ac y byddant yn cael eu mesur yn erbyn canlyniadau. Yn wir, y cam cyntaf un oedd sefydlu bwrdd diwydiant bwyd a diod, a fyddai'n cael ei sefydlu'n llawn yn 2014, a dywedwyd wrthym y byddai'r bwrdd hwn yn hanfodol i gyrraedd y nod twf o 30 y cant yn llwyddiannus. Felly, rwy'n croesawu'r cyhoeddiad bod y bwrdd wedi cael ei nifer lawn o aelodau erbyn hyn; rwy'n croesawu'r cyhoeddiad hwnnw heddiw. Nid oes ganddo gadeirydd eto, ac nid yw wedi'i sefydlu'n llawn eto, felly a wnewch chi nodi'n eglur pam mae wedi cymryd 12 mis i'r bwrdd gael ei sefydlu'n llawn? Deallaf fod cyfarfod cyntaf a drefnwyd y bwrdd cysgodol yn wreiddiol i gael ei gynnal ym mis Rhagfyr, ond ni chafodd ei gynnal tan fis Mawrth—ni chynhaliwyd y cyfarfod rhagarweiniol tan yr adeg honno. Gwn eich bod yn teimlo nad oedd y ceisiadau cychwynnol ar gyfer aelodaeth y bwrdd yn gynrychioladol o'r holl gadwyn cyflenwi bwyd, ac rwy'n falch eich bod yn dweud bod y cyfansoddiad cywir gan y bwrdd erbyn hyn, ond pam ydych chi'n teimlo bod amharodrwydd ar ran rhannau o'r diwydiant i wneud cais? Efallai y bydd busnesau bach, er enghraifft, yn cael trafferth i gymryd amser i ffwrdd o'u busnesau, felly sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod y rhan bwysig hon o'r sector bwyd a diod yn cael ei chynrychioli'n ddigonol?

By my estimations, the board is partly or wholly responsible for delivering and monitoring progress against no fewer than 39 out of the 48 action points contained in the plan. Therefore, given the delay in establishing the board, has progress stalled on 39 actions, and are you confident that the board will be able to deliver the action plan milestone dates, or will they have to be deferred or adapted in some way?

Yn ôl fy amcangyfrifon i, mae'r bwrdd yn rhannol neu'n gyfan gwbl gyfrifol am gyflawni a monitro cynnydd yn erbyn dim llai na 39 allan o'r 48 o bwyntiau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Felly, o ystyried yr oedi o ran sefydlu'r bwrdd, a yw cynnydd wedi oedi ar 39 o gamau gweithredu, ac a ydych chi'n hyderus y bydd y bwrdd yn gallu bodloni dyddiadau carreg filltir y cynllun gweithredu, neu a fydd yn rhaid iddyn nhw gael eu gohirio neu eu haddasu mewn rhyw ffordd?

On a different matter, I would also be grateful if you could explain how the Welsh Government is looking to support small and medium-sized food festivals, which may struggle to access the same level of sponsorship, compared with some of the larger food festivals. Perhaps you could explain what the Welsh Government's rationale is for cutting the funding for the small and medium-sized festivals when the action plan states that the food festivals have a beneficial impact on creating market development opportunities for microbusinesses.

Ar wahanol fater, byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi gwyliau bwyd bach a chanolig eu maint, a allai gael trafferth i gael mynediad at yr un lefel o nawdd, o'u cymharu â rhai o'r gwyliau bwyd mwy o faint. Efallai y gallech chi esbonio beth yw rhesymeg Llywodraeth Cymru dros dorri'r cyllid ar gyfer y gwyliau bach a chanolig eu maint pan fo'r cynllun gweithredu yn nodi bod y gwyliau bwyd yn cael effaith fuddiol ar greu cyfleoedd datblygu marchnad i ficrofusnesau.

I know that you're also keen on developing our export markets, and that is to be welcomed. That mustn't, of course, be at the expense or to the detriment of our home market. So, will you outline how the action plan seeks to develop a strong Welsh identity for Welsh food and drink and how you will be ensuring that there is a holistic approach to the promotion of home-grown produce here in Wales as well as abroad?

Gwn eich bod hefyd yn awyddus i ddatblygu ein marchnadoedd allforio, ac mae hynny i'w groesawu. Ni ddylai hynny, wrth gwrs, fod ar draul neu er anfantais ein marchnad gartref. Felly, a wnewch chi amlinellu sut mae'r cynllun gweithredu yn ceisio datblygu hunaniaeth Gymreig gref i fwyd a diod o Gymru, a sut byddwch chi'n sicrhau bod dull cyfannol o hyrwyddo cynnyrch cartref yma yng Nghymru yn ogystal â thramor?

The action plan also puts great emphasis on the need to address the skills gap in the food supply chain. But, in spite of that aspiration, I have been contacted by a number of businesses that have shared their frustrations at the difficulty in obtaining information on how to access training or financial support. So, would you outline what funding is available for small businesses to access training and how the Welsh Government is promoting training within the sector?

Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar yr angen i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Ond, er gwaethaf y dyhead hwnnw, mae nifer o fusnesau wedi cysylltu â mi sydd wedi rhannu eu rhwystredigaeth gyda'r anhawster o ran cael gwybodaeth am sut i gael gafael ar hyfforddiant neu gymorth ariannol. Felly, a wnewch chi amlinellu pa gyllid sydd ar gael i fusnesau bach i gael mynediad at hyfforddiant a sut mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo hyfforddiant yn y sector?

Finally, the action plan has also committed to ensuring more opportunities for small and medium-sized enterprises and micro producers to supply the public sector. So, what has the Welsh Government done to enable public sector market opportunities to be developed for the food industry and, in particular, for SMEs and micro food businesses?

Yn olaf, mae'r cynllun gweithredu hefyd wedi ymrwymo i sicrhau mwy o gyfleoedd i fentrau bach a chanolig eu maint a micro-gynhyrchwyr i gyflenwi'r sector cyhoeddus. Felly, beth mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i alluogi cyfleoedd marchnad sector cyhoeddus i gael eu datblygu ar gyfer y diwydiant bwyd ac, yn arbennig, ar gyfer busnesau bach a chanolig a microfusnesau bwyd?

15:00

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his questions and for welcoming the fact that we now have the full board up and running. We've rehearsed the arguments several times in terms of why it took longer than we had hoped to get that full board up and running, but that was because we didn't have the breadth across the industry or a board that was as diverse as we would want it to be as well. Now we have got to that point, so I am very pleased with that. That doesn't mean, as I've told you before, that the board hasn't been up and running until now. The shadow board has been extremely active over the most recent months in terms of advising Welsh Government and taking ownership of the plan under the leadership of Robin Jones. The fact that he is standing aside as chair at this point to focus on his own ever-expanding business is actually an inspiration to the rest of the food industry in Wales, and shows just what can be achieved, because his business has gone from strength to strength and it continues to go from strength to strength. That's the kind of thing that we want for all of our industries in Wales.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau ac am groesawu'r ffaith bod y bwrdd llawn yn weithredol gennym erbyn hyn. Rydym ni wedi ymarfer y dadleuon sawl gwaith o ran pam y cymerodd mwy o amser nag yr oeddem wedi gobeithio i gael y bwrdd llawn ar waith, ond roedd hynny gan nad oedd gennym ni ehangder ar draws y diwydiant neu fwrdd a oedd mor amrywiol ag y byddem yn dymuno iddo fod hefyd. Rydym ni wedi cyrraedd y pwynt hwnnw nawr, felly rwy'n falch iawn â hynny. Nid yw hynny'n golygu, fel yr wyf wedi dweud wrthych o'r blaen, nad yw'r bwrdd wedi bod yn weithredol hyd yn hyn. Mae'r bwrdd cysgodol wedi bod yn hynod weithgar dros y misoedd diweddaraf o ran cynghori Llywodraeth Cymru a chymryd cyfrifoldeb am y cynllun dan arweiniad Robin Jones. Mae'r ffaith ei fod yn ymddiswyddo fel cadeirydd nawr er mwyn canolbwyntio ar ei fusnes ei hun, sy'n ehangu drwy'r amser, yn ysbrydoliaeth i weddill y diwydiant bwyd yng Nghymru, ac mae'n dangos yn union beth y gellir ei gyflawni, oherwydd mae ei fusnes ef wedi mynd o nerth i nerth ac mae'n parhau i fynd o nerth i nerth. Dyna'r math o beth rydym ni ei eisiau i bob un o'n diwydiannau yng Nghymru.

You asked specifically about how we can make sure that small businesses are able to achieve their potential. One of the things that we are doing is introducing a food cluster programme, and we're starting that with those micro clusters. The aims of those would be to bring together people so there's significant improvement in the level of knowledge and understanding about the opportunities in terms of the market that are out there, because, often, micro companies are coming to this very new, and they don't really have an understanding of just what opportunities are out there—and there are many of them. We'll be looking for those clusters to have new networks and to develop opportunities for collective bidding for procurement, as well. So, the clusters, I think, will be a real springboard to great success for many of our micro businesses in Wales.

Holasoch yn benodol am sut y gallwn ni wneud yn siŵr y gall busnesau bach wireddu eu potensial. Un o'r pethau rydym ni'n ei wneud yw cyflwyno rhaglen clwstwr bwyd, ac rydym ni'n dechrau gyda'r micro-glystyrau hynny. Nodau'r rheini fyddai dod â phobl ynghyd fel bod gwelliant sylweddol i lefel y wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y cyfleoedd o ran y farchnad sydd ar gael, oherwydd, yn aml, mae micro-gwmnïau yn dod i hyn yn newydd iawn, ac nid oes ganddyn nhw ddealltwriaeth wirioneddol o'r union gyfleoedd sydd ar gael—ac mae llawer ohonyn nhw. Ein gobaith yw i'r clystyrau hynny gael rhwydweithiau newydd a datblygu cyfleoedd ar gyfer gwneud cais ar y cyd i gaffael, hefyd. Felly, bydd y clystyrau, rwy'n meddwl, yn fan cychwyn gwirioneddol i lwyddiant mawr i lawer o'n micro-fusnesau yng Nghymru.

You asked specifically about food festivals. Our food division has supported the development of food festivals now for 12 years. Twenty-eight food festivals were supported last year, with a total grant of £184,311. Following a review of food festivals, however, we've redefined the support that we're offering. That's taking into account our food and drink action plan and the responses that we had to our review of the food festivals in Wales. So, we now have a food festival grant scheme for 2015 being operated via a tiered system to reflect the varying size and make-up of the different food festivals in Wales, because it's not a one-size-fits-all kind of situation. So, funding of up to £5,000, £10,000 or £25,000 is being made available to food festivals. This was operated through two application windows this year. The first was in March and the second in May of this year. The outcome of the first application window was released in April, and the outcome of the second will be released very shortly indeed.

Holasoch yn benodol am wyliau bwyd. Mae ein hisadran fwyd wedi cefnogi datblygiad gwyliau bwyd ers 12 mlynedd erbyn hyn. Cefnogwyd wyth ar hugain o wyliau bwyd y llynedd, gyda chyfanswm grant o £184,311. Yn dilyn adolygiad o wyliau bwyd, fodd bynnag, rydym ni wedi ailddiffinio'r gefnogaeth yr ydym ni'n ei chynnig. Mae hynny'n cymryd ein cynllun gweithredu ar fwyd a diod i ystyriaeth a'r ymatebion a gawsom i'n hadolygiad o'r gwyliau bwyd yng Nghymru. Felly, mae gennym ni gynllun grant gwyliau bwyd ar gyfer 2015 erbyn hyn, sy'n cael ei weithredu trwy system haenau i adlewyrchu maint a chyfansoddiad amrywiol y gwahanol wyliau bwyd yng Nghymru, gan nad yw'n fath o sefyllfa lle ceir un ateb sy'n addas i bawb. Felly, mae cyllid o hyd at £5,000, £10,000 neu £25,000 yn cael ei roi ar gael i wyliau bwyd. Gweithredwyd hyn trwy ddwy ffenestr geisiadau eleni. Roedd y cyntaf ym mis Mawrth a'r ail ym mis Mai eleni. Cyhoeddwyd canlyniad y cyfnod ymgeisio cyntaf ym mis Ebrill, a bydd canlyniad yr ail yn cael ei gyhoeddi'n fuan iawn yn wir.

In terms of further support for those smaller businesses, we know that it can be difficult for smaller businesses to stop trading or to take time away from their business in terms of taking up opportunities to meet their skill need and so on, which is why we're doing work through the skills implementation plan, allowing businesses to identify their skill gaps but offering the training through the online skills gateway—so, professional development that is there and available without having to leave work for too long.

O ran cymorth pellach i'r busnesau llai hynny, rydym ni'n gwybod y gall fod yn anodd i fusnesau llai roi'r gorau i fasnachu neu i gymryd amser i ffwrdd o'u busnesau ar gyfer manteisio ar gyfleoedd i ddiwallu eu hangen sgiliau ac yn y blaen, a dyna pam rydym ni'n gwneud gwaith drwy'r cynllun gweithredu ar sgiliau, gan alluogi busnesau i nodi eu bylchau o ran sgiliau, ond gan gynnig yr hyfforddiant drwy'r porth sgiliau ar-lein—felly, mae datblygiad proffesiynol yno ac ar gael heb orfod gadael y gwaith am gyfnod rhy hir.

You asked also about procurement. Procurement is, obviously, a way in which we can seek to grow the industry in Wales. I've spoken just in questions last week and given some data as to how we're doing in terms of procurement. There is certainly room to improve, but we are procuring a significant amount for the NHS and schools from our Welsh food and drink businesses. I've commissioned a report that looks at the distribution infrastructure in Wales in relation to public sector procurement, and that will help us optimise the supply chain for businesses of all sizes, and allow smaller businesses to come together to bid through our new national procurement service for public sector contracts in future as well.

Holasoch hefyd am gaffael. Mae caffael, yn amlwg, yn ffordd y gallwn geisio tyfu'r diwydiant yng Nghymru. Rwyf wedi siarad dim ond yn ystod cwestiynau yr wythnos diwethaf ac wedi rhoi rhywfaint o ddata o ran sut rydym ni'n gwneud o ran caffael. Mae lle i wella yn sicr, ond rydym ni'n caffael llawer iawn i'r GIG ac i ysgolion o'n busnesau bwyd a diod yng Nghymru. Rwyf wedi comisiynu adroddiad sy'n ystyried y seilwaith dosbarthu yng Nghymru o ran caffael yn y sector cyhoeddus, a bydd hynny'n ein helpu ni i fanteisio i'r eithaf ar y gadwyn gyflenwi ar gyfer busnesau o bob maint, ac yn caniatáu i fusnesau llai ddod at ei gilydd i wneud cais trwy ein gwasanaeth caffael cenedlaethol newydd ar gyfer contractau sector cyhoeddus yn y dyfodol hefyd.

15:04

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf innau hefyd ddiolch i chi, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma? Ond nid oes dianc o'r ffaith, fel yr ŷm ni wedi clywed eisoes, fod yna nifer o bobl yn y sector sy'n cysylltu â fi yn teimlo bod y Llywodraeth wedi llusgo'u traed yn y fan hyn. Rwy'n cofio clywed eich rhagflaenydd chi, nôl ym mis Medi 2013, yn dweud bod yna 'urgent need' , bod yna angen ar frys i sefydlu'r bwrdd. Nawr, mae wedi cymryd dwy flynedd ac rŷm ni'n dweud 'Wel, o'r diwedd, mae'r bwrdd yn ei le'. Mae yna amser wedi mynd heibio ac mae yna bobl yn teimlo bod yna fomentwm wedi'i golli.

May I also thank you, Deputy Minister, for your statement this afternoon? But there is no getting away from the fact, as we have already heard, that many people within the sector who contact me feel that the Government has been dragging its feet in this area. I remember hearing your predecessor, back in September 2013, saying that there was an 'urgent need' to establish the board. It has taken two years and we are saying 'Well, at last, the board in place'. Time has passed and people do feel that momentum has been lost.

Mi oedd sôn am greu 'identity' bwyd a diod Cymru newydd. Rŷch chi'n dweud bod hwnnw nawr yn cael ei ailddiffinio. Rwy'n siŵr eich bod chi, Weinidog, yn barod i gydnabod nad yw hyn wedi bod yn ddelfrydol ac eich bod chi yn deall pam mae yna rwystredigaeth. Efallai y gallwch chi esbonio wrthym ni pa gamau rŷch chi'n mynd i'w cymryd i adennill y momentwm sydd ei angen i sicrhau bod y sector yn symud ymlaen fel ag y dylai hi.

There was talk about creating a new Welsh food and drink identity, and you've said that that now is being redefined. I'm sure, Minister, that you'd be willing to recognise that this hasn't been ideal and that you understand why there is some frustration out there. Perhaps you could explain to us what steps you going to take to regain the momentum that is necessary to ensure that the sector does progress as it should.

Rwyf am ategu y diolch rŷch chi wedi ei fynegi i Robin Jones. Mae'n resyn ei fod e am sefyll i lawr, ond yn amlwg mae'n bwysig bod y busnes yn dod yn gyntaf. Mae'r gair 'soon', gyda llaw, yn ymddangos gormod o weithiau yn y datganiad, hyd y gwelaf i. Rŷch chi'n dweud y bydd cadeirydd newydd yn cael ei benodi neu ei phenodi cyn bo hir. A ydym ni i gymryd y bydd hynny'n digwydd yng nghyfarfod nesaf y bwrdd, neu a allwch chi roi ychydig mwy o oleuni i ni ynglŷn â phryd bydd y swydd allweddol honno yn cael ei llenwi?

I want to echo the thanks you have given to Robin Jones. It is regrettable that he wants to stand down, but it is clear that the business must come first. The word 'soon' appears too many times in the statement, as far as I can see. You say that a new chair will be appointed 'soon'. Will that happen at the next meeting of the board, or can you give us a little more clarity as to when that crucial role will be filled?

Rwy'n croesawu'r ymrwymiad rŷch chi'n ei wneud yn eich datganiad o ran data. Yn sicr, mae angen gwaelodlin clir ar gyfer yr is-sectorau. Rwy'n cymryd y byddwch yn defnyddio'r data wedyn i sefydlu targedau twf ar gyfer pob is-sector yn unigol. Os byddwch chi, efallai y gallwch chi gadarnhau y byddwch chi wedyn yn diweddaru yr ystadegau hynny yn flynyddol fel bod modd mesur cynnydd.

I welcome the commitment that you have made in your statement in terms of data. We certainly need a clear baseline for the subsectors. I assume that you will then use those data to establish growth targets for each subsector individually. If you do so, perhaps you could confirm that you will then update those statistics annually so that we can measure progress.

Mi oedd nifer o bobl â chonsýrn mawr bod gwobrau Cymru y Gwir Flas wedi dod i ben. Byddwch chi'n cofio hynny, rwy'n siŵr. Rŷch chi'n cyfeirio at y Great Taste Awards yn eich datganiad. Y bwriad, os oeddwn i'n deall yn iawn ar y pryd, wrth gwrs, oedd creu gwobrau amgen Cymreig. A allwch chi gadarnhau mai dyna'r bwriad o hyd, neu a ydym ni i dderbyn mai'r Great Taste Awards fydd y rheini o hyn ymlaen?

Many people had great concern that the Wales the True Taste awards had come to an end. You will recall that, I'm sure. You refer to the Great Taste Awards in your statement. The intention, if I understood it correctly at the time, of course, was to create alternative Welsh awards. Can you confirm that that remains the intention, or are we to assume that the Great Taste Awards will take over from thereon in?

Rwy'n siŵr eich bod chi yn fwy ymwybodol nag unrhyw un ohonom ni o'r trafferthion sy'n wynebu cynhyrchwyr craidd y sector fwyd yma yng Nghymru. Nid oes wythnos yn mynd heibio heb ein bod ni'n clywed am doriadau pellach yn y pris llaeth, er enghraifft, a chyhoeddiad Arla yr wythnos yma yw'r diweddaraf o'r rheini. A wnewch chi ategu fan hyn y prynhawn yma eich ymrwymiad chi i weithrediad buan holl argymhellion adolygiad Andy Richardson o'r sector llaeth, yn enwedig o gwmpas y defnydd o bres Ewropeaidd? Mae yna gyfeiriad wedi bod at arian o'r cynllun datblygu gwledig—ac mi wnaeth y gair 'soon' ymddangos unwaith eto yn y cyd-destun hwnnw. A allwch chi fod yn fwy penodol ynglŷn â phryd rŷch chi'n rhagweld y bydd yr arian yn llifo i'r cyfeiriad yna?

I am sure that you will be more aware than any of us of the difficulties facing the food sector's core producers in Wales. There isn't a week that goes by without us hearing about further cuts in the price of milk, for example, and the Arla announcement this week is just the latest in a long line of those. Will you reiterate here this afternoon your commitment to the early implementation of all the recommendations in the Andy Richardson review of the dairy sector, particularly that around the use of European funds? Reference has been made to funding from the rural development plan—and the word 'soon' appeared again in that context. Can you be more specific as to when you anticipate that funding starting to flow in that direction?

O ran caffael cyhoeddus, fel sydd eisoes wedi ei grybwyll, mi oedd hi'n ddiddorol nodi adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf a oedd yn cydnabod bod 63 y cant o'r bwyd a'r diod sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dod o gyfeiriad busnesau Cymreig. Mi oedd hi'n ddiddorol hefyd nodi sectorau penodol o fewn hynny lle nad oedd y cyflawniad cystal, yn enwedig y sector milwrol, heddlu a thân: 22 y cant mae'n debyg oedd y ffigwr. Efallai y gallwch chi ymhelaethu ynglŷn â beth yn benodol ŷch chi fel Llywodraeth yn ei wneud i geisio cynyddu lefel caffael yn y sector honno yn benodol. Hefyd, rwy'n siŵr y byddwch chi fel fi, Weinidog, yn awyddus i annog awdurdodau lleol yng Nghymru i ddilyn esiampl cyngor Plaid Cymru yng Ngwynedd, sydd yn sicrhau bod 100 y cant o fwyd ysgolion y sir honno yn dod o ffynonellau lleol.

As regards public procurement, as has already been mentioned, it was interesting to note the report of the Institute of Welsh Affairs, published last week, which acknowledged that 63 per cent of the food and drink that is procured by the public sector in Wales comes from Welsh businesses. It was also interesting to see the specific sectors within that where achievement was not so good, particularly the armed forces, police and the fire service: the figure was apparently 22 per cent. Perhaps you can elaborate on what specifically you as a Government are doing to try to increase procurement levels in those sectors specifically. Also, I am sure that you, like me, Minister, will be keen to encourage local authorities in Wales to follow the example of the Plaid Cymru-led authority in Gwynedd, which ensures that 100 per cent of the county's schools source their food from local sources.

Mae rôl allweddol yr archfarchnadoedd yn ddiamheuol yn hyn o beth. Mae'n bosib y byddwch chi'n dymuno wrth ymateb i mi y prynhawn yma ein diweddaru ni o unrhyw drafodaethau pellach rŷch chi wedi'u cael gydag archfarchnadoedd ynglŷn â syniadau megis yr un sydd wedi'i grybwyll yn flaenorol o ddatblygu 'aisles' penodol i gynnyrch Cymreig, a sut y maen nhw'n mynd i fynd ati i hyrwyddo cynnyrch Cymreig.

There is undoubtedly a key role for the supermarkets in this regard. When responding to me this afternoon, perhaps you will want to give us an update on any further discussions that you've had with supermarkets about ideas such as the one that has been mentioned previously on the development of specific aisles for Welsh produce, and how they're going to actively promote Welsh products.

Yn olaf, rŷch chi'n berffaith iawn i wneud y pwynt ar ddiwedd eich datganiad ynglŷn â phwysigrwydd y cyswllt rhwng bwyd, iechyd a maeth. Dim ond ychydig yn ôl, roedd y 'British Medical Journal' yn rhybuddio mai'r argyfwng iechyd cyhoeddus nesaf y byddwn ni'n ei wynebu yn y wlad yma yw diffyg maeth ymhlith plant, a hynny fan hyn yng Nghymru mewn gwlad lle mae 86 y cant o'n tirwedd ni wedi'i neilltuo at gynhyrchiant bwyd, sydd ddim yn dderbyniol ac na ddylai wneud synnwyr o gwbl. Yn y cyd-destun yna, pa ystyriaeth ŷch chi wedi'i rhoi, er enghraifft, i roi rôl i fudiad y ffermwyr ifanc i addysgu plant a phobl ifanc ynglŷn â tharddiad bwyd a phwysigrwydd bwyta a thyfu bwyd yn lleol, a rhoi rôl iddyn nhw efallai wrth edrych ar ddyfodol mwy hirdymor y corff yna i fod yn rhyw lysgenhadon bwyd i blant a phobl ifanc Cymru?

Finally, you're quite right to make the point at the end of your statement on the importance of the link between food, health and nutrition. Only a little while ago, the 'British Medical Journal' warned that the next public health crisis we will face in this country will be malnutrition among children, and that here in Wales, in a country where 86 per cent of our landscape is designated for the production of food. That's not acceptable and doesn't make any sense in any way. In that context, what consideration have you given, for example to giving a role to the young farmers movement in educating children and young people about food sources and the importance of eating and growing food locally, and, perhaps in looking at the longer-term future of that organisation, to giving them a role as some sort of food ambassadors for children and young people in Wales?

15:09

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the questions. I'll start where he left off in terms of the young farmers and so on. You'll be familiar with the Cows on Tour initiative, which is taking farmers into schools to talk about farming to young people, often in urban areas, who have perhaps not become engaged with farming, rural life and so on. I think that's a really great initiative, and it is supported by one of the supermarkets as well, so that's a positive move.

Diolch i'r Aelod am y cwestiynau. Dechreuaf lle y gorffennodd o ran y ffermwyr ifanc ac yn y blaen. Byddwch yn gyfarwydd â'r fenter Cows on Tour, sy'n mynd â ffermwyr i mewn i ysgolion i siarad am ffermio gyda phobl ifanc, mewn ardaloedd trefol yn aml, efallai nad ydynt wedi ymgysylltu â ffermio, bywyd gwledig ac yn y blaen. Rwy'n credu bod honno'n fenter wirioneddol wych, ac fe'i cefnogir gan un o'r archfarchnadoedd hefyd, felly mae hwnnw'n gam cadarnhaol.

With regard to supermarkets, the multiple retailers do dominate the industry, with the top eight retailers accounting for about 82.6 per cent of the market share. So, it is important that Welsh Government and the industry itself have good working relationships with those supermarkets. One of the things that we do is host regular meet-the-buyer events. That brings together the major retailers, but also others, for example in tourism, hospitality, some of the high-end London stores but also smaller local buyers and so on. They bring them together with our food and drink producers, and we know that contracts often come the way of our food and drink producers as a result of those meet-the-buyer events. They're tremendously successful, and this is something that I'm committed to making the most of as we move forward as well.

O ran archfarchnadoedd, mae'r manwerthwyr lluosog yn dominyddu'r diwydiant, gyda'r wyth prif fanwerthwyr yn hawlio tua 82.6 y cant o gyfran y farchnad. Felly, mae'n bwysig bod gan Lywodraeth Cymru a'r diwydiant ei hun berthynas waith dda gyda'r archfarchnadoedd hynny. Un o'r pethau rydym ni'n ei wneud yw cynnal digwyddiadau cyfarfod y prynwr rheolaidd. Mae hynny'n dod â'r prif fanwerthwyr at ei gilydd, ond hefyd pobl eraill, er enghraifft o feysydd twristiaeth, lletygarwch, rhai o siopau mwy crand Llundain, ond hefyd prynwyr lleol llai ac yn y blaen. Maen nhw'n dod â nhw ynghyd â'n cynhyrchwyr bwyd a diod, a gwyddom fod ein cynhyrchwyr bwyd a diod yn aml yn ennill contractau o ganlyniad i'r digwyddiadau cyfarfod y prynwr hynny. Maen nhw'n hynod lwyddiannus, ac mae hyn yn rhywbeth yr wyf i wedi ymrwymo i wneud y mwyaf ohono wrth i ni symud ymlaen hefyd.

I'm pleased that the Welsh retail consortium was established last year. I think that's providing us with a really good forum in order to have those ongoing discussions with the supermarkets through that as well. I've committed again to meeting with the supermarkets in the near future to discuss what their particular plans are individually for Welsh food, Welsh produce and Welsh producers as well. Obviously, I do meet them on farm business and so on when I go and visit their development farms and so on, but I think specific meetings to discuss their plans for Wales are very important as well.

Rwy'n falch bod consortiwm manwerthu Cymru wedi cael ei sefydlu y llynedd. Rwy'n credu bod hynny'n cynnig fforwm da iawn i ni i gael y trafodaethau parhaus hynny gyda'r archfarchnadoedd drwy hynny hefyd. Rwyf wedi ymrwymo eto i gyfarfod â'r archfarchnadoedd yn y dyfodol agos i drafod beth yw eu cynlluniau penodol yn unigol ar gyfer bwyd o Gymru, cynnyrch o Gymru a chynhyrchwyr o Gymru hefyd. Yn amlwg, rwy'n cyfarfod â nhw ynghylch busnes fferm ac yn y blaen pan fyddaf yn mynd i ymweld â'u ffermydd datblygu ac yn y blaen, ond rwy'n meddwl bod cyfarfodydd penodol i drafod eu cynlluniau ar gyfer Cymru yn bwysig iawn hefyd.

You referred to the potential for European funds and the rural development programme. The rural development programme will play a key part in helping us deliver on the aspirations in our food and drink action plan, and we'll be doing that through the food business investment scheme and the supply chain development scheme, and also through knowledge transfer and innovation through Farming Connect. Our food division are already working with businesses in developing a pipeline of potential products for the RDP, to include those schemes that I've mentioned. 'Soon' in this context relates to the opening up of expressions of interest windows from July, so from next month. There'll be several of those expressions of interest windows opening over the course of the summer. As you'd expect, I'll have more to say on that particular point over the course of the Royal Welsh.

Cyfeiriasoch at y potensial ar gyfer cronfeydd Ewropeaidd a'r rhaglen datblygu gwledig. Bydd y rhaglen datblygu gwledig yn chwarae rhan allweddol i'n helpu ni i wireddu'r dyheadau yn ein cynllun gweithredu ar fwyd a diod, a byddwn yn gwneud hynny drwy'r cynllun buddsoddi mewn busnesau bwyd a'r cynllun datblygu'r gadwyn gyflenwi, a hefyd trwy drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi trwy Cyswllt Ffermio. Mae ein hisadran fwyd eisoes yn gweithio gyda busnesau i ddatblygu piblinell o gynhyrchion posibl ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig, gan gynnwys y cynlluniau hynny yr wyf wedi eu crybwyll. Mae 'yn fuan' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at agor ffenestri datganiadau o ddiddordeb o fis Gorffennaf, felly o fis nesaf. Bydd nifer o'r ffenestri datganiadau o ddiddordeb hynny'n agor yn ystod yr haf. Fel y byddech yn disgwyl, bydd gennyf ragor i'w ddweud ar y pwynt penodol hwnnw dros gyfnod y Sioe Frenhinol.

You asked about the True Taste awards. True Taste never really gained the traction that we would've liked it to gain in Wales in terms of what the public's understanding was of it, retailers' understanding of it and in terms of food producer engagement with it. However, the Great Taste awards are a well-known, well-respected brand. It's got a lot of excitement around it. It was great to bring the Great Taste judges to Wales for the first time over the past few weeks, and they spent a couple of days fully immersed in Welsh food and drink, seeing the very best that we have to offer. We put on a great programme for them, and the buzz and the energy around it were amazing. We had writers for the major national newspapers and, again, buyers for the high-end stores. This was a real opportunity to showcase Wales to the wider world, and I think that we grabbed that opportunity with both hands.

Holasoch am y gwobrau Gwir Flas. Ni wnaeth Gwir Flas erioed ennill y tyniant y byddem ni wedi hoffi iddo ei ennill yng Nghymru o ran dealltwriaeth y cyhoedd ohono, dealltwriaeth manwerthwyr ohono ac o ran ymgysylltiad cynhyrchwyr bwyd ag ef. Fodd bynnag, mae gwobrau Great Taste yn frand adnabyddus, uchel ei barch. Mae llawer o gyffro'n gysylltiedig ag ef. Roedd yn wych dod â beirniaid Great Taste i Gymru am y tro cyntaf dros yr wythnosau diwethaf, a threuliasant ddiwrnod neu ddau wedi'u trwytho'n llwyr ym mwyd a diod Cymru, gan weld y gorau sydd gennym i'w gynnig. Trefnwyd rhaglen wych ar eu cyfer, ac roedd y wefr a'r egni a oedd yn gysylltiedig â hi yn anhygoel. Roedd gennym ni ysgrifenwyr o'r papurau newydd cenedlaethol mawr ac, unwaith eto, prynwyr ar ran y siopau drutach. Roedd hwn yn gyfle gwirioneddol i arddangos Cymru i'r byd ehangach, ac rwy'n credu ein bod ni wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwnnw.

15:13 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to thank the Minister very much for today's comprehensive statement. While acknowledging the frustration of the hiatus that there's been in setting up the Food and Drink Wales Industry Board, I think it's right to pay tribute to Robin Jones for his sterling work in these early months. I'm also particularly pleased to see the inclusion of Buster Grant within the team, because he's been enormously supportive to young microbrewers particularly across Wales and has been very fulsome in the time that he's made available to support them in the work that they do. In the action plan that was published last year, it was noted that, in relation to the 30 per cent growth target, a level of detail was not available to enable a breakdown between farming and food manufacturing or between sub-sectors, such as red meat, eggs and, indeed, horticulture. It was said at the time that the intention was for these information gaps to be filled early on in the life of this plan. Deputy Minister, I'd be very grateful for an update as to how we are proceeding with actually filling those gaps so as to get a better overall picture.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am ddatganiad cynhwysfawr heddiw. Er y cydnabyddir rhwystredigaeth yr oedi a fu cyn sefydlu Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, rwy'n credu ei bod yn iawn i dalu teyrnged i Robin Jones am ei waith rhagorol yn ystod y misoedd cyntaf hyn. Rwyf hefyd yn arbennig o falch o weld Buster Grant yn cael ei gynnwys yn y tîm, gan ei fod wedi bod yn aruthrol o gefnogol i ficro-fragwyr ifanc a hynny ledled Cymru yn arbennig ac mae wedi bod yn hael iawn o ran yr amser y mae wedi ei roi i'w cefnogi yn y gwaith maen nhw'n ei wneud. Yn y cynllun gweithredu a gyhoeddwyd y llynedd, nodwyd, o ran y targed twf o 30 y cant, nad oedd lefel o fanylion ar gael i alluogi dadansoddiad rhwng ffermio a gweithgynhyrchu bwyd neu rhwng is-sectorau, fel cig coch, wyau ac, yn wir, garddwriaeth. Dywedwyd ar y pryd mai'r bwriad oedd i'r bylchau gwybodaeth hyn gael eu llenwi'n gynnar yn oes y cynllun hwn. Ddirprwy Weinidog, byddwn yn ddiolchgar iawn am y wybodaeth ddiweddaraf o ran sut rydym ni'n bwrw ymlaen â llenwi'r bylchau hynny er mwyn cael darlun cyffredinol gwell.

I'd also like to have some further detail on how you propose to foster a more positive climate in Wales for organic production. You mentioned, again in the action plan, that the nature of the organic supply chain fits more easily into a green economy model, but it is difficult to see any specifics here in relation to how you plan to harness the opportunity provided by organic production to lower the carbon footprint of the sector. Evidence from the Wales greenhouse gas emission inventory showed that, between 1993 and 2013, agriculture accounted for some 12 per cent of Wales's overall greenhouse gas emissions. There's also some very interesting work being undertaken at the moment by the British Veterinary Association on this and related matters. It is not an insignificant figure, this 12 per cent figure, and there is certainly room for significant improvement.

Hoffwn gael rhagor o fanylion hefyd am sut rydych chi'n bwriadu meithrin hinsawdd fwy cadarnhaol yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu organig. Soniasoch, unwaith eto yn y cynllun gweithredu, bod natur y gadwyn gyflenwi organig yn cyd-fynd yn haws â model economi werdd, ond mae'n anodd gweld unrhyw fanylion penodol yma o ran sut rydych chi'n bwriadu harneisio'r cyfle a gynigir gan gynhyrchiant organig i leihau ôl troed carbon y sector. Dangosodd tystiolaeth o restr allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, rhwng 1993 a 2013, bod amaethyddiaeth yn gyfrifol am tua 12 y cant o allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol Cymru. Mae rhywfaint o waith diddorol iawn yn cael ei wneud gan Gymdeithas Milfeddygon Prydain ar hyn a materion cysylltiedig hefyd ar hyn o bryd. Nid yw'n ffigur di-nod, y ffigur hwn o 12 y cant, ac yn sicr mae lle i wella'n sylweddol.

In that context, and also given a recent scrutiny session by the Environment and Sustainability Committee, we heard from the Organic Centre Wales that they felt that there was something of a loss of focus in Welsh Government policy in this area and I would welcome your reassurance in this matter.

Yn y cyd-destun hwnnw, a hefyd o ystyried sesiwn graffu ddiweddar gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, clywsom gan Ganolfan Organig Cymru eu bod yn teimlo bod rhywfaint o golli ffocws ym mholisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn a byddwn yn croesawu eich sicrwydd o ran y mater hwn.

I also share the concerns regarding the gap in the market that there is following the demise of the True Taste awards and I would urge you, Deputy Minister, to consider again whether or not there is not a role for a refreshed approach there to bring competition and focus on the sharing of good practice rather than relying entirely on what the Great Taste Awards would have to bring.

Rwyf hefyd yn rhannu'r pryderon ynghylch y bwlch yn y farchnad sy'n bodoli yn dilyn tranc y gwobrau Gwir Flas a byddwn yn eich annog chi, Ddirprwy Weinidog, i ystyried unwaith eto a oes lle ai peidio i ddull wedi'i adnewyddu yn y fan honno i ddod â chystadleuaeth a phwyslais ar rannu arfer da yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar yr hyn y byddai gan y Gwobrau Great Taste i'w gynnig.

Between 1999 and 2013, Welsh food and drink exports increased by some 113 per cent, set against an increase for the whole UK of just 103 per cent. I'd be very interested to know what these figures are to date, so that we can better understand the extent to which momentum in this direction has been maintained since the unveiling of the overall strategy.

Rhwng 1999 a 2013, cynyddodd allforion bwyd a diod o Gymru tua 113 y cant, o'i gymharu â chynnydd o ddim ond 103 y cant ar gyfer y DU gyfan. Byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn darganfod beth yw'r ffigurau hyn ar hyn o bryd, fel y gallwn ddeall yn well i ba raddau mae momentwm yn y cyfeiriad hwn wedi cael ei gynnal ers cyflwyno'r strategaeth gyffredinol.

Finally, at last week's celebration of Welsh food sponsored by the National Farmers Union, Stephen Terry, the Abergavenny-based hotelier and chef, spoke of the need, which we've heard about in this Chamber already today, to make sure that the fantastic Welsh produce that we're lucky enough to have on our doorstep is readily available from local suppliers, supermarkets and, indeed, on the menus of our restaurants. Minister, in that context, it would be very useful to have any update you have regarding dialogue with the sector and with supermarkets as to how best practice in terms of sourcing locally can be fully achieved.

Yn olaf, yn nathliad yr wythnos ddiwethaf o fwyd Cymru wedi'i noddi gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, siaradodd Stephen Terry, y perchennog gwesty a chogydd yn y Fenni, am yr angen, yr ydym wedi clywed amdano yn y Siambr hon eisoes heddiw, i sicrhau bod y cynnyrch gwych o Gymru yr ydym ni'n ddigon ffodus ei fod ar gael ar garreg ein drws i'w gael yn rhwydd oddi wrth gyflenwyr lleol, mewn archfarchnadoedd ac, yn wir, ar fwydlenni ein bwytai. Weinidog, yn y cyd-destun hwnnw, byddai'n ddefnyddiol iawn i gael unrhyw ddiweddariad sydd gennych am ddeialog gyda'r sector a chydag archfarchnadoedd ynghylch sut y gellir sicrhau arfer gorau yn llwyr o ran defnyddio cynnyrch lleol.

Finally, in relation to food security and the sustainability of Welsh food production, I was somewhat disappointed by the lack of mention, or, indeed, prioritisation, of any reference to safeguarding the future of farming itself. Without farmers, we're going to be in a very difficult place indeed with regard to the delivery of this strategy.

Yn olaf, o ran diogelwch bwyd a chynaliadwyedd cynhyrchiant bwyd Cymru, cefais fy siomi braidd gan y methiant i gyfeirio at, neu flaenoriaethu, yn wir, diogelu dyfodol ffermio ei hun. Heb ffermwyr, rydym ni'n mynd i fod mewn lle anodd iawn yn wir o ran darparu'r strategaeth hon.

15:17

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for those questions. I'll start on the issue of exports, and my apologies to Russell George, because I know that he mentioned that in his questions as well.

Diolch i'r Aelod am y cwestiynau yna. Dechreuaf ar y mater o allforion, ac ymddiheuraf i Russell George, oherwydd gwn ei fod wedi crybwyll hynny yn ei gwestiynau ef hefyd.

Since 1999, Welsh food and drink exports have increased by 102 per cent and, as of last year, the value of the food and drink exports from Wales was £263.3 million. Our top exports are dairy products and bird eggs, cereal and cereal preparations, and meat and meat preparations. Ninety per cent of our food and drink exports from Wales are to the rest of the European Community, so I think that is quite a stark picture in terms of how important the European Union is to us in terms of our food and drink industry and our exports there.

Ers 1999, mae allforion bwyd a diod o Gymru wedi cynyddu 102 y cant ac, y llynedd, £263.3 miliwn oedd gwerth yr allforion bwyd a diod o Gymru. Ein prif allforion yw cynhyrchion llaeth ac wyau adar, grawnfwyd a pharatoadau grawnfwyd, a chig a pharatoadau cig. Mae naw deg y cant o'n hallforion bwyd a diod o Gymru yn mynd i weddill y Gymuned Ewropeaidd, felly rwy'n meddwl bod hwnnw'n ddarlun eithaf trawiadol o ran pa mor bwysig yw'r Undeb Ewropeaidd i ni o ran ein diwydiant bwyd a diod a'n hallforion yno.

However, we do know that only one in 10 of our food and drink businesses at the moment actually export at all. So, I think that we've only really scratched the surface in terms of what is achievable and in terms of what's possible for exports. The development of both new and existing export opportunities is a priority for the Welsh Government, and some of those actions are set out in our action plan.

Fodd bynnag, rydym ni'n gwybod mai dim ond un o bob 10 o'n busnesau bwyd a diod sy'n allforio o gwbl ar hyn o bryd. Felly, rwy'n meddwl mai dim ond crafu'r wyneb rydym ni wedi ei wneud o ran yr hyn y gellir ei gyflawni ac o ran yr hyn sy'n bosibl i allforion. Mae datblygu cyfleoedd allforio newydd a phresennol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a nodir rhai o'r camau gweithredu hynny yn ein cynllun gweithredu.

We have a comprehensive programme of export support for businesses and that helps businesses to go and attend international fairs to showcase their products. We have a number of food and drink producers in New York as we speak today, and they have access to around 27,000 buyers from major American stores, retailers, hospitality and so on. So, we have a great showcase over there at the moment, but that's just one of many international events that we hold. I recently announced funding of £2.5 million to allow our Welsh food and drink businesses to attend these kinds of fairs over the next two years.

Mae gennym raglen gynhwysfawr o gymorth allforio i fusnesau ac mae hynny'n helpu busnesau i fynd i ffeiriau rhyngwladol i arddangos eu cynhyrchion. Mae gennym nifer o gynhyrchwyr bwyd a diod yn Efrog Newydd wrth i ni siarad heddiw, ac mae ganddyn nhw fynediad at tua 27,000 o brynwyr o siopau, manwerthwyr a chwmnïau lletygarwch mawr ac yn y blaen yn America. Felly, mae gennym ni gyfle gwych i arddangos draw yn y fan honno ar hyn o bryd, ond dim ond un o nifer o ddigwyddiadau rhyngwladol rydym ni'n eu cynnal yw hwnnw. Yn ddiweddar, cyhoeddais gyllid o £2.5 miliwn i alluogi ein busnesau bwyd a diod o Gymru i fynychu'r mathau hyn o ffeiriau dros y ddwy flynedd nesaf.

You referred to organics and organic production being particularly important in terms of our green growth agenda. The organic market in Wales is worth £96 million through supermarket sales and estimated to be around £100 million to £140 million through all of the different retailers, including the smaller local and farm stores and so on. Organic businesses have reported a 53 per cent increase in sales in the last year and we expect these trends to continue—I think that's really good news—and dairy is a particularly expanding part of the organic industry as well. So, I think that's also very positive.

Cyfeiriasoch at y ffaith fod bwydydd organig a chynhyrchiant organig yn arbennig o bwysig o ran ein hagenda twf gwyrdd. Mae'r farchnad organig yng Nghymru werth £96 miliwn trwy werthiant mewn archfarchnadoedd ac amcangyfrifir gwerth o oddeutu £100 miliwn i £140 miliwn drwy'r holl wahanol fanwerthwyr, gan gynnwys y siopau llai lleol a siopau fferm ac yn y blaen. Mae busnesau organig wedi adrodd cynnydd o 53 y cant mewn gwerthiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rydym ni'n disgwyl i'r tueddiadau hyn barhau—rwy'n credu bod hynny'n newyddion da iawn—ac mae cynnyrch llaeth yn rhan o'r diwydiant organig sy'n ehangu'n arbennig hefyd. Felly, rwy'n credu bod hynny'n gadarnhaol iawn hefyd.

Specific actions within the food and drink action plan relate specifically to the organic sector. These include increasing sales of Welsh produce at supermarkets, collaborating with sector partners on joint market development and promotional activities, reducing our ecological footprint, sustainable jobs and green growth, and the national food and nutrition strategy, which is also referred to in the document.

Mae camau gweithredu penodol yn y cynllun gweithredu ar fwyd a diod yn berthnasol i'r sector organig yn benodol. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu gwerthiant cynnyrch o Gymru mewn archfarchnadoedd, cydweithio gyda phartneriaid yn y sector ar weithgareddau datblygu'r farchnad a hyrwyddo ar y cyd, lleihau ein hôl troed ecolegol, swyddi cynaliadwy a thwf gwyrdd, a'r strategaeth bwyd a maeth genedlaethol, y cyfeirir ati yn y ddogfen hefyd.

You did mention horticulture, so, it's worth noting that the sector is relatively small. However, we are seeing it grow slowly. So, I think that that's an interesting observation as well.

Soniasoch am arddwriaeth, felly, mae'n werth nodi bod y sector yn gymharol fach. Fodd bynnag, rydym ni'n ei weld yn tyfu'n araf. Felly, rwy'n meddwl bod hwnnw'n sylw diddorol hefyd.

You asked about greenhouse gas emissions, and, of course, the wider RDP is very important in terms of how we target our money in terms of getting value for money from those people who are beneficiaries of it in terms of helping Welsh Government meet its international and own goals in terms of cutting our greenhouse gas emissions. So, under the new RDP, people who are in receipt of funding from it will have to demonstrate that they are delivering green growth, so, they're delivering goods that are good economically, socially and environmentally.

Holasoch am allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac, wrth gwrs, mae'r Cynllun Datblygu Gwledig ehangach yn bwysig iawn o ran sut yr ydym ni'n targedu ein harian o ran cael gwerth am arian gan y bobl hynny sy'n elwa arno o ran helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei nodau rhyngwladol a rhai ei hun o ran lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr. Felly, o dan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd, bydd yn rhaid i bobl sy'n derbyn cyllid ohono ddangos eu bod yn cyflawni twf gwyrdd, felly, maen nhw'n darparu nwyddau sy'n dda yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

15:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. We've already used up the time allocated by the Business Committee, and I have three more speakers. So, can I ask the rest of the speakers to be a little more concise, if possible? Jenny Rathbone.

Diolch yn fawr. Rydym ni wedi defnyddio'r amser a neilltuwyd gan y Pwyllgor Busnes eisoes, ac mae gennyf dri o siaradwyr eraill. Felly, a gaf i ofyn i weddill y siaradwyr i fod ychydig yn fwy cryno, os yn bosibl? Jenny Rathbone.

15:21

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Llywydd. I just wanted to pick up on the point you made about the horticulture industry being small but growing, and how we can develop that much more quickly. Because, if we want all our local education authorities to locally source their school foods, as Gwynedd is doing, as mentioned by Llyr Gruffydd, we're going to have to develop a great deal more fruit and vegetables to make that possible.

Diolch i chi, Lywydd. Hoffwn ymhelaethu ar y pwynt a wnaethoch chi am y ffaith fod y diwydiant garddwriaeth yn fach ond yn tyfu, a sut y gallwn ni ddatblygu hynny'n llawer cyflymach. Oherwydd, os ydym ni eisiau i'n holl awdurdodau addysg lleol gael eu bwydydd ysgol o ffynonellau lleol, fel y mae Gwynedd yn ei wneud, fel y crybwyllodd Llyr Gruffydd, rydym ni'n mynd i orfod datblygu llawer mwy o ffrwythau a llysiau i wneud hynny'n bosibl.

You will have seen the farm to fork series featuring a farmer, Gareth Wyn Jones, and the difficulties he had in sourcing local food to enable primary schools to deliver exactly that, healthy food for life, for primary school children in Cardiff. I just wondered, when we have so much diet-related disease across Wales, and too much of the food that we import is actually poisoning our communities on the altar of profits, what we can do to deliver a much healthier nation through developing more of our own food industry.

Byddwch wedi gweld y gyfres o'r pridd i'r plât gyda'r ffermwr Gareth Wyn Jones, a'r anawsterau a gafodd yn dod o hyd i fwyd lleol i alluogi ysgolion cynradd i ddarparu'n union hynny, bwyd iach am oes, i blant ysgol gynradd yng Nghaerdydd. Roeddwn i'n meddwl tybed, pan fo gennym ni gymaint o salwch sy'n gysylltiedig â deiet ledled Cymru, a bod gormod o'r bwyd rydym ni'n ei fewnforio yn gwenwyno ein cymunedau ar allor elw, beth allwn ni ei wneud i ddarparu cenedl llawer iachach trwy ddatblygu mwy o'n diwydiant bwyd ein hunain.

Now, I'm sure you'll be aware of the 'Good Food for All' report that was published last week, with a foreword by the Presiding Officer, which asks us to consider three things to deliver a Good Food Nation in the first instance: one, boosting the power of purchase so that we use our procurement powers to ensure that we are procuring local food and stimulating local markets. The second is to deliver good food in the public sector. So, that's not just here in the National Assembly, where we obviously have an excellent catering service, but in all our Welsh Government canteen outlets. The third, and most important in my view, is getting Food for Life in all our schools. If Oldham can do it, why can't Wales?

Nawr, rwy'n siŵr y byddwch chi'n ymwybodol o'r adroddiad 'Bwyd Da i Bawb' a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, gyda rhagair gan y Llywydd, a oedd yn gofyn i ni ystyried tri pheth i gyflwyno Cenedl Bwyd Da yn y lle cyntaf: un, hybu'r pŵer prynu fel ein bod yn defnyddio ein pwerau caffael i sicrhau ein bod yn caffael bwyd lleol ac yn ysgogi marchnadoedd lleol. Yr ail yw darparu bwyd da yn y sector cyhoeddus. Felly, nid yw hynny yma yn y Cynulliad Cenedlaethol yn unig, lle mae gennym ni wasanaeth arlwyo ardderchog, yn amlwg, ond yn holl ffreuturau Llywodraeth Cymru. Y trydydd, a'r pwysicaf yn fy marn i, yw cael Bwyd am Oes yn ein holl ysgolion. Os gall Oldham wneud hynny, pam na all Cymru?

What can we do to ensure that, under your action point 2, quality and traceability, we ensure that we are developing the Food for Life catering mark, so that parents and children understand and know where food comes from and are eating a healthy, balanced diet? Because 'Towards Sustainable Growth' is the title of the report that was published last year; the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 obliges us to do that, and the social need to tackle diet-related disease across the nation, particularly amongst the poorest communities. I wondered if you can tell us a bit more about how we're going to do that.

Beth allwn ni ei wneud i sicrhau, o dan eich pwynt gweithredu 2, ansawdd a gallu i olrhain, ein bod yn sicrhau ein bod yn datblygu'r nod arlwyo Bwyd am Oes, fel bod rhieni a phlant yn deall ac yn gwybod o ble mae bwyd yn dod ac yn bwyta deiet iach a chytbwys? Gan mai 'Tuag at Dwf Cynaliadwy' yw teitl yr adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd; mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein rhwymo i ni wneud hynny, a'r angen cymdeithasol i fynd i'r afael â salwch sy'n gysylltiedig â deiet ar draws y wlad, yn enwedig ymhlith y cymunedau tlotaf. Roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi ddweud ychydig mwy wrthym ni am sut yr ydym ni'n mynd i wneud hynny.

15:24

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those questions. The Welsh network of healthy school schemes encourages the development of local healthy school schemes within a national framework. I'm sure that you're very familiar with those. Ninety-nine per cent of maintained schools are actively involved in that at the moment. Officials are currently liaising with the Department for Environment, Food and Rural Affairs on the school milk strategy going forward, and this is how we implement the EU school milk scheme for the years 2015-16. This is something on which I'll be having discussions with my counterparts at the next agri council in Brussels in July. Officials are also in ongoing discussion with education in terms of the curriculum, to explore opportunities to include more healthy eating education in the school curriculum, and the Food Standards Agency are also engaged in that agenda. So, that's just an example, really, of how cross-cutting the food and drink action plan is, touching on almost every part of Welsh Government and our responsibilities.

Diolch i chi am y cwestiynau yna. Mae cynlluniau ysgolion iach rhwydwaith Cymru yn annog datblygiad cynlluniau ysgolion iach lleol o fewn fframwaith cenedlaethol. Rwy'n siŵr eich bod yn gyfarwydd iawn â'r rheini. Mae naw deg naw y cant o ysgolion a gynhelir yn cymryd rhan weithredol yn hynny ar hyn o bryd. Mae swyddogion wrthi'n trafod ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y strategaeth llaeth mewn ysgolion yn y dyfodol, a dyma sut rydym ni'n gweithredu cynllun llaeth mewn ysgolion yr UE ar gyfer y blynyddoedd 2015-16. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn cael trafodaethau arno gyda'm cymheiriaid yn y cyngor amaeth nesaf ym Mrwsel ym mis Gorffennaf. Mae swyddogion hefyd yn cynnal trafodaethau parhaus gyda'r maes addysg o ran y cwricwlwm, i archwilio cyfleoedd i gynnwys addysg bwyta'n iachach yng nghwricwlwm ysgolion, ac mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd hefyd yn cymryd rhan yn yr agenda honno. Felly, dim ond enghraifft yw honno, mewn gwirionedd, o ba mor drawsbynciol yw'r cynllun gweithredu ar fwyd a diod, gan gyffwrdd ar bron bob rhan o Lywodraeth Cymru a'n cyfrifoldebau.

The Welsh Government's created and imposed mandatory nutritional standards for food and drink served in schools, but also to patients in hospitals. Voluntary guidance has also been developed for other food served in hospitals, for example, to staff and visitors and so on, and for leisure centres, youth clubs and pre-school settings as well. We also have an all-Wales nutrition care pathway, which has been introduced across all wards, and that's supported by an all-Wales menu framework. So, these are some of the frameworks that Welsh Government colleagues have put in place in order to address some of the issues to which you referred, beyond the food and drink portfolio itself.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio a gorfodi safonau maeth gorfodol ar gyfer bwyd a diod a weinir mewn ysgolion, ond hefyd i gleifion mewn ysbytai. Datblygwyd canllawiau gwirfoddol hefyd ar gyfer bwyd arall a weinir mewn ysbytai, er enghraifft, i staff ac ymwelwyr ac yn y blaen, ac ar gyfer canolfannau hamdden, clybiau ieuenctid a lleoliadau cyn-ysgol, hefyd. Mae gennym ni lwybr gofal maeth Cymru gyfan hefyd, sydd wedi cael ei gyflwyno ar draws pob ward, ac mae hwnnw wedi ei gefnogi gan fframwaith bwydlen Cymru gyfan. Felly, dyma rai o'r fframweithiau y mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion y cyfeiriasoch atynt, y tu hwnt i'r portffolio bwyd a diod ei hun.

The horticulture sector: the output at the moment is around 2.3 per cent of the total share of the Welsh agriculture industry. It's worth about £1.3 million, or it certainly was the last time we had figures for. In terms of the sector, there are around 1,500 hectares of land being used for horticulture at the moment, but, as I say, it is growing. Glyndŵr University, under the previous rural development plan, secured funding for the delivery of the horticulture supply chain project. That was called Horticulture Wales. That was through the supply chain efficiency scheme, and that was to undertake market intelligence, act as a central reference point for Welsh horticulture businesses, and identify and evaluate market opportunities, and also assist in the development of brands for horticulture and meet the demand for Welsh produce. That's due to come to an end in 2015, so very shortly, but I will be looking at that to see what we can learn from it and what we can take into the next rural development programme.

Y sector garddwriaeth: mae'r allbwn ar hyn o bryd tua 2.3 y cant o gyfanswm cyfran y diwydiant amaeth yng Nghymru. Mae'n werth tua £1.3 miliwn, neu yn sicr mi oedd y tro diwethaf yr oedd gennym ni ffigurau ar ei gyfer. O ran y sector, mae tua 1,500 hectar o dir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer garddwriaeth ar hyn o bryd, ond, fel y dywedais, mae'n tyfu. Sicrhaodd Prifysgol Glyndŵr, o dan y cynllun datblygu gwledig blaenorol, gyllid ar gyfer darparu'r prosiect cadwyn cyflenwi garddwriaeth. Garddwriaeth Cymru oedd enw hwnnw. Roedd hynny trwy gynllun effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi, ac roedd hynny i ymchwilio i'r farchnad, i weithredu fel pwynt cyfeirio canolog i fusnesau garddwriaeth yng Nghymru, ac i nodi a gwerthuso cyfleoedd yn y farchnad, a hefyd i gynorthwyo i ddatblygu brandiau ar gyfer garddwriaeth a bodloni'r galw am gynnyrch o Gymru. Bydd hwnnw'n dod i ben yn 2015, yn fuan iawn felly, ond byddaf yn edrych ar hwnnw i weld beth allwn ni ei ddysgu oddi wrtho a'r hyn y gallwn ei gymryd i mewn i'r rhaglen datblygu gwledig nesaf.

15:26

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, thank you for your statement. I would be grateful for some very long and detailed answers to the short and pertinent questions that I have to put to you today. Obviously, we need to protect the primary agricultural sector, because without the primary product—milk, beef, lamb, cereals—then there's very little chance of having a processing sector that can add value and meet some of the goals that you set out in this statement. I have to say, I'm not convinced by your actions to date that you are looking after the primary sector. Can you give us some assurance that your interests are in making sure that we have a very vibrant beef, sheep, milk and arable sector to provide the processing food that we need to turn into the shelf product that consumers buy? Then, feeding into that, what actions are you taking to develop a processing sector here in Wales? In south Wales, for example, we haven't got a major milk-processing facility, whereas 10 years ago there were several, and, in north Wales, there isn't a major abattoir to process lamb and beef, which are obviously the primary produce of that particular area. So, whilst the words in your statement are very welcome, how are you actually going to implement lots of that in practice, given that the track record of the Welsh Government to date has been lamentable?

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad. Byddwn yn ddiolchgar am atebion hir a manwl iawn i'r cwestiynau byr a pherthnasol sydd gen i i'w gofyn i chi heddiw. Yn amlwg, mae angen i ni amddiffyn y sector amaethyddol sylfaenol, oherwydd heb y prif gynnyrch—llaeth, cig eidion, cig oen, grawnfwydydd—yna prin iawn yw'r siawns o gael sector prosesu sy'n gallu ychwanegu gwerth a bodloni rhai o'r nodau i chi eu cyflwyno yn y datganiad hwn. Mae'n rhaid i mi ddweud, nid wyf wedi fy argyhoeddi gan eich gweithredoedd hyd yma eich bod yn gofalu am y sector sylfaenol. A allwch chi roi rhywfaint o sicrwydd i ni bod eich diddordeb mewn gwneud yn siŵr bod gennym sector eidion, defaid, llaeth ac âr bywiog iawn i ddarparu'r prosesu bwyd sydd ei angen arnom i'w droi i mewn i'r cynnyrch silff y mae defnyddwyr yn ei brynu? Yna, yn bwydo i mewn i hynny, pa gamau ydych chi'n eu cymryd i ddatblygu sector prosesu yma yng Nghymru? Yn y de, er enghraifft, nid oes gennym ni gyfleuster prosesu llaeth mawr, er bod sawl un 10 mlynedd yn ôl, ac, yn y gogledd, nid oes lladd-dy mawr i brosesu cig oen a chig eidion, sef prif gynhyrchion yr ardal benodol honno, yn amlwg. Felly, er bod y geiriau yn eich datganiad i'w croesawu'n fawr, sut mewn gwirionedd ydych chi'n mynd i roi llawer o hynny ar waith yn ymarferol, o gofio bod hanes Llywodraeth Cymru hyd yma wedi bod yn druenus?

15:28 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would have found your contribution a little bit more helpful had you been able to go into some kind of detail as to your concerns as to how I have been supporting, or not, the Welsh beef, sheep and milk sectors. So, I look forward to that. As I told you last time during questions, with regard to our dairy plan, we are currently scoping out that option and looking to do that project for the south-east Wales processing for dairy. I have told you that previously. With regard to the way forward, you'll be aware that we recently launched our agriculture strategy for Wales, and that was developed in partnership with the industry itself. So, it's certainly Welsh Government and industry standing shoulder to shoulder to drive the industry forward to where we need it to be, in terms of being an industry that is profitable for the farmers, delivers public goods for Wales, in terms of being resilient to market forces and to unexpected events such as weather and so on. So, the Welsh Government is fully behind the industry, and we are working fully in partnership with the industry.

Byddai eich cyfraniad wedi bod ychydig yn fwy defnyddiol yn fy marn i pe byddech chi wedi gallu cynnig rhyw fath o fanylion am eich pryderon o ran sut yr wyf wedi bod yn cefnogi, neu ddim wedi bod yn cefnogi, sectorau eidion, defaid a llaeth Cymru. Felly, edrychaf ymlaen at hynny. Fel y dywedais wrthych y tro diwethaf yn ystod cwestiynau, o ran ein cynllun llaeth, rydym ni wrthi'n cwmpasu'r dewis hwnnw ar hyn o bryd, ac yn bwriadu cyflawni'r prosiect hwnnw ar gyfer prosesu llaeth yn y de-ddwyrain. Rwyf wedi dweud hynny wrthych chi o'r blaen. O ran y ffordd ymlaen, byddwch yn ymwybodol ein bod wedi lansio ein strategaeth amaeth i Gymru yn ddiweddar, a datblygwyd honno mewn partneriaeth â'r diwydiant ei hun. Felly, mae Llywodraeth Cymru a'r diwydiant yn sicr yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd i yrru'r diwydiant yn ei flaen i lle rydym ni angen iddo fod, o ran bod yn ddiwydiant sy'n gwneud elw i'r ffermwyr, yn darparu nwyddau cyhoeddus i Gymru, o ran bod yn wydn i rymoedd y farchnad ac i ddigwyddiadau annisgwyl fel y tywydd ac yn y blaen. Felly, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r diwydiant yn llawn, ac rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth lawn â'r diwydiant.

15:29 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un agwedd ar eich strategaeth bwyd a diod yw gwin o Gymru. Fe fu Gweinidog yr economi yn ymweld â gwinllan Pant Du yn Nyffryn Nantlle yn ddiweddar.

One aspect of your food and drink strategy is wine from Wales. The Minister for the economy and I visited the Pant Du vineyard in the Nantlle vale recently.

15:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You really should get your translation sorted before the event—before your actual debate. Are you all right now? Yes? Alun Ffred, could you start again?

15:29 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sôn oeddwn i am y strategaeth bwyd a diod a phwysigrwydd gwin o Gymru. Roeddwn yn sôn bod Gweinidog yr economi wedi bod yn ymweld â gwinllan Pant Du yn Nyffryn Nantlle, a'ch bod chithau'n bwriadu mynd yno yn y dyfodol agos. Mae dweud 'gwinllan' a 'Dyffryn Nantlle' yn yr un frawddeg yn dal i fod yn egsotig iawn yn fy meddwl i. Beth bynnag, mae cynnyrch gwin de Lloegr yn cael llawer iawn o sylw y dyddiau yma—llawer iawn o farchnata—ond nid oes yna fawr ddim o farchnata na hybu gwin o Gymru. Yn wir, os ewch ar wefan 'wines from Wales', fe welwch chi—'English wine producers: Wales.' Felly, a ydych yn bwriadu cyfarfod â chynrychiolwyr o'r diwydiant—ac mae 15 gwinllan yng Nghymru—yn y dyfodol agos, er mwyn ceisio rhoi mwy o hwb i winoedd o Gymru?

I was talking about the food and drink strategy and the importance of Welsh wine. I mentioned that the Minister for the economy visited the Pant Du vineyard in the Nantlle vale, and that you intend to visit it in the near future. Saying 'vineyard' and 'Nantlle vale' in the same sentence still seems rather exotic to my mind. But the produce of the south of England vineyards get a lot of attention and marketing these days, but there is very little promotion and marketing of wines from Wales. Indeed, if you go on the wines from Wales website, you will see—English wine producers: Wales. So, do you intend to meet with representatives from the industry—there are 15 vineyards in Wales—in the near future, in order to give more of a boost to wines from Wales?

15:30 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I do intend to do just that. I have a visit planned for Pant Du, and also Ancre Hill, to discuss issues facing the wine industry in Wales. Actually, it's quite an exciting time, I think, for the wine industry in Wales. Welsh wines are gaining an international reputation, aided by Welsh Wine Week, which I think gives the industry a boost, and we're looking at the New Zealand model to develop a home-grown wine industry, and we think that that model might have some relevance to us here in Wales as well. So, I think in terms of the drink sector, which will be a hugely important part of delivering on our ambitious plans for the food and drink sector, to grow it by 30 per cent by 2020, it is looking like a very exciting area. We know that cider in particular is the fastest growing of our drink sectors. I do my bit, as I can, for that. [Assembly Members: 'Hear, hear.'] Thank you. And I think there's a lot to be excited about in terms of Welsh wine, Welsh beer, Welsh lager, cider and perry and spirits and soft drinks.

Ydw, rwy'n bwriadu gwneud yn union hynny. Rwyf wedi trefnu ymweliad â Phant Du, ac Ancre Hill hefyd, i drafod materion sy'n wynebu'r diwydiant gwin yng Nghymru. A dweud y gwir, mae'n gyfnod eithaf cyffrous, rwy'n credu, i'r diwydiant gwin yng Nghymru. Mae gwinoedd o Gymru'n datblygu enw da yn rhyngwladol, gyda chymorth Wythnos Gwin Cymru, yr wyf yn credu sy'n rhoi hwb i'r diwydiant, ac rydym ni'n edrych ar fodel Seland Newydd i ddatblygu diwydiant gwin cartref, ac rydym ni'n credu y gallai'r model hwnnw fod â rhywfaint o berthnasedd i ni yma yng Nghymru hefyd. Felly, rwy'n meddwl o ran y sector diod, a fydd yn rhan hynod bwysig o gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y sector bwyd a diod, i'w dyfu 30 y cant erbyn 2020, ei fod yn edrych fel maes cyffrous iawn. Rydym ni'n gwybod mai seidr yn arbennig yw ein sector diod sy'n tyfu gyflymaf. Rwy'n gwneud fy rhan, fel gallaf, dros hynny. [Aelodau'r Cynulliad: 'Clywch, clywch.'] Diolch yn fawr. Ac rwy'n meddwl bod llawer i fod yn gynhyrfus amdano o ran gwin Cymru, cwrw Cymru, lager Cymru, seidr a gellygwin a gwirodydd a diodydd meddal.

15:31

# 4. Datganiad: Y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol—Flwyddyn ers ei Chyflwyno

# 4. Statement: The Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Act—One Year since Introduction

Senedd.tv
Fideo Video

**Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is a statement by the Minister for Public Services on the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015—one year since its introduction. I call on the Minister, Leighton Andrews.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015—blwyddyn ar ôl ei chyflwyno. Galwaf ar y Gweinidog, Leighton Andrews.

15:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

It's been a full calendar year since my predecessor Lesley Griffiths introduced the then Gender-Based Violence, Domestic Abuse, and Sexual Violence (Wales) Bill. A substantial amount of work and progress has been undertaken since then. The provisions in the Bill were strengthened considerably throughout its scrutiny in the Assembly. Implementation of the Act is a key priority of this Welsh Government. Since Royal Assent, I've agreed a detailed implementation plan for the Act, which sets out a comprehensive, ambitious programme of work that needs to be delivered over the coming months.

Mae wedi bod yn flwyddyn galendr gyfan ers i fy rhagflaenydd Lesley Griffiths gyflwyno'r Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), fel yr oedd ar y pryd. Mae cryn dipyn o waith a chynnydd wedi ei wneud ers hynny. Cryfhawyd darpariaethau'r Bil yn sylweddol drwy gydol y cyfnod craffu arno yn y Cynulliad. Mae gweithredu'r Ddeddf yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Ers cael Cydsyniad Brenhinol, rwyf wedi cytuno ar gynllun gweithredu manwl ar gyfer y Ddeddf, sy'n nodi rhaglen gynhwysfawr ac uchelgeisiol o waith y mae angen ei gyflawni dros y misoedd nesaf.

This statement marks a year since the Act was introduced and I want to focus on the progress we've made since then. There are a significant range of education measures under way to support the implementation of the Act. The Minister for Education and Skills and I are agreed on this agenda. We want organisations that support victims and survivors directly involved in the implementation of the successful futures report and the shape of a future curriculum to ensure that healthy relationships are a key consideration. Welsh Women's Aid is developing for us a whole-education approach good practice guide for local authorities and schools to be published in the autumn. This will help to inform the statutory guidance on championing the issue of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence matters in schools and other settings for consultation in early 2016. We're developing regulations to bring into force a duty on local authorities to report annually on the action they're taking to address these issues in education settings, including schools. We will consult on the policy underlying these regulations in the new year, ready to come into force in time for the 2016-17 academic year.

Mae'r datganiad hwn yn nodi blwyddyn ers i'r Ddeddf gael ei chyflwyno ac rwyf eisiau canolbwyntio ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud ers hynny. Mae amrywiaeth sylweddol o fesurau addysg ar y gweill i gefnogi gweithrediad y Ddeddf. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau yn cytuno ar yr agenda hon. Rydym eisiau i sefydliadau sy'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r adroddiad dyfodol llwyddiannus a ffurf cwricwlwm y dyfodol i sicrhau bod perthnasoedd iach yn ystyriaeth allweddol. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn datblygu canllawiau arfer da ar sail addysg gyfan i ni ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion, sydd i'w gyhoeddi yn yr hydref. Bydd hwn o gymorth i hysbysu'r canllawiau statudol ar hyrwyddo materion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ysgolion a lleoliadau eraill er mwyn ymgynghori yn gynnar yn 2016. Rydym yn datblygu rheoliadau er mwyn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad blynyddol ar y camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn lleoliadau addysg, gan gynnwys ysgolion. Byddwn yn ymgynghori ar y polisi sy'n sail i'r rheoliadau hyn yn y flwyddyn newydd, fel eu bod yn barod i ddod i rym mewn pryd ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-17.

Work is also under way on a range of other commitments—a national violence against women, domestic abuse, and sexual violence education conference this autumn; a review of healthy relationships teaching resources to ensure schools have quality materials; work with safeguarding leads and Governors Wales to embed whole-school approach practices; the strengthening of our anti-bullying guidance and continuing our support of Hafan Cymru's Spectrum schools programme and Welsh Women's Aid's Children Matter project.

Mae gwaith ar y gweill hefyd ar ystod o ymrwymiadau eraill—cynhadledd genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, ac addysg trais rhywiol yr hydref hwn; adolygiad o'r adnoddau addysgu yn ymwneud â pherthnasoedd iach i sicrhau bod gan ysgolion ddeunyddiau o ansawdd da; gweithio gydag arweinyddion diogelu a Llywodraethwyr Cymru i ymwreiddio arferion dull ysgol gyfan; cryfhau ein canllawiau gwrth-fwlio a pharhau â'n cefnogaeth i raglen ysgolion Sbectrwm Hafan Cymru a phrosiect Mae Plant yn Bwysig Cymorth i Ferched Cymru.

One of my first actions was to begin the public appointments process for recruiting the first national adviser for violence against women and other forms of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. The interviews for this position took place last week and I look forward to announcing the appointment of the successful candidate shortly. The national adviser has a key role to play in the Act's implementation. One of their first tasks will be the development of a national strategy and key indicators, working closely with stakeholders to identify best practice and improvements in service delivery. I will publish the national training framework for public consultation shortly. This is one of my top priorities, to ensure that high-quality and consistent training is available to those across the public and specialist sector.

Un o fy nghamau gweithredu cyntaf oedd dechrau'r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer recriwtio'r cynghorydd cenedlaethol cyntaf ar gyfer trais yn erbyn menywod a mathau eraill o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yr wythnos diwethaf, ac rwy'n edrych ymlaen at gyhoeddi penodiad yr ymgeisydd llwyddiannus cyn bo hir. Mae gan y cynghorydd cenedlaethol swyddogaeth allweddol i'w chwarae wrth weithredu'r Ddeddf. Un o'i dasgau cyntaf fydd y gwaith o ddatblygu strategaeth genedlaethol a dangosyddion allweddol, gan weithio'n agos â rhanddeiliaid i nodi arfer gorau a gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau. Byddaf yn cyhoeddi'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn fuan. Mae hwn yn un o fy mhrif flaenoriaethau, er mwyn sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel a chyson ar gael i bobl ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus a'r sector arbenigol.

However, much of this work is already well under way. We have invested heavily in the provision of training and recently completed testing an e-learning course, which will raise awareness for 0.25 million Welsh public service workers. The ambition and reach of the framework is unprecedented and marks the beginning of a fundamental shift in attitudes of our public services towards these important issues.

Fodd bynnag, mae llawer o'r gwaith hwn eisoes ar y gweill. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y ddarpariaeth o hyfforddiant ac yn ddiweddar cwblhawyd profion ar gwrs e-ddysgu, a fydd yn codi ymwybyddiaeth ar gyfer 0.25 miliwn o weithwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae uchelgais a chyrhaeddiad y fframwaith yn ddigynsail ac mae'n nodi dechreuad newid sylfaenol yn agweddau ein gwasanaethau cyhoeddus tuag at y materion pwysig hyn.

To support public sector bodies to carry out their duties under the Act, we are preparing a suite of guidance documents. Members will remember that during the Bill's scrutiny, examples of draft guidance were provided on the framework, on 'ask and act', and on multi-agency collaboration. All three pieces of guidance are currently being reviewed and will be issued for consultation in the summer, before being adopted in the new year. Additional statutory guidance on the effective commissioning of specialist services, working with perpetrators, supporting older victims and on a whole-education approach is also being prepared and will be consulted upon over the next 12 months.

I gefnogi cyrff sector cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, rydym yn paratoi cyfres o ddogfennau arweiniol. Bydd yr Aelodau'n cofio, yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil, y darparwyd enghreifftiau o ganllawiau drafft ar y fframwaith, ar 'gofyn a gweithredu', ac ar gydweithio amlasiantaethol. Mae pob un o'r tri darn o ganllawiau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyflwyno i ymgynghoriad yn yr haf, cyn cael eu mabwysiadu yn y flwyddyn newydd. Mae canllawiau statudol ychwanegol ar gomisiynu gwasanaethau arbenigol yn effeithiol, gan weithio gyda throseddwyr, cefnogi dioddefwyr hŷn ac ar ddull addysg gyfan hefyd yn cael eu paratoi a byddant yn destun ymgynghoriad yn ystod y 12 mis nesaf.

I've increased the budget used to tackle violence against women, domestic abuse and sexual violence from £4.5 million last year to over £5 million in 2015-16, to support this work. We are funding an exciting new approach to bring together funding sources regionally in Gwent, which will provide valuable lessons for the local government reform programme.

Rwyf wedi cynyddu'r gyllideb a ddefnyddir i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o £4.5 miliwn y llynedd i dros £5 miliwn yn 2015-16, i gefnogi'r gwaith hwn. Rydym yn ariannu dull newydd cyffrous i ddwyn ynghyd ffynonellau cyllid rhanbarthol yng Ngwent, a fydd yn darparu gwersi gwerthfawr ar gyfer y rhaglen diwygio llywodraeth leol.

To support implementation of the Act, I have recently agreed additional funding of £123,500 towards: additional services to help address historic sexual abuse; extending the coverage of the Dyn project by appointing a male independent domestic violence adviser in north Wales; the healthy relationships teaching resources and education conference just referred to; service user engagement and workshops around implementation of the Act; awareness raising of the Live Fear Free brand and website; and youth engagement in respect of female genital mutilation. I am also pleased to announce that Welsh Women's Aid have been successful in winning the contract to run the domestic abuse and sexual violence helpline. The new contract, worth £1.3 million over three years, begins in October. The helpline will continue to be a vital resource for victims, families and professionals.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf, rwyf wedi cytuno ar gyllid ychwanegol o £123,500 yn ddiweddar, tuag at: gwasanaethau ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â cham-drin rhywiol hanesyddol; ymestyn cwmpas y prosiect Dyn trwy benodi cynghorwr annibynnol ar drais domestig gwrywaidd yn y gogledd; yr adnoddau dysgu perthnasoedd iach a'r gynhadledd addysg yr wyf newydd gyfeirio ati; ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gweithdai yn ymwneud â gweithredu'r Ddeddf; codi ymwybyddiaeth o'r brand a'r wefan Byw Heb Ofn; ac ymgysylltu â phobl ifanc ynglŷn ag anffurfio organau rhywiol merched. Rwyf hefyd yn falch o gyhoeddi bod Cymorth i Ferched Cymru wedi llwyddo i ennill y contract i redeg y llinell gymorth cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r contract newydd, gwerth £1.3 miliwn dros dair blynedd, yn dechrau ym mis Hydref. Bydd y llinell gymorth yn parhau i fod yn adnodd hanfodol ar gyfer dioddefwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

Our high-profile campaigns will continue to raise public awareness and change attitudes. Our Cross the Line campaign earlier this year highlighted the signs and symptoms of domestic abuse, receiving positive feedback nationally. I will launch the first of our 2015-16 campaigns on 13 July.

Bydd ein hymgyrchoedd proffil uchel yn parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a newid agweddau. Gwnaeth ein hymgyrch Croesi'r Llinell yn gynharach eleni dynnu sylw at arwyddion a symptomau cam-drin domestig, a chafwyd adborth cadarnhaol yn genedlaethol. Byddaf yn lansio'r cyntaf o'n hymgyrchoedd ar gyfer 2015-16 ar 13 Gorffennaf.

Llywydd, this is a landmark law, the first of its kind in the UK and one of the most innovative pieces of legislation passed by this Assembly. I'm proud of the progress we've made in the past year. This Act delivers on a significant Government commitment. It provides the opportunity to make a considerable impact on vulnerable people's lives in the years ahead.

Lywydd, mae hon yn gyfraith o bwys, y cyntaf o'i bath yn y DU ac yn un o'r darnau mwyaf arloesol o ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad hwn. Rwy'n falch o'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Ddeddf hon yn cyflawni ar ymrwymiad sylweddol gan y Llywodraeth. Mae'n darparu'r cyfle i effeithio'n sylweddol ar fywydau pobl sy'n agored i niwed yn y blynyddoedd i ddod.

15:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Can I just remind speakers that this is the opportunity to ask questions of the Minister on the statement he's just given? Mark Isherwood.

Diolch yn fawr. A gaf i atgoffa siaradwyr mai dyma'r cyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog am y datganiad y mae newydd ei roi? Mark Isherwood.

15:37 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. In fact, it's less than three and a half months since we had the final debate before voting to pass this legislation, after the three opposition parties had worked together to strengthen the Bill to ensure delivery of healthy relationships education. You referred to Welsh Women's Aid developing the whole-education approach good practice guide for local authorities and schools. Are you able to tell us how pupils and teaching staff will be involved in that?

Diolch. Mewn gwirionedd, mae'n llai na thri mis a hanner ers i ni gael y ddadl olaf cyn pleidleisio i basio'r ddeddfwriaeth hon, ar ôl i'r tair gwrthblaid weithio gyda'i gilydd i gryfhau'r Bil i sicrhau y darperir addysg perthnasoedd iach. Fe wnaethoch chi gyfeirio at Cymorth i Ferched Cymru yn datblygu'r canllawiau arferion da ar sail addysg gyfan ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion. A ydych chi'n gallu dweud wrthym sut y bydd disgyblion a staff addysgu yn rhan o hynny?

You refer to annual local authority reports on action to address the issues in education settings, including schools. How will you ensure that those are action reports that are action-driven—not a record of what's been done, but an overview of progress achieved, what's worked well, and what we need to do differently? In other words, monitoring progress rather than simply recording actions.

Rydych yn cyfeirio at adroddiadau blynyddol gan awdurdodau lleol ar gamau i fynd i'r afael â'r materion mewn lleoliadau addysg, gan gynnwys ysgolion. Sut y byddwch yn sicrhau bod y rheini'n adroddiadau gweithredu sydd wedi eu sbarduno gan gamau—nid cofnod o'r hyn sydd wedi ei wneud, ond golwg cyffredinol ar y cynnydd a gyflawnwyd, yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, a'r hyn y mae angen inni ei wneud yn wahanol? Mewn geiriau eraill, monitro cynnydd yn hytrach na dim ond cofnodi camau gweithredu.

You refer to support, which I welcome, for Hafan Cymru's Spectrum schools project, and, obviously, the Women's Aid Children Matter projects. How will you ensure that the provision in schools reaches all parts of Wales and that we don't have gaps in provision because of different local approaches or attitudes or packed curriculums relating to this relationship education delivery in schools?

Rydych yn cyfeirio at gefnogaeth, a chroesawaf hynny, ar gyfer prosiect ysgolion Sbectrwm Hafan Cymru, ac, yn amlwg, prosiectau Mae Plant yn Bwysig Cymorth i Ferched. Sut y byddwch chi'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn yr ysgolion yn cyrraedd pob rhan o Gymru ac nad oes gennym fylchau yn y ddarpariaeth oherwydd y gwahanol ymagweddau neu ddulliau lleol neu gwricwla llawn yn ymwneud â'r ddarpariaeth hon o addysg perthnasoedd mewn ysgolion?

You refer to a national adviser and that one of their first tasks will be the development of a national strategy and indicators, reflecting concerns, I think, raised in committee during the development of the Bill and the fact that the national adviser will be working for Government as a civil servant. How will you protect that person to ensure that they can be wholly independent, not just in engaging with outside bodies, but in preparing the national strategy and indicators, which, presumably, the Minister would then approve?

Rydych yn cyfeirio at gynghorydd cenedlaethol ac mai un o'i dasgau cyntaf fydd y gwaith o ddatblygu strategaeth a dangosyddion cenedlaethol, gan adlewyrchu pryderon, rwy'n credu, a godwyd yn y pwyllgor yn ystod datblygiad y Bil a'r ffaith y bydd y cynghorydd cenedlaethol yn gweithio i'r Llywodraeth fel gwas sifil. Sut y byddwch chi'n amddiffyn yr unigolyn hwnnw er mwyn sicrhau y gall fod yn gwbl annibynnol, nid yn unig wrth ymgysylltu â chyrff allanol, ond wrth baratoi'r strategaeth a'r dangosyddion cenedlaethol, y byddai'r Gweinidog wedyn, yn ôl pob tebyg, yn eu cymeradwyo?

The Minister will recall that, during the passage of the Bill, on a number of occasions, I referred to 'perpetrator programmes', stating that there will be no region where there are no perpetrators, and leaving it up to regions to decide if they can commission pre-conviction programmes is a mistake. In fact, Relate Cymru had said that assurance is needed from the Welsh Government that it is committed to ensuring easy access in Wales to high-quality pre-conviction help for perpetrators to increase the safety of women and children. Now, in your statement you state that guidance is being developed on perpetrator programmes. How will you ensure that all regions commission pre-conviction programmes in consequence?

Bydd y Gweinidog yn cofio, yn ystod taith y Bil, ar sawl achlysur, i mi gyfeirio at 'raglenni i droseddwyr', gan nodi na fydd unrhyw ranbarth lle nad oes unrhyw droseddwyr, a bod caniatáu i ranbarthau benderfynu a ydynt yn gallu comisiynu rhaglenni cyn collfarnu yn gamgymeriad. Yn wir, mae Relate Cymru wedi dweud bod angen sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ei bod wedi ymrwymo i sicrhau bod cymorth cyn collfarnu o ansawdd uchel ar gael yn rhwydd i droseddwyr yng Nghymru er mwyn cynyddu diogelwch menywod a phlant. Nawr, yn eich datganiad, rydych yn dweud bod canllawiau'n cael eu datblygu ar raglenni troseddwyr. Sut y byddwch chi'n sicrhau bod pob rhanbarth yn comisiynu rhaglenni cyn collfarnu o ganlyniad?

Also, you will recall that, during the passage of the Bill, I questioned you about the need for gender-specific strategies for male and female victims, citing evidence—I won't repeat it—at the time to support the need for that. You said that it's important that both the national strategy and local strategy are subsequently developed and, as a result of the Bill, engage with these issues. You refer to continued funding for the Dyn project and provision in north Wales, but how will you engage more widely in the agendas that this highlights, particularly in terms of the Barnardo's 'Hidden in Plain Sight' report, and previous calls by Welsh Women's Aid to ensure that different kinds of services reflect the different levels of need of the two agendas.

Hefyd, byddwch yn cofio, yn ystod taith y Bil, i mi eich holi chi am yr angen am strategaethau rhyw benodol ar gyfer dioddefwyr sy'n ddynion a dioddefwyr sy'n ferched, gan nodi tystiolaeth—ni wnaf ailadrodd hyn—ar y pryd i gefnogi'r angen am hynny. Dywedasoch ei bod yn bwysig bod y strategaeth genedlaethol a'r strategaeth leol yn cael eu datblygu ar ôl hynny ac, o ganlyniad i'r Bil, eu bod yn ymgysylltu â'r materion hyn. Rydych yn cyfeirio at gyllid parhaus ar gyfer y prosiect Dyn a'r ddarpariaeth yn y gogledd, ond sut y byddwch chi'n ymgysylltu'n fwy eang yn yr agendâu y mae hyn yn tynnu sylw atynt, yn enwedig o ran adroddiad 'Hidden in Plain Sight' Barnardo's, a galwadau blaenorol gan Gymorth i Ferched Cymru i sicrhau bod gwahanol fathau o wasanaethau yn adlewyrchu gwahanol lefelau angen y ddwy agenda.

Finally, given your responsibility for community safety and relations with the police and other criminal justice agencies, how have you been or will you be responding to very recent reporting of failings in domestic abuse cases in Wales by the independent police complaints commissioner for Wales, who said that police forces in Wales are too reliant on staff learning online and that forces need to change the way they train officers and staff dealing with domestic abuse cases, with more interactive learning in a classroom or other setting where case studies can be worked through?

Yn olaf, o ystyried eich cyfrifoldeb dros ddiogelwch cymunedol a chysylltiadau â'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, sut ydych chi wedi bod yn ymateb, neu sut y byddwch chi'n ymateb, i adroddiadau diweddar iawn am ddiffygion mewn achosion cam-drin domestig yng Nghymru gan gomisiynydd cwynion annibynnol yr heddlu yng Nghymru, a ddywedodd fod heddluoedd yng Nghymru yn rhy ddibynnol ar staff sy'n dysgu ar-lein a bod angen i heddluoedd newid y ffordd y maent yn hyfforddi swyddogion a staff sy'n ymdrin ag achosion o gam-drin domestig, gyda mwy o ddysgu rhyngweithiol mewn ystafell ddosbarth neu leoliad arall lle gellir gweithio drwy astudiaethau achos?

15:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I think it's important that the Member, and other Members, recall that we did issue a very lengthy statement on educational approaches as the Bill was going through, and the Conservative spokesperson will also be aware, of course, that, later this afternoon, my colleague the Minister for Education and Skills will be making a statement on the curriculum, which may well have a bearing on some of the issues that he has raised.

Lywydd, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig bod yr Aelod, ac Aelodau eraill, yn cofio ein bod wedi cyhoeddi datganiad hir iawn ar ddulliau addysgol wrth i'r Bil fynd rhagddo, a bydd llefarydd y Ceidwadwyr hefyd yn ymwybodol, wrth gwrs, y bydd fy nghydweithiwr y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn hwyrach y prynhawn yma, yn gwneud datganiad am y cwricwlwm, a allai gael effaith ar rai o'r materion y mae wedi eu codi.

In respect of the work being done by Welsh Women's Aid on the whole education approach good practice guide, this will be published in the autumn and will be used to inform statutory guidance on the subject, and we'll then consult on that in early 2016. So, there'll be ample opportunity, I think, within that to gather the views of pupils and others in respect of that guidance, and we'll certainly seek to do that. In respect of the duties on local authorities to report annually on the action they are taking to address domestic abuse, gender-based violence and sexual violence in their education settings, well, the work to develop regulations to come into force by September 2016 is well under way, and clearly that will be highly practical in the expectations it has on local authorities.

O ran y gwaith sy'n cael ei wneud gan Cymorth i Ferched Cymru ar y canllawiau arfer da ar sail addysg gyfan, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref a chânt eu defnyddio i lywio canllawiau statudol ar y pwnc, a byddwn wedyn yn ymgynghori ar hynny yn gynnar yn 2016. Felly, bydd digon o gyfle, rwy'n credu, o fewn hynny i gasglu barn disgyblion ac eraill ynglŷn â'r canllawiau, a byddwn yn sicr yn ceisio gwneud hynny. O ran y dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad blynyddol ar y camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â cham-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol yn eu lleoliadau addysg, wel, mae'r gwaith o ddatblygu rheoliadau i ddod i rym erbyn mis Medi 2016 eisoes yn cael ei wneud, ac yn amlwg bydd hwnnw'n hynod ymarferol o ran y disgwyliadau sydd ganddo gan awdurdodau lleol.

Now, in respect of the independence of the national adviser, I'm sure the Conservative spokesperson will be aware that, in direct response to comments from the Communities, Equality and Local Government Committee, I tabled amendments at Stage 3 to change the name of the ministerial adviser to 'national adviser', reflecting the important national, independent focus of the role. Some of those amendments, of course, were agreed, and some were not. That resulted in a level of inconsistency within the Bill. We have therefore clarified those inconsistencies within the explanatory memorandum and explanatory notes. I think that it will be very clear from the advertising that we conducted for the post, when we were seeking to recruit to it, the importance that we give to that level of independence that the post can bring.

Nawr, o ran annibyniaeth y cynghorydd cenedlaethol, rwy'n siŵr y bydd llefarydd y Ceidwadwyr yn ymwybodol, mewn ymateb uniongyrchol i sylwadau gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, i mi gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3 i newid enw'r cynghorydd gweinidogol i 'gynghorydd cenedlaethol', i adlewyrchu pwyslais cenedlaethol, annibynnol pwysig y swyddogaeth. Cytunwyd ar rai o'r gwelliannau hynny, wrth gwrs, ac ni chytunwyd ar rai eraill. Mae hynny'n arwain at lefel o anghysondeb yn y Bil. Rydym felly wedi egluro'r anghysondebau hynny yn y memorandwm esboniadol a'r nodiadau esboniadol. Credaf ei bod yn amlwg iawn o'r hysbysebion oedd gennym ar gyfer y swydd, pan oeddem yn ceisio recriwtio ar ei chyfer, cymaint o bwysigrwydd yr ydym yn ei roi i'r lefel hwnnw o annibyniaeth y gall y swydd ei gyflwyno.

In respect of regional approaches for perpetrators, I've listened carefully to what the Member has said, and I will reflect on that, and we will look at the proposals that are brought forward to us on a regional basis. I accept also what he says in respect of gender-specific work, and we'll want to see that that is carried through.

O ran dulliau gweithredu rhanbarthol ar gyfer troseddwyr, rwyf wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud, a byddaf yn myfyrio ar hynny, a byddwn yn edrych ar y cynigion a gyflwynir i ni ar sail ranbarthol. Rwyf yn derbyn hefyd yr hyn y mae'n ei ddweud am waith rhyw benodol, a byddwn yn awyddus i weld bod hynny yn cael ei gyflawni.

In respect of the community safety issues, and the issues raised by the Independent Police Complaints Commission in respect of the inconsistent approaches and some of the failings in respect of action to address domestic abuse and sexual violence in particular areas of Wales, that is an issue that I have discussed with the IPCC and, indeed, with representatives of the police within Wales, and I think that those lessons are understood, and we will look to the police to honour the commitments that have been given to the IPCC and others.

O ran y materion diogelwch cymunedol, a'r materion a godwyd gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu am ddulliau anghyson a rhai o'r methiannau o ran camau i fynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol mewn ardaloedd penodol o Gymru, mae hwnnw'n fater yr wyf wedi ei drafod gyda'r IPCC ac, yn wir, gyda chynrychiolwyr yr heddlu yng Nghymru, ac rwyf o'r farn bod y gwersi hynny wedi eu deall, a byddwn yn disgwyl i'r heddlu anrhydeddu'r ymrwymiadau a roddwyd i'r IPCC ac eraill.

15:45

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

While the Minister's statement outlines a substantial amount of very positive work that's been done to start implementing the Act, much of that work of course is still in its infancy. It's one year since the introduction of the draft Bill, I think it's about three months since we got your sunny disposition, Minister, out of that box, and about two months since we've had Royal Assent. So, I guess it's not really enough time yet for us to see if the law in itself has been effective. Minister, it was said during the passage of the Bill, and I'm sure you would remember this, that much of it could be achieved without a change in legislation. But, I do look forward to seeing the statutory guidance and the regulations that will flow from this Bill. I wonder if you would agree to publish a timetable for that.

Er bod datganiad y Gweinidog yn amlinellu swm sylweddol o waith cadarnhaol iawn sydd wedi ei wneud i ddechrau gweithredu'r Ddeddf, mae llawer o'r gwaith hwnnw, wrth gwrs, yn dal yn ei fabandod. Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers cyflwyno'r Bil drafft, a thua tri mis, rwy'n meddwl, ers i ni gael eich wyneb siriol, Weinidog, allan o'r blwch yna, a rhyw ddau fis ers i ni gael Cydsyniad Brenhinol. Felly, rwy'n amau nad oes digon o amser wedi mynd heibio eto i ni allu gweld a yw'r gyfraith yn ei hun wedi bod yn effeithiol. Weinidog, dywedwyd yn ystod taith y Bil, ac rwy'n siŵr y byddwch yn cofio hyn, y gallai llawer ohono gael ei gyflawni heb newid mewn deddfwriaeth. Ond, rwyf yn edrych ymlaen at weld y canllawiau statudol a'r rheoliadau a fydd yn deillio o'r Bil hwn. Tybed a fyddech chi'n cytuno i gyhoeddi amserlen ar gyfer hynny.

I'm particularly pleased to see that the Minister is following through on his promise to me that work is being done to introduce a comprehensive whole-school approach to teaching children and young people about healthy relationships. Can the Minister confirm that the Government work in this area will build on the work of Professor Emma Renold at Cardiff University? I very much look forward to seeing Welsh Women's Aid's good practice guide when it is published in the autumn, and having details of Welsh Government oversight of its implementation through all our schools. Perhaps the Minister can give us an idea when he thinks the good practice will become mainstream in Welsh schools.

Rwy'n arbennig o falch o weld bod y Gweinidog yn cadw ei addewid i mi bod gwaith yn cael ei wneud i gyflwyno dull ysgol gyfan cynhwysfawr i addysgu plant a phobl ifanc am berthnasoedd iach. A all y Gweinidog gadarnhau y bydd gwaith y Llywodraeth yn y maes hwn yn datblygu gwaith yr Athro Emma Renold ym Mhrifysgol Caerdydd? Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld canllawiau arfer da Cymorth i Ferched Cymru pan gânt eu cyhoeddi yn yr hydref, a chael manylion am waith goruchwylio Llywodraeth Cymru wrth ei weithredu yn ein holl ysgolion. Efallai y gall y Gweinidog roi syniad inni pryd y mae'n credu y bydd yr arfer da yn dod yn rhan o'r brif ffrwd yn ysgolion Cymru.

While you've increased the budget used to tackle violence against women, domestic abuse and sexual violence, budget cuts elsewhere of course do impact on victims. You'll know there is a £10 million cut to the Supporting People grant. That's almost bound to affect victims. Do you think that the increase in the budget that you have under your control will counteract the damage that that funding cut is having? Are you able to tell us what action the sector has taken to ensure that front-line services have not deteriorated as a result of that cut?

Er eich bod wedi cynyddu'r gyllideb a ddefnyddir i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae toriadau yn y gyllideb mewn mannau eraill, wrth gwrs, yn effeithio ar ddioddefwyr. Byddwch yn gwybod bod toriad gwerth £10 miliwn i'r grant Cefnogi Pobl. Mae hynny bron yn sicr o effeithio ar ddioddefwyr. A ydych chi'n credu y bydd y cynnydd yn y gyllideb sydd dan eich rheolaeth yn gwrthbwyso'r niwed y mae'r toriad yn y cyllid hwnnw yn ei gael? A ydych chi'n gallu dweud wrthym pa gamau y mae'r sector wedi eu cymryd i sicrhau nad yw gwasanaethau rheng flaen wedi dirywio o ganlyniad i'r toriad hwnnw?

I'm very pleased to see that Welsh Women's Aid has secured the contract to run the helpline for victims, for families and of course for professionals. Perhaps you can tell us how the helpline will be advertised and what is the cost of advertising such an important facility is.

Rwy'n falch iawn o weld bod Cymorth i Ferched Cymru wedi sicrhau'r contract i weithredu'r llinell gymorth i ddioddefwyr, i deuluoedd ac wrth gwrs i weithwyr proffesiynol. Efallai y gallwch ddweud wrthym sut y bydd y llinell gymorth yn cael ei hysbysebu a beth yw cost hysbysebu cyfleuster pwysig o'r fath.

Lastly, although this is outside the scope of the Bill, perhaps the Minister will commit today to raise the issue of domestic abuse and domestic violence with the police and crime commissioners, because I know you meet them on a regular basis, to ensure that this remains a priority for them, because there are high-profile cases that show that appropriate reaction by the police could prevent very serious harm and even death in some instances.

Yn olaf, er bod hyn y tu allan i gwmpas y Bil, efallai y bydd y Gweinidog yn ymrwymo heddiw i godi'r mater cam-drin domestig a thrais yn y cartref gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu, gan fy mod yn gwybod eich bod yn cwrdd â nhw'n rheolaidd, er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth iddynt, oherwydd ceir achosion proffil uchel sy'n dangos y gallai ymateb priodol gan yr heddlu atal niwed difrifol iawn a hyd yn oed marwolaeth mewn rhai achosion.

15:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the comments of the Plaid Cymru spokesperson. I will say today that I'm very happy to publish a timetable for the publication of the guidance. That seems to be something we should do. In respect of the issue she raised of best practice and the work of Professor Renold, can I say that certainly we would want to take into account, as I promised at the time, the work that Emma Renold has done in this area with a number of schools? I think it does contribute to best practice and we should take best practice from wherever. There will be other examples that we'll want to incorporate alongside that.

Rwyf yn croesawu sylwadau llefarydd Plaid Cymru. Rwyf am ddweud heddiw fy mod yn falch iawn o gyhoeddi amserlen ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau. Mae'n ymddangos bod hynny'n rhywbeth y dylem ei wneud. O ran y mater a godwyd ganddi am arfer gorau a gwaith yr Athro Renold, a gaf i ddweud y byddem yn bendant yn dymuno rhoi ystyriaeth, fel yr addewais ar y pryd, i'r gwaith y mae Emma Renold wedi ei wneud yn y maes hwn gyda nifer o ysgolion? Rwy'n credu ei fod yn cyfrannu at arfer gorau a dylem dderbyn arfer gorau o ble bynnag y daw. Bydd enghreifftiau eraill y byddwn ni eisiau eu hymgorffori ochr yn ochr â hynny.

I welcome what she said in respect of Welsh Women's Aid and the work that they have done, both on the whole-education guide and indeed their work in winning the contract for the helpline. Clearly, it is important that that helpline is well publicised. I think the evidence that we have from the Live Fear Free campaign has been that we have been successful in reaching out to different groups. We have run, as she is aware—and indeed I referred to them in the statement—a number of publicity campaigns around these issues, some of which have been widely seen as groundbreaking and welcomed by the sector and by experts in the field.

Rwyf yn croesawu'r hyn a ddywedodd ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru a'r gwaith y maent wedi ei wneud, ar y canllawiau addysg gyfan ac yn wir eu gwaith wrth ennill y contract ar gyfer y llinell gymorth. Yn amlwg, mae'n bwysig bod y llinell gymorth yn cael ei hysbysebu'n dda. Rwy'n meddwl bod y dystiolaeth sydd gennym o'r ymgyrch Byw Heb Ofn wedi dangos ein bod wedi bod yn llwyddiannus wrth estyn allan at wahanol grwpiau. Rydym wedi cynnal, fel y mae hi'n ymwybodol—ac yn wir cyfeiriais atynt yn y datganiad—nifer o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ynghylch y materion hyn, rhai ohonynt a ystyriwyd yn eang fel bod yn ymgyrchoedd arloesol ac fe'u croesawyd gan y sector a chan arbenigwyr yn y maes.

She is right to raise the issue of the need for integration between the work that we are doing and the work of Supporting People. The Minister for Communities and Tackling Poverty and I have met to discuss that work. We've asked our teams to work together in terms of future grant funding and they are seeking to do that.

Mae hi'n iawn i godi mater yr angen am integreiddio'r gwaith yr ydym ni'n ei wneud â gwaith Cefnogi Pobl. Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a minnau wedi cyfarfod i drafod y gwaith hwnnw. Rydym wedi gofyn i'n timau weithio gyda'i gilydd o ran arian grant yn y dyfodol ac maent yn ceisio gwneud hynny.

In respect of the police and crime commissioners, yes, I've raised this issue consistently with them in the meetings that I've had, and I will continue to do so.

O ran y comisiynwyr heddlu a throseddu, ydw, rwyf wedi codi'r mater hwn yn gyson â nhw yn y cyfarfodydd rwyf wedi eu cael, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

15:50

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for bringing this statement here today? Minister, I've just a few questions on the statement. You refer to Welsh Women's Aid developing a whole-education approach good practice guide for local authorities, which is very welcome and, of course, is in line with the written statement that you gave on 26 February. In that written statement, you said that this whole-education approach good practice guide was primed for the 2015-16 academic year. I think it's still possible to do that, but can you give an assurance that the schools will have the guide in time for teachers to digest it and to take it into account in any continuing professional development activities they have in time for the 2015-16 academic year, as you previously promised?

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r datganiad hwn yma heddiw? Weinidog, dim ond ychydig o gwestiynau sydd gennyf ar y datganiad. Rydych yn cyfeirio at y ffaith fod Cymorth i Ferched Cymru yn datblygu canllawiau arfer da ar sail addysg gyfan ar gyfer awdurdodau lleol, sydd i'w groesawu'n fawr ac, wrth gwrs, mae'n unol â'r datganiad ysgrifenedig a roddwyd gennych ar 26 Chwefror. Yn y datganiad ysgrifenedig hwnnw, dywedasoch y byddai'r canllawiau arfer da ar sail addysg gyfan yn cael eu paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015-16. Rwy'n credu ei bod yn dal yn bosibl i wneud hynny, ond a allwch chi roi sicrwydd y bydd yr ysgolion yn cael y canllawiau mewn pryd i athrawon eu darllen a'u hystyried mewn unrhyw weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus sydd ganddynt ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015-16, fel yr addawsoch yn flaenorol?

With regard to the adviser, I very much welcome the fact that that post is now being appointed. I do note, however, from the advertisement that this is a part-time post, and I'm concerned about that. I think that the recent advert states the hours expected to fulfil this role will be part-time; it does seem to me that co-ordinating the various bodies involved in delivering this service and advising Ministers on important issues, such as funding and overseeing the important education agenda, is in fact a full-time job. The question, Minister, is: if you're making this a part-time post, does that mean that you also have a part-time approach to this agenda and a part-time commitment to tackling domestic abuse?

O ran y cynghorydd, rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith bod y swydd hon bellach yn cael ei phenodi. Rwy'n sylwi, fodd bynnag, o'r hysbyseb, mai swydd ran-amser yw hon, ac rwy'n pryderu am hynny. Credaf fod yr hysbyseb diweddar yn nodi y bydd yr oriau a ddisgwylir ar gyfer cyflawni'r swydd hon yn rhan-amser; mae hi'n ymddangos i mi fod cydgysylltu'r gwahanol gyrff sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth hwn a chynghori Gweinidogion ar faterion pwysig, megis cyllid a goruchwylio'r agenda addysg bwysig, mewn gwirionedd yn swydd llawn amser. Y cwestiwn yw, Weinidog: os ydych chi'n gwneud hon yn swydd ran-amser, a yw hynny'n golygu bod gennych hefyd ymagwedd ran-amser i'r agenda hon ac ymrwymiad rhan-amser i fynd i'r afael â cham-drin domestig?

In terms of the other issues, can you say how the curriculum review is specifically including healthy relationships education? Will that be mandatory for all schools, as recommended by the recent United Nations report? With regard to the e-learning course for public sector workers, can you say how effective that will be and what account you are taking of recent criticism of Gwent Police, which were criticised for using e-learning too much? Finally, Minister, could you give us a target date as to when the national and local strategies will be published?

O ran y materion eraill, a allwch chi ddweud sut y mae'r adolygiad o'r cwricwlwm yn cynnwys addysg am berthnasoedd iach yn benodol? A fydd hynny yn orfodol i bob ysgol, fel yr argymhellwyd gan adroddiad diweddar y Cenhedloedd Unedig? O ran y cwrs e-ddysgu ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus, a allwch chi ddweud pa mor effeithiol fydd hwnnw ac i ba raddau ydych chi'n ystyried y feirniadaeth ddiweddar o Heddlu Gwent, a gafodd eu beirniadu am ddefnyddio gormod o e-ddysgu? Yn olaf, Weinidog, a allech chi roi dyddiad targed i ni o ran pryd y bydd y strategaethau cenedlaethol a lleol yn cael eu cyhoeddi?

15:52

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say that the whole-education approach good practice guide will be published in the autumn? I can't promise that it will be in time for teachers to take it on board before the start of the 2015-16 academic year. We will, as I said, be using that then to inform the statutory guidance on the subject, on which we will be consulting in early 2016.

A gaf i ddweud y bydd y canllawiau arfer da ar sail addysg gyfan yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref? Ni allaf addo y byddant mewn pryd i athrawon ymgyfarwyddo â hwy cyn dechrau blwyddyn academaidd 2015-16. Byddwn, fel y dywedais, yn defnyddio'r rheini wedyn i lywio'r canllawiau statudol ar y pwnc, a byddwn yn ymgynghori ar hynny yn gynnar yn 2016.

I thought the Liberal Democrat Member's comments on our approach to the national adviser position were somewhat churlish, to be honest with you. I don't think there's any part-time commitment on this issue. This is the first Act of any kind being taken through this Assembly, and I think it's to the credit of this Assembly that that Act was taken through, was improved as it went through the work within this National Assembly, the work of scrutiny, and it has been widely welcomed, not only by the sector in Wales but by international experts in this field, over recent months. I think it's sad to hear that work being denigrated in that way. In respect of the national adviser appointment, we've had a wide range of excellent applicants and, as I said, we will be confirming the person who has got that role in the near future.

Roeddwn i'n meddwl bod sylwadau Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol ar ein hymagwedd tuag at swydd y cynghorydd cenedlaethol braidd yn anfoesgar, i ddweud y gwir wrthych chi. Nid wyf yn credu bod unrhyw ymrwymiad rhan-amser i'r mater hwn. Hon yw'r Ddeddf gyntaf o unrhyw fath i fynd drwy'r Cynulliad hwn, ac rwy'n credu ei bod yn glod i'r Cynulliad hwn bod y Ddeddf honno wedi ei datblygu, a'i gwella wrth symud ymlaen o ganlyniad i waith yn y Cynulliad Cenedlaethol hwn, y gwaith craffu, ac mae wedi cael croeso eang, nid yn unig gan y sector yng Nghymru ond gan arbenigwyr rhyngwladol yn y maes hwn, dros y misoedd diwethaf. Rwy'n credu ei bod yn drist i glywed y gwaith hwnnw yn cael ei ddifrïo yn y fath fodd. O ran penodiad y cynghorydd cenedlaethol, rydym wedi cael ystod eang o ymgeiswyr ardderchog ac, fel y dywedais, byddwn yn cadarnhau pwy sydd wedi cael y swydd honno yn y dyfodol agos.

In respect of the issue of e-learning, I think e-learning courses have their role in specific settings. We have run other kinds of training as well. We are, of course, publishing the national training framework, as I said in my statement, and I think that the work that we have undertaken with public service workers again is groundbreaking. I'm well aware of the criticisms of Gwent Police in the IPCC report; those are being discussed in a number of meetings, and I will no doubt want to ensure that e-learning is simply one of a number of approaches that we undertake through our training for public service workers.

O ran y mater o e-ddysgu, rwyf o'r farn bod gan gyrsiau e-ddysgu eu swyddogaeth mewn lleoliadau penodol. Rydym wedi cynnal mathau eraill o hyfforddiant yn ogystal. Rydym, wrth gwrs, yn cyhoeddi'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol, fel y dywedais yn fy natganiad, a chredaf fod y gwaith yr ydym wedi'i wneud gyda gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus unwaith eto yn torri tir newydd. Rwy'n ymwybodol iawn o'r feirniadaeth o Heddlu Gwent yn adroddiad yr IPCC; mae'r rheini yn cael eu trafod mewn sawl cyfarfod, a byddaf yn bendant eisiau sicrhau, mai dim ond un o nifer o ddulliau yw e-ddysgu a fydd yn cael eu defnyddio yn ein hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus.

15:54

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for his statement today. It is one year since the introduction of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015. It is an interesting statistic from the Crown Prosecution Service that the number of people prosecuted for violence against women and girls in England and Wales in the year to April 2015 showed an increase of 18 per cent on the previous year. Could the Minister advise the Assembly what percentage increase in prosecutions there has been in Wales to the present? One of the problems with domestic abuse and violence against women has been the under-reporting of cases. Could the Minister advise the Assembly what progress has been made in encouraging victims to report incidents of violence, particularly women from ethnic minority backgrounds and from the Gypsy and Traveller communities?

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae'n flwyddyn ers cyflwyno'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae ystadegyn diddorol gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn nodi bod nifer y bobl a gafodd eu herlyn am drais yn erbyn menywod a merched yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn hyd at Ebrill 2015 yn dangos cynnydd o 18 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. A allai'r Gweinidog roi gwybod i'r Cynulliad beth oedd canran y cynnydd a fu mewn erlyniadau yng Nghymru hyd yn hyn? Un o'r problemau gyda cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod yw tan-adrodd achosion. A wnaiff y Gweinidog roi gwybod i'r Cynulliad pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran annog dioddefwyr i hysbysu am ddigwyddiadau o drais, yn enwedig menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac o'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr?

During the progress of the Act, the importance of recognising the signs of domestic violence against women and children was stressed. Since women make up a large proportion of public sector employees, what guidance has been provided to the public sector regarding training people to recognise the signs of domestic violence among women employees? Finally, the Act places duties on Welsh Ministers, county and county borough councils, and local health boards to prepare and publish strategies aimed at ending gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. Could the Minister confirm that all of these organisations have now done so and what plans and timescales are in place to review the effectiveness of these strategies?

Yn ystod cyfnod datblygu'r Ddeddf, pwysleisiwyd pwysigrwydd adnabod arwyddion trais domestig yn erbyn menywod a phlant. Gan mai merched yw cyfran fawr o weithwyr y sector cyhoeddus, pa ganllawiau sydd wedi eu darparu i'r sector cyhoeddus o ran hyfforddi pobl i adnabod arwyddion o drais yn y cartref ymhlith gweithwyr benywaidd? Yn olaf, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, a byrddau iechyd lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau sydd â'r nod o roi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod yr holl sefydliadau hyn bellach wedi gwneud hynny a pha gynlluniau ac amserlenni sydd ar waith i adolygu effeithiolrwydd y strategaethau hyn?

15:56

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Llywydd, I don't have the up-to-date prosecution figures for Wales in respect of sexual violence, domestic abuse and violence against women. I will ask for those figures and write to the Member.

Lywydd, nid oes gennyf y ffigurau erlyn diweddaraf ar gyfer Cymru o ran trais rhywiol, cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod. Byddaf yn gofyn am y ffigurau hynny ac yn ysgrifennu at yr Aelod.

Senedd.tv
Fideo Video

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:56.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:56.*

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

I think he makes a valid point about under-reporting. I think that has been a problem in the past. There has been, as we know, a significant increase in the number of cases reported recently, which suggests that some of the under-reporting may have come to an end and that more may be willing to report these issues. I'm aware of some work that's been done on the crime survey of England and Wales that suggests that it fails to account for nearly half the attacks on women, particularly when the assailant is known to the victim. Some research that's been undertaken has suggested that the cap that currently applies on the number of crimes that can be reported by a single respondent, which is five, may have diminished the number of reports of violent crimes against women by partners and acquaintances. So, I think that there are some issues around some of the reporting, but this is a matter for the Office for National Statistics. I've asked my officials to maintain a watching brief on this issue.

Rwy'n credu ei fod yn gwneud pwynt dilys am dan-adrodd. Credaf fod hynny wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Bu, fel y gwyddom, cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion yr hysbyswyd amdanynt yn ddiweddar, sy'n awgrymu y gallai peth o'r tan-adrodd fod wedi dod i ben a bod mwy yn barod i roi gwybod am y materion hyn. Rwy'n ymwybodol o rywfaint o waith sydd wedi'i wneud ar arolwg o drosedd yng Nghymru a Lloegr sy'n awgrymu ei fod yn methu â chyfrif bron i hanner yr ymosodiadau ar fenywod, yn enwedig pan fydd y dioddefwr yn adnabod yr ymosodwr. Mae rhywfaint o ymchwil sydd wedi ei wneud wedi awgrymu y gallai'r terfyn sy'n berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer nifer y troseddau y caiff un ymatebydd adrodd amdanynt, sef pump, fod wedi lleihau nifer yr adroddiadau am droseddau treisgar yn erbyn menywod gan bartneriaid a chydnabod. Felly, rwyf yn credu bod rhai problemau â rhai o'r adroddiadau, ond mater i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yw hwn. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion gadw golwg ar y mater hwn.

I think the work that we've done in respect of the national training framework is quite significant, during this last year in particular: 48 Welsh independent domestic violence advisers have been trained to level 4; 175 staff across all local health boards in Wales have been trained to improve the engagement of the health sector in multi-agency risk assessment conferences; 48 specialist domestic abuse and sexual violence service managers have been trained to level 5; and there has been activity in engaging public service leaders to ensure they drive forward change to end gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. So, there's been a considerable amount of work undertaken on the training of people in the public services and I think that the work that we're doing in Wales leads the field.

Rwy'n credu bod y gwaith yr ydym wedi ei wneud ar y fframwaith hyfforddi cenedlaethol yn eithaf sylweddol, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon yn enwedig: mae 48 o gynghorwyr annibynnol ar drais domestig yng Nghymru wedi cael eu hyfforddi i lefel 4; 175 o staff o'r holl fyrddau iechyd lleol yng Nghymru wedi eu hyfforddi i wella ymgysylltiad y sector iechyd mewn cynadleddau asesu risg amlasiantaethol; mae 48 o reolwyr gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol wedi eu hyfforddi i lefel 5; a bu gweithgarwch o ran ymgysylltu ag arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn ysgogi newid i roi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Felly, mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud i hyfforddi pobl yn y gwasanaethau cyhoeddus, a chredaf fod y gwaith yr ydym yn ei wneud yng Nghymru ar flaen y gad.

15:58

# 5. Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Donaldson

# 5. Statement: The Welsh Government Response to the Donaldson Review

Y

Senedd.tv
Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 5 is a statement by the Minister for Education and Skills on the Welsh Government's response to the Donaldson review—Huw Lewis.

Eitem 5 yw datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Donaldson—Huw Lewis.

15:58 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. We are currently engaged in one of the most ambitious and radical programmes of educational reform in our history. We know that the steps we have already taken to raise standards in Welsh schools and colleges are having an impact. Attainment is rising at every key stage and Estyn has talked about a 'new momentum' building in Welsh education. This has been driven by our reforms, which have focused on raising standards across the board. We have introduced greater rigour and challenge across the system, while supporting the pupils and schools most in need with substantial extra resource.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rydym ar hyn o bryd yn ymwneud ag un o'r rhaglenni mwyaf uchelgeisiol a radical o ddiwygio addysgol yn ein hanes. Rydym yn gwybod bod y camau a gymerwyd gennym eisoes i godi safonau mewn ysgolion a cholegau Cymru yn cael effaith. Mae cyrhaeddiad yn codi ym mhob cyfnod allweddol ac mae Estyn wedi siarad am 'fomentwm newydd' yn datblygu mewn addysg yng Nghymru. Mae hyn wedi ei sbarduno gan ein diwygiadau, sydd wedi canolbwyntio ar godi safonau ym mhob rhan o'r maes. Rydym wedi cyflwyno mwy o drylwyredd a her ym mhob rhan o'r system, gan gefnogi'r disgyblion a'r ysgolion sydd â'r angen mwyaf gydag adnoddau ychwanegol sylweddol.

We are not letting up in the drive for improvement. If our aim is for Welsh education to be world class, then we need to think about the next step in our reform journey. We need a curriculum that is ambitious, engaging and fit for the challenges of the twenty-first century. The national curriculum of 1988 has served an important purpose, but we can no longer address the weaknesses of the current curriculum through a patch-and-mend approach.

Byddwn yn parhau â'r ymdrech i wella. Os mai ein nod yw i ansawdd addysg yng Nghymru fod cystal ag unrhyw un yn y byd, mae angen i ni feddwl am y cam nesaf ar ein taith o ddiwygio. Mae arnom angen cwricwlwm sy'n uchelgeisiol, yn ddeniadol ac yn addas ar gyfer heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae cwricwlwm cenedlaethol 1988 wedi cyflawni diben pwysig, ond ni allwn bellach fynd i'r afael â gwendidau'r cwricwlwm presennol â dull clytio a thrwsio.

Professor Donaldson's report, 'Successful Futures', challenges us all to re-think our approach to the curriculum and to focus on the purposes of education. His recommendations are not about adjustments; they require us to rebuild our curriculum from the foundations up. These changes, by their very nature, are fundamental and profound, and the people across Wales who engaged in the great debate agree. It is clear that there is an enormous appetite for change. I am therefore delighted to announce today that we will accept the recommendations set out in 'Successful Futures' in full.

Mae adroddiad yr Athro Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus', yn herio bob un ohonom i ailfeddwl ein hymagwedd at y cwricwlwm a chanolbwyntio ar ddibenion addysg. Nid yw ei argymhellion yn ymwneud ag addasiadau; maent yn ei gwneud yn ofynnol i ni ailadeiladu ein cwricwlwm o'r sylfeini i fyny. Mae'r newidiadau hyn, o ran eu natur, yn sylfaenol ac yn ddwys, ac mae'r bobl ledled Cymru a gymerodd ran yn y ddadl fawr yn cytuno. Mae'n amlwg bod awydd enfawr i newid. Rwyf felly wrth fy modd i gyhoeddi heddiw y byddwn yn derbyn yn llawn yr argymhellion a nodir yn 'Dyfodol Llwyddiannus'.

'Successful Futures' provides us with the foundations for a twenty-first century curriculum shaped by the very latest international thinking on curriculum change. But what we lay on top of that solid platform will be built by us—by Wales for Wales. So, we will now set about the task of building a curriculum that supports our children and young people to be ambitious and capable learners, ready to learn throughout their lives; enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work; ethical, informed citizens of Wales and the world; and healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

Mae 'Dyfodol Llwyddiannus' yn darparu seiliau i ni ar gyfer cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain wedi ei lunio gan y meddylfryd rhyngwladol diweddaraf un ar newid cwricwlwm. Ond bydd yr hyn y byddwn yn ei osod ar ben y sylfaen gadarn honno yn cael ei adeiladu gennym ni—gan Gymru ar gyfer Cymru. Felly, byddwn nawr yn mynd ati i ymwneud â'r dasg o ddatblygu cwricwlwm sy'n cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau; yn gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith; yn ddinasyddion Cymru a'r byd sy'n foesegol a gwybodus; ac yn unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

I have already announced that we will move forward at pace with the digital competence framework, and in doing so I have ensured that schools are leading these developments. Today, I am going further and inviting consortia to work with their schools across Wales—primary, secondary and special—to apply to be pioneer schools, leading and shaping the detailed design and the development of the new inclusive curriculum for Wales. These pioneer schools, working with experts from Wales and internationally, will help to shape the future of learning in Wales.

Rwyf eisoes wedi cyhoeddi y byddwn yn bwrw ymlaen yn gyflym â'r fframwaith cymhwysedd digidol, ac wrth wneud hynny rwyf wedi sicrhau bod ysgolion yn arwain y datblygiadau hyn. Heddiw, rwyf yn mynd ymhellach ac yn gwahodd consortia i weithio gyda'u hysgolion ledled Cymru—cynradd, uwchradd ac arbennig—i wneud cais i fod yn ysgolion arloesi, gan arwain a llywio'r cynllun manwl a datblygiad y cwricwlwm cynhwysol newydd i Gymru. Bydd yr ysgolion arloesi hyn, gan weithio gydag arbenigwyr o Gymru ac yn rhyngwladol, yn helpu i lunio dyfodol dysgu yng Nghymru.

I am clear that the profession must play a central part in the design and development of our new curriculum. It will ask an enormous amount of the professionals in the system, but I am confident they are keen and able to take on this challenge. The new deal for the education workforce has been developed with the requirements of the new curriculum in mind, so it enables us to make an immediate start to support and prepare the education workforce for the changes ahead.

Rwyf yn deall bod yn rhaid i'r proffesiwn chwarae rhan ganolog wrth gynllunio a datblygu ein cwricwlwm newydd. Bydd yn gofyn llawer iawn gan y gweithwyr proffesiynol yn y system, ond rwyf yn hyderus bod gandddynt yr awydd a'r gallu i ymgymryd â'r her hon. Mae'r cytundeb newydd ar gyfer y gweithlu addysg wedi ei ddatblygu gyda gofynion y cwricwlwm newydd mewn golwg, ac mae felly yn ein galluogi i ddechrau ar unwaith ar y gwaith o gefnogi a pharatoi'r gweithlu addysg ar gyfer y newidiadau sydd i ddod.

The implications of the new curriculum for initial teacher education and training were clearly and convincingly articulated in Professor John Furlong's report, and we will ensure that our initial teacher training providers are involved in preparation for delivery of the new curriculum so that newly-qualified teachers will leave their initial training equipped to deliver the new curriculum.

Mae goblygiadau'r cwricwlwm newydd ar gyfer hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon yn cael eu mynegi'n glir ac yn argyhoeddiadol yn adroddiad yr Athro John Furlong, a bydd yn sicrhau bod ein darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd fel bod athrawon sydd newydd gymhwyso yn gadael eu hyfforddiant cychwynnol wedi eu paratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

A curriculum that is by Wales for Wales must reflect our confidence and pride in Wales as a bilingual nation, with the strength and assurance to enable all learners to acquire skills in both Welsh and English. I am in no doubt that there is much to be done to improve pupils' Welsh-language skills in our English-medium schools; from ages three to 16, we have to build increased confidence and competence in the use of Welsh.

Mae'n rhaid i gwricwlwm sydd gan Gymru ar gyfer Cymru adlewyrchu ein hyder a'n balchder yng Nghymru fel cenedl ddwyieithog, gyda'r nerth a'r sicrwydd i alluogi pob dysgwr i gaffael sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid wyf yn amau o gwbl bod llawer i'w wneud i wella sgiliau iaith Gymraeg y disgyblion yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg; o dair oed i 16 oed, mae'n rhaid i ni ddatblygu mwy o hyder a gallu yn y defnydd o'r Gymraeg.

The qualification changes we've already begun are important and they will continue. I will be asking Qualifications Wales, our new independent qualifications regulator, to consider how the Welsh second language qualifications should develop in light of the 'Successful Futures' report. I will also be seeking advice on how, over the longer term, we can raise the expectations embodied in those qualifications.

Mae'r newidiadau o ran cymhwyster yr ydym eisoes wedi dechrau arnynt yn bwysig a byddant yn parhau. Byddaf yn gofyn i Gymwysterau Cymru, ein rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol newydd, i ystyried sut y dylai'r cymwysterau Cymraeg ail iaith ddatblygu o ystyried yr adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'. Byddaf hefyd yn gofyn am gyngor ar sut, dros y tymor hwy, y gallwn godi'r disgwyliadau a ymgorfforir yn y cymwysterau hynny.

As well as working with the profession, we will work closely with Estyn, the Education Workforce Council, higher education institutions, local authorities and regional school improvement services, all of whom have a vital role to play. Estyn have been an important partner and have made a substantial and important contribution to recent curriculum developments, including the literacy and numeracy framework. I know that the new chief inspector shares with me the desire to see this partnership continue and for Estyn to work alongside the pioneer schools.

Yn ogystal â gweithio gyda'r proffesiwn, byddwn yn gweithio'n agos ag Estyn, y Cyngor Gweithlu Addysg, sefydliadau addysg uwch, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol, ac mae gan bob un ohonynt swyddogaeth hanfodol. Mae Estyn wedi bod yn bartner pwysig ac wedi gwneud cyfraniad sylweddol a phwysig i ddatblygiadau diweddar yn y cwricwlwm, gan gynnwys y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Gwn fod y prif arolygydd newydd yn rhannu fy awydd i weld y bartneriaeth hon yn parhau ac i Estyn weithio ochr yn ochr â'r ysgolion arloesi.

I am also announcing today that I am establishing an independent advisory group to guide us as we take the next steps in building the new curriculum for Wales, and I am delighted that Professor Graham Donaldson has agreed to chair that group, supported by Professor John Furlong, and will continue to provide independent advice and guidance as we set about the task of realising the vision set out in 'Successful Futures' and 'Teaching Tomorrow's Teachers'.

Rwyf hefyd yn cyhoeddi heddiw fy mod yn sefydlu grŵp cynghori annibynnol i'n harwain wrth i ni gymryd y camau nesaf i ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru, ac rwyf wrth fy modd bod yr Athro Graham Donaldson wedi cytuno i gadeirio'r grŵp hwnnw, gyda chefnogaeth yr Athro John Furlong, a bydd yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad annibynnol wrth i ni ddechrau ar y dasg o wireddu'r weledigaeth a nodwyd yn 'Dyfodol Llwyddiannus' ac 'Addysgu Athrawon Yfory'.

I want to reaffirm for Members one crucial point. Our new curriculum will have rigour and excellence at its very core. In moving forward with these changes we will not row back on the higher standards we have helped inject into Welsh education over the last few years.

Rwyf eisiau ailgadarnhau un pwynt hollbwysig i'r Aelodau. Bydd trylwyredd a rhagoriaeth yn gwbl ganolog i'n cwricwlwm newydd. Wrth symud ymlaen â'r newidiadau hyn ni fyddwn yn gostwng y safonau uwch yr ydym wedi helpu i'w chwistrellu i mewn i addysg yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

I am not rushing to set out a timetable for implementation. Instead, as part of the continuation of the Great Debate, following discussion with our delivery partners, after taking views from stakeholders and guidance from the independent advisory group, I will publish a realisation framework in the autumn. The scale of our ambition in Welsh education is clear. We will have a new curriculum. We will have a new system of teacher training. We will have a new deal for professional development. These are the building blocks for a new self-improving system, built by us. And this is the prize that awaits us.

Nid wyf yn rhuthro i bennu amserlen ar gyfer gweithredu. Yn hytrach, yn rhan o barhad y Ddadl Fawr, ar ôl trafod gyda'n partneriaid darparu, ar ôl gofyn am farn rhanddeiliaid ac am gyfarwyddyd gan y grŵp cynghori annibynnol, byddaf yn cyhoeddi fframwaith gwireddu yn yr hydref. Mae maint ein huchelgais ar gyfer addysg yng Nghymru yn glir. Bydd gennym gwricwlwm newydd. Bydd gennym system newydd o hyfforddi athrawon. Bydd gennym fargen newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Dyma'r blociau adeiladu ar gyfer system hunanwella newydd, a adeiladwyd gennym ni. A dyma'r wobr sy'n aros amdanom.

16:05

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, thank you very much for your statement. May I, on behalf of the Welsh Conservatives, welcome Professor Donaldson's report, 'Successful Futures'? It's been an incredibly interesting read and we agree with much of that which it contains. Minister, in your statement, you talk of stopping the 'patch and mend' approach to addressing the weaknesses of the current curriculum. Now, this weakness stems from Welsh Government not allowing the curriculum to evolve over the past decade. So, may I ask you: how will you ensure that 'Successful Futures' remains alive to national and global changes over the years to come?

Weinidog, diolch yn fawr iawn am eich datganiad. A gaf i, ar ran Ceidwadwyr Cymru, groesawu adroddiad, 'Dyfodol Llwyddiannus' yr Athro Donaldson? Mae wedi bod yn adroddiad hynod o ddiddorol i'w ddarllen ac rydym yn cytuno â llawer o'r hyn y mae'n ei gynnwys. Weinidog, yn eich datganiad, rydych yn sôn am atal y dull 'clytio a thrwsio' o fynd i'r afael â gwendidau'r cwricwlwm presennol. Nawr, mae'r gwendid hwn yn deillio o'r ffaith nad yw Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i'r cwricwlwm esblygu dros y degawd diwethaf. Felly, a gaf fi ofyn i chi: sut y byddwch chi'n sicrhau bod 'Dyfodol Llwyddiannus' yn parhau i fod yn effro i newidiadau cenedlaethol a byd-eang yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod?

In a recent talk on curriculum reform in Wales, Neil Butler of NASUWT said that teachers in Wales have become, and I quote him, 'change-exhausted, due to Welsh Government's bombarding of schools with reform measures. Curriculum reform, as per the "Successful Futures" document, is another example of Welsh Government's highly interventionist approach to education policy.'

Mewn sgwrs ddiweddar ar ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru, dywedodd Neil Butler o NASUWT bod athrawon yng Nghymru, ac rwy'n ei ddyfynnu - wedi blino ar newid, oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn bombardio ysgolion â chamau diwygio. Mae diwygio'r cwricwlwm, yn unol â'r ddogfen "Dyfodol Llwyddiannus" yn enghraifft arall o'r dull ymyraethol iawn sydd gan Lywodraeth Cymru tuag at bolisi addysg.

This is what the NASUWT say, not what I say. With this in mind, though, Minister, what will you do to ensure that the curriculum reform is owned by the teachers and not merely imposed, and that they feel part of this? We understand that you're consulting with teachers about the reform via the Great Debate, but what else can you do, especially closer to the time of implementation, to assure teachers that they are taken with on this journey and not just told?

Dyma'r hyn y mae NASUWT yn ei ddweud, nid yr hyn rwyf i'n ei ddweud. Gyda hyn mewn golwg, fodd bynnag, Weinidog, beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod diwygio'r cwricwlwm yn dod o dan berchnogaeth athrawon, ac nid dim ond yn cael ei orfodi arnynt, a'u bod yn teimlo'n rhan o hyn? Rydym yn deall eich bod yn ymgynghori ag athrawon am y diwygio drwy'r Ddadl Fawr, ond beth arall allwch chi ei wneud, yn enwedig yn nes at yr amser y caiff ei weithredu, i sicrhau athrawon eu bod yn rhan o'r daith hon ac nad dim ond dweud wrthynt sy'n digwydd?

My third question, Minister: change of this scale will, inevitably, mean an increased workload for teachers and you yourself said in a previous statement that this is going to entail years of professional input at a level that many of our teaching workforce have never been expected to work at before. Given the amount of hours we already lose due to stress-related illnesses, Minister, how will you ensure that re-skilling teachers will be done in such a way that we do not see an increase in teacher absence, which will adversely, obviously, affect the educational experience of our pupils and that nor do we see a driving away from the profession of the young people who we so desperately need?

Fy nhrydydd cwestiwn, Weinidog: bydd newid ar y raddfa hon, yn anochel, yn golygu mwy o lwyth gwaith i athrawon ac fe ddywedasoch chi eich hun mewn datganiad blaenorol bod hyn yn mynd i olygu blynyddoedd o fewnbwn proffesiynol ar lefel na fu disgwyl i lawer o'n gweithlu addysgu weithio arno erioed o'r blaen. O ystyried faint o oriau yr ydym eisoes yn eu colli o ganlyniad i salwch sy'n gysylltiedig â straen, Weinidog, sut y byddwch chi'n sicrhau bod y gwaith o ailsgilio athrawon yn cael ei wneud yn y fath fodd fel nad ydym yn gweld cynnydd mewn absenoldeb athrawon, a fydd, yn amlwg, yn effeithio'n andwyol ar brofiad addysgol ein disgyblion ac nad ydym yn gweld y bobl ifanc yr ydym eu hangen mor daer yn cael eu gyrru i ffwrdd oddi wrth y proffesiwn?

Recommendation 19 of 'Successful Futures' says:

Mae Argymhelliad 19 o 'Dyfodol Llwyddiannus' yn nodi:

'All children and young people should make progress along the same continuum, regardless of any additional learning needs they may have, although they may reach and move between Progression Steps more slowly or more quickly than others.'

'Dylai'r holl blant a phobl ifanc wneud cynnydd ar hyd yr un continwwm, heb ystyried unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt, er y gallent gyrraedd a symud rhwng Camau Cynnydd yn arafach neu'n gyflymach nag eraill.'

Now, having this dynamic approach to pupil progression is very beneficial, and it's crucial, and I'm sure you will agree with me, that pupils with additional learning needs do not fall too far behind their peers. How, Minister, can you ensure that ALN pupils do not fall behind if they attend a mainstream school? Will you be incorporating this into the Bill that you propose to bring forward were you to be in Government in the fifth Assembly?

Nawr, mae cael yr agwedd ddeinamig hon tuag at ddilyniant disgyblion yn fuddiol iawn, ac mae'n hollbwysig, ac rwy'n siwr y byddwch yn cytuno â mi, nad yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn disgyn yn rhy bell y tu ôl i'w cyfoedion. Sut, Weinidog, y gallwch chi sicrhau nad yw disgyblion ADY yn mynd ar ôl os ydynt yn mynychu ysgol brif ffrwd? A fyddwch chi'n ymgorffori hyn yn y Bil yr ydych yn bwriadu ei gyflwyno pe byddech yn y Llywodraeth yn y pumed Cynulliad?

I'd also be interested, Minister, to know what discussions you've had with higher education and further education institutions with regard to their thoughts on the curriculum reform. I'm also very interested, Minister, to know how you're going to be able to tie Donaldson into Furlong, Hill and Williams, all of whom have brought forward, in some cases very worthy and in other cases maybe slightly more controversial, reforms. There's going to be an enormous pace of change in public services in Wales over the next decade, and I'd be interested to see how you see this fitting in.

Byddai gennyf ddiddordeb hefyd, Weinidog, mewn cael gwybod pa drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach o ran eu safbwyntiau ar ddiwygio'r cwricwlwm. Mae gennyf ddiddordeb mawr hefyd, Weinidog, mewn cael gwybod sut yr ydych yn mynd i allu ymglymu Donaldson â Furlong, Hill a Williams. Mae pob un ohonynt wedi awgrymu diwygiadau teilwng iawn mewn rhai achosion, a rhai ychydig yn fwy dadleuol efallai mewn achosion eraill. Bydd cyflymder y newid mewn gwasanaethau cyhoeddus yn aruthrol yng Nghymru dros y degawd nesaf, a byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod sut yr ydych chi'n gweld hyn yn rhan o hynny.

Two more questions, Deputy Presiding Officer: my second-to-last question is on these pioneer schools. When you're asking these schools to apply to be a pioneer school, I'd be interested to know how and when you intend to set out the criteria for becoming a pioneer school. How will you ensure schools don't end up being all things to all men and in the end losing some of their own essence? You talked about having schools that are going to be centres of excellence for modern foreign languages, schools that are going to lead on the digital inclusion project, and we quite often talk about the fact that they are likely to be very much the same schools. If those schools are plundered for all of their knowledge and all of their best practice, how do we reinforce and support those central schools, or do you see the pioneer schools being entirely different? And will pioneer schools be in primary and secondary?

Dau gwestiwn arall, Dirprwy Lywydd: mae fy nghwestiwn olaf ond un ar yr ysgolion arloesi hyn. Pan eich bod yn gofyn i'r ysgolion hyn wneud cais i fod yn ysgol arloesi, byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod sut a phryd yr ydych yn bwriadu gosod y meini prawf ar gyfer dod yn ysgol arloesi. Sut byddwch chi'n sicrhau nad yw ysgolion yn y pen draw yn bopeth i bawb ac yn y diwedd yn colli rhywfaint o'u hanfod eu hunain? Soniasoch am gael ysgolion sydd yn mynd i fod yn ganolfannau rhagoriaeth ar gyfer ieithoedd tramor modern, ysgolion sydd yn mynd i arwain ar y prosiect cynhwysiant digidol, ac rydym yn eithaf aml yn sôn am y ffaith eu bod yn debygol iawn o fod yr un ysgolion. Os caiff yr ysgolion hynny eu hysbeilio ar gyfer eu holl wybodaeth a'u holl arferion gorau, sut ydym ni'n atgyfnerthu ac yn cefnogi'r ysgolion canolog hynny, neu a ydych chi'n gweld yr ysgolion arloesi fel bod yn hollol wahanol? Ac a fydd ysgolion arloesi yn ysgolion cynradd ac uwchradd?

Finally, I appreciate that you're not rushing to set out a timetable. However, effective change comes about when there is focus and commitment and when the stakeholders are not left confused or afraid. Are you talking years or decades before you bring forward these changes? May I ask what will happen to the children who are going to be caught on the shoulders of this great reform to the curriculum in Wales? Thank you.

Yn olaf, rwyf yn gwerthfawrogi nad ydych yn rhuthro i nodi amserlen. Fodd bynnag, mae newid effeithiol yn digwydd pan fo canolbwyntio ac ymrwymiad a phan nad yw'r rhanddeiliaid yn cael eu gadael yn ddryslyd neu'n ofnus. A ydych chi'n sôn am flynyddoedd neu ddegawdau cyn i chi gyflwyno'r newidiadau hyn? A gaf fi ofyn beth fydd yn digwydd i'r plant a gaiff eu dal ar ysgwyddau'r diwygiad mawr hwn i'r cwricwlwm yng Nghymru? Diolch yn fawr.

16:10

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you, Deputy Presiding Officer—I thank Angela Burns, rather, for her questions and observations there. I would remind her, however, that the national curriculum of 1988 was a creature of the Conservative party and it is the inflexibility of that curriculum that Graham Donaldson was called upon, in part, to address. We can't have it all ways here; we can't have from the Welsh Conservatives a demand that the new curriculum is alive to the many changes going on across the world, and it is true that's exactly what we do need—the world does not stand still, particularly in terms of, for instance, new technology—and then complain about the system suffering from change exhaustion.

Wel, diolch i chi, Ddirprwy Lywydd—rwy'n diolch i Angela Burns, yn hytrach, am ei chwestiynau a'i sylwadau. Byddwn yn ei hatgoffa, fodd bynnag, mai creadur y blaid Geidwadol oedd cwricwlwm cenedlaethol 1988 ac anhyblygrwydd y cwricwlwm hwnnw y gofynnwyd i Graham Donaldson, yn rhannol, i fynd i'r afael ag ef. Ni allwn ei chael hi bob ffordd yn y fan yma; ni allwn gael galw gan Geidwadwyr Cymreig i'r cwricwlwm newydd fod yn effro i'r newidiadau lawer sy'n digwydd ledled y byd, ac mae'n wir mai dyna'n union sydd ei angen arnom—nid yw'r byd yn aros yn ei unfan, yn enwedig o ran, er enghraifft, technoleg newydd—ac yna cwyno bod y system yn dioddef o ludded oherwydd newid.

You cannot have any kind of intellectual coherence about a way forward if you simultaneously believe both those things to be true. We do need a curriculum that is alive to the way the world is—the way the twenty-first century will be—and anyone involved in education who believes that what is most necessary is that we stand still, really needs to rethink their career options, because this is not an option in terms of the life chances that we need to offer to our young people in terms of the very best curriculum that we can construct.

Ni allwch gael unrhyw fath o gydlyniad deallusol ynghylch y ffordd ymlaen os ydych ar yr un pryd yn credu bod y ddau beth hyn yn wir. Mae angen cwricwlwm sy'n effro i'r ffordd y mae'r byd—y ffordd y bydd yr unfed ganrif ar hugain—ac mae angen i unrhyw un sy'n ymwneud ag addysg sy'n credu mai'r hyn sydd fwyaf angenrheidiol yw ein bod yn aros yn ein hunfan, ailystyried ei ddewisiadau o ran gyrfa, oherwydd nid yw hyn yn ddewis o ran y cyfleoedd bywyd y mae angen i ni eu cynnig i'n pobl ifanc o ran y cwricwlwm gorau y gallwn ei adeiladu.

She may call this 'highly interventionist'; I would argue the opposite. The curriculum of 1988 was highly interventionist. I was one of the first teachers to be delivered of the curriculum of 1988. I remember it landing on my desk and needing a wheelbarrow to transport it around and it giving me instructions down to the last dot and comma about how I should conduct my professional judgment in the classroom. I was particularly struck by the contrast, of course, because, in my personal case, I had just moved from a teaching post in Scotland, where I was not exposed to the curriculum of 1988. The contrast in terms of how I regarded the trust in my professionalism in the two systems struck me as very marked indeed, and was not helpful to morale, I can assure you.

Efallai ei bod hi'n ei alw'n 'ymyraethol iawn'; byddwn i'n dadlau i'r gwrthwyneb. Roedd cwricwlwm 1988 yn ymyraethol iawn. Roeddwn i'n un o'r athrawon cyntaf i gyflwyno cwricwlwm 1988. Rwy'n ei gofio'n glanio ar fy nesg a bod angen berfa i'w gludo o gwmpas ac roedd yn rhoi cyfarwyddiadau i mi hyd at yr atalnod a'r atalnod llawn olaf ynghylch sut y dylwn arfer fy marn broffesiynol yn y dosbarth. Cefais fy nharo yn arbennig gan y gwrthgyferbyniad, wrth gwrs, oherwydd, yn fy achos personol i, roeddwn newydd symud o swydd dysgu yn yr Alban, lle nad oedd cwricwlwm 1988 yn berthnasol. Roedd gwrthgyferbyniad amlwg iawn rhwng y ddwy system o ran sut yr oeddwn yn gweld y ffydd yn fy mhroffesiynoldeb, a gallaf eich sicrhau nad oedd hyn yn helpu i godi ysbryd.

This is not an interventionist move, this move to the curriculum for Wales—I am not dictating any subject matter here at all. In fact—and I will make announcements later—there are only two areas on which I will argue, through debate in this Chamber and in other places, that we need particular change in response to a couple of agendas that are very important socially, one being personal, social and health education, and my colleague, the Minister for Public Services will just touch upon that later; we need a complete remoulding and re-professionalisation of PSHE, particularly as it relates to healthy relationships. The other, I believe, is religious education, where we need to think about how the world is changing and what our children need in order to make critical judgments about what tolerant citizenship actually is. Those are the only two.

Nid yw hwn yn gam ymyraethol, y cam hwn i'r cwricwlwm ar gyfer Cymru—nid wyf yn pennu unrhyw ddeunydd pwnc yma o gwbl. A dweud y gwir—a byddaf yn gwneud cyhoeddiadau yn ddiweddarach—dim ond mewn dau faes y byddaf yn dadlau, trwy ddadl yn y Siambr hon ac mewn mannau eraill, bod arnom angen newid penodol mewn ymateb i un neu ddau o agendâu sy'n bwysig iawn yn gymdeithasol, un ohonynt yw addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, a bydd fy nghydweithiwr, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn sôn am hyn yn nes ymlaen; mae arnom angen ail-lunio llwyr ac ail-broffesiynoli ABCh, yn enwedig yn y ffordd y mae’n ymwneud â pherthnasoedd iach. Y llall, rwy’n credu, yw addysg grefyddol, lle y mae angen i ni feddwl sut y mae'r byd yn newid a’r hyn sydd ei angen ar ein plant i lunio barn feirniadol am wir ystyr dinasyddiaeth oddefgar. Dyna'r unig ddau.

This curriculum will be driven by teachers. It will be written by teachers. It will be carried forward by teachers. The investment of trust that I am placing in the Welsh teaching profession is near to total, and to describe that as ‘highly interventionist’, I think, with respect, beggars belief. There are huge expectations of the Welsh teaching profession in terms of the direction of travel we are taking in this policy. A new level of autonomy is being offered, but, in return, the Welsh public and the Welsh Government will have a new level of expectation about the level to which our teaching profession needs to operate. And it is true that, for many professionals, they will never have been called upon to operate at such a high level ever before, but I believe that that is key to all the reforms that we’re undertaking at the moment—Donaldson, Furlong and the new deal. The model that I’m pursuing here of teaching and learning excellence in Wales is based upon the skill of the professional. Politicians cannot deliver higher standards. Only better professionals can do that. That’s the framework that I’m attempting to construct around the Welsh schools system.

Bydd y cwricwlwm yn cael ei ysgogi gan athrawon. Bydd yn cael ei ysgrifennu gan athrawon. Bydd yn cael ei ddwyn ymlaen gan athrawon. Mae'r buddsoddiad o ffydd rwyf yn ei roi yn y proffesiwn addysgu yng Nghymru bron yn gyfan gwbl, ac mae disgrifio hynny fel bod yn 'ymyraethol iawn', yn fy marn i, gyda pharch, yn anodd iawn ei gredu. Mae disgwyliadau mawr ar y proffesiwn addysgu yng Nghymru o ran y cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo yn y polisi hwn. Mae lefel newydd o ymreolaeth yn cael ei gynnig, ond, yn gyfnewid am hynny, bydd gan y cyhoedd yng Nghymru a Llywodraeth Cymru lefel newydd o ddisgwyliadau ynghylch y lefel y mae angen i'n proffesiwn addysgu weithredu arno. Ac mae'n wir, i lawer o weithwyr proffesiynol, na fyddant wedi cael eu galw i weithredu ar lefel mor uchel erioed o'r blaen, ond credaf fod hynny'n allweddol i'r holl ddiwygiadau yr ydym yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd—Donaldson, Furlong a'r fargen newydd. Mae'r model rwyf yn mynd ar ei drywydd yma, o ragoriaeth addysgu a dysgu yng Nghymru, yn seiliedig ar sgiliau’r gweithiwr proffesiynol. Ni all wleidyddion gyflawni safonau uwch. Dim ond gwell gweithwyr proffesiynol sy’n gallu gwneud hynny. Dyna'r fframwaith rwyf i'n ceisio ei ddatblygu o gwmpas system ysgolion Cymru.

I hope that I touched upon Angela Burns’s points about links with other policy development areas, like Furlong and the new deal. In terms of the pioneer schools criteria I will, of course, be publishing those very soon. I can say that there will be considerable flexibility in terms of what a pioneer school looks like. We will need all sorts of expertise brought to the table. They will include secondary, primary and special schools. They will also have to be extremely well led—an established track record within the school. I’m not talking just about the headteacher but of departmental leadership as well. We will need those schools to be very well led so that, in part answer to the second question, they are robust in terms of the demands put upon them. The Member will be aware also that I’ve set aside £3 million to assist those schools as they put this extra effort and extra staff time into the development of the new curriculum for a national purpose to ensure that they are reinforced—I think that was the phrase that was used—and are enabled to contribute in the way that we would expect.

Rwyf yn gobeithio fy mod wedi crybwyll pwyntiau Angela Burns am gysylltiadau â meysydd datblygu polisi eraill, fel Furlong a'r fargen newydd. O ran meini prawf yr ysgolion arloesi, byddaf, wrth gwrs, yn cyhoeddi y rhain yn fuan iawn. Gallaf ddweud y bydd cryn hyblygrwydd o ran beth fydd ysgol arloesi. Bydd angen bob math o arbenigedd arnom. Byddant yn cynnwys ysgolion uwchradd, cynradd ac ysgolion arbennig. Bydd yn rhaid iddynt hefyd gael eu harwain yn hynod o dda—gyda hanes sefydledig o fewn yr ysgol. Nid wyf yn siarad am y pennaeth yn unig, ond yr arweinyddion adrannol yn ogystal. Bydd angen i’r ysgolion hynny gael eu harwain yn dda iawn er mwyn, mewn ateb rhannol i'r ail gwestiwn, iddynt fod yn gadarn o ran y gofynion a roddir arnynt. Bydd yr Aelod yn ymwybodol hefyd fy mod i wedi neilltuo £3 miliwn i gynorthwyo’r ysgolion hynny wrth iddynt roi’r ymdrech ychwanegol hon ac amser staff ychwanegol i ddatblygu’r cwricwlwm newydd at ddiben cenedlaethol i sicrhau eu bod yn cael eu hatgyfnerthu—credaf mai dyna’r ymadrodd a ddefnyddiwyd—ac yn cael eu galluogi i gyfrannu yn y ffordd y byddem yn disgwyl.

In terms of time frames, I've already said that, in line with Graham Donaldson's advice, we anticipate a timescale for full implementation of the new curriculum of between seven and eight years.

O ran amserlenni, rwyf eisoes wedi dweud, yn unol â chyngor Graham Donaldson, ein bod yn rhagweld y bydd yr amserlen ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llawn rhwng saith ac wyth mlynedd.

16:17

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Plaid Cymru yn croesawu adroddiad yr Athro Donaldson, ac yn croesawu'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud heddiw ynglŷn â derbyn yr adroddiad. Os oedd angen whilber ar y Gweinidog ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol yn 1998, mae angen 'mini JCB' erbyn hyn i symud o gwmpas gyda'r ddogfennaeth sydd wedi casglu o gwmpas, nid yn unig o ran y cwricwlwm ond yr holl rychwant o fentrau sydd gan y Llywodraeth. Mae'r Athro Donaldson, i raddau helaeth, yn torri trwy hynny i gyd gyda meddylfryd clir a chyda 'logic', mae'n rhaid imi ddweud. Rwy'n falch, felly, bod y Llywodraeth wedi derbyn hynny.

Plaid Cymru welcomes Professor Donaldson's report, and welcomes what the Minister has said today about accepting the report. If the national curriculum in 1998 needed a wheelbarrow for the Minister to carry it around, we now need a mini JCB to actually move around with the documentation that has accumulated, not only around the curriculum but the whole range of initiatives that the Government has. Professor Donaldson, to a great extent, cuts through all of that with clear thinking and with clear logic, I must say. I'm very pleased, therefore, that the Government has accepted that.

Mae'n rhaid imi ddechrau, serch hynny, gyda'r pwynt diwethaf yr oedd yn sôn amdano, ynglŷn â'r amserlen. Mae e nawr wedi dweud wyth mlynedd. Mae wedi sôn o'r blaen am ddegawd; er enghraifft, yn yr araith a wnaethoch yn Nantgarw nôl ym mis Chwefror, Weinidog. Beth sy'n bwysig am hyn rwy'n meddwl yw bod yna ddealltwriaeth bod hyn yn mynd i gymryd o leiaf dau Gynulliad arall—ac efallai nid yr un Llywodraeth, neu'r un blaid mewn Llywodraeth. Er bod Plaid Cymru yn fodlon ymrwymo i'r broses yma, nid wy'n siŵr a fyddai pob plaid, neu blaid sydd ddim eto yn y lle yma, yn ymrwymo i'r broses. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn deall ychydig yn fwy am yr amserlen a'r rhaglen weithredu. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cyhoeddi honno maes o law, ond byddwn yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ei bod yn cael ei chyhoeddi fel bod modd dylanwadu ar y Cynulliad nesaf, a'r un wedyn. Does dim modd rhwymo'r Cynulliad, ond mae modd dylanwadu arno.

I have to start, however, with the final point that he mentioned, in terms of the timetable. He has now said that it will take eight years. In the past he has mentioned a decade; for example, in the speech that you gave in Nantgarw back in February, Minister. What's important about this, I think, is that there should be an understanding that this will take at least another two Assemblies—and it will not necessarily be the same Government or the same party in Government. Although Plaid Cymru is prepared to commit to this process, I'm not sure whether every other party, or a party that isn't yet elected to this place, would commit to the process. So, I think it is important that we understand a little more about the timetable and the programme of implementation. The Minister said that he would publish that in due course. However, I would have thought that it would be very important that that should be published so that the next Assembly, and the following Assembly, can be influenced. You can't actually bind the Assembly, but you can bring influence to bear.

Yr ail bwynt rwyf eisiau codi yw'r cysyniad sydd ganddo fe heddiw o ysgolion arloesol. Mae Plaid Cymru eisoes wedi cefnogi'r cysyniad o beth rŷm ni'n eu galw yn ysgolion enghreifftiol—'model schools'—yn benodol fel ysgolion sy'n gallu bod yn labordai ar gyfer addysgu da, gyda chydweithio â phrifysgolion, ac felly'n rhan o sut rŷm ni'n gweddnewid ymarfer dysgu yng Nghymru. I mi, mae modd, efallai, cyfuno'r ddau syniad yma. Mae modd i ysgolion o'r fath ddatblygu'n labordai, nid yn unig ar gyfer y cwricwlwm newydd, ond ar gyfer y cysyniadau newydd sy'n deillio o adroddiad Furlong hefyd. Hoffwn glywed ychydig yn fwy gan y Llywodraeth ynghylch ai dyma sydd gan y Gweinidog mewn golwg. Fe soniodd y Gweinidog am y £3 miliwn sydd wedi'i neilltuo hyd yn hyn at y pwrpas yma. Rwy'n croesawu'r arian yna, wrth gwrs, ond rwyf yn awgrymu efallai nad yw'n ddigonol. Fel roedd y Gweinidog yn dweud yn y lle cyntaf, nôl ym mis Mawrth, roedd £1 miliwn o ran y gwaith cychwynnol, ac yna £2 filiwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Rwy'n credu bydd eisiau buddsoddiad o'r math yna, os nad mwy, dros yr wyth mlynedd. A ydych chi eisoes wedi dechrau paratoi ar gyfer hyn?

The second point I wish to raise is the concept that he has today of the pioneer schools. Plaid Cymru has already supported the concept of what we call model schools, specifically schools that can be laboratories for good teaching and educating, working with universities, and therefore being part of our approach to transforming teacher training in Wales. For me, both ideas could be combined, perhaps. Such schools could be developed into laboratories, not only for the new curriculum, but also for the new concepts emerging from the Furlong report. I would like to hear a little more from the Government as to whether this is what the Minister has in mind. He mentioned the £3 million allocated to date to this end. I welcome that funding, of course, but I would suggest that, perhaps, it isn't sufficient. As the Minister said initially, back in March, there was £1 million in terms of the initial work, and then £2 million during this financial year to develop the new curriculum. I think that that sort of investment, if not more, will be required over the eight years. Have you made preparations for that yet?

Wedyn, mae yna gwpl o gwestiynau sy'n deillio, rwy'n credu, o'r gweithredu ar argymhellion Donaldson. Yn gyntaf oll: a fydd hwn yn arwain at adolygu'r categoreiddio sy'n digwydd o dan y Llywodraeth yn awr? Beth sydd ymhlyg, yng ngoleuni'r cwricwlwm newydd, ar gyfer categoreiddio? Sut mae modd cael ysgolion sydd efallai'n arloesi gyda'r cwricwlwm newydd ochr yn ochr â'r ysgolion sy'n dilyn, os liciwch chi, yr hen gwricwlwm, a mesur ar draws y ddau fath o ysgol wahanol? A fyddwch chi felly hefyd yn newid nifer neu amlder y profion ar gyfer llythrennedd a rhifedd? Nid oes sôn yn eich datganiad heddiw ynglŷn â hynny, ond rwy'n sylwi bod y stori yn y wasg—gan y BBC—yn arwain gyda hwn. Felly, byddwn yn licio gwybod mwy gan y Gweinidog ynglŷn â'r ffordd y mae'n gweld y bydd profion yn datblygu o Donaldson. Mae Donaldson, fel y mae'r Gweinidog wedi dweud, yn rhoi cymaint o bwysau ar athrawon yn arwain ac athrawon yn arfarnu. Ond rydym yn gwybod, onid ydym, o adroddiadau Estyn, nad yw'r proffesiwn yn medru gwneud hynny i'w llawn botensial ar hyn o bryd, ac mae'r proffesiwn yn methu arfarnu yn ôl safon ar hyn o bryd? Felly, mae'n rhaid newid y broses honno fel ein bod ni'n gallu cael ein rhyddhau o hualau'r profion presennol.

Then, there are a few questions that emerge, I think, from the implementation of the Donaldson recommendations. First of all: will this lead to a review of the categorisation that happens under this Government now? What is implicit, in the light of the new curriculum, in terms of categorisation? How can we have schools that are, perhaps, pioneer schools with the new curriculum alongside those schools that are working to the old curriculum, if you like, and benchmark those two approaches? Will you also then change the number or frequency of numeracy and literacy tests? There is no mention in your statement today of that, but I note that there's a story in the press—by the BBC—that leads with this. So, I'd like to know more from the Minister on how he believes testing will develop from Donaldson. As the Minister has said, Donaldson places such emphasis on teachers leading and teachers evaluating. But we do know, don't we, from Estyn reports, that the profession isn't able to do that to its full potential at present, and that the profession is unable to evaluate to the standard at present? So, that process must be changed so that we can be released from the shackles of the current testing regime.

Sut ydych chi'n mynd i gyfuno—ac rwy'n gwybod y bydd hon yn ddadl dros y blynyddoedd i ddod—? A oes gyda chi syniad eto am sut y byddwch chi'n cyfuno'r pedwar pwrpas sydd gan y cwricwlwm, yn ôl Donaldson, gyda'r chwe ardal dysgu? Rydych chi wedi cyffwrdd ag un o'r meysydd yna eich hunan wrth ateb Angela Burns, Weinidog, sef addysg bersonol ac iechyd, neu ABCh fel y mae'n cael ei alw. Ar hyn o bryd, mae'r maes hwn yn cael ei ddarparu, y byddwn i'n dweud, yn gyfyng iawn, ac nid yw'n rhedeg ar draws y cwricwlwm. Mae'n amlwg, o fewn argymhellion Donaldson, fod modd iddo redeg ar draws y cwricwlwm, ond mae'n gofyn am sgiliau go arbennig nad oes gan y proffesiwn mohonynt ar hyn o bryd—nid oherwydd nad ydynt yn gallu gwneud hynny, ond oherwydd nad ydynt yn cael eu hyfforddi na'u paratoi ar gyfer gweithio yn y modd hwnnw.

How are you going to combine–I know this will be an argument that we have over a period of years—? Do you yet know how you will combine the four purposes of the curriculum, according to Donaldson, with the six learning areas? You've touched on one of those areas in your response to Angela Burns, Minister, which is personal, social and health education, or PSHE as it's called. At the moment, that is provided, I would say, in a very narrow sense, and it doesn't run across the curriculum. It's clear, within the Donaldson recommendations, that there is a means for that to actually spread across the whole curriculum, but it requires special skills that aren't necessarily available in the profession at present—not because they can't do that, but because they haven't been trained for working in that way.

Trof at ddau beth penodol i orffen. Rydych eisoes wedi datgan, wrth gwrs, eich bod chi'n symud at gymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm. Rydych eisoes wedi gwneud y cyhoeddiad hwnnw, sy'n rhan o argymhellion Donaldson. Felly, rwy'n cymryd eich bod yn hyderus bod y sector yn barod ar gyfer y gweithredu hwnnw. Felly, mewn ffordd, rydych eisoes yn arwain ar ran o Donaldson wrth gyflwyno'r cymhwysedd digidol yma. Nid wy'n gwrthwynebu hynny o gwbl; rwy'n meddwl ei fod yn gwbl briodol. Ond, mae rhywbeth arall yn Donaldson sydd, yn fy marn i, yn gyfuwch, os liciwch chi, sef y cyswllt rhwng dysgu Cymraeg fel ail iaith—rhywbeth yr ydych weddi cyfeirio ato—ac ieithoedd modern eraill: trydedd iaith yn cael ei chyflwyno mewn ysgolion. Mae gennych chi adroddiad penodol iawn gan Sioned Davies am y materion hyn. Roedd yr adroddiad hwnnw wedi mynd i mewn i grombil Donaldson i gael ei ystyried fel rhan o hwnnw. Mae egwyddorion yr adroddiad yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad Donaldson, ond nid ydych wedi gweithredu—neu ddatgan unrhyw weithredu—ar fanylion polisi argymhellion Sioned Davies. A ydych chi mewn sefyllfa nawr i ddatgan y byddech chi'n gwneud hynny?

I'll turn to two specific things to conclude. You've already stated, of course, that you're moving towards digital competence across the curriculum. You've already made that statement, which is part of the Donaldson recommendations. So, I assume that you're confident that the sector is ready to implement that approach. So, in a way, you're already leading on part of Donaldson in introducing this digital competence. I don't oppose that at all; I think it's entirely appropriate. But, there is something else within Donaldson, which, in my view, is of equal importance, namely the link between the teaching of Welsh as a second language—which you did mention—and modern foreign languages: the third language being introduced in schools. You have a very specific report from Sioned Davies on these issues. That report was fed into Donaldson for its consideration. The principles in the report are reflected in the Donaldson review, but you haven't implemented, or announced the implementation of the Sioned Davies recommendations. Are you now in a position to state that you will do so?

This is an extremely important piece of work that will revolutionise how we teach in Wales. As the Minister has outlined, it will also need a revolution within the profession to deliver that. In that regard, Plaid Cymru stands with the Minister and believes that this is the way forward for the Welsh education system. But there is a question of resources and commitment, and there is also a question of professional standards, which I don't think we have quite in place yet, because I don't think the Education Workforce Council is up to that task at the moment. But, I suggest it is the body that takes that task forward.

Mae hwn yn ddarn eithriadol o bwysig o waith a fydd yn chwyldroi'r ffordd yr ydym yn addysgu yng Nghymru. Fel y mae'r Gweinidog wedi nodi, bydd angen chwyldro hefyd o fewn y proffesiwn er mwyn cyflawni hynny. Yn hynny o beth, mae Plaid Cymru yn sefyll gyda'r Gweinidog ac yn credu mai dyma'r ffordd ymlaen ar gyfer y system addysg yng Nghymru. Ond mae cwestiwn o ran adnoddau ac ymrwymiad, a hefyd mae cwestiwn am safonau proffesiynol, ac nid wyf yn credu ein bod wedi sefydlu hynny eto, oherwydd nid wyf yn credu bod y Cyngor Gweithlu Addysg yn barod ar gyfer y dasg ar hyn o bryd. Ond, rwy'n awgrymu mai dyna'r corff a ddylai fwrw ymlaen â'r dasg.

16:24 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, can I thank Simon Thomas for those important—indeed, weighty—points that he has made in many aspects of the debate this afternoon. He's actually right: there will need to be a degree of cross-party consensus here to ensure the future safety of this agenda. I, for one, intend to work to make that consensus as robust as possible. We do live in a democracy, however, and I think that probably the best way of ensuring that this agenda carries through without political interference is to—and this is my responsibility—showcase its efficacy at every stage, and to enthuse those stakeholders beyond politics that their role in this is secure, respected and that we are offering real impact in terms of educational improvement, and career satisfaction as well for teachers.

Ddirprwy Lywydd, a gaf i ddiolch i Simon Thomas am y pwyntiau pwysig—yn wir, swmpus—y mae wedi eu nodi mewn sawl agwedd ar y ddadl y prynhawn yma. Mae'n iawn mewn gwirionedd: bydd angen cael rhywfaint o gonsensws trawsbleidiol yma i sicrhau diogelwch yr agenda hon yn y dyfodol. Rwyf i, yn un, yn bwriadu gweithio i wneud y consensws mor gadarn â phosibl. Rydym yn byw mewn democratiaeth, fodd bynnag, ac rwyf yn credu ei bod yn debygol mai'r ffordd orau o sicrhau bod yr agenda hon yn bwrw ymlaen heb ymyrraeth wleidyddol—a fy nghyfrifoldeb i yw hyn—yw arddangos ei heffeithiolrwydd ar bob cam, ac ennyn brwdfrydedd y rhanddeiliaid hynny sydd y tu hwnt i wleidyddiaeth bod eu swyddogaeth yn hyn yn ddiogel, yn cael ei pharchu a'n bod yn cynnig effaith gwirioneddol o ran gwella addysg, a hefyd rhoi boddhad yn eu gyrfa i athrawon.

He's right, I think, to suppose that there will be, inevitably, some overlap between pioneer schools in terms of curricular development and what I've been calling 'training schools' that would be connected to initial teacher education and training. I wouldn't be at all surprised if there were—. If we're looking for the best of the best in terms of student experience and curriculum development, then there will no doubt be some kind of overlap. I don't know if the terminology here needs to be set in stone or worried over overmuch, and I will confess, actually, that 'pioneer schools' comes very simply from the fact that I'm a Co-operative-sponsored Member of the Assembly and I tend to like the idea of pioneering, as in Rochdale.

Mae'n iawn, rwy'n meddwl, i dybio y bydd, yn anochel, rhywfaint o orgyffwrdd rhwng ysgolion arloesi o ran datblygu'r cwricwlwm a'r hyn yr wyf wedi bod yn eu galw yn 'ysgolion hyfforddi' a fyddai'n gysylltiedig â hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon. Ni fyddwn yn synnu o gwbl pe byddai—. Os ydym yn chwilio am y gorau o'r goreuon o ran profiad myfyrwyr a datblygu cwricwlwm, yna nid oes unrhyw amheuaeth y bydd rhyw fath o orgyffwrdd. Nid wyf yn gwybod os oes angen i'r derminoleg yma gael eu sefydlu'n ffurfiol na bod angen poeni fawr am hynny, ac rwy'n cyfaddef, mewn gwirionedd, bod 'ysgolion arloesi' yn dod yn syml iawn o'r ffaith fy mod yn Aelod Cynulliad a noddir gan y blaid Gydweithredol ac rwy'n tueddu i hoffi'r syniad o arloesi, fel yn Rochdale.

Three million pounds is not sufficient. No, of course it's not—£3 million is a down payment, really, for this year, in terms of getting our work off the ground. He's quite right that investment of that order, or greater, would be necessary in each of the seven or eight years that we're undertaking this work. That's true, and we'll have to take on that budgetary responsibility.

Nid yw tair miliwn o bunnau yn ddigon. Na, wrth gwrs nad ydyw—blaendal yw £3, mewn gwirionedd, ar gyfer eleni, o ran dechrau ar ein gwaith. Mae e'n hollol iawn y byddai buddsoddiad o'r math hwnnw, neu fwy, yn angenrheidiol ar gyfer pob un o'r saith neu wyth mlynedd y byddwn yn ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae hynny'n wir, a bydd yn rhaid i ni gymryd y cyfrifoldeb cyllidebol hwnnw.

He's right to say that we'll have to look at categorisation at some point—yes, he is. For instance, key stages won't be a part of the conversation as the new curriculum kicks in. So, that gives us pause for thought, but I would say that I cannot anticipate a near-to-middle future where categorisation is not a feature of the Welsh landscape, because his final point is also correct: we are not where we need to be in terms of a system that shifts for itself and is self-improving.

Mae e'n iawn i ddweud y bydd yn rhaid inni edrych ar gategoreiddio ar ryw bwynt—ydy, mae ef. Er enghraifft, ni fydd cyfnodau allweddol yn rhan o'r sgwrs wrth i'r cwricwlwm newydd ddechrau gweithredu. Felly, mae hynny'n rhoi rhywbeth i ni ei ystyried, ond byddwn yn dweud na allaf ragweld dyfodol agos i ganolig lle nad yw categoreiddio yn nodwedd o dirlun Cymru, oherwydd mae ei bwynt olaf hefyd yn gywir: nid ydym wedi cyrraedd lle y mae angen inni fod o ran system sy'n newid ei hun ac yn gwella ei hun.

The sole criticism of Welsh teachers that I have ever offered, really, in this post is that they have never really realised their own strength in terms of what they could offer the country, their pupils and wider society, and that, in many ways, is because they've not been given permission or, simultaneously, have not had expectations set for them that would enable that strength within the profession really to come to the fore and drive improvement from within the teaching expertise that is out there already. And that's why also, on another one of Simon Thomas's points, I would see testing as remaining as an essential part—I think the BBC has slightly got the wrong end of the stick in their reporting today. This is not about less testing or fewer tests; it is about better testing—being clear about when we're testing formatively for diagnosis of children's strengths and weaknesses, and then acting on the diagnosis critically, and when we're testing for accountability for the public and for parents and, indeed, for the pupils themselves. We need to be clearer about that, the profession needs to be clearer about that, and we need to be better at it, particularly in terms of teacher assessment, which, at the moment, if left to its own devices, would only take us backwards in terms of the standards agenda, and I think any honest observer, including the NASUWT, in a quiet moment, would confess to the truth of that.

Yr unig feirniadaeth ar athrawon Cymru yr wyf erioed wedi ei chynnig, mewn gwirionedd, yn y swydd hon, yw nad ydynt erioed wedi gwireddu eu nerth eu hunain o ran yr hyn y gallent ei gynnig i'r wlad, eu disgyblion a chymdeithas yn gyffredinol, ac, mae hynny oherwydd nad ydynt, mewn sawl ffordd, wedi cael caniatâd neu, ar yr un pryd, nad oes disgwyliadau wedi eu gosod ar eu cyfer a fyddai'n galluogi'r cryfder hwnnw o fewn y proffesiwn i ddod i'r amlwg a sbarduno gwelliant o'r tu mewn i'r arbenigedd addysgu sydd eisoes ar gael. A dyna pam hefyd, ar un arall o bwyntiau Simon Thomas, y byddwn yn gweld profion yn parhau i fod yn rhan hanfodol—rwy'n meddwl bod y BBC wedi camddeall braidd yn eu hadroddiadau heddiw. Nid yw hyn yn ymwneud â llai o brofion; mae'n ymwneud â phrofion gwell—bod yn glir ynghylch pryd rydym yn profi'n ffurfiannol ar gyfer cael diagnosis o gryfderau a gwendidau plant, ac yna gweithredu ar y diagnosis yn feirniadol, a phan fyddwn ni'n profi ar gyfer atebolrwydd i'r cyhoedd ac ar gyfer rhieni ac, yn wir, ar gyfer y disgyblion eu hunain. Mae angen i ni fod yn gliriach am hynny, mae angen i'r proffesiwn fod yn gliriach ynghylch hynny, ac mae angen inni fod yn well am wneud hynny, yn enwedig o ran asesiadau athrawon, sydd, ar hyn o bryd, pe byddent yn cael eu gadael fel ag y maent, ond yn mynd â ni at yn ôl o ran yr agenda safonau, ac rwy'n meddwl y byddai unrhyw sylwebydd onest, gan gynnwys NASUWT, mewn eiliad dawel, yn cyfaddef bod hynny'n wir.

He's right to say that there is a skills issue with PSHE. I think we need to think about how the New Deal relates to that, but also how Furlong relates to that. The question hanging in the air is: do we need teachers to opt for PSHE as their specialist subject area right from day one of their choice to become a student teacher? Do we offer that course as a skills set that our schools need, that our young people need, and ask our universities to work towards qualifying PSHE teachers, or whatever we might call them in the future? I think that's a very real question that we need to address as part of this process.

Mae e'n iawn i ddweud bod problem sgiliau ag ABCh. Rwy'n credu bod angen i ni feddwl sut y mae'r Fargen Newydd yn ymwneud â hynny, ond hefyd sut y mae Furlong yn ymwneud â hynny. Y cwestiwn sy'n dal heb ei ateb yw: a oes arnom angen i athrawon ddewis ABCh fel eu maes pwnc arbenigol o'r diwrnod cyntaf y maent yn dewis bod yn athro dan hyfforddiant? A ydym ni'n cynnig y cwrs fel cyfres o sgiliau y mae eu hangen ar ein hysgolion, y mae eu hangen ar ein pobl ifanc, ac yn gofyn i'n prifysgolion weithio tuag at gymhwyso athrawon ABCh, neu beth bynnag y byddwn yn ei alw yn y dyfodol? Rwy'n credu bod hynny'n gwestiwn gwirioneddol y mae angen inni roi sylw iddo yn rhan o'r broses hon.

He's right, and I know his concern and his sense of frustration around Welsh and modern foreign languages. I have, of course, spoken about our global futures strategy. Sioned Davies has not been forgotten, and there will be further announcements in the late summer and autumn about exciting new approaches to the acquisition of Welsh and—I'm reluctant even to use the phrase 'Welsh second language' any more—but the acquisition of Welsh and modern foreign languages as well. The Member will have to maintain a little more patience in that regard.

Mae e'n iawn, ac rwy'n gwybod am ei bryder a'i ymdeimlad o rwystredigaeth am y Gymraeg ac ieithoedd tramor modern. Rwyf, wrth gwrs, wedi siarad am ein strategaeth dyfodol byd-eang. Nid yw Sioned Davies wedi ei hanghofio, a bydd mwy o gyhoeddiadau yn hwyr yn ystod yr haf a'r hydref ynghylch dulliau newydd cyffrous o gaffael y Gymraeg a—dwi'n amharod hyd yn oed i ddefnyddio'r ymadrodd 'Cymraeg ail iaith' bellach—chaffael y Gymraeg ac ieithoedd tramor modern yn ogystal. Bydd yn rhaid i'r Aelod gael ychydig mwy o amynedd yn hynny o beth.

Simon Thomas is right to say that if we're talking about a self-improving system, the Education Workforce Council clearly has a pivotal role in future models of the Welsh school system. It should be the repository of professional expertise. It should be involved in quality control of professional development. It should be driving continuous professional improvement as well as professional development, and it should be owned by the teaching profession. There is a quid pro quo for that too. Such a business is expensive, and such a business should be co-funded between Government and the professionals.

Mae Simon Thomas yn iawn i ddweud os ydym yn sôn am system hunan-wella, ei bod yn amlwg bod gan y Cyngor Gweithlu Addysg swyddogaeth allweddol mewn modelau o system ysgolion Cymru yn y dyfodol. Dylai fod yn ystorfa o arbenigedd proffesiynol. Dylai fod yn rhan o reoli ansawdd datblygiad proffesiynol. Dylai fod yn sbarduno gwelliant proffesiynol parhaus yn ogystal â datblygiad proffesiynol, a dylai'r proffesiwn addysgu ei berchnogi. Mae quid pro quo ar gyfer hynny hefyd. Mae busnes o'r fath yn ddrud, a dylai busnes o'r fath gael ei gyd-ariannu rhwng y Llywodraeth a'r gweithwyr proffesiynol.

16:30 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I think the road map that you're outlining towards the new curriculum following the Donaldson review is the logical next step for changes, and I think it builds on the important uplift that we've seen in standards. Now, as part of this great debate, I've spoken to many teachers and support staff within the Vale of Clwyd, both at primary and secondary level, and they, I know, are excited about this change as well, and they want to be part of the challenge. One of the things they've raised with me, though, is: given the inclusive nature of what Professor Donaldson has outlined, one issue that will be very important as we move forward is the support structure that we have around young people, and around the schools, and whether that's within the school or drawing from external agencies. I wonder, Minister, whether you would give some thought now, as we progress with this new curriculum structure, to using this as an opportunity to think creatively about how we can provide appropriate guidance and support to those young people in their school years, whether it is through the reformed area of PSHE, or whether it is that we draw on external agencies such as social services and others, so that we provide the pupil with that personalised educational support that they will need to be able to get the best out of Donaldson.

Weinidog, rwy'n credu mai'r llwybr yr ydych yn ei amlinellu tuag at y cwricwlwm newydd yn dilyn adolygiad Donaldson yw'r cam rhesymegol nesaf ar gyfer newidiadau, ac rwy'n credu ei fod yn adeiladu ar y cynnydd pwysig rydym wedi ei weld mewn safonau. Nawr, yn rhan o'r ddadl fawr hon, rwyf wedi siarad â llawer o athrawon a staff cymorth yn Nyffryn Clwyd, ar lefel gynradd ac uwchradd, ac maent, rwy'n gwybod, yn gynhyrfus am y newid hwn hefyd, ac maen nhw eisiau bod yn rhan o'r her. Un o'r pethau maen nhw wedi ei godi gyda mi, fodd bynnag, yw: o ystyried natur gynhwysol yr hyn y mae'r Athro Donaldson wedi ei amlinellu, un mater a fydd yn bwysig iawn wrth i ni symud ymlaen yw'r strwythur cymorth sydd gennym ar gyfer pobl ifanc, ac ar gyfer yr ysgolion, ac a yw hynny o fewn yr ysgol neu'n dod o asiantaethau allanol. Tybed, Weinidog, a fyddech chi'n rhoi rhywfaint o ystyriaeth i hyn nawr, wrth inni symud ymlaen gyda'r strwythur cwricwlwm newydd hwn, i ddefnyddio hwn fel cyfle i feddwl yn greadigol am sut y gallwn ni roi arweiniad a chymorth priodol i'r bobl ifanc hynny yn eu blynyddoedd yn yr ysgol, boed hynny trwy'r maes ABCh wedi ei ddiwygio, neu ein bod yn defnyddio asiantaethau allanol megis gwasanaethau cymdeithasol ac eraill, er mwyn darparu i'r disgybl y cymorth addysgol personol y bydd ei angen arno i allu cael y gorau allan o Donaldson.

16:32 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, the Member for the Vale of Clwyd is quite right: these issues do not sit in isolation. They are part of a wider network of needs that must be met around young people, in my view. I don't pretend to have a ready-packaged answer to this. I think all of us together as policy makers, your committee and the stakeholders out there need to address this issue as one of the first priorities within the curriculum change: how we support young people, not just with sex and relationships education, or PSHE, but also issues like pastoral care, behaviour, educational psychology services, counselling, family engagement, social services linkages and learning support generally—each child having a very different set of needs and strengths within that sort of picture.

Ydy, mae'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd yn llygad ei le: nid yw'r materion hyn yn rhywbeth sydd ar wahân. Maent yn rhan o rwydwaith ehangach o anghenion y mae'n rhaid eu bodloni ar gyfer pobl ifanc, yn fy marn i. Nid wyf yn honni bod gennyf ateb parod i hyn. Rwy'n meddwl bod angen i bob un ohonom gyda'n gilydd fel llunwyr polisi, eich pwyllgor a'r rhanddeiliaid allan yna, fynd i'r afael â'r mater hwn fel un o'r blaenoriaethau cyntaf o fewn y newid yn y cwricwlwm: sut yr ydym yn cefnogi pobl ifanc, nid gydag addysg rhyw a pherthnasoedd yn unig, neu ABCh, ond hefyd materion fel gofal bugeiliol, ymddygiad, gwasanaethau seicoleg addysg, cwnsela, ymgysylltu â theuluoedd, cysylltiadau gwasanaethau cymdeithasol a chymorth dysgu yn gyffredinol—pob plentyn â chyfres wahanol iawn o anghenion a chryfderau o fewn y math hwnnw o ddarlun.

There are a number of different models that we could look at. We could look at a one-stop-shop model within schools—almost a department, if you like, that brokers support for young people's needs according to their individual needs. There's also a very interesting model that I'm familiar with in Scotland, where they don't have departments as such, but they do have specially trained guidance teachers who can help pupils decide in terms of their subject choices, how their progress is going, their attainment, careers advice and so on, but also overlapping into those areas of personal support I was talking about earlier—issues like bullying, settling in and transition; those issues. There are teachers with great experience in that area.

Mae nifer o wahanol fodelau y gallem edrych arnynt. Gallem edrych ar fodel siop un stop mewn ysgolion—bron yn adran, os mynnwch chi, y mae broceriaid yn eu cefnogi ar gyfer anghenion pobl ifanc yn unol â'u hanghenion unigol. Mae hefyd model diddorol iawn yr wyf yn gyfarwydd ag ef yn yr Alban, lle nad oes ganddynt adrannau fel y cyfryw, ond bod ganddynt athrawon arweiniol sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig sy'n gallu helpu disgyblion i benderfynu ar eu dewisiadau pwnc, sut maent yn datblygu, eu cyrhaeddiad, cyngor gyrfaoedd ac yn y blaen, ond sydd hefyd yn gorgyffwrdd â'r meysydd hynny o gymorth personol roeddwn yn sôn amdanynt yn gynharach— materion fel bwlio, ymgartrefu a phontio; y materion hynny. Ceir athrawon sydd â phrofiad helaeth yn y maes hwnnw.

We have to be careful, though, that whatever model we put together, I think, particularly if we go for a one-stop-shop approach, that we should maintain the principle that all staff, not just teachers, but all staff in schools have responsibilities about health and wellbeing for all young people. So, we do need to look at this in the round. Now is the ideal time. It overlaps with the curriculum. There are overlapping considerations with PSHE, and whatever we come up with as a model that suits Wales, it has to be internally coherent in terms of the pupil's eye view.

Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus, fodd bynnag, pa bynnag fodel rydym yn ei greu, rwy'n credu, yn enwedig os ydym yn mynd am ddull siop un stop, y dylem gynnal yr egwyddor bod gan yr holl staff, nid yr athrawon yn unig, ond yr holl staff mewn ysgolion, gyfrifoldebau am iechyd a lles ar gyfer yr holl bobl ifanc. Felly, mae angen i ni edrych ar hyn yn y ei gyfanrwydd. Nawr yw'r amser delfrydol. Mae'n gorgyffwrdd â'r cwricwlwm. Mae ystyriaethau sy'n gorgyffwrdd o ran ABCh, a beth bynnag rydym ni'n ei ddewis fel model sy'n addas i Gymru, mae'n rhaid iddo fod yn gydlynol yn fewnol o safbwynt y disgybl.

16:34

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym ni, fel grŵp, yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhellion yn eu cyfanrwydd. A gaf i jest ofyn i chi—? Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig hefyd, tra'n bod ni i gyd yn rhwystredig efo pa mor hir, hwyrach, bydd hi'n cymryd inni gyrraedd y nirfana yma, mae'n llawer iawn gwell ein bod ni yn llwyddo. Mae yna dueddiad efo gwleidyddion, yn arbennig efo Gweinidogion, eu bod nhw eisiau llwyddo o fewn tymor un Cynulliad. Rwy'n meddwl bod angen cefnogi'r ffaith eich bod chi'n dweud, 'Os yw hyn yn cymryd yn hirach er mwyn inni lwyddo'n iawn, mae'n llawer iawn gwell a llawer iawn mwy aeddfed inni gyrraedd y nod yna'.

We, as a group, welcome the fact that the Government has accepted the recommendations in their entirety. May I just ask you—? I think it's important also, whilst we all are frustrated with how long, perhaps, it will take for us to reach this nirvana, it's much better that we ensure that we succeed. There is a tendency with politicians, especially Ministers, to want to succeed within the term of one Assembly. I think we need to support the fact that you're saying, 'If this takes longer for us to achieve full success, then it would be much better and much more mature for us to achieve that aim'.

A gaf i ofyn ichi a yw'r £3 miliwn rydych yn sôn amdano heddiw yr un £3 miliwn a oedd yn cael ei gyfeirio ato ym mis Mawrth, neu a oes arian ychwanegol ar gael erbyn hyn? Achos, beth fuaswn i'n ei obeithio, os ydym yn dweud mai dim ond yr ysgolion hynny sy'n cyrraedd rhyw safon arbennig fydd yn ysgolion arloesol, mae yna ofynion mawr ar yr ysgolion unigol yna erbyn hyn. Mae yna hefyd, os ydynt yn cael eu lleoli o fewn un ardal neu un rhanbarth, lawer iawn o bwysau'n mynd i fod ar un consortiwm. Byddwn yn gobeithio ein bod yn edrych ar y safon yn hytrach nag edrych ar leoliad ysgolion a dweud ein bod eisiau ysgolion ym mhob rhan o Gymru i fod yn ysgolion arloesol. Rwy'n gobeithio y byddwch yn dweud wrth yr ysgolion yna pa fath o gymorth fydd ar gael ar yr un pryd ag y byddwch yn cyhoeddi'r canllawiau. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod yr ysgolion yna'n gwirfoddoli ar sail y cymorth sydd ar gael iddyn nhw.

May I ask you whether the £3 million that you're talking about today is the same £3 million that was referred to in March, or is there additional funding available by now? Because, what I would hope is that, if we're saying it's only those schools that reach a certain standard that will be pioneer schools, there are great requirements on those individual schools by now. Also, if they are located within one area or one region, there is going to be a great deal of pressure on one consortium. I would hope that we would look at the standard rather than the location of the schools and say that we want schools in all parts of Wales to be pioneer schools. I hope that you will be telling those schools what support will be available at the same time as you publish the guidance. I think it's important that those schools volunteer on the basis of the support that is available to them.

A gaf i ofyn hefyd, yn gryno, o ran y grŵp cynghori annibynnol—rydych wedi enwi dau o'r aelodau—a allwch chi ddweud wrthym, y prynhawn yma, faint o bobl fydd ar y grŵp, a hefyd a fyddant yn cael rhyw fath o drosolwg? Rydych yn sôn am y grŵp yma'n edrych ar y ffordd mae'r cwricwlwm yn datblygu. Ond, wrth gwrs, mae newidiadau o ran hyfforddi athrawon ac o ran Cymwysterau Cymru sy'n mynd i redeg ar y cyd. A fyddant yn cael rhyw fath o drosolwg dros yr holl newidiadau yna hefyd? Mae eich datganiad yn sôn am y ffaith bod colegau hyfforddi'n mynd i gael rhyw fath o fewnbwn i ddatblygiad y cwricwlwm. Ond, yr wythnos diwethaf, roeddech yn dweud eich bod yn mynd i newid y gyfundrefn hyfforddi. Roeddech yn sôn am ddod â mwy o gystadleuaeth mewn i'r system. Sut fyddwch yn mynd o un system i'r llall i wneud yn siŵr bod y rheini'n cael rhyw fath o fewnbwn?

May I also ask, briefly, on the independent advisory group—you've named two of the members—whether you could tell us this afternoon how many people will be part of that group, and also whether they will have some kind of overview? You talk about this group looking at the way that the curriculum is developing. But, of course, there are changes in terms of training for teachers and in terms of Qualifications Wales that are going to happen concurrently. Are they going to have an overview of all of those changes also? Your statement refers to the fact that the training colleges are going to have some input into the development of the curriculum. But, last week, you said that you're going to change the training regime. You talked about bringing greater competition into the system. How will you go from one system to another and ensure that they have some sort of input?

Yn olaf, roedd eich datganiad ym mis Mawrth yn sôn am y strategaeth newid hyblyg y byddwch yn ei chyhoeddi ar ôl mynd drwy ran 1 o'r broses, ar ôl y broses gyntaf o ran y sgwrs fawr. A ydy hynny'r un peth â'r fframwaith gweithredu rydych chi wedi sôn am ei gyhoeddi yn yr hydref? Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith eich bod wedi dweud yn glir y prynhawn yma eich bod yn awyddus iawn i wneud cyhoeddiad erbyn yr hydref ynglŷn ag addysg ail iaith Gymraeg. Rwy'n meddwl bod nifer o bobl yn pryderu ein bod wedi cael adroddiad ers 2013 ac nad ydym yn dal wedi gweld unrhyw symud ar hynny.

Finally, your statement in March talked about the flexible change strategy that you will be publishing after going through part 1 of the process, after the initial process in terms of the great debate. Is that the same thing as the action framework that you have talked about publishing in the autumn? I also welcome the fact that you've said very clearly this afternoon that you are very eager to make an announcement by the autumn in terms of Welsh as a second language. I think that a great many people are concerned that we've had a report since 2013, but we're still waiting for action on that.

Felly, rydym yn croesawu'ch datganiad y prynhawn yma, ond yn amlwg bydd yn rhaid inni graffu ar y ffordd rydych yn gweithredu'r canllawiau hynny wrth inni symud ymlaen.

So, we do welcome your statement this afternoon, but clearly we will have to scrutinise the way that you take action on that guidance as we move forward.

16:38 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank Aled Roberts for those questions and comments? I don't know if nirvana is on offer here. There may be a little bit of purgatory before we get to paradise; I don't know. That's a mixed religious metaphor there, if ever there was one.

Hoffwn ddiolch i Aled Roberts am y cwestiynau a'r sylwadau yna? Nid wyf yn gwybod os yw nirfana yn cael ei gynnig yma. Efallai y bydd ychydig o burdan cyn i ni gyrraedd paradwys; wn i ddim. Dyna drosiad crefyddol cymysg, os bu un erioed.

This is, at best, a medium-term programme. This cannot and should not be rushed. Apart from the content within the curriculum, which needs to be carefully considered, we also have to face—and this comes back to comments made by Simon Thomas earlier—the fact that we simply do not have the skillset within our schools at the moment in order to be able to address the depth of the change here. So, the whole agenda around professional development and new forms of teacher training in the first place, answering Furlong's recommendations, must go forward in parallel with these developments.

Ar y gorau, rhaglen tymor canolig yw hon. Ni all hyn gael ei ruthro ac ni ddylid gwneud hynny. Ar wahân i'r cynnwys yn y cwricwlwm, y mae angen ei ystyried yn ofalus, mae'n rhaid inni hefyd wynebu—a daw hyn yn ôl at y sylwadau a wnaed gan Simon Thomas yn gynharach—y ffaith nad oes gennym y sgiliau yn ein hysgolion ar hyn o bryd i allu mynd i'r afael â dyfnder y newid yma. Felly, mae'n rhaid i'r agenda gyfan ynglŷn â datblygiad proffesiynol a mathau newydd o hyfforddiant athrawon yn y lle cyntaf, gan ateb argymhellion Furlong, symud ymlaen ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn.

Just to jump to another one of Aled Roberts's points there, which reflects upon this, in terms of the independent advisory group and the support networks that we're going to put around schools, I haven't made any decision as yet in terms of the size, but I anticipate the independent advisory group will be relatively small. What we need is clarity of sight in terms of that group, hence the reason why Graham Donaldson is at the centre of the action there. But, I think we will also need a wider stakeholder group that includes representatives of, for instance, employers, and that stakeholder group always keeping everyone's feet on the ground in terms of what the curriculum needs to deliver in the real world. I will also restructure one of my departments so that there is Government support—not so much in the public view, if you like, but that there is capacity within Government to support the advisory group, the pioneer schools and the stakeholder group, as we pull forward.

Gan neidio at un arall o bwyntiau Aled Roberts yn y fan yna, sy'n myfyrio ar hyn, o ran y grŵp cynghori annibynnol a'r rhwydweithiau cymorth rydym yn mynd i'w sefydlu ar gyfer ysgolion, nid wyf wedi gwneud unrhyw benderfyniad eto o ran y maint, ond rwyf yn rhagweld y bydd y grŵp cynghori annibynnol yn gymharol fychan. Yr hyn rydym ei angen yw eglurder o ran y grŵp hwnnw, a dyna'r rheswm pam mae Graham Donaldson yn ganolog i'r camau hyn. Ond, rwy'n credu y bydd hefyd angen grŵp rhanddeiliaid ehangach sy'n cynnwys cynrychiolwyr, er enghraifft, cyflogwyr, a bod y grŵp rhanddeiliaid bob amser yn cadw traed pawb ar y ddaear o ran yr hyn y mae angen i'r cwricwlwm ei gyflwyno yn y byd go iawn. Byddaf hefyd yn ailstrwythuro un o'm hadrannau er mwyn bod cefnogaeth gan y Llywodraeth—nid yng ngolwg y cyhoedd, os mynnwch chi, ond bod gallu o fewn y Llywodraeth i gefnogi'r grŵp cynghori, yr ysgolion arloesi a'r grŵp rhanddeiliaid, wrth i ni symud ymlaen.

That £3 million—that was a specific question that you asked about, there—is for this financial year and, as I said, I would anticipate that there would certainly not be any less resource needed in each of the seven or eight years going forward.

Mae'r £3 miliwn hwnnw—roedd hwnnw'n gwestiwn penodol a ofynnwyd gennych yn y fan yna—ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ac, fel y dywedais, byddwn yn rhagweld yn bendant na fyddai angen llai o adnoddau mewn unrhyw un o'r saith neu wyth mlynedd wrth symud ymlaen.

Once again, I just call on Members' patience as regards the announcement of the autumn framework. This has to be got right and, in terms of modern foreign languages and Welsh as a second language too, there is much work going on behind the scenes, going way beyond Government, actually, in involving stakeholders that have never been approached before in order to assist with language acquisition. There are exciting prospects for all of us to discuss, I think, but it would be unfair to those stakeholders to announce half-baked ideas at this stage. It will take until the autumn, I think, before we have a proper shape that we can describe.

Unwaith eto, rwyf yn galw am amynedd gan yr Aelodau o ran y cyhoeddiad am fframwaith yr hydref. Mae'n rhaid i hwn fod yn gywir ac, o ran ieithoedd tramor modern a Chymraeg fel ail iaith hefyd, mae llawer o waith yn mynd ymlaen y tu ôl i'r llenni, sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r Llywodraeth, mewn gwirionedd, o ran cynnwys rhanddeiliaid na chysylltwyd â hwynt erioed o'r blaen er mwyn cynorthwyo â chaffael iaith. Mae rhagolygon cyffrous i bob un ohonom eu trafod, rwy'n meddwl, ond byddai'n annheg i'r rhanddeiliaid hynny i ni gyhoeddi syniadau nad ydynt yn barod ar y cam hwn. Bydd yn cymryd tan yr hydref, rwy'n credu, cyn inni gael ffurf briodol y gallwn ei ddisgrifio.

16:41

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm very interested in two pieces of work that have been going forward, to some extent, in tandem with Donaldson in terms of timing, but that also pre-date Donaldson's work, to some extent, and that's Tanni Grey-Thompson's report on physical literacy and Dai Smith's report on arts in education. I think both of those are very much echoed in Donaldson's work in terms of creativity and the emphasis on that, and also, of course, in terms of health and the importance of physical literacy to health. I wonder if, at this stage, Minister, there is much that you could say in terms of the work around those two important reports and how they will go forward in the light of Donaldson. Obviously, there was a lot of concern that initial teacher training, continuous professional development, monitoring, evaluation and inspection should encompass the work of Tanni Grey and Dai Smith to make sure that those subject areas were as central to the school curriculum and school life as would deliver maximum benefit. So, I wonder, at this stage, if you could just outline some of the synchronisation that's necessary between these important pieces of work.

Weinidog, mae gen i gryn ddiddordeb mewn dau ddarn o waith sydd wedi bod yn mynd ymlaen, i ryw raddau, ar y cyd â Donaldson o ran amseru, ond sydd hefyd o gyfnod cyn gwaith Donaldson, i ryw raddau, sef adroddiad Tanni Grey-Thompson ar lythrennedd corfforol ac adroddiad Dai Smith ar y celfyddydau mewn addysg. Rwy'n meddwl bod y ddau ohonynt yn cael eu hadleisio yng ngwaith Donaldson o ran creadigrwydd a'r pwyslais ar hynny, a hefyd, wrth gwrs, o ran iechyd a phwysigrwydd llythrennedd corfforol i iechyd. Tybed, ar hyn o bryd, Weinidog, a oes llawer y gallech chi ei ddweud o ran y gwaith ar y ddau adroddiad pwysig hyn a sut y byddant yn symud ymlaen o ystyried adroddiad Donaldson. Yn amlwg, roedd cryn bryder y dylai hyfforddiant cychwynnol athrawon, datblygiad proffesiynol parhaus, monitro, gwerthuso ac arolygu, gwmpasu gwaith Tanni Grey a Dai Smith i wneud yn siwr bod y meysydd pwnc hynny yn ganolog i'r cwricwlwm ysgol a bywyd ysgol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl. Felly, roeddwn i'n medddwl tybed, ar hyn o bryd, pe gallech chi amlinellu peth o'r gwaith cydamseru sy'n angenrheidiol rhwng y darnau pwysig hyn o waith.

16:43

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Member for Newport East? Those are important points indeed. The input of Tanni Grey-Thompson and, indeed, Dai Smith, in terms of direct conversations that were had with Graham Donaldson and others, was of such a level that Professor Donaldson's report would not look the way it does if it had not been for those conversations. In other words, that report on physical activity and the report on the arts from Dai Smith have been key factors in moulding what the Donaldson review actually looked like at the end of the day. You will see there, in the four basic purposes of the curriculum, a reference to, for instance, healthy, confident individuals, and Donaldson goes on to explain what that means. It means people who:

'apply knowledge about the impact of diet and exercise on physical and mental health in their daily lives'

A gaf i ddiolch i'r Aelod dros Ddwyrain Casnewydd? Mae'r rhain yn bwyntiau pwysig yn wir. Roedd cyfraniad Tanni Grey-Thompson ac, yn wir, Dai Smith, o ran y sgyrsiau uniongyrchol a gafwyd gyda Graham Donaldson ac eraill, ar y fath lefel fel na fyddai adroddiad yr Athro Donaldson yn edrych fel y mae oni bai am y sgyrsiau hynny. Mewn geiriau eraill, mae'r adroddiad hwnnw ar weithgarwch corfforol a'r adroddiad ar y celfyddydau gan Dai Smith wedi bod yn ffactorau allweddol o ran sut yr oedd adolygiad Donaldson, mewn gwirionedd, yn edrych ar ddiwedd y dydd. Byddwch yn gweld yno, ym mhedwar diben sylfaenol y cwricwlwm, cyfeiriad at, er enghraifft, unigolion iach, hyderus, ac mae Donaldson yn mynd ymlaen i esbonio beth y mae hynny'n ei olygu. Mae'n golygu pobl sy'n:

defnyddio gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd bob dydd

and 'take part in physical activity'. It's there in the foundation stones of what will be built as a superstructure, now, as a curriculum on top of those fundamental principles. So, there is no danger that there will be any downgrading or avoidance of the principles of the work of Tanni Grey-Thompson and the group; in fact, they will be central in terms of the role they have in shaping the curriculum. Indeed, as we move towards the new curriculum, obviously, our inspection regime will have to take account of the purposes of that curriculum. Estyn will be tasked with making sure that schools are addressing the curriculum for Wales and, within that, that they're addressing those four purposes and that encompasses the principles behind Tanni Grey-Thompson's report and, indeed, Dai Smith's.

a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Mae yno yn y cerrig sylfaen o'r hyn fydd yn cael ei adeiladu fel prif adeiladedd, bellach, fel cwricwlwm ar ben yr egwyddorion sylfaenol hynny. Felly, nid oes unrhyw berygl y bydd unrhyw israddio nac osgoi egwyddorion gwaith Tanni Grey-Thompson a'r grŵp; mewn gwirionedd, byddant yn ganolog o ran y swyddogaeth sydd ganddynt wrth lunio'r cwricwlwm. Yn wir, wrth i ni symud tuag at y cwricwlwm newydd, yn amlwg, bydd yn rhaid i'n trefniadaeth arolygu ystyried dibenion y cwricwlwm hwnnw. Estyn fydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod ysgolion yn mynd i'r afael â'r cwricwlwm ar gyfer Cymru ac, o fewn hynny, eu bod yn mynd i'r afael â'r pedwar diben hynny a bod hynny'n cwmpasu'r egwyddorion y tu ôl i adroddiad Tanni Grey-Thompson ac, yn wir, adroddiad Dai Smith.

16:45

# 6. Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Metro

# 6. Statement: Update on the Metro System

Y Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Eitem 6: datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth—yr wybodaeth ddiweddaraf am y metro. Galwaf Edwina Hart.

Item 6, a statement by the Minister for Economy, Science and Transport—an update on the metro system. I call Edwina Hart.

16:45

## Edwina Hart

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Deputy Presiding Officer. It has been my intention to provide a technical update on work on the metro and the Wales and borders franchise before the summer recess for some months. My department has now made significant progress on a number of key issues relating to the franchise and the metro and I am able to provide that update.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae wedi bod yn fwriad gennyf i ers rhai misoedd roi diweddariad technegol ar waith ar y metro a masnachfraint Cymru a'r Gororau cyn toriad yr haf. Mae fy adran bellach wedi gwneud cynnydd sylweddol ar nifer o faterion allweddol yn ymwneud â'r fasnachfraint a'r metro ac rwy'n gallu rhoi'r diweddariad hwnnw.

The metro will be a modern, high-quality, multi-modal and integrated transport system. It will offer rapid, frequent and reliable rail services, as well as incorporating the bus network. It will not only act as a link between our communities but also support the Welsh economy by enhancing connectivity across Wales into the rest of the UK and Europe. The metro will act as an important driver of economic growth. It will mean more capacity and improved quality across the network. Passengers will be able to move conveniently and seamlessly from one mode of transport to another, using the latest integrated payment methods. Such a transport system will deliver an agglomeration effect, and encourage the interaction of people and ideas and allow industry to invest in areas that are currently not well connected. We are currently delivering metro phase 1, and, on 11 June, the First Minister officially opened the new Ebbw Vale town station. We are also funding enhancements to the Ebbw Vale line, which will allow for additional services to be introduced in the future.

Bydd y metro yn system drafnidiaeth fodern, aml-foddol ac integredig o ansawdd uchel. Bydd yn cynnig gwasanaethau rheilffordd cyflym, cyson a dibynadwy, yn ogystal ag ymgorffori'r rhwydwaith bysiau. Y ogystal â gweithredu fel cyswllt rhwng ein cymunedau, bydd hefyd yn cefnogi economi Cymru drwy wella cysylltedd ar draws Cymru i weddill y DU ac Ewrop. Bydd y metro yn sbardun pwysig i dwf economaidd. Bydd yn cynyddu capasiti ac yn gwella ansawdd ar draws y rhwydwaith. Bydd teithwyr yn gallu symud yn hwylus ac yn ddi-dor o un dull trafnidiaeth i un arall, gan ddefnyddio'r dulliau talu integredig diweddaraf. Bydd system gludiant o'r fath yn darparu effaith crynodref, ac yn annog pobl a syniadau i ryngweithiol ac yn caniatáu i ddiwydiant fuddsoddi mewn ardaloedd nad ydynt wedi'u cysylltu'n dda ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd rydym yn cyflwyno cam 1 y metro, ac, ar 11 Mehefin, agorodd y Prif Weinidog orsaf newydd tref Glyn Ebwy yn swyddogol. Rydym hefyd yn ariannu gwelliannau i reilffordd Glynebwy, a fydd yn caniatáu i wasanaethau ychwanegol gael eu cyflwyno yn y dyfodol.

I have appointed high-level industry experts as members of my new strategic advisory board. I am delighted that David Stevens, chief operating officer at Admiral, Andrew Haines, chief executive of the Civil Aviation Authority and former managing director of South West Trains and First Group, and Chris Gibb, one of the national rail industry's most experienced figures and former managing director at Virgin Trains and Arriva Trains Wales, have all agreed to help us ensure that we align with best practice and evolving business needs. I attach great importance to this board, who will bring the skills and experience we need to support this work.

Rwyf wedi penodi arbenigwyr y diwydiant ar lefel-uchel yn aelodau o fy mwrdd cynghori strategol newydd. Rwyf wrth fy modd bod David Stevens, prif swyddog gweithredol Admiral, Andrew Haines, prif weithredwr yr Awdurdod Hedfan Sifil a chyn-gyfarwyddwr South West Trains a First Group, a Chris Gibb, un o ffigyrau mwyaf profiadol y diwydiant rheilffyrdd cenedlaethol a chyn-reolwr gyfarwyddwr Trenau Virgin a Threnau Arriva Cymru, i gyd wedi cytuno i'n helpu ni i sicrhau ein bod yn cyd-fynd ag arfer gorau ac anghenion busnes sy'n esblygu. Rwy'n rhoi pwys mawr ar y bwrdd hwn, a fydd yn dod â'r sgiliau a'r profiad y mae eu hangen arnom i gefnogi'r gwaith hwn.

I have held meetings to seek the views of local authority leaders on both the next Wales and borders franchise and the metro. For the metro, in many cases, local authority planning departments hold the key to maximum exploitation of these proposals and can greatly augment them through specifying developer contributions and that local development plans are aligned with metro developments. We are committed to engaging with the public to ensure that we are meeting the needs of the communities we serve. We recently held a successful engagement event with rail interest groups from across the Wales and borders franchise area and will continue to place community and passenger interests at the forefront of our thinking throughout this process.

Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd i geisio barn arweinwyr awdurdodau lleol ar fasnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau a'r metro. Ar gyfer y metro, mewn llawer o achosion, mae adrannau cynllunio awdurdodau lleol yn allweddol wrth fanteisio i'r eithaf ar y cynigion hyn a gallant ychwanegu yn fawr atynt drwy bennu cyfraniadau datblygwyr a bod cynlluniau datblygu lleol yn cyd-fynd â datblygiadau'r metro. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y cymunedau a wasanaethwn. Yn ddiweddar, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu llwyddiannus gyda grwpiau buddiant rheilffyrdd ar draws ardal fasnachfraint Cymru a'r Gororau a byddwn yn cadw buddiannau cymunedau a theithwyr mewn cof drwy gydol y broses hon.

I note that the Prime Minister has stated that he's absolutely committed to the electrification of the Great Western main line and that the Secretary of State for Transport has reaffirmed it as a top priority for his department in his statement last week. I have reiterated to the UK Government that the main line must be delivered in line with the original announcements and again set out how important this project is for Wales. The statement on rail by the Secretary of State for Transport did, however, demonstrate how challenging it can be to deliver large-scale rail infrastructure schemes on time and on budget. I am convinced that we must innovate to achieve greater certainty and efficiency with our own projects in Wales.

Nodaf fod y Prif Weinidog wedi datgan ei fod yn gwbl ymrwymedig i drydaneiddio prif reilffordd y Great Western, a bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wedi cadarnhau ei fod yn un o brif flaenoriaethau ei adran yn ei ddatganiad yr wythnos diwethaf. Rwyf wedi ailadrodd i Lywodraeth y DU bod yn rhaid i'r brif reilffordd gael ei chyflwyno yn unol â'r cyhoeddiadau gwreiddiol ac wedi nodi eto pa mor bwysig yw'r prosiect hwn i Gymru. Dangosodd y datganiad ar y rheilffyrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, fodd bynnag, pa mor anodd y gall fod i gyflawni cynlluniau seilwaith rheilffyrdd ar raddfa fawr ar amser ac o fewn y gyllideb. Rwy'n argyhoeddedig fod yn rhaid inni arloesi er mwyn cyflawni mwy o sicrwydd ac effeithlonrwydd gyda'n prosiectau ein hunain yng Nghymru.

Our aim is to let an integrated Wales and borders metro contract in 2017, and engagement with the industry is an important first step before we initiate a formal procurement process. Yesterday, we held a successful industry engagement event with a cross-section of the transport industry to start this process and it will continue during the next few months. We are taking an 'outcome and output' based approach to this engagement, whereby we set out to the industry what we want to see in terms of better access to jobs and services, long-term transformational economic effects, more frequent and faster services, better quality, and environmental improvements.

Ein nod yw gosod contract metro integredig Cymru a'r Gororau yn 2017, ac mae ymgysylltu â'r diwydiant yn gam cyntaf pwysig cyn i ni gychwyn proses gaffael ffurfiol. Ddoe, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu diwydiant llwyddiannus gyda thrawstoriad o'r diwydiant trafnidiaeth i ddechrau'r broses hon a bydd yn parhau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Mae ein hagwedd at y gwaith ymgysylltu hwn yn seiliedig ar 'ganlyniad ac allbwn', lle'r ydym yn nodi i'r diwydiant yr hyn yr ydym am ei weld yn nhermau gwell mynediad at swyddi a gwasanaethau, effeithiau economaidd trawsnewidiol yn y tymor hir, a gwasanaethau amlach a chyflymach, ansawdd gwell, a gwelliannau amgylcheddol.

The industry will help us develop our understanding of the most efficient delivery structure. We believe that this approach will yield innovative solutions, which may be better value and deliver improved outcomes than the original contractual model for the Valley lines electrification proposals. There are many different options available, including light rail, heavy rail, bus rapid transit and trams. The outcome-based approach requires us to keep an open mind on the detail of what the improvements may look like in reality. That said, we have established some red lines. For example, we will not accept poor quality rolling stock, and capacity, reliability and quality must all improve, and overall efficiency must increase to allow more frequent services to be run. As I have already stated, to avoid the pitfalls of fragmentation that seem so prevalent, I have to say, in other rail programmes, as part of our industry engagement we are exploring the possibility of a single contract that binds the delivery of the metro and the operation of the Wales and borders franchise together.

Bydd y diwydiant yn ein helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r strwythur cyflenwi mwyaf effeithlon. Rydym yn credu y bydd y dull hwn yn esgor ar atebion arloesol, a all gynnig mwy o werth am arian a sicrhau canlyniadau gwell na'r model cytundebol gwreiddiol ar gyfer cynigion i drydaneiddio rheilffordd y Cymoedd. Mae nifer o opsiynau gwahanol ar gael, gan gynnwys rheilffordd ysgafn, rheilffordd drom, bws cludo cyflym a thramiau. Mae dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn gofyn i ni gadw meddwl agored o ran sut y bydd y gwelliannau edrych mewn gwirionedd. Wedi dweud hynny, rydym wedi sefydlu rhai ffiniau. Er enghraifft, ni fyddwn yn derbyn cerbydau o ansawdd gwael, a rhaid i gapasiti, dibynadwyedd ac ansawdd i gyd wella, ac mae'n rhaid i effeithlonrwydd cyffredinol gynyddu i ganiatáu i wasanaethau redeg yn amlach. Fel yr wyf eisoes wedi dweud, er mwyn osgoi peryglon y darnio sy'n ymddangos mor gyffredin, rhaid i mi ddweud, mewn rhaglenni rheilffyrdd eraill, fel rhan o'n hymgysylltiad â diwydiant, rydym yn edrych ar y posibilrwydd o un contract sy'n plethu'r gwaith o gyflwyno'r metro a gweithredu masnachfraint Cymru a'r Gororau gyda'i gilydd.

Last December, I announced my intention to establish a not-for-dividend, wholly-owned subsidiary company of the Welsh Government to develop this work. The Welsh Government Transport company was formally incorporated in April. It is a key part of our approach to delivering the next phase of the metro system.

Fis Rhagfyr diwethaf, cyhoeddais fy mwriad i sefydlu is-gwmni di-ddifidend, sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r gwaith hwn. Cafodd cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ei ymgorffori yn ffurfiol ym mis Ebrill. Mae'n rhan allweddol o'n dull o gyflwyno cam nesaf y system fetro.

In the running of the metro and the next franchise, we want to maximise reinvestment into the railway and deliver excellent services. I am keen to draw on examples of where this is being done elsewhere in the UK, and I want our new transport company to emulate key aspects of Transport for London. By being not-for-dividend, and most likely taking revenue fare risk, our transport company will significantly reduce the amount of profit being taken out of the system by operators of services, leaving more money to run a vital public service. Even without further powers to run a completely not-for-dividend system, it would be possible to have operators providing more of a concession service for a much-reduced capped fee, with a capped profit margin set at a significantly lower level than the current incumbent achieves.

Wrth redeg y metro a'r fasnachfraint nesaf, rydym am ail-fuddsoddi cymaint ag sy'n bosibl yn y rheilffordd a darparu gwasanaethau rhagorol. Rwy'n awyddus i dynnu ar enghreifftiau lle mae hyn yn cael ei wneud mewn mannau eraill yn y DU, ac rwyf am i'n cwmni trafnidiaeth newydd efelychu agweddau allweddol ar Transport for London. Trwy fod yn ddi-ddifidend, a mwy na thebyg drwy gymryd risg o ran pris refeniw, bydd ein cwmni cludiant yn lleihau faint o elw sy'n cael ei dynnu allan o'r system gan weithredwyr gwasanaethau yn sylweddol, gan adael mwy o arian i redeg gwasanaeth cyhoeddus hanfodol. Hyd yn oed heb bwerau pellach i redeg system sy'n gyfan gwbl ddi-ddifidend, byddai modd sicrhau bod gweithredwyr yn darparu mwy o wasanaeth consesiwn am ffi wedi'i chapio lawer llai, gyda maint yr elw wedi'i gapio ar lefel sy'n sylweddol is nag y mae'r gweithredwr presennol yn ei gyflawni.

We will need to continue our work with the UK Government to deliver devolution arrangements. In rail, this has been in development for some time, but I intend to pursue more powers in relation to bus service provision.

Bydd angen i ni barhau â'n gwaith gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno trefniadau datganoli. O ran y rheilffyrdd, mae'r gwaith hwn wedi bod yn cael ei ddatblygu ers peth amser, ond rwy'n bwriadu mynd ar drywydd mwy o bwerau mewn perthynas â darparu gwasanaeth bws.

The estimated total cost of phase 2 is between £500 million and £600 million of capital investment. We have reached an agreement with the Secretary of State for Transport for a contribution of £125 million towards these costs, and we are bidding for a further £150 million from the European regional development fund. Good progress is being made on identifying sources of funding for the balance of capital funds to deliver phase 2.

Amcangyfrifir mai rhwng £500 miliwn ac £600 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf fydd cyfanswm cost cam 2. Rydym wedi dod i gytundeb gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth am gyfraniad o £125 miliwn tuag at y costau hyn, ac rydym yn gwneud cais am £150 miliwn arall o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. Mae cynnydd da yn cael ei wneud wrth nodi ffynonellau o gyllid ar gyfer gweddill y cyllid cyfalaf er mwyn cyflawni cam 2.

The metro is much more than just a transport project. It will be a blueprint for integrated transport across the whole of Wales, transforming the country's economic and social prospects. I am committed to driving forward this plan, and will continue to keep Members updated with progress as I do so.

Mae'r metro yn fwy o lawer na phrosiect trafnidiaeth. Bydd yn lasbrint ar gyfer trafnidiaeth integredig ar draws Cymru gyfan, gan drawsnewid rhagolygon economaidd a chymdeithasol y wlad. Rwyf wedi ymrwymo i yrru'r cynllun hwn yn ei flaen, a byddaf yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau o ran cynnydd fel yr wyf yn gwneud hynny.

16:52 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, this statement today is greatly welcomed, and we are most grateful to you. It is also widely anticipated, may I say, and it gives us many of the details that both this Chamber and the industry generally require in south Wales, for this proposal will not only facilitate better communication, but also add to social cohesion, something we all strive for in this Assembly. It will be a catalyst for the capital region, it is clearly a very ambitious scheme, and will serve the majority of the population of Wales.

Weinidog, mae'r datganiad hwn heddiw i'w groesawu yn fawr, ac rydym yn ddiolchgar iawn i chi. Edrychir ymlaen ato yn eang hefyd, a gaf fi ddweud, ac mae'n rhoi i ni lawer o'r manylion sy'n ofynnol ar y Siambr hon a'r diwydiant yn gyffredinol yn ne Cymru, gan y bydd y cynnig hwn nid yn unig yn hwyluso cyfathrebu gwell, ond hefyd yn ychwanegu at gydlyniad cymdeithasol, sy'n rhywbeth yr ydym ni i gyd yn ymdrechu amdano yn y Cynulliad hwn. Bydd yn gatalydd ar gyfer y prifddinas-ranbarth, mae'n amlwg yn gynllun uchelgeisiol iawn, a bydd yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru.

In some ways, it is a bit of a missing link. We have electrification, as you've referred to, of the south Wales main line and the Valleys lines both now promised and secured. On the metro, clearly we're encouraged by many of your commitments given today, particularly in terms of the rolling stock. That's been a worry to many people for a long time. And, clearly, we would very much like your assurances that it will be delivered on time and on budget because, clearly, delivery is crucial but so also will be the fare structure. Integrated ticketing is vital and it will be looked upon as a subsidised fare scheme, I think, by all parties, because we know that people on low wages do not wish to travel a great distance, because a higher proportion of their weekly income is spent on transport. That will also help to encourage car users: 80 per cent of people coming to Cardiff come by car, and small wonder when it takes perhaps 30 or 40 minutes and the equivalent journey by bus and train could be three times longer.

Mewn rhai ffyrdd, mae'n dipyn o ddolen goll. Fel yr ydych wedi cyfeirio ato, mae trydaneiddio prif reilffordd de Cymru a rheilffyrdd y Cymoedd wedi'i addo a'i sicrhau yn awr. Ar y metro, yn amlwg rydym wedi ein calonogi gan nifer o'r ymrwymiadau a roesoch heddiw, yn enwedig o ran y cerbydau. Mae hynny wedi bod yn bryder i lawer o bobl ers amser hir. Ac, yn amlwg, byddem yn hoffi'n fawr iawn pe baech yn cynnig sicrwydd y bydd yn cael ei gyflwyno ar amser ac o fewn y gyllideb oherwydd, yn amlwg, mae cyflwyno yn hanfodol, ond felly hefyd y bydd y strwythur prisiau. Mae tocynnau integredig yn hanfodol a bydd pawb yn ei weld fel cynllun tocynnau â chymhorthdal, rwy'n meddwl, oherwydd gwyddom nad yw pobl ar gyflogau isel yn dymuno teithio pellter mawr, gan fod cyfran uwch o'u hincwm wythnosol yn cael ei gwario ar drafnidiaeth. Bydd hynny hefyd yn helpu i annog defnyddwyr ceir: mae 80 y cant o'r bobl sy'n dod i Gaerdydd yn dod mewn car, ac nid yw'n syndod pan fo hynny'n cymryd 30 neu 40 munud efallai, a gallai'r daith gyfatebol ar fws a thrên fod yn dair gwaith yn hirach.

Could I ask, Minister, therefore, how you will publish the agreed routes and how you will consult widely on the possible routes, with some priority for those cross-Valley links, and also not forgetting some rural initiatives?

A gaf i ofyn, Weinidog, felly, sut y byddwch yn cyhoeddi'r llwybrau y cytunwyd arnynt a sut y byddwch yn ymgynghori'n eang ar y llwybrau posibl, gyda rhywfaint o flaenoriaeth ar gyfer y cysylltiadau traws-Gymoedd, a hefyd heb anghofio rhai mentrau gwledig?

The Enterprise and Business Committee were most interested when they went to see the scheme at Manchester and also Transport for London. I know the Minister is aware of those proposals and the goodwill extended towards Wales in implementing the best of those schemes. Can I finally ask you what influence on the congestion and discouraging M4 between junctions 24 and 28 at Newport and the proposed motorway solution? I look forward to your answers, Minister, and I hope there will be further disclosures of the scheme when appropriate.

Roedd gan y Pwyllgor Menter a Busnes ddiddordeb mawr pan aethant i weld y cynllun ym Manceinion a Transport for London hefyd. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r cynigion hynny a'r ewyllys da sy'n cael ei hymestyn tuag at Gymru wrth weithredu'r gorau o'r cynlluniau hynny. A allaf yn olaf ofyn i chi pa ddylanwad a gaiff ar y tagfeydd a'r M4 torcalonnus rhwng cyffyrdd 24 a 28 yng Nghasnewydd a'r draffordd arfaethedig a gynigiwyd yn ateb? Edrychaf ymlaen at eich atebion, Weinidog, ac rwy'n gobeithio y bydd datganiadau pellach am y cynllun pan fo hynny'n briodol.

16:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I say that some of the points you make absolutely go to the heart, I think, of the statement that I've made today? I think it's important to recognise the ambition of this scheme, and also its importance in terms of social cohesion in bringing the capital region together, and also the opportunities for jobs and other things that come from this particular proposal.

A gaf i ddweud bod rhai o'r pwyntiau yr ydych yn eu gwneud yn mynd yn syth at galon, rwy'n credu, y datganiad yr wyf wedi'i wneud heddiw? Credaf ei bod yn bwysig cydnabod uchelgais y cynllun hwn, a hefyd ei bwysigrwydd o ran cydlyniant cymdeithasol wrth dynnu'r rhanbarth at ei gilydd, a hefyd y cyfleoedd ar gyfer swyddi a phethau eraill sy'n deillio o'r cynnig arbennig hwn.

I have to say that one of the key issues that was raised in all of our discussions with groups was, of course, the issue of the rolling stock. We only have to look at the standard of the rolling stock under the existing franchise, which is absolutely appalling. When you look at the state of play, in terms of the numbers of carriages and everything, that isn't suitable for purpose in any way, and we must ensure that any new contract we have allows for an increase in usage but also the appropriateness of every individual on a journey being able to have a seat to come down on some of these trains. Also, the standards of the rolling stock are also particularly important. If we're looking at the wider franchise idea and that franchise covers Wales, we need to have comfort at the same time that we have good issues with regard to costs. I think one of the points you make is that, in terms of the not-for-dividend, and if we do it sliced at, say, 4 per cent or 5 per cent, all that extra investment could be made to look at fare structures. So, it's certainly really important that we encourage more people, when the system is up and running, to use it to get more cars off the road so it can make an environmental contribution to the Welsh economy.

Rhaid i mi ddweud mai un o'r materion allweddol a godwyd yn ein holl drafodaethau gyda grwpiau oedd, wrth gwrs, mater y cerbydau. Nid oes ond rhaid i ni edrych ar safon y cerbydau dan y fasnachfraint bresennol, sydd yn hollol warthus. Pan edrychwch ar y sefyllfa bresennol, o ran nifer y cerbydau a phopeth, nid yw hynny'n addas at y diben mewn unrhyw ffordd, a rhaid inni sicrhau bod unrhyw gontract newydd sydd gennym yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn y defnydd, ond hefyd briodoldeb o ran bod modd i bob unigolyn ar daith gael sedd i deithio ar rai o'r trenau hyn. Hefyd, mae safonau'r cerbydau yn arbennig o bwysig. Os ydym yn edrych ar syniad y fasnachfraint ehangach a bod y fasnachfraint honno yn cwmpasu Cymru, mae angen i ni gael cysur ar yr un pryd ein bod mewn sefyllfa dda o ran costau. Rwy'n credu mai un o'r pwyntiau a wnewch yw, o ran y cwmni di-ddifidend, ac os ydym yn ei wneud wedi'i sleisio ar, dyweder, 4 y cant neu 5 y cant, gellid gwneud yr holl fuddsoddiad ychwanegol hwnnw er mwyn edrych ar strwythurau prisiau. Felly, mae'n sicr yn bwysig iawn ein bod yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r system, pan fydd yn weithredol, i gael mwy o geir oddi ar y ffordd fel y gall wneud cyfraniad amgylcheddol i economi Cymru.

In terms of consultation, we're keeping up our dialogue with, obviously, the users, and I will consider more widely and report back on what further consultation can be undertaken as work proceeds. Also as well, I think you make a very important point not just about Cardiff, Newport and up the Valleys, but also across the Valleys and what we do in terms of the issues there. I know that the committee had a very interesting visit to Manchester. Keith Davies has actually been speaking to me because some of them went to see Rochdale and how that had been brought into the economic development within Manchester by looking at how they'd made links into other towns and everything. Also, I think that, when you look at it, you've got to look at what Transport for London have done extremely successfully in terms of how they've managed things so well. I think, when you look at the good lessons from there, there's something we can then relate to in Wales.

O ran ymgynghori, rydym yn parhau â'n deialog, yn amlwg, â'r defnyddwyr, a byddaf yn ystyried yn ehangach ac yn adrodd yn ôl ar ba ymgynghori pellach y gellir ei gynnal wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Yn ogystal, rwy'n meddwl eich bod yn gwneud pwynt pwysig iawn, nid yn unig am Gaerdydd, Casnewydd ac i fyny'r Cymoedd, ond hefyd ar draws y Cymoedd a'r hyn yr ydym yn ei wneud o ran y materion a geir yno. Rwy'n gwybod bod y pwyllgor wedi bod ar ymweliad diddorol iawn â Manceinion. Mae Keith Davies wedi bod yn siarad â mi oherwydd bod rhai ohonynt wedi bod i weld Rochdale, a sut y llwyddwyd i'w ddwyn i mewn i'r datblygiad economaidd o fewn Manceinion drwy edrych ar sut y maent wedi gwneud cysylltiadau i mewn i drefi a phopeth arall. Hefyd, credaf, pan fyddwch yn edrych arno, mae'n rhaid i chi edrych ar yr hyn y mae Transport for London wedi'i wneud yn hynod lwyddiannus o ran sut y maent wedi rheoli pethau cystal. Rwy'n meddwl, pan edrychwch ar y gwersi da a geir yno, mae'n rhywbeth y gallwn ni wedyn gysylltu ag ef yng Nghymru.

With regard to the M4, there has been some modelling done on this matter and it wasn't a great deal of difference it would make to the traffic, but, if Members are interested, I'd be more than happy, as I understand I'm probably going for scrutiny to committee, to perhaps present some modelling arrangements on that that might be helpful for the committee's dialogue on the metro.

O ran yr M4, gwnaed rhywfaint o waith modelu ar y mater hwn ac nid fyddai'n gwneud llawer o wahaniaeth i'r traffig, ond, os oes gan Aelodau ddiddordeb, byddwn i'n fwy na pharod, yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'n debyg fy mod i'n mynd i'r pwyllgor at ddibenion craffu, i gyflwyno rhai trefniadau modelu ar hynny a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer deialog y pwyllgor ar y metro.

16:56 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The first point I guess I'd like to make today is that Plaid Cymru has strongly supported the principle of the metro and the delivery of a metro project for the region. A Plaid Cymru Government would certainly continue delivering that project, which, if done right, of course, would be truly transformational. We know that the south-east of Wales is where the bulk of our population lives, but we mustn't make other regions feel that they're being left out either. We have a phase 2 metro scheme here worth £500 million to £600 million on top of the £1 billion preferred option for the M4. I'd just like to say here that, a), we'd hope, of course, that the metro would take traffic off the M4 and, b), if we did opt for a more efficient route, we'd probably have hundreds of millions of pounds that we could use to invest in other parts of Wales. But I'll park that there for the time being.

Y pwynt cyntaf yr hoffwn ei wneud heddiw am wn i yw bod Plaid Cymru wedi bod yn hynod gefnogol o egwyddor y metro a chyflenwi prosiect metro ar gyfer y rhanbarth. Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn sicr yn parhau i gyflawni'r prosiect hwnnw, a fydd, os caiff ei wneud yn iawn, wrth gwrs, yn wirioneddol drawsffurfiol. Gwyddom mai de-ddwyrain Cymru yw lle mae'r rhan fwyaf o'n poblogaeth yn byw, ond rhaid i ni beidio â gwneud i ranbarthau eraill deimlo eu bod yn cael eu gadael allan chwaith. Mae gennym gynllun metro cam 2 gwerth £500 miliwn i £600 miliwn ar ben y dewis £1 biliwn a ffefrir ar gyfer yr M4. Hoffwn ddweud yma, a), byddem yn gobeithio, wrth gwrs, y byddai'r metro yn tynnu traffig oddi ar yr M4 a, b), pe byddem yn dewis llwybr mwy effeithlon, byddai'n debygol y byddai gennym gannoedd o filiynau o bunnoedd y gallem eu defnyddio i fuddsoddi mewn rhannau eraill o Gymru. Ond fe adawaf hynny am y tro.

But, as well as the update on the metro scheme, of course, we also have today the very significant announcement of the intention to jointly let an integrated Wales and borders and metro franchise. So, I have a number of questions relating to both those areas. The figure of £500 million to £600 million by 2020 seems quite low, even though it's significant for a major phase of the metro development. I wonder if the Minister can outline the current estimated final capital cost of the metro as a whole and how soon after 2020 the whole network will be in place. I'll also cheekily ask the Minister if the decision to press ahead with the M4 black route is perhaps holding back the ability to invest more in the metro in these early years.

Ond, yn ogystal â'r newyddion diweddaraf am y cynllun metro, wrth gwrs, rydym hefyd heddiw wedi cael y cyhoeddiad arwyddocaol iawn o'r bwriad i osod masnachfraint metro a Cymru a'r Gororau integredig ar y cyd. Felly, mae gennyf nifer o gwestiynau sy'n ymwneud â'r ddau faes hynny. Mae'r ffigur o £500 miliwn i £600 miliwn erbyn 2020 yn ymddangos yn eithaf isel, er ei fod yn sylweddol ar gyfer cyfnod pwysig o'r datblygiad metro. Tybed a all y Gweinidog amlinellu amcangyfrif cost cyfalaf terfynol presennol y metro yn ei gyfanrwydd a pha mor fuan ar ôl 2020 y bydd y rhwydwaith cyfan yn ei le. Gofynnaf hefyd yn ddigywilydd i'r Gweinidog a yw'r penderfyniad i fwrw ymlaen â llwybr du yr M4 o bosibl yn rhwystro rhywfaint ar y gallu i fuddsoddi mwy yn y metro yn y blynyddoedd cynnar hyn efallai.

We know Cardiff will have much to benefit from a metro. Can the Minister get more of an assurance that the south Wales Valleys will see a real benefit in terms of driving up wealth and regeneration? We don't want to see a situation where that wealth continues to be concentrated in Cardiff and the urban regeneration seems to be concentrated only on Cardiff too.

Rydym yn gwybod y bydd Caerdydd yn elwa llawer ar y metro. A all y Gweinidog roi mwy o sicrwydd y bydd Cymoedd y de yn gweld budd gwirioneddol o ran sbarduno cyfoeth ac adfywio? Nid ydym am weld sefyllfa lle mae'r cyfoeth yn parhau i gael ei grynhoi yng Nghaerdydd ac yr ymddengys bod adfywio trefol yn cael ei ganolbwyntio ar Gaerdydd yn unig hefyd.

Can we have an outline also of the kind of pricing policies that the Minister would like to see to make public transport more affordable than at present? Also, perhaps we could have an outline of just the current thinking on integration of ticketing across all modes of transport—something Plaid Cymru has called for over many years. And then to the franchise: I wonder does the announcement today that there is an intention to have a joint franchise let in 2017 put to bed the idea of perhaps extending the current franchise from 2018 to 2020, which, of course, has been suggested in order that the new franchise would align chronologically with the electrification of the south Wales lines.

A allwn ni gael amlinelliad hefyd o'r math o bolisïau prisio y byddai'r Gweinidog yn hoffi eu gweld er mwyn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy fforddiadwy nag y mae ar hyn o bryd? Hefyd, efallai y gallem gael amlinelliad o dim ond y farn gyfredol ar integreiddio tocynnau ar draws pob math o drafnidiaeth—rhywbeth y mae Plaid Cymru wedi galw amdano dros nifer o flynyddoedd. Ac yna at y fasnachfraint: tybed a yw'r cyhoeddiad heddiw fod bwriad i osod masnachfraint ar y cyd yn 2017 yn rhoi diwedd ar y syniad o ymestyn y fasnachfraint bresennol o bosibl o 2018 i 2020, sydd, wrth gwrs, wedi cael ei awgrymu er mwyn i'r fasnachfraint newydd gyd-fynd yn gronolegol â thrydaneiddio rheilffyrdd y de.

On the guarantees of keeping excess profits down to allow reinvestment, I'd rather look at this in terms of paying a professional fee for delivering a service. Will the Minister agree that this is how it should be viewed so that, what would be considered as profits under the current franchise model would be genuinely reinvested in infrastructure and in providing a better rail service? Also, can I have a little bit more detail on the level of risk that the franchisee would expect to carry in return for that professional fee?

O ran y gwarantau i gadw elw dros ben i lawr i ganiatáu ail-fuddsoddi, byddai'n well gen i edrych ar hyn o safbwynt talu ffi broffesiynol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth. A wnaiff y Gweinidog gytuno mai fel hyn y dylid ei weld fel y byddai'r hyn fyddai'n cael ei ystyried fel elw dan y model masnachfraint presennol yn cael ei ail-fuddsoddi'n wirioneddol mewn seilwaith ac mewn darparu gwasanaeth rheilffordd gwell? Hefyd, a gaf i ychydig mwy o fanylion am y lefel o risg y byddai disgwyl i ddeiliad y fasnachfraint ei chario yn gyfnewid am y ffi broffesiynol?

We think it's very important in Plaid Cymru that both passengers and staff working in rail in Wales have a voice on decisions in future. Does the Minister agree that there should be a voice for both passengers and staff when it comes to major decisions relating to the franchise in future? Finally, of course, bringing the two franchises together does offer opportunities in terms of scale, but will the Minister also see that it also means that there is more pressure to deliver and more pressure for us to deliver the right decision to bring us the correct rail infrastructure that we need in future?

Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn credu ei bod yn bwysig iawn bod teithwyr a staff sy'n gweithio i reilffyrdd yng Nghymru yn cael llais ar benderfyniadau yn y dyfodol. A yw'r Gweinidog yn cytuno y dylai fod llais i deithwyr a staff pan ddaw at benderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â'r fasnachfraint yn y dyfodol? Yn olaf, wrth gwrs, mae dod â'r ddwy fasnachfraint at ei gilydd yn cynnig cyfleoedd o ran graddfa, ond a fydd y Gweinidog hefyd yn gweld ei fod hefyd yn golygu bod mwy o bwysau i gyflawni a mwy o bwysau i ni gyflwyno'r penderfyniad cywir i sicrhau'r seilwaith rheilffyrdd cywir sydd ei angen arnom yn y dyfodol?

17:01

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I thank you for your broad support, because I think we're all agreed across the Chamber this is an aspirational project that needs to be delivered? And, on what you said in your last points, it is a scale and it is a pressure to deliver. But, in terms of the scale, it's quite clear from our discussions with the industry that the industry are up to this challenge. Of course, it will be interesting to see what consortia actually emerge from our discussions on this; they're all very, very interested in how they can deliver from new rolling stock, perhaps building this within Wales, and how they can operate the system and what they can undertake.

Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth eang, gan fy mod yn credu ein bod ni i gyd yn gytûn yn y Siambr bod hwn yn brosiect uchelgeisiol y mae angen ei ddarparu? Ac, ar yr hyn a ddywedasoch yn eich pwyntiau olaf, mae yn raddfa ac mae yn bwysau i gyflawni. Ond, o ran graddfa, mae'n eithaf amlwg o'n trafodaethau â'r diwydiant bod y diwydiant yn barod am yr her hon. Wrth gwrs, bydd yn ddiddorol gweld pa gonsortia mewn gwirionedd wnaiff ddeillio o'n trafodaethau am hyn; mae ganddyn nhw i gyd ddiddordeb mawr iawn yn sut y gallant gyflawni o'r cerbydau newydd, gan ei adeiladu yng Nghymru efallai, a sut y gallant weithredu'r system a'r hyn y gallant ymgymryd ag ef.

Yesterday, we had the industry engagement event and we had 42 leading businesses from across the UK, and very positive feedback. We had 18 separate meetings with people yesterday and we're about to have another look. I can tell you now that there are already rolling stock companies that have actually indicated looking at sites within Wales for manufacture. So, I think we've got the right thing in terms of how we're packaging it altogether.

Ddoe, cynhaliwyd y digwyddiad ymgysylltu â'r diwydiant, a daeth 42 o fusnesau blaenllaw o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, a chafwyd adborth cadarnhaol iawn. Cawsom 18 o gyfarfodydd ar wahân â phobl ddoe ac rydym ar fin gael golwg arall. Gallaf ddweud wrthych yn awr fod cwmnïau cerbydau eisoes wedi sôn eu bod yn edrych ar safleoedd o fewn Cymru ar gyfer gweithgynhyrchu. Felly, rwy'n meddwl bod gennym ni'r peth iawn o ran sut yr ydym yn ei becynnu i gyd at ei gilydd.

I smiled at your comments, I have to say, about the not for profit. Well, we will go for that not-for-profit model, because that is a model that is established and understood and that I'm able to deal with within the powers that I have. But, you're quite right: it's about capping it. In fact, you're allowing them to have so much money to run the system for you and I think it's important that we look at that and are quite proactive in what models we can bring to the table in the final discussions around how this will be operated.

Gwenais ar eich sylwadau, rhaid i mi ddweud, am y model dielw. Wel, fe fyddwn ni'n mynd am y model dielw hwnnw, gan fod hwnnw'n fodel sydd wedi'i sefydlu a'i ddeall ac rwy'n gallu delio ag ef o fewn y pwerau sydd gennyf. Ond, rydych yn llygad eich lle: mae'n ymwneud â'i gapio. Yn wir, rydych yn caniatáu iddynt gael cymaint o arian i redeg y system ar eich cyfer chi ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar hynny a'n bod yn eithaf rhagweithiol o ran y modelau y gallwn ni eu cynnig yn y trafodaethau terfynol ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei weithredu.

One of the tricky issues that you've picked up on is actually smart ticketing. Smart ticketing technology is around; it's just been the inability, sometimes, to get agreement across the piece, because we would, of course, like smart ticketing with bus companies and everything, but of course I have no control over the regulation of buses. I can only discuss with the industry what I may or may not want to do about concessionary fares. So, smart ticketing will be absolutely important to us, hence why I also indicated that I think I need to go for further powers in terms of buses, so we can have a properly integrated system that is managed absolutely. When you look at the links, I think, between bus services, particularly in rural and hard-to-reach deprived urban areas, that's even more essential when you link them into the rail network.

Un o'r materion dyrys yr ydych wedi ei nodi mewn gwirionedd yw tocynnau clyfar. Mae technoleg tocynnau clyfar ar gael; ond mae'n fater o anallu, weithiau, i gael cytundeb cyffredinol, gan y byddem, wrth gwrs, yn hoffi rhannu system tocynnau clyfar gyda chwmnïau bysiau a phopeth, ond wrth gwrs nid oes gennyf unrhyw reolaeth dros reoleiddio bysiau. Ni allaf ond trafod gyda'r diwydiant yr hyn yr hoffwn neu na hoffwn ei wneud ynghylch tocynnau teithio rhatach. Felly, bydd tocynnau clyfar yn hollbwysig i ni, dyna pam yr wyf hefyd yn nodi fy mod yn meddwl bod angen i mi fynd ar drywydd pwerau pellach o ran bysiau, fel y gallwn gael system integredig briodol a reolir yn gyfan gwbl. Pan edrychwch ar y cysylltiadau, rwy'n meddwl, rhwng gwasanaethau bysiau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a threfol difreintiedig ac anodd eu cyrraedd, mae hyd yn oed yn fwy hanfodol eu cysylltu â'r rhwydwaith rheilffyrdd.

In terms of pricing policy, I think it's important we make pricing policy—and I responded to William Graham—very integral to this. We will have to work out what pricing policy is, because we've seen some quite large increases elsewhere in terms of it. If you want to make a genuine change in terms of bringing people on to the rail, we're going to have to look at a pricing policy. But we've been very proactive in looking at a pricing policy—we've got concessionary fares in Wales on the buses, and there'll be, with the agreement of the Liberal Democrats on the budget, youth concessionary fares. So, there are lots of issues we're looking at in other arenas that I think we can bring to bear when we look at pricing policy.

O ran polisi prisio, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn sicrhau bod polisi prisio—ac rwy'n ymateb i William Graham—yn rhan annatod iawn o hyn. Bydd yn rhaid i ni benderfynu beth yw'r polisi prisio, oherwydd rydym wedi gweld codiadau eithaf mawr mewn mannau eraill o ran hyn. Os ydych am wneud newid gwirioneddol o ran denu pobl i'r rheilffyrdd, bydd yn rhaid inni edrych ar bolisi prisio. Ond rydym wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth edrych ar bolisi prisio—mae gennym docynnau teithio rhatach yng Nghymru ar y bysiau, ac fe fydd, gyda chytundeb y Democratiaid Rhyddfrydol ar y gyllideb, tocynnau teithio rhatach i ieuenctid. Felly, mae llawer o faterion yr ydym yn edrych arnynt mewn meysydd eraill yr wyf yn meddwl y gallwn eu cymhwyso pan fyddwn yn edrych ar bolisi prisio.

Can I make it clear that this scheme isn't for the benefit of Cardiff? This scheme is for the benefit of the wider city capital region and it's important that everybody looks at what benefits can be gained. It's up to local authorities to look at what they require in terms of stations within their areas, and if they're landed with developments, what do they do in terms of section 106? So, that is very important for us, because it would be a dark day if it was just for Cardiff. It's actually about ensuring that it goes all across the region.

A gaf i ei gwneud yn glir nad yw'r cynllun hwn er budd Caerdydd? Mae'r cynllun hwn er budd y brifddinas-ranbarth ehangach ac mae'n bwysig bod pawb yn edrych ar y manteision y gellir eu cael. Mae'n fater i awdurdodau lleol edrych ar yr hyn sydd ei angen arnynt o ran gorsafoedd yn eu hardaloedd, ac os ydynt yn wynebu datblygiadau, beth maen nhw'n ei wneud o ran adran 106? Felly, mae hynny'n bwysig iawn i ni, oherwydd byddai'n ddiwrnod du iawn pe byddai ar gyfer Caerdydd yn unig. Mae'n ymwneud mewn gwirionedd â sicrhau ei fod yn mynd ar draws y rhanbarth i gyd.

In the long run—you asked me about up to 2020—it looks modest, but, actually, in the timescale, there's quite a lot of work in that budget up to 2020. I've already discussed with the leader of Monmouthshire about the future, and if the project extends, whether it should extend to the Severn bridge, what we should be looking at in terms of travel and what more we need to do on the Valleys? So, all of these are important things.

Yn yr hir dymor—fe ofynnoch chi i mi ynghylch hyd at 2020—mae'n edrych yn gymedrol, ond, mewn gwirionedd, o fewn yr amserlen, mae cryn dipyn o waith yn y gyllideb honno hyd at 2020. Rwyf eisoes wedi trafod ag arweinydd Sir Fynwy am y dyfodol, ac os bydd y prosiect yn ymestyn, a ddylai ymestyn i bont Hafren, beth y dylem fod yn edrych arno o ran teithio a beth arall y mae angen ei wneud o ran y Cymoedd? Felly, mae pob un o'r rhain yn bethau pwysig.

The first point you made was about the all-Wales approach. It is very hard when you're looking in, like you looking from north Wales, or when my constituents might look in from Swansea. They'll say, 'Oh, south-east Wales again.' I think we've got to make it quite clear that we've got a transport policy for all of Wales. That will become quite clear when I issue the new national transport plan, but also, when I issued my statement last week on the policy agenda within north Wales, I made my commitments regarding the A40. It's also my intention to do further statements about the Swansea city region because I've commissioned work in that area as well.

Y pwynt cyntaf a wnaethoch oedd am y dull Cymru gyfan. Mae'n anodd iawn pan yr ydych yn edrych i mewn, fel chi yn edrych o ogledd Cymru, neu pan fydd fy etholwyr i yn edrych i mewn o Abertawe. Byddant yn dweud, 'O, de-ddwyrain Cymru unwaith eto.' Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni ei gwneud yn gwbl glir bod gennym bolisi trafnidiaeth ar gyfer Cymru gyfan. Bydd hynny'n dod yn eithaf amlwg pan fyddaf yn cyhoeddi'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol newydd, ond hefyd, pan gyhoeddais fy natganiad yr wythnos diwethaf ar yr agenda polisi o fewn gogledd Cymru, gwnes fy ymrwymiadau o ran yr A40. Mae hefyd yn fwriad gennyf i wneud datganiadau pellach am ranbarth dinas Abertawe gan fy mod i wedi comisiynu gwaith yn y maes hwnnw hefyd.

17:05 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I first of all welcome the statement of a project that I think really came up for major debate around about 2012 in this Chamber? It's clear how much work and progress has actually been achieved, because it is a project that is not only inspirational and aspirational, as has been said, but certainly for the community that I represent in the Taff Ely area and Pontypridd—and indeed further afield valleys—it is economically and socially a transformational project.

Weinidog, yn gyntaf oll a gaf i groesawu'r datganiad am brosiect yr wyf yn meddwl y cafodd ei gyflwyno ar gyfer trafodaeth sylweddol o gwmpas tua 2012 yn y Siambr hon? Mae'n glir faint o waith a chynnydd sydd wedi ei gyflawni mewn gwirionedd, gan ei fod yn brosiect sydd nid yn unig yn ysbrydoledig ac uchelgeisiol, fel y dywedwyd, ond yn sicr ar gyfer y gymuned a gynrychiolaf fi yn ardal Taf Elái a Phontypridd—ac yn wir ymhellach i ffwrdd yn y cymoedd—mae'n brosiect trawsnewidiol yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Can I also welcome the statements you've made in the past, but also the discussions we'll be able to have over the issue of transport within the Taff Ely area? As you'll know, I've had discussions with you over the links between Beddau, Llantrisant, Talbot Green and Pontyclun, because these are areas that are marked for massive housing expansion. Quite frankly, it's almost impossible to see how satisfying that demand can actually proceed without an integrated transport system.

A gaf i hefyd groesawu'r datganiadau yr ydych wedi'u gwneud yn y gorffennol, ond hefyd y trafodaethau y bydd modd i ni eu cael ynghylch y mater o drafnidiaeth yn ardal Taf Elái? Fel y byddwch yn gwybod, rwyf wedi cael trafodaethau â chi am y cysylltiadau rhwng Beddau, Llantrisant, Tonysguboriau a Phont-y-clun, gan fod y rhain yn ardaloedd lle y bydd ehangu enfawr o ran tai. A dweud y gwir, mae bron yn amhosibl gweld sut y gellir bodloni'r galw hwnnw mewn gwirionedd heb system drafnidiaeth integredig.

Can I also ask you about the need for longer term vision because this is a next phase? We've always tended to talk about the metro as being a sort of 10 to 15-year project and a whole not-for-dividend concept. Some of us were in the European Investment Bank last week and I think there was some very positive feedback and responses to this whole project. But, of course, it has been identified as a £3 billion plan, and I was wondering what further discussions and arrangements are going to take place with them over this, but also how you see the longer term vision in terms of not just the next five-year phase but perhaps the five years or 10 years. What is the ultimate vision that we're looking forward to?

A gaf i hefyd eich holi am yr angen am weledigaeth tymor hwy gan fod hwn yn gam nesaf? Rydym bob amser wedi tueddu i siarad am y metro fel rhyw fath o brosiect 10 i 15 mlynedd ac yn gysyniad cyfan di-ddifidend. Roedd rhai ohonom ym Manc Buddsoddi Ewrop yr wythnos diwethaf, ac rwy'n meddwl bod adborth ac ymatebion cadarnhaol iawn i'r prosiect cyfan. Ond, wrth gwrs, mae wedi cael ei nodi yn gynllun gwerth £3 biliwn, ac roeddwn yn meddwl tybed pa drafodaethau a threfniadau pellach sy'n mynd i ddigwydd gyda hwy am hyn, ond hefyd sut yr ydych chi'n gweld y weledigaeth tymor hwy o ran nid yn unig y pum mlynedd nesaf, ond efallai y pum mlynedd neu 10 mlynedd nesaf. Beth yw'r weledigaeth yn y pen draw yr ydym yn edrych ymlaen ati?

17:07 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I can start with the last question first, Presiding Officer, in terms of the EIB, I know that my colleague Jane Hutt is already talking about future engagement with them in terms of the funding, because they've got enormous experience on capital projects et cetera. I think it's very valuable that the committee and others have been able to discuss this. I know Jane Hutt will take these matters forward.

Os caf i ddechrau gyda'r cwestiwn olaf yn gyntaf, Lywydd, o ran yr EIB, gwn fod fy nghyd-Aelod, Jane Hutt eisoes yn siarad am ymgysylltu â nhw yn y dyfodol o ran y cyllid, oherwydd bod ganddynt brofiad enfawr o brosiectau cyfalaf et cetera. Rwy'n credu ei bod yn werthfawr iawn fod y pwyllgor ac eraill wedi gallu trafod hyn. Rwy'n gwybod y bydd Jane Hutt yn mynd â'r materion hyn yn eu blaen.

In terms of the longer term vision, you've only got that little map now that shows where we are. That map will add up. Some people won't like it because there are names that are not on it. Some people will think why we've done it like this. But this is the first stab, really, at where you're going to go to give something visual in terms of it. I'll be more than happy to outline in the autumn the further vision for it about where further it can go and what it can do when we conclude these initial discussions with the industry. We do have a very good timescale on this because we've got the industry engagement now, which is quite important. Once we've had industry engagement, we've actually gone on to look at what types of contracts we're actually going to let on that. I'll be more than happy to update you at that time.

You've already raised with me some of the concerns with your constituents, and I think you've got a key point. Where we've got massive housing expansions, or we've got new industrial estates coming on, we've got to sort out the transport infrastructure. Because if we don't sort it out it'll be absolute chaos on some of the existing roads that exist within Wales. I don't think anybody should be thinking about giving planning permission for large developments without looking satisfactorily at the concerns around traffic and how you're going to get people to school, to work and out to leisure. I think this is what the metro will allow. I have to say that the discussions I've had with local authority leaders in south-east Wales have been very positive on that aspect because they see that as a win, win, win. You know as well that stations can open up other land for development. It might bring more jobs into an area. We've got a lot of jobs on the coastal belt, but we do really need to get employment further up the Valleys. I think that having an integrated transport system is the way to actually deal with some of these issues.

O ran y weledigaeth ar gyfer y tymor hwy, dim ond y map bach sydd gennych ar hyn o bryd sy'n dangos ble yr ydym. Bydd y map hwnnw'n adio i fyny. Bydd rhai pobl na fyddant yn ei hoffi gan nad yw'n cynnwys rhai enwau. Bydd rhai pobl yn gofyn pam yr ydym wedi ei wneud fel hyn. Ond dyma'r cynnig cyntaf, mewn gwirionedd, ar ble rydych yn mynd i fynd i roi rhywbeth gweledol ynglŷn ag ef. Byddaf yn fwy na pharod i amlinellu yn yr hydref y weledigaeth bellach ar ei gyfer, ble arall y gall fynd a'r hyn y gall ei wneud pan fydd y trafodaethau cychwynnol hyn gyda'r diwydiant yn dod i ben. Mae gennym amserlen dda iawn ar hyn gan ein bod yn ymgysylltu â'r diwydiant yn awr, sy'n eithaf pwysig. Ar ôl ymgysylltu â'r diwydiant, awn ymlaen i edrych ar ba fath o gontractau yr ydym yn mynd i'w gosod. Byddaf yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi bryd hynny.

Rydych eisoes wedi sôn wrthyf am rai o bryderon eich etholwyr, ac rwy'n meddwl eich bod yn gwneud pwynt allweddol. Lle mae ehangu enfawr o ran tai, neu ystadau diwydiannol newydd yn datblygu, mae'n rhaid i ni ddatrys y seilwaith trafnidiaeth. Oherwydd os nad ydym yn datrys y broblem bydd yn anhrefn llwyr ar rai o'r ffyrdd presennol sy'n bodoli yng Nghymru. Nid wyf yn credu y dylai unrhyw un fod yn meddwl am roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr heb edrych yn foddhaol ar y pryderon ynghylch traffig a sut rydych chi'n mynd i gael pobl i'r ysgol, i'r gwaith ac allan ar gyfer hamdden. Rwy'n credu mai dyma fydd y metro yn ei ganiatáu. Mae'n rhaid i mi ddweud bod y trafodaethau yr wyf wedi'u cael gydag arweinwyr awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran yr agwedd honno, oherwydd eu bod yn ystyried y peth fel ennill, ennill, ennill. Rydych yn gwybod yn ogystal y gall gorsafoedd agor tir arall i'w ddatblygu. Gall ddod â mwy o swyddi i ardal. Mae gennym lawer o swyddi ar yr arfordir, ond mae gwir angen i ni sicrhau cyflogaeth ymhellach i fyny'r Cymoedd. Rwy'n meddwl mai system drafnidiaeth integredig yw'r ffordd o ddelio â rhai o'r materion hyn mewn gwirionedd.

17:09 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to thank the Minister for outlining her vision. Of course, there is much to agree on within it. There has been support from across this Chamber for the concept of a metro in south-east Wales, but, with respect, a picture paints a thousand words. If there's one picture I wanted to see today, it was not a map, it was the map. Perhaps that was a triumph of hope over experience. But we have several maps, actually, that have emerged over a period of time. Over three years of working groups and reports and we still don't have a definitive map outlining what it is that we are working towards. If you have an estimate of the cost that this project is going to incur, then you must have an outline plan that you are working to. I think it would be very helpful to Members here if we knew exactly what it was that was on the table at this point in time, and what the timescale for those likely investments is going to be. I recognise that it is early days but, all the same, we are three years into this project, and we still are lacking some clarity, I would suggest. Passengers want to know what their services are going to look like. Businesses that are making decisions on where to invest and where to locate themselves want to know what that transport infrastructure is going to look like, and when. People who are making choices on where to live want to know whether or not they are going to be connected to this metro system. As I say, we all know that things like Transport for London connections in London have a big impact on home prices; they have a big impact on inward investment into different areas. We need to know that we have a clear idea of what that map is so that we can start to kick-start local communities, particularly to drive investment back into our Valleys towns, so that they can begin to thrive again.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am amlinellu ei gweledigaeth. Wrth gwrs, mae llawer ynddi i gytuno ag ef. Cafwyd cefnogaeth ar draws y Siambr hon am y cysyniad o fetro yn ne-ddwyrain Cymru, ond, gyda pharch, mae llun werth mil o eiriau. Os oedd un llun yr oeddwn i eisiau ei weld heddiw, nid map oedd hwnnw, ond y map. Efallai mai gobaith yn trechu profiad oedd hynny. Ond mae gennym nifer o fapiau, mewn gwirionedd, sydd wedi dod i'r amlwg dros gyfnod o amser. Dros dair blynedd o grwpiau gwaith ac adroddiadau ac nid oes gennym fap diffiniol o hyd yn amlinellu beth yr ydym yn gweithio tuag ato. Os oes gennych amcangyfrif o gost y prosiect hwn, yna mae'n rhaid bod gennych gynllun amlinellol yr ydych yn gweithio iddo. Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol iawn i Aelodau yma pe byddem yn gwybod yn union beth oedd ar y bwrdd ar hyn o bryd, a beth yw'r amserlen debygol ar gyfer y buddsoddiadau hynny. Rwy'n cydnabod ei bod yn gynnar ond, serch hynny, rydym dair blynedd i mewn i'r prosiect hwn, a byddwn i'n awgrymu bod rhywfaint o ddiffyg eglurder o hyd. Mae teithwyr am wybod sut y bydd eu gwasanaethau yn edrych. Mae busnesau sy'n gwneud penderfyniadau ar ble i fuddsoddi a ble i leoli eu hunain yn awyddus i wybod sut y bydd y seilwaith trafnidiaeth yn edrych, a phryd. Mae pobl sy'n gwneud dewisiadau ynghylch ble i fyw eisiau gwybod a ydynt yn mynd i fod yn gysylltiedig â system fetro. Fel y dywedais, rydym i gyd yn gwybod bod pethau fel cysylltiadau Transport for London yn Llundain yn cael effaith fawr ar brisiau cartref; maent yn cael effaith fawr ar fuddsoddiad mewn ardaloedd gwahanol. Mae angen i ni wybod bod gennym syniad clir o'r map fel y gallwn ddechrau rhoi sbardun i gymunedau lleol, yn enwedig i yrru buddsoddiad yn ôl i mewn i drefi'r Cymoedd, fel y gallant ddechrau ffynnu unwaith eto.

In terms of governance and structures, one query that's occurred to me—and perhaps you can clarify it for me—is in terms of the not-for-profit company that you've established. Clearly, when going to the European Investment Bank, the Welsh Government doesn't currently have the power to borrow. I wonder if your company does have the power to borrow as an SME independent of Government, and what the legal implications of that are. Also in terms of the governance structure, I must confess I am concerned about the message that it sends to bring both the Wales and borders franchise and the metro into one governance structure. It feels like you are trying to kill two birds with one stone, and, sadly, I fear you may be missing both. In terms of the metro, it's supposed to be an integrated transport vision; it's not just for rail. So, merging it into the Wales and borders franchise gives a signal, really, that buses—which carry, of course, far more passengers than trains do in Wales—are not an integral part of that. Active travel, despite the Act, doesn't appear to justify a mention in this statement. It feels like this is kind of railroading by railway, for want of a better phrase.

O ran llywodraethu a strwythurau, mae un ymholiad sydd wedi fy nharo—ac efallai y gallwch ei ateb i mi—o ran y cwmni dielw yr ydych wedi'i sefydlu. Yn amlwg, wrth fynd i Fanc Buddsoddi Ewrop, ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i fenthyca. Tybed a oes gan eich cwmni y pŵer i fenthyca fel busnes bach a chanolig yn annibynnol ar y Llywodraeth, a beth yw goblygiadau cyfreithiol hynny? Hefyd o ran y strwythur llywodraethu, rhaid imi gyfaddef fy mod yn pryderu am y neges y mae'n ei anfon i dynnu masnachfraint Cymru a'r Gororau a'r metro ynghyd mewn un strwythur llywodraethu. Mae'n teimlo fel eich bod yn ceisio lladd dau aderyn ag un garreg, ac, yn anffodus, yr wyf yn ofni y gallech fod yn methu'r ddau. O ran y metro, y bwriad yw iddo fod yn weledigaeth drafnidiaeth integredig; nid dim ond ar gyfer y rheilffyrdd. Felly, mae ei gynnwys ym masnachfraint Cymru a'r Gororau yn rhoi signal, mewn gwirionedd, nad yw bysiau—sy'n cludo llawer mwy o deithwyr nag y mae trenau yn ei wneud yng Nghymru wrth gwrs—yn rhan annatod o hynny. Ymddengys nad yw teithio lesol, er gwaethaf y Ddeddf, yn deilwng o gael ei grybwyll yn y datganiad hwn. Mae'n teimlo fel bod hyn yn fath o ruthro ar y rheilffordd, yn niffyg ymadrodd gwell.

In terms of the rest of Wales, as other Members have mentioned, there will be a fear that their needs will be overlooked in the drive to deliver the metro—this being the biggest possible investment in the public transport system in Wales we've seen in many generations. They fear that, all the while, all unnoticed, in other parts of Wales, their rail services will be allowed to stagnate and their bus lifelines will be cut. The rest of Wales needs to know that it's not all about the south-east Wales corner. I think this sends the wrong signal, as I say, twice over. If it can't be revisited at this stage, I really would welcome your indication, Minister, that there will be a clear and transparent dividing line and line of accountability on both of those issues, as distinct projects, so that we can see that both are being addressed.

O ran gweddill Cymru, fel y mae Aelodau eraill wedi sôn, bydd ofn y bydd eu hanghenion yn cael eu hesgeuluso yn yr ymdrech i gyflwyno'r metro—gan mai hwn yw'r buddsoddiad mwyaf yn y system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, a welwyd ers sawl cenhedlaeth. Maent yn ofni, yr holl amser, heb i neb sylwi, mewn rhannau eraill o Gymru, y caniateir i'w gwasanaethau rheilffordd aros yn eu hunfan a bydd eu dolen gyswllt bws hollbwysig yn cael ei thorri. Mae angen i weddill Cymru wybod nad yw popeth yn ymwneud â chornel dde-ddwyreiniol Cymru. Rwy'n credu ei bod yn anfon y neges anghywir, fel yr wyf yn ei ddweud, a hynny ddwywaith drosodd. Os na ellir ei ailystyried ar hyn o bryd, byddwn wir yn falch o glywed, Weinidog, y bydd llinell rannu glir a thryloyw a llinell atebolrwydd ar y ddau fater hyn, fel prosiectau gwahanol, er mwyn i ni weld bod y ddau yn cael sylw.

Through ticketing is obviously an important issue. I'm very pleased to see this addressed within the statement, but I wonder if you can clarify something for me. Clearly, it was promised in the national transport plan in 2010. It was due by 2014. That hasn't yet happened. What has changed to mean that it will be possible in the next period? In terms of the Welsh Government taking responsibility for revenue fare risk, I wonder if you can tell us what assessment you've made of the impact that things like the introduction of tap-in, tap-out ticketing at unmanned rural stations might have on revenue take on the Welsh railways.

Yn amlwg, mae tocynnau trwodd yn fater pwysig. Rwy'n falch iawn o weld hyn yn derbyn sylw yn y datganiad, ond tybed a allwch chi egluro rhywbeth i mi. Yn amlwg, fe'i haddawyd yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn 2010. Yr oedd i fod ar gael erbyn 2014. Nid yw hynny wedi digwydd eto. Beth sydd wedi newid sy'n golygu y bydd yn bosibl yn y cyfnod nesaf? O ran Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am risg refeniw o ran pris, tybed a allwch chi ddweud wrthym pa asesiad yr ydych wedi ei wneud o'r effaith bosibl pethau fel tocynnau tapio i mewn, tapio allan mewn gorsafoedd gwledig heb eu goruchwylio ar refeniw y rheilffyrdd yng Nghymru.

In terms of electrification, I thank you for your clarification on the statements that you have received. Clearly, if there is any indication that the electrification of the main line could slip, that could have a knock-on impact on Valleys lines electrification. I would be grateful to know that you have contingency plans in place for that. Can you also confirm that you are going to be electrifying the whole Valley Lines network to heavy rail standards? I assume that that's the case seeing as you haven't outlined which lines you might consider for light rail or tram trains in the future, and that you must—presumably—be going to the gold standard. But it would be great if you could clarify that. Also, I'd be interested in the work that your Government has been doing on issues such as electrifying tunnels, and whether or not there's a possibility of bringing in battery electric bi-mode trains—for example, the Bombardier model that's been developed—so that we can avoid the cost of having to electrify, for example, the Caerphilly tunnel.

O ran trydaneiddio, rwy'n diolch i chi am eich eglurhad ar y datganiadau yr ydych wedi eu derbyn. Yn amlwg, os oes unrhyw awgrym y gallai'r amserlen ar gyfer trydaneiddio'r brif lein lithro, gallai hynny gael sgîl-effaith ar drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod bod cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer hynny. A allwch hefyd gadarnhau eich bod yn mynd i fod yn trydaneiddio'r rhwydwaith cyfan Rheilffordd y Cymoedd i safonau trenau trwm? Tybiaf fod hynny'n wir gan nad ydych wedi amlinellu pa reilffyrdd y gallech eu hystyried ar gyfer trenau rheilffordd neu dram ysgafn yn y dyfodol, ac mae'n rhaid eich bod—yn ôl pob tebyg—yn mynd am y safon aur. Ond byddai'n wych pe gallech egluro hynny. Hefyd, byddai gennyf ddiddordeb yn y gwaith y mae eich Llywodraeth wedi bod yn ei wneud ar faterion megis trydaneiddio twneli, ac a oes posibilrwydd o ddod â threnau trydan batri dau-fodd—er enghraifft, y model Bombardier sydd wedi'i ddatblygu—fel y gallwn osgoi'r gost o orfod trydaneiddio, er enghraifft, twnnel Caerffili.

Minister, I really want to see the metro a success. I want to see it transform our communities and bring prosperity that we are desperate to see, especially towards the top end of the Valleys, where people feel that they are so badly disconnected; and in the east of Cardiff, where a bus just from the suburbs can take an hour to get to the city centre. I want to see it work, but I am hugely frustrated by what feels like more and more delays, as are passengers and as are businesses across my region. So, please, please, just give us the definitive map.

Weinidog, rwyf wir am weld y metro yn llwyddo. Rwyf am ei weld yn trawsnewid ein cymunedau a dod â'r ffyniant yr ydym yn daer eisiau ei weld, yn enwedig tuag at ben uchaf y Cymoedd, lle mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu mor wael; ac yn nwyrain Caerdydd, lle gall bws o'r maestrefi gymryd awr i gyrraedd canol y ddinas. Rwyf am ei weld yn gweithio, ond rwy'n hynod rwystredig gan yr hyn sy'n teimlo fel mwy a mwy o oedi, fel y mae teithwyr ac felly hefyd fusnesau ar draws fy rhanbarth. Felly, os gwelwch yn dda, os gwelwch yn dda, rhowch y map diffiniol i ni.

17:14 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I say, you say you want the metro project to run, but when I outline to you all the technical issues that are required to actually get this project to go, we have a whole series of questions that actually aren't relevant to this stage of the discussion? The reason we've chosen to take this route to go to the market is an illustration that you gave. What would I do about Caerphilly tunnel? Because the current arrangements are that it would close for six months if we were to electrify as Network Rail has indicated. Well, that would cause chaos, I think, to the whole of the economy and everybody going about their business in south-west Wales. So, therefore, we obviously know about trains, that you electrify so far, they go to battery-operated through tunnels, but this is the type of dialogue we're having with the industry now, to say, 'What can you do within the envelope we are providing for you now in terms of how you can deliver this project?'

A gaf i ddweud, rydych yn dweud eich bod am i'r prosiect metro redeg, ond pan fyddaf yn amlinellu i chi yr holl elfennau technegol sydd eu hangen i gael y prosiect hwn i fynd mewn gwirionedd, rydym yn cael cyfres gyfan o gwestiynau nad ydynt mewn gwirionedd yn berthnasol i'r cam hwn o'r drafodaeth? Y rheswm yr ydym wedi dewis cymryd y llwybr hwn yw un enghraifft a roesoch. Beth y byddwn i'n ei wneud am dwnnel Caerffili? Oherwydd o dan y trefniadau presennol, byddai'n rhaid ei gau am chwe mis pe baem yn trydaneiddio, fel y mae Network Rail wedi nodi. Wel, byddai hynny'n achosi anhrefn, rwy'n credu, i'r holl economi a phawb sy'n mynd o gwmpas eu busnes yn ne-orllewin Cymru. Felly, gan hynny, rydym yn amlwg yn gwybod o ran trenau, bod modd trydaneiddio i bwynt, ac yna maent yn gweithredu oddi ar fatri drwy dwneli, ond dyma'r math o ddeialog yr ydym ni'n ei gael gyda'r diwydiant yn awr, sef dweud, 'Beth allwch chi ei wneud o fewn yr amlen o arian yr ydym yn ei chynnig i chi nawr, o ran cyflwyno'r prosiect hwn?'

You also make the point as well that you don't want it linked to the franchise. We've been told by the industry that in order to get the best competition, to get the best rates and get the best package, to link this is actually a good thing; in terms of the size of the project, it makes it very attractive. And what's happened across our borders now with projects that are no longer running, there are other companies thinking, 'Where are we going to go now to do business?' We're in the position to do business because we actually have a project that is big enough to make it attractive. We don't want to have different arrangements in different places with different contracts here, because, at the end of the day, that's what's caused chaos in the rail network elsewhere. So, I feel really quite strongly about those particular issues.

Rydych hefyd yn gwneud y pwynt yn ogystal nad ydych am iddi gael ei chysylltu â'r fasnachfraint. Rydym wedi cael gwybod gan y diwydiant, er mwyn cael y gystadleuaeth orau, er mwyn cael y cyfraddau gorau a chael y pecyn gorau, bod cysylltu fel hyn mewn gwirionedd yn beth da; o ran maint y prosiect, mae'n ei wneud yn ddeniadol iawn. A beth sydd wedi digwydd ar draws ein ffiniau yn awr gyda phrosiectau nad ydynt bellach yn cael eu rhedeg, mae cwmnïau eraill yn meddwl, 'Ble rydyn ni'n mynd i fynd nawr i wneud busnes?' Rydym yn y sefyllfa i wneud busnes oherwydd bod gennym brosiect sy'n ddigon mawr i'w wneud yn ddeniadol. Nid ydym am gael gwahanol drefniadau mewn gwahanol fannau gyda gwahanol gontractau, oherwydd, yn y bôn, dyna sydd wedi achosi anhrefn yn y rhwydwaith rheilffyrdd mewn mannau eraill. Felly, rwy'n teimlo'n eithaf cryf am y materion penodol hynny.

You asked, obviously, about the company. The company is established. Jane will be exploring with the European Investment Bank how, because the company is arm's-length first, what we can do in terms of it, can we use EIB, but we'll also be looking for other resources, and that is something I will of course come back on.

Fe wnaethoch ofyn, yn amlwg, am y cwmni. Mae'r cwmni wedi ei sefydlu. Bydd Jane yn archwilio gyda Banc Buddsoddi Ewrop sut, oherwydd bod y cwmni yn gwmni hyd braich i ddechrau, beth y gallwn ei wneud, a allwn ni ddefnyddio Banc Buddsoddi Ewrop, ond byddwn hefyd yn chwilio am adnoddau eraill, ac mae hynny'n rhywbeth y byddaf, wrth gwrs, yn adrodd yn ôl yn ei gylch.

You asked for the definitive map. Most LDPs haven't got definitive maps of what they're doing yet. Now, when local authorities have their different LDPs and they know where they're going on everything, I will then have my dialogue with them about where they need to be, where they need to plan to be, and what they need to do. So, it's a question of getting everything in order, and what we've announced today is getting everything in order.

Fe wnaethoch ofyn am y map diffiniol. Nid oes gan y rhan fwyaf o CDLlau fapiau diffiniol o'r hyn y maent yn ei wneud hyd yn hyn. Nawr, pan fydd gan awdurdodau lleol eu gwahanol CDLlau ac maent yn gwybod ble maen nhw'n mynd ar bopeth, yna byddaf yn siarad â nhw am ble mae angen iddynt fod, ble mae angen iddynt gynllunio i fod, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud. Felly, mae'n fater o roi trefn ar bopeth, a rhoi trefn ar bopeth yw'r hyn yr ydym wedi'i gyhoeddi heddiw.

You asked about smart ticketing. Smart ticketing is absolutely excellent in terms of what we want to do, but, at the moment, bus operators and train operators might agree in principle to an integrated ticketing system, but I've got no method of making the bus operators do it for me, so, I've got a load of issues like that that have to actually be dealt with. So, what we're suggesting today, which I think is the important thing, is to take this forward in an orderly manner. We've decided where the parameters are. We'll look at the wider map, which I've indicated to Mick Antoniw I will look at by the autumn, and we're going to the market and saying, 'This is where it is, these are the outcomes we want, this is the envelope of money we've got; what can you do for that?', and most people in the business think that's a smart way to operate.

Fe wnaethoch ofyn am docynnau clyfar. Mae tocynnau clyfar yn gwbl wych o ran yr hyn yr ydym am ei wneud, ond, ar hyn o bryd, gallai gweithredwyr bysiau a gweithredwyr trenau gytuno mewn egwyddor i system docynnau integredig, ond nid oes gen i unrhyw ffordd o wneud i'r gweithredwyr bysiau wneud hynny i mi, felly, mae gen i lwyth o faterion felly y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy mewn gwirionedd. Felly, yr hyn yr ydym yn ei awgrymu heddiw, sef y peth pwysig, rwy'n meddwl, yw datblygu hyn mewn ffordd drefnus. Rydym wedi penderfynu lle mae'r paramedrau. Byddwn yn edrych ar y map ehangach, ac rwyf wedi dweud wrth Mick Antoniw y byddaf yn edrych arno erbyn yr hydref, ac rydym yn mynd i'r farchnad a dweud, 'Dyma le y mae, dyma'r canlyniadau yr ydym am eu sicrhau, dyma'r amlen o arian sydd gennym; beth allwch chi ei wneud am hynny?', ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn y busnes yn credu bod hynny'n ffordd glyfar o weithredu.

17:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I still have four Members to call. This is an important statement, so I do intend to call everyone, but, please, succinct and focused questions now. John Griffiths.

Mae gennyf bedwar Aelod ar ôl i'w galw. Mae hwn yn ddatganiad pwysig, felly rwy'n bwriadu galw pawb, ond, os gwelwch yn dda, cwestiynau cryno sy'n canolbwyntio yn awr. John Griffiths.

17:17

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I very much welcome this important statement today, which I think will produce a step change in our integrated transport systems in Wales, our economy, social opportunities and, indeed, the environment. Just a few questions, then, Dirprwy Lywydd. One is with regard to the Ebbw Vale line. The Minister will be aware that it's a long-held priority for many to see the Ebbw Vale passenger line go to Newport, and, obviously, from Newport up to Ebbw Vale, and we believe that would be very important for both areas and many communities adjacent to them. So, I wonder whether the Minister could elaborate a little on the content of the statement in terms of further services, future services on that Ebbw Vale line.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'n fawr y datganiad pwysig hwn heddiw, a chredaf y bydd yn esgor ar newid sylweddol yn ein systemau trafnidiaeth integredig yng Nghymru, ein heconomi, ein cyfleoedd cymdeithasol ac, yn wir, ein hamgylchedd. Dim ond ychydig o gwestiynau, felly, Ddirprwy Lywydd. Mae un yn ymwneud â rheilffordd Glyn Ebwy. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol ei bod yn flaenoriaeth i lawer o bobl ers amser hir i weld rheilffordd teithwyr Glynebwy yn mynd i Gasnewydd, ac, yn amlwg, o Gasnewydd i Lyn Ebwy, ac rydym yn credu y byddai hynny'n bwysig iawn ar gyfer y ddwy ardal a llawer o gymunedau cyfagos. Felly, tybed a allai'r Gweinidog ymhelaethu ychydig ar gynnwys y datganiad o ran gwasanaethau pellach, gwasanaethau yn y dyfodol ar reilffordd Glynebwy.

With regard to the extension into Monmouthshire, which I think is very welcome and is very important in terms of road traffic around the Brynglas tunnels and on the M4, I think it's again a priority for many transport groups in Monmouthshire to see enhancement of park-and-ride facilities and new park-and-ride facilities in that area. I wonder, again, whether the Minister could say a little bit more about those.

O ran ehangu i Sir Fynwy, rwy'n meddwl bod hynny i'w groesawu'n fawr ac mae'n bwysig iawn o ran traffig ar y ffyrdd o amgylch twneli Brynglas ac ar yr M4, ac rwyf yn credu ei bod eto yn flaenoriaeth i lawer o grwpiau cludiant yn Sir Fynwy i weld cyfleusterau parcio a theithio yn gwella a chyfleusterau parcio a theithio newydd yn cael eu creu yn yr ardal honno. Tybed, unwaith eto, a allai'r Gweinidog ddweud ychydig mwy am hynny.

Finally, just to echo what was said earlier in terms of affordability, if we are to get this sort of modal shift to get people out of their cars and onto public transport, it is crucial that the prices, the fares, are affordable, and, obviously, for people with more strained finances, it's absolutely a priority, and of course that has many impacts on the more deprived communities in Wales. So, I'd be very grateful if the Minister could re-emphasise the importance of affordability.

Yn olaf, dim ond er mwyn adleisio'r hyn a ddywedwyd yn gynharach o ran fforddiadwyedd, os ydym am gael y math hwn o newid moddol i gael pobl allan o'u ceir ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae'n hanfodol bod y prisiau, y tocynnau, yn fforddiadwy, ac, yn amlwg, i bobl sy'n brin o arian, mae'n flaenoriaeth lwyr, ac wrth gwrs mae hynny'n cael llawer o effeithiau ar y cymunedau mwy difreintiedig yng Nghymru. Felly, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog ail-bwysleisio pwysigrwydd fforddiadwyedd.

17:19 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say that Lesley Griffiths, who has responsibility for areas on the anti-poverty agenda, has already made it quite clear that, in terms of support for the metro project, we've got to look at fair funding so we can ensure that people can get to employment and do everything else? I think I've responded to all Members on that.

A gaf i ddweud bod Lesley Griffiths, sydd â chyfrifoldeb am feysydd ar yr agenda gwrthdlodi, eisoes wedi ei gwneud yn gwbl glir bod yn rhaid i ni edrych ar ariannu teg fel y gallwn sicrhau y gall pobl fynd i'r gwaith a gwneud popeth arall? Rwy'n credu fy mod i wedi ymateb i'r holl Aelodau ar hynny.

In terms of Monmouthshire, you make a very good point about the park and ride. Park-and-ride facilities, by the way, aren't going to be little 30 parking bays. Some of the park-and-ride facilities envisaged in this would be large multi-storey car parks that we'll have to have planning permission for, so people can leave their cars there safely and move on, and get onto the train or tram or whatever it might be.

O ran Sir Fynwy, rydych yn gwneud pwynt da iawn ynghylch parcio a theithio. Nid 30 cilfan parcio bach fydd y cyfleusterau parcio a theithio, gyda llaw. Byddai rhai o'r cyfleusterau parcio a theithio a ragwelir yn feysydd parcio aml-lawr mawr y bydd yn rhaid i ni gael caniatâd cynllunio ar eu cyfer, fel y gall pobl adael eu ceir yno yn ddiogel a theithio ymlaen, a mynd ar y trên neu'r tram neu beth bynnag y bo.

In terms of Ebbw Vale, the timetable studies are still currently under way on Ebbw Vale, but I probably will be able, when I update in the autumn, say a few words on that.

O ran Glynebwy, mae'r astudiaethau amserlen yn dal i fod ar y gweill ar Lyn Ebwy, ond yn ôl pob tebyg byddaf yn gallu dweud ychydig o eiriau ar hynny, wrth roi fy niweddariad yn yr hydref.

17:20 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement this afternoon. I agree with many of the sentiments expressed around the Chamber today, in particular how exciting, if delivered, this could be—not just on the economic front, but in the way people consider their travel options in the South Wales Central area.

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad y prynhawn yma. Rwy'n cytuno â llawer o'r teimladau a fynegwyd o amgylch y Siambr heddiw, yn arbennig pa mor gyffrous, os caiff ei gyflwyno, y gallai hyn fod—nid yn unig yn economaidd, ond yn y ffordd y mae pobl yn ystyried eu dewisiadau teithio yn ardal Canol De Cymru.

If I could, I ask you to maybe project yourself forward to 2020, because if you're reading the news clippings today and you're a casual observer, you would assume that we are going to have a metro system across the south-east Wales area by 2020. Can you tell me today that we will have a metro system in the south-east Wales area that meets the aspirations that you have talked about today, and which can be delivered within the budget that you have mentioned? Because I think we're all aware of large public sector capital projects that have invariably ended up costing considerably more than what was originally budgeted for them. I very much hope it can happen, but I'd be grateful if you could just humour me for a bit and say you're sitting in 2020; are we looking at a delivered metro system for 2020?

Os caf, rwy'n gofyn i chi ddychmygu'r sefyllfa yn 2020, oherwydd o edrych ar y toriadau newyddion heddiw, byddech yn cymryd yn ganiataol y bydd system fetro ar waith ar draws de-ddwyrain Cymru erbyn 2020. A allwch ddweud wrthyf heddiw y bydd gennym system fetro yn ardal de-ddwyrain Cymru sy'n bodloni'r dyheadau yr ydych wedi sôn amdanynt heddiw, ac y gellir eu cyflawni o fewn y gyllideb yr ydych wedi sôn amdani? Oherwydd rwy'n credu ein bod ni i gyd yn ymwybodol o brosiectau cyfalaf mawr yn y sector cyhoeddus sydd yn ddieithriad wedi costio cryn dipyn mwy na'r hyn y cyllidebwyd ar eu cyfer yn wreiddiol. Rwy'n gobeithio yn fawr iawn y gall ddigwydd, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech foddio fy mympwyon am ychydig, a, dyweder eich bod yn eistedd yma yn 2020; a fydd system fetro wedi'i chyflwyno erbyn 2020?

17:21 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You made me smile because, of course, we've got all the issues around electrification, and that's been part of the UK Government's dilemma about the way that Network Rail has operated. I always say that I've been quite pleased that I've actually made representations to the UK Government about Network Rail, and getting more control on it, because the escalating costs have been phenomenal on all these types of infrastructure projects.

Rydych yn gwneud i mi wenu oherwydd, wrth gwrs, mae gennym yr holl faterion sy'n ymwneud â thrydaneiddio, sydd wedi bod yn rhan o broblem Llywodraeth y DU o ran y ffordd y mae Network Rail wedi gweithredu. Rwyf bob amser yn dweud fy mod i'n eithaf balch fy mod i wedi gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch Network Rail, a'r angen i gael mwy o reolaeth arno, oherwydd bod costau cynyddol wedi bod yn anhygoel ar bob math o brosiectau seilwaith o'r math hwn.

Yes, we will have the start of a system for the metro, because we will be modernising lines, we will be doing further work, but at the end of the day, this is a system that's going to take a long time to put in place in terms of its delivery. I'm sorry if people think it's going to be all-singing, all-dancing by 2020, but we certainly won't be all-singing, all-dancing into Monmouthshire by 2020, but we are proceeding, I think, in the right way.

Bydd, bydd y system fetro wedi cychwyn, oherwydd byddwn yn moderneiddio rheilffyrdd, a byddwn yn gwneud gwaith pellach, ond yn y pen draw, mae hon yn system sy'n mynd i gymryd amser hir i'w rhoi ar waith. Mae'n ddrwg gen i os yw pobl yn meddwl ei fod yn mynd i fod yn gwbl orffenedig erbyn 2020, ond yn sicr nid felly fydd hi yn Sir Fynwy erbyn 2020, ond yr ydym yn mynd ati, rwy'n meddwl, yn y ffordd iawn.

The trouble is that the metro was a wonderful concept when it started, and everybody thought it was easy to do, but I can assure you, dealing with rail and other things is not easy to do—not easy to do in terms of arrangements with Network Rail, and how we're going to take a contract forward. But can I say to Members, in the main, I've been very glad for the support I've had from the benches on this? I think they understand that the fundamental importance of it—and what I think you're saying—is to get it actually right, on budget and on time.

Y drafferth yw bod y metro yn gysyniad gwych yn y lle cyntaf, ac roedd pawb yn meddwl ei fod yn beth hawdd ei gyflawni, ond gallaf eich sicrhau, nid yw delio â rheilffyrdd a phethau eraill yn hawdd i'w wneud—ddim yn hawdd o ran trefniadau gyda Network Rail, ac o ran sut yr ydym yn mynd i fwrw ymlaen â'r contract. Ond a gaf i ddweud wrth yr Aelodau, ar y cyfan, rwyf wedi bod yn falch iawn o'r gefnogaeth yr wyf wedi'i chael gan y meinciau ar hyn? Rwy'n credu eu bod yn deall mai'r hyn sy'n hanfodol bwysig—a'r hyn yr wyf yn meddwl eich bod yn ei ddweud—yw ei gael yn iawn, o fewn y gyllideb ac ar amser.

17:22

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome this statement. I think it's a very, very good development, and I think it's very important to remember that this metro will cover half the population of Wales, and is important for the future of the whole of Wales. As the Minister said, it's much more than a transport project.

Rwy'n croesawu'r datganiad hwn. Rwy'n credu ei fod yn ddatblygiad da iawn, iawn, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn cofio y bydd y metro hwn yn cwmpasu hanner poblogaeth Cymru, a'i bod yn bwysig i ddyfodol Cymru gyfan. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'n fwy o lawer na phrosiect trafnidiaeth.

Will the Minister assure me that the predicted growth of Cardiff will be taken into account in the development of the metro? I think the population of Cardiff is forecast to rise by more than a quarter by 2036, so the potential customers for the metro will rise. So, I think it's very important that that is taken into consideration.

A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd imi y bydd y twf a ragwelir yng Nghaerdydd yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r metro? Rwy'n meddwl y rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu mwy na chwarter erbyn 2036, felly bydd nifer y cwsmeriaid posibl ar gyfer y metro yn cynyddu. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ystyried hynny.

This is the second major project we've had announced recently. For the Cardiff bus station, the Foster design was announced as chosen about a week ago, I think. Not Foster—yes; it was Norman Foster, wasn't it? That's right. I've got the right name. I just wondered if there'd been any discussion with Cardiff council and the proposed development there, and how that would link in with the metro.

Dyma'r ail brosiect mawr a gyhoeddwyd yn ddiweddar. O ran gorsaf fysiau Caerdydd, cyhoeddwyd fod cynllun Foster wedi'i ddewis tua wythnos yn ôl, rwy'n meddwl. Nid Foster—ie; Norman Foster, onid e? Dyna fe. Mae gen i'r enw cywir. Meddwl oeddwn i tybed a fu unrhyw drafodaeth â chyngor Caerdydd a'r datblygiad arfaethedig yno, a sut y byddai hynny'n cysylltu â'r metro.

I'm pleased that buses are going to play a major role. I know that the plan is that buses will be more frequent and will move more quickly, and obviously that will depend on relieving the congestion there is already, so I wondered how that would be tackled. I wondered whether she could say how the public will actually be involved. I know that she mentioned in the statement that there would be discussion, or had been discussion, with railway users groups, and I wondered whether she could say how that will go forward. I wondered whether she could, finally, say what sort of governance arrangements there would be for the metro, and how they would relate to the city region.

Rwy'n falch y bydd y bysiau yn chwarae rhan fawr. Gwn mai'r bwriad yw y bydd bysiau yn amlach ac yn gyflymach, ac yn amlwg bydd hynny'n dibynnu ar leddfu'r tagfeydd sydd yno eisoes, felly tybed sut yr eir i'r afael â hynny. Tybed a allai hi ddweud sut y bydd y cyhoedd yn cael eu cynnwys mewn gwirionedd. Gwn ei bod wedi crybwyll yn y datganiad y byddai trafodaeth, neu y bu trafodaeth, â grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd, a thybed a allai ddweud sut y bydd hynny yn mynd yn ei blaen. A allai hi, yn olaf, ddweud pa fath o drefniadau llywodraethu fyddai ar waith ar gyfer y metro, a sut y byddent yn berthnasol i'r ddinas-ranbarth.

17:24 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I say, obviously, in terms of the issue, yes, we have looked at the predicted growth within the region itself in terms of the usage of transport? Of course, there's quite a high level of predicted growth, actually, coming into the immediate Cardiff area. Can I say that it's excellent news on the bus station in Cardiff? Of course, my officials will be having liaisons with all officials across local authorities to ensure that we fit in with their plans, and they fit in with ours.

A gaf i ddweud, yn amlwg, o ran y mater hwn, ydyn, rydym wedi edrych ar y twf a ragwelir yn y rhanbarth ei hun o ran y defnydd o drafnidiaeth? Wrth gwrs, mae lefel y twf a ragwelir yn eithaf uchel, mewn gwirionedd, ardal Caerdydd a'r cyffiniau. A gaf i ddweud ei bod yn newyddion gwych am yr orsaf fysiau yng Nghaerdydd? Wrth gwrs, bydd fy swyddogion yn cysylltu â'r holl swyddogion ar draws yr awdurdodau lleol er mwyn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â'u cynlluniau, a'u bod nhw yn cyd-fynd â'n rhai ni.

Also, in terms of buses, buses are very important, but we do need to get regulation of buses. We do need more control over regulation to ensure that we have the integration that we require, because currently I feel like I've got one hand tied behind my back in this discussion on what we can do on integrated transport.

Hefyd, o ran bysiau, mae bysiau yn bwysig iawn, ond mae angen i ni sicrhau bod bysiau'n cael eu rheoleiddio. Mae angen i ni gael mwy o reolaeth dros reoleiddio i sicrhau yr integreiddio angenrheidiol, oherwydd ar hyn o bryd rwy'n teimlo fod un llaw wedi ei chlymu y tu ôl i fy nghefn yn y drafodaeth hon o ran yr hyn y gallwn ei wneud ar drafnidiaeth integredig.

Obviously, there's been involvement with the rail groups, because some of these are real experts, I have to say, on what can be run where. In fact, I have to say, and I say this publicly, that some of them understand the timetable much better than Arriva in their areas, and what more they can do. So, that's been very important. We will look further at how we engage with the public more generally. I think we'll come to that stage when we're in the stage to identify where the early lines will be and what the early changes will be and what people require.

Yn amlwg, cysylltwyd â'r grwpiau rheilffyrdd, gan fod rhai o'r rhain yn arbenigwyr go iawn, mae'n rhaid i mi ddweud, ar yr hyn y gellir ei redeg ac ymhle. Yn wir, rhaid i mi ddweud, ac rwy'n dweud hyn ar goedd, fod rhai ohonynt yn deall yr amserlen yn eu hardaloedd lawer gwell nag Arriva, a beth mwy y gellid ei wneud. Felly, mae hynny wedi bod yn bwysig iawn. Byddwn yn edrych hefyd ar sut yr ydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Rwy'n meddwl y byddwn yn dod i'r cam hwnnw pan fyddwn mewn sefyllfa i nodi ble y bydd y rheilffyrdd cynnar a beth fydd y newidiadau cynnar a'r hyn sydd ei angen ar bobl.

In terms of the governance agenda, the city region has had quite a fluid position, as you know, because it's doing its final reports about its directions of travel. I think it sees its role far more with the local authority leaders, and discussing with the private sector, focusing on the planning and the economic development issues. The metro must almost be standalone in terms of its development, with them fitting in. But, there's no final decisions been made on the future structure of the Cardiff city region. I will be updating Members when I have further advice from the chair and the board.

O ran yr agenda rheolaeth, mae sefyllfa'r ddinas-ranbarth wedi bod braidd yn anwadal, fel y gwyddoch, am ei bod yn gwneud ei hadroddiadau terfynol ynghylch y ffordd ymlaen. Rwy'n credu ei bod o'r farn bod ei swyddogaeth yn ymwneud llawer mwy ag arweinwyr awdurdodau lleol, a thrafod â'r sector preifat, a chanolbwyntio ar y cynllunio a'r materion datblygu economaidd. Mae'n rhaid i'r metro fod yn annibynnol, bron, o ran ei ddatblygiad, gyda nhw yn cydweddu â hynny. Ond, does dim penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ar strwythur dinas-ranbarth Caerdydd yn y dyfodol. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau pan fyddaf yn cael cyngor pellach gan y cadeirydd a'r bwrdd.

17:26 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like others, Minister, I want to welcome the statement you've made this afternoon. I particularly want to welcome the statements that you've made on the governance and future management of the metro system and the linkage between that and the Wales and borders franchise, which brings together a lot of different issues around sustainable transport options that we are looking for in Wales, and to drive sustainable economic growth in the Valleys areas.

Fel eraill, Weinidog, rwyf am groesawu'r datganiad yr ydych wedi'i wneud y prynhawn yma. Rwy'n arbennig o awyddus i groesawu'r datganiadau yr ydych wedi eu gwneud o ran llywodraethu a rheoli y system fetro yn y dyfodol a'r cysylltiad rhwng hynny a masnachfraint Cymru a'r Gororau, sy'n dwyn ynghyd lawer o wahanol faterion yn ymwneud â dewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy yr ydym yn edrych amdanynt yng Nghymru, ac yn sbarduno twf economaidd cynaliadwy yn ardaloedd y Cymoedd.

Can I ask you two questions, if I may? First of all, do you have a timescale for developments? I'm thinking in particular, of course, of the Ebbw Vale line in terms of more frequent services and the work that's currently being undertaken by Network Rail on that. I'm also looking for any indication as to whether priority has been given to services to Abertillery at the same time. You will be aware that, for those of us in the Valleys areas looking at the Ebbw Vale line, our priority is additional services to Cardiff. We want to see this as an inter-urban service that drives sustainable growth, the eradication of poverty and employment in the heads of the Valleys area, but whenever additional stops are inserted in this route, that makes that service less valuable. So, it's important that we have a recognition that this is an inter-urban service, and not simply a commuter service for Cardiff or Newport.

A gaf i ofyn ddau gwestiwn i chi? Yn gyntaf oll, a oes gennych amserlen ar gyfer y datblygiadau? Rydw i'n meddwl yn arbennig, wrth gwrs, am reilffordd Glyn Ebwy o ran gwasanaethau amlach a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Network Rail. Rwyf hefyd yn edrych am unrhyw arwydd p'un a roddwyd blaenoriaeth i wasanaethau i Abertyleri ar yr un pryd. Byddwch yn ymwybodol mai'r flaenoriaeth i'r rhai ohonom yn ardaloedd y Cymoedd sy'n edrych ar reilffordd Glynebwy, yw gwasanaethau ychwanegol i Gaerdydd. Rydym am weld gwasanaeth rhyngdrefol sy'n gyrru twf cynaliadwy a chyflogaeth ac yn dileu tlodi yn ardal Blaenau'r Cymoedd, ond pryd bynnag y bydd arosfannau ychwanegol yn cael eu gosod ar y llwybr hwn, mae hynny'n gwneud y gwasanaeth hwnnw yn llai gwerthfawr. Felly, mae'n bwysig bod cydnabyddiaeth fod hwn yn wasanaeth rhyngdrefol, ac nid dim ond yn wasanaeth cymudo i Gaerdydd neu Gasnewydd.

Also, the second question is on the relationship with the Network Rail Wales route study. We're aware that Network Rail has just finished consulting on their route study in Wales and that they are looking towards planning some significant investments over the next few years. It appears to me that if the metro system is to succeed, then those investments, the management, the drive and the direction that you've given the metro project need to be working as a single entity.

Hefyd, mae'r ail gwestiwn am y berthynas ag astudiaeth llwybrau Network Rail Cymru. Rydym yn ymwybodol bod Network Rail newydd orffen ymgynghori ar eu hastudiaeth llwybrau yng Nghymru a'i fod yn edrych ar gynllunio rhai buddsoddiadau sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Ymddengys i mi, os yw'r system fetro yn mynd i lwyddo, bod angen i'r buddsoddiadau hynny, y rheoli, y sbardun a'r cyfeiriad yr ydych wedi'i roi i'r prosiect metro fod yn gweithio fel un endid.

17:28

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank you for your final point, particularly because you raise the interesting point of what is going to happen to Network Rail in the future with all the changes that have occurred? That is one of the discussions I'll be having about the metro project with the UK Government, about what relationship we need to have with Network Rail to make sure that we don't get caught out by anything that might be undertaken, and to make sure that we are streamlined in terms of our particular agenda.

A gaf i ddiolch i chi am eich pwynt olaf, yn arbennig oherwydd yr ydych yn codi pwynt diddorol am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd i Network Rail yn y dyfodol gyda'r holl newidiadau sydd wedi digwydd? Dyna un o'r trafodaethau y byddaf yn eu cael am y prosiect metro gyda Llywodraeth y DU, sef y berthynas y mae angen i ni ei chael â Network Rail i wneud yn siŵr nad ydym yn cael ein dal gan unrhyw beth a allai gael ei wneud, ac i wneud yn siŵr bod ein hagenda benodol yn un syml.

I do absolutely concur with you about inter-urban services. One of the issues we are looking at now, currently, as we plough through, is not just the additionality of Ebbw Vale to Cardiff, or Ebbw Vale to Newport, but of course all those other links. I will be able to update Members on the further stages of this in the autumn, which I think you will be pleased with.

Rwy'n cytuno'n hollol â chi am wasanaethau rhyngdrefol. Un o'r materion yr ydym yn edrych arno yn awr, ar hyn o bryd, wrth i ni fwrw ymlaen, yw nid yn unig ychwanegu llwybr Glynebwy i Gaerdydd, neu Lynebwy i Gasnewydd, ond yr holl gysylltiadau eraill hynny wrth gwrs. Byddaf yn gallu diweddaru'r Aelodau ar y camau pellach yn yr hydref, ac yr wyf yn meddwl y byddwch yn falch gyda hynny.

17:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Finally, Nick Ramsay.

Yn olaf, Nick Ramsay.

17:29 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for calling me, Deputy Presiding Officer. Minister, you mentioned Monmouthshire several times in your statement today, and the extension of the metro to Monmouthshire, which I welcome. However, the latest map of the metro shows connections to Abergavenny and Chepstow, which are clearly already on main rail lines, but it doesn't show any link to Monmouth itself, which lies at the top of the A449—a strategic route. Can you explain why the A449 doesn't feature on this map? If it's not going to, will you review the situation to make sure that the town of Monmouth is not left out of this network, because it's clearly a very important north-to-south strategic route?

Diolch i chi am fy ngalw, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, fe sonioch chi am Sir Fynwy sawl gwaith yn eich datganiad heddiw, ac ymestyn y metro i Sir Fynwy, a chroesawaf hynny. Fodd bynnag, mae map diweddaraf y metro yn dangos cysylltiadau o'r Fenni a Chas-gwent, sydd yn amlwg eisoes ar y prif linellau rheilffyrdd, ond nid yw'n dangos unrhyw gysylltiad i Drefynwy ei hun, sy'n gorwedd ar ben yr A449—llwybr strategol. Allwch chi egluro pam nad yw'r A449 ar y map? Os nad yw'n mynd i fod ar y map, a wnewch chi adolygu'r sefyllfa i wneud yn siŵr nad yw tref Trefynwy yn cael ei gadael allan o'r rhwydwaith hwn, am ei fod yn amlwg yn llwybr strategol pwysig iawn o'r gogledd i'r de?

17:29 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I make it clear that we've had initial discussions around this, and I've indicated that this is the map where we are now? There will be further work undertaken on the map. I'm actually meeting the leader of Monmouthshire council and this will be one of the agenda items, about how we can look into the future and about how we'll be doing further stuff in Monmouthshire as part of this overall package.

A gaf i ei gwneud yn glir ein bod ni wedi cael trafodaethau cychwynnol ynglŷn â hyn, ac rwyf wedi dweud bod y map yn dangos lle'r ydym ni ar hyn o bryd? Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y map. I ddweud y gwir, rwy'n cwrdd ag arweinydd cyngor Sir Fynwy a bydd y mater hwn ar yr agenda, sef sut y gallwn edrych i'r dyfodol a sut y byddwn yn gwneud pethau ymhellach yn Sir Fynwy fel rhan o'r pecyn cyffredinol hwn.

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

In accordance with Standing Order 12.24, I propose that the following two motions under items 7 and 8 are grouped for debate. These are the Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015 and the Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015. Does any Member object?

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, rwy'n cynnig bod y ddau gynnig canlynol o dan eitemau 7 ac 8 yn cael eu grwpio ar gyfer dadl. Y cynigion yw Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru)  2015 a Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu?

17:30

## 7. & 8. Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 a Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

## 7. & 8. The Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015 and the Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015

Y Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Minister for Health and Social Services to move the motions—Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynigion—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5795 Jane Hutt

Motion NDM5795 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2015.

Approves that the draft The Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 9 June 2015.

Cynnig NDM5796 Jane Hutt

Motion NDM5796 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2015.

Approves that the draft The Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 9 June 2015.

*Cynigiwyd y cynigion.*

*Motions moved.*

17:30 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig y cynnig. Mae'n bleser gen i gyflwyno'r rheoliadau hyn, y cyntaf i gael eu trafod gan y Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid y rheoliadau hyn yw'r rhai cyntaf i gael eu cadarnhau, fodd bynnag, gan fod y rheoliadau asesu o dan adran 3 o'r Ddeddf wedi cael eu pasio'n llwyddiannus yn barod o dan y weithdrefn negyddol. Mae'r rheoliadau hyn yn deillio o adran 7 Deddf 2014, sy'n rhoi dau beth ar waith: yn gyntaf, mae'n sefydlu strwythur i oruchwylio a chydlynu gwaith yr asiantaethau hynny sydd â rôl mewn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed; ac yn ail, mae'n gweithredu mesurau penodol i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu hamddiffyn yn well.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I move the motion. It's my pleasure to introduce these regulations, the first to be discussed by the National Assembly as a result of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. These are not the first regulations to have been approved, however, as the assessment regulations under section 3 of the Act were successfully passed under the negative procedure. These regulations emerge from section 7 of the 2014 Act, which implements two things: first of all, it establishes a structure to oversee and co-ordinate the work of those agencies that have a role in safeguarding children and vulnerable adults; and secondly, it implements specific measures to ensure that children and adults are protected more effectively.

As a result, Dirprwy Lywydd, there are two sets of regulations before the Assembly today. Firstly, the Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015 restrict the category of persons who may apply for an adult protection and support order. As a result of consultation, regulation 2 has been strengthened and now specifically requires the completion of appropriate training by local authority officers and the relevant experience they are required to possess if working within the field of social care with adults who are, or may be, at risk.

O ganlyniad, Ddirprwy Lywydd, mae dwy set o reoliadau gerbron y Cynulliad heddiw. Yn gyntaf, mae Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn cyfyngu'r categori o bersonau a all wneud cais am orchymyn amddiffyn a chefnogi oedolion. O ganlyniad i broses ymgynghori, mae rheoliad 2 wedi ei gryfhau ac mae bellach yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion yr awdurdod lleol gwblhau hyfforddiant priodol ac yn nodi'r profiad perthnasol y mae'n ofynnol iddynt feddu arno os ydynt yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol gydag oedolion sydd, neu a allai fod, mewn perygl.

The second set, the Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015 will guide boards as to how they should fulfil their objectives under the Act to protect children and adults at risk from abuse or other forms of harm and provide explicitly for participation by those affected by the boards' work. The regulations represent part of a package that will produce a stronger and more coherent framework for safeguarding children and vulnerable adults in Wales.

Bydd yr ail set, Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 yn llywio byrddau o ran sut y dylent gyflawni eu hamcanion o dan y Ddeddf i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu ffurfiau eraill o niwed a darparu yn benodol ar gyfer cymryd rhan gan y rhai y mae gwaith y byrddau yn effeithio arnynt. Mae'r rheoliadau yn cynrychioli rhan o becyn a fydd yn cynhyrchu fframwaith cryfach a mwy cydlynol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yng Nghymru.

Mrs Gwenda Thomas, as then Deputy Minister for Social Services, established the safeguarding advisory panel in July 2013 to work with a wide range of stakeholders to develop and influence policy, regulations and statutory guidance in relation to the safeguarding aspects of the 2014 Act. The resulting proposals, informed by the panel's engagement, was subject to formal consultation between November of last year and February of 2015. The regulations before the Assembly today are a product of that process. Both received very strong support during the consultation and are brought before you on that basis. They are discrete but important elements in implementing more coherent, cohesive and comprehensive arrangements to protect children and vulnerable adults from abuse and neglect, and I recommend them to the Assembly.

Sefydlodd Mrs Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, y panel cynghori diogelu ym mis Gorffennaf 2013 er mwyn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid i ddatblygu a dylanwadu ar bolisi, rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas ag agweddau diogelu Deddf 2014. Roedd y cynigion oedd yn deillio o hyn, yn seiliedig ar ymgysylltiad y panel, yn destun ymgynghori ffurfiol rhwng mis Tachwedd y llynedd a mis Chwefror 2015. Cynnyrch y broses honno yw'r rheoliadau sydd gerbron y Cynulliad heddiw. Derbyniodd y ddau gefnogaeth gref iawn yn ystod yr ymgynghoriad ac maent yn cael eu dwyn ger eich bron ar y sail honno. Maent yn elfennau ar wahân ond pwysig wrth roi trefniadau mwy cydlynol, ymlynol a chynhwysfawr ar waith i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ac rwy'n eu hargymell i'r Cynulliad.

17:33

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank the Minister for the approach that he's taken in bringing forward the regulations? I'm particularly pleased that, following the consultation, the Minister has agreed to amend the regulations with regard to who can apply for an order. There is a delicate balance to be trodden, Deputy Presiding Officer, about who is potentially at risk. Sometimes, people make lifestyle choices or choose to live their lives in a way that, perhaps, to another person would seem to be strange, odd or not in keeping with their wellbeing, but, actually, for that person, it is their intrinsic right to be able to live their life that way and not comply to, perhaps, the norms of how other people would see day-to-day living. Therefore, as I said, there is a balance to be struck about how you can ensure that someone is not in danger and that their wellbeing is not being ill affected, but at the same time not imposing a version of what we regard to be acceptable lifestyles upon an older person. So, I think this added requirement for a person to be trained and to be well qualified in being able to make these judgments is a welcome safeguard that we on the Liberal Democrat benches very much welcome.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am yr ymagwedd y mae wedi'i chymryd wrth gyflwyno'r rheoliadau? Rwy'n arbennig o falch, yn dilyn yr ymgynghoriad, bod y Gweinidog wedi cytuno i ddiwygio'r rheoliadau o ran pwy all wneud cais am orchymyn. Mae cydbwysedd bregus i'w droedio, Ddirprwy Lywydd, ynghylch pwy sydd mewn perygl o bosibl. Weithiau, mae pobl yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw neu'n dewis byw eu bywydau mewn modd sydd, efallai, i berson arall yn ymddangos yn rhyfedd, yn od neu ddim yn gydnaws â'u lles, ond, mewn gwirionedd, hawl cynhenid y bobl hynny yw byw eu bywydau yn y ffordd honno a pheidio â chydymffurfio, efallai, â'r hyn a ystyrir gan bobl eraill yn ffordd arferol o fyw o ddydd i ddydd. Felly, fel y dywedais, mae cydbwysedd i'w daro o ran sut y gallwch sicrhau nad yw rhywun mewn perygl ac nad yw eu lles yn cael ei effeithio yn andwyol, ond ar yr un pryd peidio â gwthio fersiwn o'r hyn yr ydym ni'n ei ystyried yn ffyrdd derbyniol o fyw ar berson hŷn. Felly, rwy'n meddwl bod y gofyniad ychwanegol hwn i berson gael ei hyfforddi a bod yn gymwys iawn o ran y gallu i lunio'r barnau hyn yn ddull diogelu i'w groesawu, ac rydym ni ar feinciau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei groesawu.

On the second order, with regard to safeguarding boards, again, we are very supportive of the fact that the Minister, at this stage, is not minded to combine both children and adult safeguarding boards into one. There is grave concern, especially among the children's lobby, whether that would be detrimental to the protection of children, although I'm always cognisant of the fact that when we received evidence in the committee on these subjects, actually the issue of elder abuse, and how as a society we recognise elder abuse, perhaps, in some cases, is the greater danger we have to guard against. While child abuse and neglect of children unfortunately still happens, and happens to an alarming extent, and, certainly, as we become as a society more willing to listen to people and encourage people to come forward to talk about their experiences, elder abuse, especially elder abuse in the home perpetrated by a loved one, is still something that is very much a taboo subject and we don't talk about. While I welcome the recognition that the two need to be separate, I think in doing that we recognise not only the need to protect children, but also this issue of how older people can be subject to abuse in their own homes when they're being cared for by people who should be looking after them properly.

O ran yr ail orchymyn, sef y byrddau diogelu, unwaith eto, rydym yn gefnogol iawn i'r ffaith nad yw'r Gweinidog, ar hyn o bryd, o blaid cyfuno byrddau diogelu plant ac oedolion yn un. Mae pryder difrifol, yn enwedig ymysg lobi'r plant, y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar ddiogelu plant, er fy mod i bob amser yn ymwybodol o'r ffaith pan gawsom dystiolaeth yn y pwyllgor ar y pynciau hyn, mewn gwirionedd y mater o gam-drin pobl hŷn, a sut fel cymdeithas yr ydym yn cydnabod cam-drin pobl hŷn, efallai, mewn rhai achosion, yw'r perygl mwyaf y mae'n rhaid i ni warchod yn ei erbyn. Er bod cam-drin plant ac esgeuluso plant yn anffodus yn dal i ddigwydd, ac yn digwydd i raddau brawychus, ac, yn sicr, fel y byddwn yn dod fel cymdeithas yn fwy parod i wrando ar bobl ac annog pobl i ddod ymlaen i siarad am eu profiadau, mae cam-drin pobl hŷn, yn enwedig lle mae pobl hŷn yn cael eu cam-drin yn y cartref gan un annwyl, yn dal yn sicr yn bwnc tabŵ ac nid ydym yn siarad amdano. Er fy mod yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod angen i'r ddau fod ar wahân, rwy'n meddwl wrth wneud hynny ein bod yn cydnabod nid yn unig yr angen i ddiogelu plant, ond hefyd y broblem hon o sut y gall pobl hŷn gael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunain pan fyddant yn derbyn gofal gan bobl a ddylai fod yn gofalu amdanynt yn briodol.

17:36

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Siaradaf i'r ddwy eitem—eitemau 7 ac 8.

I will speak to the two items—items 7 and 8.

I'm delighted that these regulations are being presented to the Assembly by the Minister today. Having been scrutinised, of course, through the affirmative procedure, they move forward the commitment made by this Assembly to strengthen the safeguarding of the people of Wales—children and adults—who are or may be at risk. The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 is there to deliver on the needs of people who require care and support and of carers who themselves need support. It puts citizens at the centre of the process and introduces unprecedented rights for informal carers. Most people will be enabled to live independently for longer with the support of their carers, but, sadly, as Kirsty Williams has just said, a small number of cases will be abused and that will be happening in the home. The adult protection orders will allow authorised and trained persons to speak to someone they suspect is at risk on a one-to-one basis in their own homes in order to ascertain if they are indeed at risk. This will close a big gap in current procedures.

Rwy'n falch iawn bod y rheoliadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad gan y Gweinidog heddiw. Wedi craffu arnynt, wrth gwrs, drwy'r weithdrefn gadarnhaol, maent yn bwrw ymlaen â'r ymrwymiad a wnaed gan y Cynulliad hwn i gryfhau'r gwaith o ddiogelu pobl Cymru—yn blant ac yn oedolion—sydd neu a allai fod mewn perygl. Mae Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yno i ddiwallu anghenion pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'n rhoi dinasyddion yng nghanol y broses ac yn cyflwyno hawliau digynsail ar gyfer gofalwyr anffurfiol. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael eu galluogi i fyw yn annibynnol am fwy o amser gyda chefnogaeth eu gofalwyr, ond, yn anffodus, fel y mae Kirsty Williams newydd ei ddweud, bydd nifer fach o unigolion yn cael eu cam-drin a bydd hynny'n digwydd yn y cartref. Bydd y gorchmynion amddiffyn oedolion yn galluogi personau awdurdodedig a hyfforddedig i siarad yn breifat â rhywun y maent yn amau eu bod mewn perygl yn eu cartrefi eu hunain er mwyn canfod a ydynt mewn perygl mewn gwirionedd. Bydd hyn yn cau'r bwlch mawr yn y gweithdrefnau cyfredol.

To move to the safeguarding boards, I'd like to thank the advisory board for its work and its advice to me during my time as Deputy Minister, and also to thank local government, the NHS, the police, the voluntary sector and others for having already taken steps to establish adults and children's protection boards on the health authority footprints. This has been done, of course, in anticipation of today's regulations and the implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 next year. Time will tell, Deputy Presiding Officer, whether the merger of adults and children's protection boards would best serve the people of Wales.

I symud at y byrddau diogelu, hoffwn ddiolch i'r bwrdd ymgynghori am ei waith a'i gyngor i mi yn ystod fy amser fel Dirprwy Weinidog, a hefyd diolch i lywodraeth leol, y GIG, yr heddlu, y sector gwirfoddol ac eraill am gymryd camau eisoes i sefydlu byrddau amddiffyn oedolion a phlant yn olion traed yr awdurdodau iechyd. Mae hyn wedi ei wneud, wrth gwrs, gan ragweld rheoliadau heddiw a gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y flwyddyn nesaf. Amser a ddengys, Ddirprwy Lywydd, a fyddai uno byrddau amddiffyn oedolion a phlant yn gwasanaethu pobl Cymru orau.

17:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Minister to respond.

Y Gweinidog i ymateb.

17:38

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Can I thank opposition party spokespeople from all parties for their willingness to take part in the preparation of the work that comes before the Assembly today and to be part of discussions around them? I'm grateful to Kirsty Williams for what she said about the way in which these regulations have been amended as a result of consultation. I hope to bring regulations from the 2014 Act before the Assembly in each of three weeks and, on each occasion, I hope to be able to show how the process of consultation on the original regulations has led to their strengthening, before the regulations we bring to the Assembly.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i lefarwyr y gwrthbleidiau o bob plaid am eu parodrwydd i gymryd rhan yn y broses o baratoi'r gwaith a ddaw gerbron y Cynulliad heddiw ac i fod yn rhan o drafodaethau o'u cwmpas. Rwy'n ddiolchgar i Kirsty Williams am yr hyn a ddywedodd am y ffordd y mae'r rheoliadau hyn wedi eu diwygio o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Rwy'n gobeithio dod â rheoliadau o Ddeddf 2014 gerbron y Cynulliad ym mhob un o'r tair wythnos ac, ar bob achlysur, rwy'n gobeithio gallu dangos sut mae'r broses o ymgynghori ar y rheoliadau gwreiddiol wedi eu cryfhau, cyn iddynt ddod gerbron y Cynulliad.

Can I say I'm especially grateful to Gwenda Thomas for the work that she continues to carry out in chairing work to oversee the production of regulations that flow from the 2014 Act to ensure that they are fully consistent with the Act itself, of course, but also with indications that she set out on the floor of the Assembly and in committee during its passage? The fact that she is able to support the regulations this afternoon is a great comfort to me and I know will be influential with other Assembly Members as I ask for the Assembly's support for the regulations before us this afternoon.

A allaf ddweud fy mod yn arbennig o ddiolchgar i Gwenda Thomas am barhau i gadeirio'r gwaith o oruchwylio'r broses o gynhyrchu rheoliadau sy'n deillio o Ddeddf 2014, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gyson â'r Ddeddf ei hun, wrth gwrs, ond hefyd gyda'r hyn a bennodd ar lawr y Cynulliad ac yn y pwyllgor yn ystod eu taith? Mae'r ffaith ei bod hi'n gallu cefnogi'r rheoliadau y prynhawn yma yn gysur mawr i mi ac rwy'n gwybod y bydd yn ddylanwadol gydag Aelodau Cynulliad eraill wrth i mi ofyn am gefnogaeth y Cynulliad ar gyfer y rheoliadau sydd ger ein bron y prynhawn yma.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion under item 7. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch yn fawr, Weinidog. Y cynnig yw cytuno ar y cynnig dan eitem 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff y cynnig felly ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion under item 8. Does any Member object? The motion is therefore agreed.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig dan eitem 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:40

# 9. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015

# 9. The Town and Country Planning Y (Fees for Applications and Deemed Applications and Site Visits) (Wales) Regulations 2015

Senedd.tv
Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 9 is the town and country planning regulations, and I call the Minister for Natural Resources to move the motion.

Eitem 9 yw'r rheoliadau cynllunio gwlad a thref, a galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5797 Jane Hutt

Motion NDM5797 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2015.

Approves that the draft The Town and Country Planning (Fees for Applications, Deemed Applications and Site Visits) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 3 June 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:40

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. The regulations look to increase the income that local authorities receive from fees that accompany planning applications and help ensure applicants receive an efficient service when they submit their application. I formally move.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r rheoliadau yn ceisio cynyddu'r incwm y mae awdurdodau lleol yn ei gael o ffioedd sy'n cyd-fynd â cheisiadau cynllunio, a helpu i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud cais yn derbyn gwasanaeth effeithlon pan fyddant yn cyflwyno eu cais. Cynigiaf yn ffurfiol.

17:41

**Russell George** Bywgraffiad Biography

Minister, I would just be grateful for a bit of clarification on this regulation. I know that the Welsh Government carried out a consultation, and the responses to the consultation have not yet been released. So, I would be grateful if you could perhaps comment on that. I also understand the consultation included some discussion on fees for windfarm applications, but they weren't present in the regulations. I would be grateful for any clarity on those issues.

Weinidog, byddwn yn ddiolchgar am dipyn o eglurhad ar y rheoliad hwn. Gwn fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad, ac nid yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi eu rhyddhau eto. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi sylwadau ar hynny efallai. Rwyf hefyd yn deall bod yr ymgynghoriad yn cynnwys rhywfaint o drafodaeth ar ffioedd ar gyfer ceisiadau ffermydd gwynt, ond nid oeddent yn bresennol yn y rheoliadau. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw eglurhad ar y materion hynny.

Senedd.tv Fideo Video

17:41

**Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you. The 12-week consultation did take place. In general, the consultation responses were positive from businesses and developers and local planning authorities, as you would expect. Most were in agreement that an increased fee should improve and increase the service. This is what we are seeking to do. It's a 15 per cent overall fee increase, and that equates to an average of around £80,000 per planning authority. That is all, in terms of a—. It is probably one and a half planning officers' time. But, we are seeking to enhance the opportunities for planning authorities to develop a stronger economy. I would be hopeful that the Member would be supportive of that.

Diolch yn fawr. Fe gynhaliwyd yr ymgynghoriad 12 wythnos. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan fusnesau a datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol yn gadarnhaol, fel y byddech yn ei ddisgwyl. Mae'r rhan fwyaf yn cytuno y byddai cynyddu'r ffi yn gwella ac yn cynyddu'r gwasanaeth. Dyma beth yr ydym yn ceisio'i wneud. Mae'r ffioedd yn cynyddu 15 y cant yn gyffredinol, ac mae hynny'n cyfateb i gyfartaledd o tua £80,000 fesul awdurdod cynllunio. Mae hynny i gyd, o ran —. Mae'n debyg ei fod gyfwerth ag amser a hanner un swyddog cynllunio. Ond, rydym yn ceisio gwella'r cyfleoedd i awdurdodau cynllunio ddatblygu economi gryfach. Byddwn yn obeithiol y byddai'r Aelod yn gefnogol o hynny.

With regard to planning applications for windfarms, the consultation did incorporate all activity around planning decisions, but the Member will also know there is a consultation out on developments of national significance, and whether planning applications for windfarms fall into DNS will be a matter for another debate. But, the current position is that for introduction of new fees, this is the regulation we would have to introduce.

O ran ceisiadau cynllunio ar gyfer ffermydd gwynt, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pob gweithgaredd yn ymwneud â phenderfyniadau cynllunio, ond bydd yr Aelod hefyd yn gwybod bod ymgynghoriad ar y gweill ar ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, a bydd p'un a yw ceisiadau cynllunio ar gyfer ffermydd gwynt yn disgyn i gategori DNS yn fater ar gyfer dadl arall. Ond, y sefyllfa dan sylw yw cyflwyno ffioedd newydd, dyma'r rheoliad y byddai'n rhaid i ni ei chyflwyno.

Senedd.tv Fideo Video

17:42

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv Fideo Video

## 10. Dadl ar Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd o dan Adran 1 o Ddeddf Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies.*

## 10. Debate on the Welsh Ministers' Report on the Compliance with the Duty under Section 1 of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies.*

17:42

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 10 is a debate on the Welsh Ministers' report on the compliance with the duty under section 1 of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, and I call the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Mae Eitem 10 yn ddadl ar adroddiad Gweinidogion Cymru ar y gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Ddeddf Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011 (Cymru), a galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5798 Jane Hutt

Motion NDM5798 Jane Hutt

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Notes the Welsh Ministers' Report on the Compliance with the duty under section 1 of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:43

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. The Welsh Government’s ambition is for every child and young person in Wales to enjoy their rights as set out in the United Nations Convention on the Rights of the Child. The Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 underpins this commitment, and our children’s rights scheme provides a framework to support all Ministers to have due regard to children’s rights in all of our decisions. The intention of the Measure is to secure positive outcomes for children and young people by creating a culture that respects and upholds children’s rights.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru fwynhau eu hawliau fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ategu’r ymrwymiad hwn, ac mae ein cynllun hawliau plant yn darparu fframwaith i gefnogi pob Gweinidog i roi sylw dyledus i hawliau plant ym mhob un o'n penderfyniadau. Bwriad y Mesur yw sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc drwy greu diwylliant sy'n parchu ac yn cynnal hawliau plant.

In May 2014, the Measure came into full force and we accompanied this with our revised children’s rights scheme, which received unanimous cross-party support when passed. Today, I’m pleased to introduce our latest report on compliance as required by the rights Measure. It provides an opportunity to reflect on our progress, recognise where things are working well and consider what steps we can take to improve further. It highlights the positive change in culture, reflecting in practice our commitment to the UNCRC.

Ym mis Mai 2014, daeth y Mesur i rym yn llawn ac roedd ein cynllun hawliau plant diwygiedig yn ei ategu, a derbyniodd gefnogaeth drawsbleidiol unfrydol pan gafodd ei basio. Heddiw, rwy'n falch o gyflwyno ein hadroddiad diweddaraf ar gydymffurfiaeth fel sy'n ofynnol gan y Mesur hawliau. Mae'n rhoi cyfle i fyfyrio ar ein cynnydd, nodi lle mae pethau'n gweithio'n dda ac ystyried pa gamau y gallwn eu cymryd i wella ymhellach. Mae'n tynnu sylw at y newid cadarnhaol mewn diwylliant, gan adlewyrchu yn ymarferol ein hymrwymiad i CCUHP.

Following the full implementation of the Measure, there has been a significant increase in the number of children’s rights impact assessments, or CRIAs, being undertaken. We responded positively to the calls to increase the transparency of the CRIA, strengthening the approach to publication. We’ve also tabled this Plenary debate as set out in our scheme to ensure the Measure, and therefore the UNCRC, receives the exposure it deserves, and these steps have been warmly welcomed.

Yn dilyn gweithrediad llawn y Mesur, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr asesiadau o'r effaith ar hawliau plant, neu CRIA, sy'n cael eu cynnal. Rydym yn ymateb yn gadarnhaol i'r galwadau i gynyddu tryloywder y CRIA, gan gryfhau'r dull o gyhoeddi. Rydym hefyd wedi cyflwyno'r ddadl hon y Cyfarfod Llawn, fel y nodir yn ein cynllun i sicrhau bod y Mesur, ac felly'r Confensiwn, yn derbyn y sylw y mae'n ei haeddu, ac mae’r camau hyn wedi cael croeso cynnes.

In developing the CRIA process, we were mindful the purpose was to ensure decision makers can be better advised as to a decision’s effect on the rights of the child. This is what the 2008 concluding observations of the UN Committee on the Rights of the Child asked of us. The CRIA process does not necessarily lead to particular predefined outcomes. The most comprehensive CRIA may not, in itself, change the decision that follows. It is about how we assess the impact of the decisions we are taking to reach a conclusion, not necessarily the conclusion itself.

Wrth ddatblygu'r broses CRIA, rydym yn ymwybodol mai’r diben oedd sicrhau bod modd rhoi gwell cyngor i’r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch effaith penderfyniad ar hawliau'r plentyn. Dyma’r hyn a ofynnwyd i ni ei wneud yn sylwadau terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008. Nid yw'r broses CRIA o reidrwydd yn arwain at ganlyniadau penodol wedi’u diffinio ymlaen llaw. Efallai na fydd y CRIA mwyaf cynhwysfawr, ynddo'i hun, yn newid y penderfyniad sy'n dilyn. Mae'n ymwneud â sut yr ydym yn asesu effaith y penderfyniadau yr ydym yn eu cymryd er mwyn dod i gasgliad, nid o reidrwydd y casgliad ei hun.

Throughout the report, we refer to examples of various ways in which due regard has been applied, sometimes utilising the CRIA process. Due regard includes thinking about the impact of decisions on children in the course of day-to-day work activity. The independent evaluation of the CRIA process, which will report in September 2015, will play a crucial role in improving the way in which we implement the Measure.

Drwy gydol yr adroddiad, rydym yn cyfeirio at enghreifftiau o wahanol ffyrdd y mae sylw dyledus wedi cael ei ddefnyddio, weithiau gan ddefnyddio proses CRIA. Mae sylw dyledus yn cynnwys meddwl am effaith penderfyniadau ar blant yn ystod gweithgaredd gwaith o ddydd i ddydd. Bydd gwerthusiad annibynnol o'r broses CRIA, a fydd yn adrodd ym mis Medi 2015, yn chwarae rhan hanfodol wrth wella'r ffordd yr ydym yn gweithredu'r Mesur.

Section 5 of the Measure places a duty on Ministers to promote knowledge and understanding of the United Nations Convention on the Rights of the Child. Children cannot access and exercise their rights unless they, their families and the professionals who work with them know about the UNCRC. The report outlines our work in developing our overarching awareness strategy. This ranges from providing training for officials to providing sector-specific training for the children’s workforce. Of course, there is always more to be done. However, the Welsh Government’s commitment is clear. Developing policies and programmes that recognise the need to support children and young people is critical to addressing child poverty and improving outcomes. Our commitment to the UNCRC is manifested in the decisions and actions we take as Ministers. This is why we are investing over £323 million in our tackling poverty programmes this year alone.

Mae adran 5 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ni all plant gael gafael ar ac arfer eu hawliau oni bai eu bod nhw, eu teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy, yn gwybod am y CCUHP. Mae'r adroddiad yn amlinellu ein gwaith wrth ddatblygu ein strategaeth ymwybyddiaeth gyffredinol. Mae hyn yn amrywio o ddarparu hyfforddiant i swyddogion i ddarparu hyfforddiant penodol i'r sector ar gyfer gweithlu'r plant. Wrth gwrs, mae rhagor i'w wneud bob amser. Fodd bynnag, mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn glir. Mae datblygu polisïau a rhaglenni sy'n cydnabod yr angen i gefnogi plant a phobl ifanc yn hanfodol i fynd i'r afael â thlodi plant a gwella canlyniadau. Mae ein hymrwymiad i'r CCUHP wedi’i amlygu yn ein penderfyniadau a’n gweithredoedd fel Gweinidogion. Dyma pam yr ydym yn buddsoddi dros £323 miliwn yn ein rhaglenni trechu tlodi eleni yn unig.

We continue to identify ways to do more to help people out of poverty and give children the best possible start in life. We’ve recently announced an investment of an extra £7.6 million every year in mental health services to children and young people. We’ve delivered on the expansion of the Flying Start scheme. We’ve banned people from smoking in cars when children under the age of 18 are present. We are providing £1.8 million over three years to children in Wales to create a centre of excellence for children’s rights, including national participation structures to enable children and young people to have their opinions heard and, in turn, to influence our work. This national participation model, called Young Wales, will reach thousands of children and young people, including those who are most marginalised. Participation is central to our work in implementing the UNCRC, and we are absolutely committed to listening to the voices and opinions of young people.

Rydym yn parhau i nodi ffyrdd o wneud mwy i helpu pobl allan o dlodi a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi buddsoddiad ychwanegol o £7.6 miliwn bob blwyddyn mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Rydym wedi cyflawni wrth ehangu'r cynllun Dechrau'n Deg. Rydym wedi gwahardd pobl rhag ysmygu mewn ceir pan fydd plant o dan 18 oed yn bresennol. Rydym yn darparu £1.8 miliwn dros dair blynedd er budd plant yng Nghymru i greu canolfan ragoriaeth ar gyfer hawliau plant, gan gynnwys strwythurau cyfranogi cenedlaethol i sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei chlywed ac, yn ei dro, yn dylanwadu ar ein gwaith. Bydd y model cyfranogi cenedlaethol, a elwir yn Young Wales, yn cyrraedd miloedd o blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf. Mae cyfranogiad yn ganolog i'n gwaith o ran gweithredu'r CCUHP, ac rydym yn gwbl ymroddedig i wrando ar leisiau a barn pobl ifanc.

The children's rights scheme and the CRIA are innovative developments. I am proud we've been brave enough to be the first Government in the UK and amongst only a few in Europe and the world to put such arrangements in place. It is important to remember why we have the Measure. It is not just about compliance through following processes. The key elements for effective implementation are knowledge, awareness and a culture of day-to-day consideration of children's rights. Examples in the report bear testament to this. It points to the 3,500 officials who've undertaken training on the UNCRC, the fact the number of CRIAs has tripled, and the transformation in the transparency of how the Measure is being implemented. This in turn has had an effect on how we, as Ministers, are held to account and is a significant step forward. Everything we do as we implement the Measure is focused on better decision making and better policy making for children and young people, resulting in them being able to realise their potential. This compliance report reflects the progress we've made in making this a reality, and I look forward to the debate.

Mae'r cynllun hawliau plant a'r CRIA yn ddatblygiadau arloesol. Rwy'n falch ein bod wedi bod yn ddigon dewr i fod y Llywodraeth gyntaf yn y DU a gyda'r cyntaf yn Ewrop a'r byd i roi trefniadau o'r fath ar waith. Mae'n bwysig cofio pam fod y Mesur gennym. Nid yw'n ymwneud â dim ond cydymffurfio drwy ddilyn prosesau. Yr elfennau allweddol ar gyfer gweithredu effeithiol yw gwybodaeth, ymwybyddiaeth a diwylliant o ystyried hawliau plant o ddydd i ddydd. Mae enghreifftiau yn yr adroddiad yn tystio i hyn. Mae'n tynnu sylw at y 3,500 o swyddogion sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Confensiwn, y ffaith bod nifer y CRIA wedi treblu, a gweddnewid o ran tryloywder wrth weithredu'r Mesur. Mae hyn yn ei dro wedi cael effaith ar sut yr ydym ni Weinidogion yn cael ein dwyn i gyfrif ac mae'n gam sylweddol ymlaen. Mae popeth a wnawn wrth i ni weithredu'r Mesur yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau gwell a gwneud polisi gwell ar gyfer plant a phobl ifanc, gan ei gwneud yn bosibl iddynt wireddu eu potensial. Mae'r adroddiad cydymffurfio hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud i sicrhau hyn, ac edrychaf ymlaen at y ddadl.

17:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the amendment to the motion, and I call on Angela Burns to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r cyhoedd yn gyffredinol.*

*Calls on the Welsh Government to do more to promote the United Nations Convention on the Rights of the Child to the wider public.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

17:48

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and I so move the amendment. Minister, you will have read that our amendment calls on the Welsh Government to do more to promote the United Nations Convention on the Rights of the Child to the wider public. The reason why we believe this is important is that we do recognise that a lot of resources have been channelled towards Welsh Government staff for training purposes and to ensure that all your Ministers around the table consider the UNCRC when formulating policy and legislation, but we believe that the public have not received the same degree of information to help them to learn and understand what the UNCRC is about. We do acknowledge that there are online resources available, but we do think that more needs to be done to promote the knowledge of those online resources to the public. We acknowledge the fact that children and young people are becoming more aware of their rights. We acknowledge the fact that it is spoken about in schools. We acknowledge the fact that, when young people come here for days around the Senedd, they are often told—or, I think, almost always told—about this innovative commitment of the Assembly.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, ac felly rwy'n cynnig y gwelliant. Weinidog, byddwch wedi darllen bod ein gwelliant yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r cyhoedd ehangach. Y rheswm yr ydym yn credu bod hyn yn bwysig yw ein bod yn cydnabod bod llawer o adnoddau wedi eu cyfeirio tuag at staff Llywodraeth Cymru at ddibenion hyfforddi a sicrhau bod pob un o'r Gweinidogion o amgylch y bwrdd yn ystyried CCUHP wrth lunio polisïau a deddfwriaeth, ond credwn nad yw'r cyhoedd wedi derbyn yr un faint o wybodaeth i'w helpu i ddysgu a deall yr hyn y mae'r CCUHP yn ymwneud ag ef. Rydym yn cydnabod bod adnoddau ar-lein ar gael, ond rydym yn credu bod angen gwneud mwy i hyrwyddo gwybodaeth o'r adnoddau ar-lein hynny i'r cyhoedd. Rydym yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn dod yn fwy ymwybodol o'u hawliau. Rydym yn cydnabod eu bod yn cael eu trafod mewn ysgolion. Rydym yn cydnabod y ffaith, pan fydd pobl ifanc yn dod yma am ddiwrnodau o amgylch y Senedd, maent yn aml yn cael gwybod—neu, rwy'n meddwl, yn cael gwybod bron bob amser—am yr ymrwymiad arloesol hwn gan y Cynulliad.

But we also believe it is important that parents and carers and the wider public have access to this information to make sure that they understand that Wales, as a nation, has committed to the UNCRC. We would like them to understand that their children's interests are considered and respected, that they are safe within and without school, and that they are not discriminated against because of their race, their religion, their physical or mental condition, or their age. So, Minister, what I'd like to understand is in what way, in addition to the online resources already available, will the Welsh Government further promote the UNCRC to the wider public, not just young people and children?

Ond rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig bod rhieni a gofalwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yn cael mynediad at yr wybodaeth hon i wneud yn siŵr eu bod yn deall bod Cymru, fel cenedl, wedi ymrwymo i'r Confensiwn. Hoffem iddynt ddeall bod buddiannau eu plant yn cael eu hystyried a'u parchu, eu bod yn ddiogel yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, ac na wahaniaethir yn eu herbyn oherwydd eu hil, eu crefydd, eu cyflwr corfforol neu feddyliol, neu eu hoedran. Felly, Weinidog, yr hyn yr hoffwn ei ddeall yw ym mha ffordd, yn ychwanegol at yr adnoddau ar-lein sydd ar gael eisoes, y bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r CCUHP ymhellach i'r cyhoedd ehangach, nid dim ond pobl a phlant ifanc yn unig?

We also note that the Children's Commissioner for Wales noted in her response the lack of evaluation mechanisms in place to assess the impact of Welsh Government measures to promote the UNCRC and to evaluate all the measures, to the children as well as to the adults. Given that importance, what measures will Welsh Government put in place to evaluate its measures, so that you know that you are actually doing what you are hoping to achieve?

Nodwn hefyd fod Comisiynydd Plant Cymru wedi nodi yn ei hymateb y diffyg mecanweithiau gwerthuso sydd ar waith i asesu effaith mesurau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo CCUHP ac i werthuso'r holl fesurau, i blant yn ogystal ag i oedolion. O ystyried y pwysigrwydd hwnnw, pa fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i werthuso ei mesurau, fel eich bod yn gwybod eich bod yn cyflawni'r hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni mewn gwirionedd?

Finally, I did listen to your comments about the child's rights impact assessment. Now, again, the children's commissioner is very critical and says that you've been inconsistent in carrying out these assessments, and she calls for you to publish all of your child's rights impact assessments as a matter of course, and not when they're merely requested. I did take account of your very passionate defence of the Government's stance, and I understand that you believe that the Government do do CRIAs on all new legislation coming forward, but I wondered if you would comment further on this and say what other things the Welsh Government might be able to put into place that would help everybody to see what a transparent process this is. Thank you.

Yn olaf, gwrandewais ar eich sylwadau am yr asesiad o effaith ar hawliau'r plentyn. Yn awr, unwaith eto, mae'r comisiynydd plant yn feirniadol iawn ac yn dweud y buoch yn anghyson wrth gynnal yr asesiadau hyn, ac mae hi'n galw arnoch i gyhoeddi pob un o'ch asesiadau effaith ar hawliau plant fel mater o drefn, ac nid dim ond pan ofynnir amdanynt. Fe wnes i ystyried eich amddiffyniad angerddol iawn o safbwynt y Llywodraeth, ac rwy'n deall eich bod yn credu bod y Llywodraeth yn gwneud CRIA ar bob deddfwriaeth newydd, ond tybed a fyddech yn gwneud sylwadau pellach ar hyn ac yn dweud pa bethau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith a fyddai'n helpu pawb i weld pa mor dryloyw yw'r broses hon. Diolch yn fawr.

17:52

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 is one of the pieces of legislation I think that this Assembly should be most proud of. By incorporating the UN Convention on the Rights of the Child into Welsh domestic law, we sent a strong message about the prominence of children's rights, and we committed, of course, Welsh Ministers to centre children's right in all the work that they do.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yw un o'r darnau o ddeddfwriaeth yr wyf yn meddwl y dylai'r Cynulliad hwn fod fwyaf balch ohono. Trwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig yng Nghymru, rydym yn anfon neges gref am amlygrwydd hawliau plant, ac wrth gwrs rydym wedi ymrwymo bod Gweinidogion Cymru yn gwneud hawliau plant yn ganolog i'w holl waith.

The future of rights institutions and legislation in the UK currently is uncertain. The UK Government is threatening to repeal the Human Rights Act 1998 and has talked about withdrawing from the European Convention on Human Rights. Now, this cannot and will not affect the fundamental rights that we all hold as a result of our humanity, but it will shut down our opportunities to appeal when those rights are violated.

Mae dyfodol sefydliadau hawliau a deddfwriaeth yn y DU ar hyn o bryd yn ansicr. Mae Llywodraeth y DU yn bygwth diddymu Deddf Hawliau Dynol 1998, ac mae wedi siarad am dynnu'n ôl o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn awr, ni all ac ni fydd hyn yn effeithio ar yr hawliau sylfaenol sydd gennym ni i gyd yn rhinwedd ein dynoliaeth, ond bydd yn dileu ein cyfleoedd i apelio pan fydd yr hawliau hynny yn cael eu sathru.

In this climate, it's vital that Wales chooses to take the opposite path and to put a rights-based approach at the centre of our Government and our public services. I therefore welcome the Government's ongoing reporting on their compliance with the rights of children and young persons Measure. Regular reporting is vital for accountability. However, I do agree with Angela Burns and with the children's commissioner that seeing the child rights impact assessments published automatically rather than by request would boost transparency and encourage proper scrutiny of the Government's work. People accept decisions, even if they disagree with them, if they can see and understand how you arrived at them.

Yn yr hinsawdd hon, mae'n hanfodol bod Cymru yn dewis cymryd y llwybr arall, gan roi dull sy'n seiliedig ar hawliau wrth wraidd ein Llywodraeth a'n gwasanaethau cyhoeddus. Felly, rwy'n croesawu adroddiadau parhaus y Llywodraeth ar eu cydymffurfiaeth â'r Mesur hawliau plant a phobl Ifanc. Mae adroddiadau rheolaidd yn hanfodol ar gyfer atebolrwydd. Fodd bynnag, rwy'n cytuno ag Angela Burns a'r comisiynydd plant y byddai gweld yr asesiadau effaith ar hawliau plant yn cael eu cyhoeddi'n awtomatig yn hytrach nag ar gais yn hwb i dryloywder ac yn annog craffu priodol ar waith y Llywodraeth. Mae pobl yn derbyn penderfyniadau, hyd yn oed os ydynt yn anghytuno â hwy, os gallant weld a deall sut y cawsant eu gwneud.

Now, there's a notable omission, I think, from this report. The UN Committee on the Rights of the Child has said that countries must eliminate corporal punishment of children in order to be in compliance with international human rights standards. When the committee last reviewed children's rights in the UK in 2008, it welcomed the well-publicised commitment from the Welsh Government to remove the legal defence of reasonable punishment from parents and other carers who were charged with assaulting children.

Yn awr, mae rhywbeth nodedig wedi'i hepgor o'r adroddiad hwn rwy'n meddwl. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi dweud bod yn rhaid i wledydd gael gwared ar gosbi plant yn gorfforol er mwyn cydymffurfio â safonau hawliau dynol rhyngwladol. Pan wnaeth y pwyllgor adolygu hawliau plant ddiwethaf yn y DU yn 2008, croesawodd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru gafodd lawer o sylw i ddileu'r amddiffyniad cyfreithiol o gosb resymol gan rieni a gofalwyr eraill a gafodd eu cyhuddo o ymosod ar blant.

It also noted that, under the terms of devolution at that time, it was not possible for the Assembly to enact the necessary legislation. As the Government prepares for the publication of the committee's concluding observations on the UK children's rights record in 2016, it is imperative, I think, that the Welsh Government makes their current position on this issue clear, because advocating equal protection from assault while it is somebody else's responsibility is no longer a sustainable position. Now we have the powers, I want to know what work is being done by the Welsh Government to implement this modest but significant change to the law, which, I want to remind you, will affect very, very few people, and perhaps would affect nobody in Wales at all. Now, I'll be leaving next year, but I hope, before that—[Assembly Members: 'Oh.'] Some of you will be leaving as well, but you might not know it yet. [Laughter.] At least I know. But before I do, I hope that the Government makes some progress on this. The First Minister's already said that he and I are not a million miles apart on this issue, so it would be good to see whether the Government has undertaken any work on this in recent months.

Nododd hefyd, o dan delerau datganoli ar y pryd, nad oedd yn bosibl i'r Cynulliad ddeddfu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol. Wrth i'r Llywodraeth baratoi i gyhoeddi arsylwadau casgliadol y pwyllgor ar gofnod hawliau plant y DU yn 2016, mae'n hanfodol, rwy'n credu, bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei sefyllfa bresennol ar y mater hwn yn glir, gan nad yw hyrwyddo amddiffyniad cyfartal rhag ymosodiad pan fod hynny'n gyfrifoldeb i rywun arall bellach yn sefyllfa gynaliadwy. Nawr bod gennym y pwerau, rwyf am wybod pa waith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r newid cymedrol ond arwyddocaol i'r gyfraith, a fydd, yr wyf am eich atgoffa, yn effeithio ar ychydig iawn, iawn o bobl, ac efallai na fyddai'n effeithio ar neb yng Nghymru. Yn awr, byddaf yn gadael y flwyddyn nesaf, ond rwy'n gobeithio, cyn hynny— [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Bydd rhai ohonoch chi yn gadael hefyd, ond efallai nad ydych yn gwybod hynny eto. [Chwerthin.] O leiaf yr wyf i'n gwybod. Ond cyn i mi wneud, rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gwneud rhywfaint o gynnydd ar hyn. Dywedodd y Prif Weinidog eisoes nad yw ef a minnau filiwn o filltiroedd ar wahân ar y mater hwn, felly byddai'n dda gweld a yw'r Llywodraeth wedi ymgymryd ag unrhyw waith ar hyn yn ystod y misoedd diwethaf.

With that equal protection for children in mind, I'm delighted to support the Tory amendment about promoting children's rights awareness, because outlawing the assault of children is fundamental, I think, to that.

Gyda'r amddiffyniad cyfartal hwnnw i blant mewn golwg, rwyf wrth fy modd i gefnogi gwelliant y Torïaid ynglŷn â hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau plant, gan fod gwahardd ymosod ar blant yn sylfaenol, rwy'n credu, i hynny.

Now, the children and young persons rights Measure is evidence that Wales has been at the forefront of promoting and protecting children's rights in the past, and we must be willing to continue to take a bold stand. We must reclaim our radical edge before it's lost forever. Under the scheme, Welsh Government is required to consider negative impacts on children and young people, and either avoid or minimise those. I've heard the good things that the Minister's outlined for us this afternoon. In this regard, I'm raising the issue of extending the human papilloma virus vaccine to boys and young men. Now, you'll know it is currently available to all girls and protects them from this potentially deadly virus. However, boys have to pay for the vaccine privately, at the cost of over £100. Young men can get this vaccine if they request it, but they have to attend a specialist clinic and fall into the category of high risk.

Yn awr, mae'r Mesur hawliau plant a phobl ifanc yn dystiolaeth bod Cymru wedi bod ar flaen y gad wrth hyrwyddo a diogelu hawliau plant yn y gorffennol, a rhaid inni fod yn barod i barhau i wneud safiad dewr. Mae'n rhaid i ni adennill ein hawch radical cyn iddo gael ei golli am byth. O dan y cynllun, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc, a naill ai eu hosgoi neu eu lleihau. Rwyf wedi clywed y pethau da y mae'r Gweinidog wedi'u hamlinellu inni'r prynhawn yma. Yn hyn o beth, rwy'n codi'r mater o ymestyn y brechlyn firws papiloma dynol i fechgyn a dynion ifanc. Nawr, byddwch yn gwybod ei fod ar gael ar hyn o bryd i bob merch ac mae'n eu hamddiffyn rhag y firws a allai fod yn angheuol. Fodd bynnag, rhaid i fechgyn dalu am y brechlyn yn breifat, ar gost o dros £100. Gall dynion ifanc gael y brechlyn hwn os byddant yn gofyn amdano, ond mae'n rhaid iddynt fynd i glinig arbenigol a disgyn i'r categori risg uchel.

Now, there is a real inequality here, and we should be protecting boys and young men to the same extent as girls and young women, as the virus, I can assure you, does not discriminate between male and female. So, perhaps the Minister would tell us whether the Welsh Government has considered its duty under the Measure to boys when reviewing this policy, because we have the opportunity here to do the right thing by boys and young men and halt the rise in head and neck cancers and those very intimate cancers that the virus can lead to. Perhaps the Minister would explain how the Welsh Government meets its equality duty and its children's rights duty at the same time as only protecting one half of the population from a virus that affects the whole cohort. Has the right to the best healthcare possible for all children and young persons been considered in the context of this vaccine?

Yn awr, mae anghydraddoldeb go iawn yma, a dylem fod yn amddiffyn bechgyn a dynion ifanc i'r un graddau â merched a menywod ifanc, gan nad yw'r firws, gallaf eich sicrhau, yn gwahaniaethu rhwng gwryw a benyw. Felly, efallai y byddai'r Gweinidog yn dweud wrthym a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried ei dyletswydd i fechgyn dan y Mesur wrth adolygu'r polisi hwn, gan fod cyfle yma i wneud y peth iawn dros fechgyn a dynion ifanc ac atal y cynnydd mewn canserau'r pen a'r gwddf a'r canserau personol iawn hynny y gall y firws arwain atynt. Efallai y byddai'r Gweinidog yn esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswydd cydraddoldeb a'i dyletswydd hawliau plant ar yr un pryd â dim ond diogelu un hanner y boblogaeth rhag firws sy'n effeithio ar y garfan gyfan. A yw'r hawl i'r gofal iechyd gorau posibl i bob plentyn a pherson ifanc wedi cael ei ystyried yng nghyd-destun y brechlyn hwn?

17:57

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm delighted to speak on the rights of children and young persons Measure, which sets out our ambition for every child and young person in Wales to realise their rights as set out in the United Nations Convention on the Rights of the Child. The Measure places a duty on Welsh Ministers and officials to place children at the heart of their policy making, and also at the heart of their thinking, and I think that is very important: that it is a way of thinking and acting that is as important as ensuring the legislation has got children at its heart.

Mae'n bleser gennyf siarad am y Mesur hawliau plant a phobl ifanc, sy'n nodi ein huchelgais ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i wireddu eu hawliau fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion a swyddogion Cymru i roi plant wrth wraidd y gwaith o lunio polisi, a hefyd wrth wraidd eu meddwl, a chredaf fod hynny'n bwysig iawn: ei bod yn ffordd o feddwl a gweithredu sydd mor bwysig â sicrhau bod plant yn ganolog i'r ddeddfwriaeth.

I think that there's no doubt that the building blocks are in place to make Wales a child-friendly country where every child has its rights, and its rights are respected. What, actually, is a child-friendly country? I believe that a child-friendly country is a place where children and young people are welcomed, encouraged and celebrated. I think we want to feel, when children come to visit, when children take part in things, that everybody, all the country, celebrates what they are achieving. I believe that they should be equal citizens, based on the United Nations Convention on the Rights of the Child. They need the same protection as adults, as Jocelyn Davies has referred to. Their views should be equally respected, and they should have equal opportunities to achieve their potential.

Credaf nad oes dim amheuaeth bod y blociau adeiladu yn eu lle i wneud Cymru yn wlad sy'n addas i blant lle mae gan bob plentyn ei hawliau, ac mae ei hawliau yn cael eu parchu. Beth, mewn gwirionedd, yw gwlad sy'n gyfeillgar i blant? Credaf fod gwlad sy'n gyfeillgar i blant yn wlad lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu croesawu, eu hannog a'u dathlu. Rwy'n credu ein bod eisiau teimlo, pan ddaw plant i ymweld, pan fydd plant yn cymryd rhan mewn pethau, bod pawb, y wlad gyfan, yn dathlu'r hyn y maent yn ei gyflawni. Rwy'n credu y dylent fod yn ddinasyddion cyfartal, yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae arnynt angen yr un amddiffyniad ag oedolion, fel y mae Jocelyn Davies wedi sôn. Dylai eu barn fod yr un mor uchel ei pharch, a dylent gael cyfleoedd cyfartal i wireddu eu potensial.

I think there is a great challenge to the Government, now that the framework is there, to ensure that we can put a new impetus into the rights of children, to take this forward and to make the public aware, to make children aware, and to make everyone aware that this is a fundamental part of Welsh Government policy—that children are at the heart of our policy. I think that is a step we are in the process of taking, and we have made great achievements, but we need a great impetus to make sure everybody knows all about it. I am glad that the Conservatives have put forward this amendment and that the Government is supporting it, because I think it is important that we try to make the UNCRC available to everybody—that everybody knows about it—because I think probably that's not the case at the moment.

Rwy'n credu bod her fawr i'r Llywodraeth, yn awr bod y fframwaith yno, i sicrhau ein bod yn rhoi hwb newydd i hawliau plant, i fynd â hyn ymlaen a gwneud y cyhoedd yn ymwybodol, i wneud plant yn ymwybodol, ac i wneud pawb yn ymwybodol bod hyn yn rhan sylfaenol o bolisi Llywodraeth Cymru—bod plant wrth wraidd ein polisi. Credaf fod hon yn gam yr ydym yn y broses o'i chymryd, ac rydym wedi gwneud llwyddiannau mawr, ond mae angen hwb mawr i sicrhau bod pawb yn gwybod amdano. Rwy'n falch fod y Ceidwadwyr wedi cyflwyno'r gwelliant hwn a bod y Llywodraeth yn cefnogi hynny, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn ceisio sicrhau bod y CCUHP ar gael i bawb—bod pawb yn gwybod am y peth—oherwydd credaf yn ôl pob tebyg nad yw hynny'n wir ar hyn o bryd.

I was just thinking about how we could move forward to make children's rights and what we're trying to do in Government more known to everybody in Wales. I wondered if—I don't know whether there is one—we could adopt a logo for child-friendly Wales that said 'child-friendly Wales' and that we could try to use this in our documents and other bodies could use it—a sort of sign that said 'This is what we're doing, we're acknowledging that children are at the heart of our policy making'. I know this is the sort of thing that some cities have done. They've used logos to promote their policies—policies on breastfeeding, I think, and people often have policies showing that disabled people are welcome, but I wondered if we could have a universal logo that could cover children in all parts of Wales.

Roeddwn i'n meddwl am sut y gallem symud ymlaen i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn ymwybodol o hawliau plant a'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yn y Llywodraeth. Rwy'n meddwl tybed—dwi ddim yn gwybod a oes un—a allem ni fabwysiadu logo ar gyfer Cymru gyfeillgar i blant sy'n dweud 'Cymru gyfeillgar i blant' ac y gallem geisio defnyddio hyn yn ein dogfennau a gallai cyrff eraill ei ddefnyddio—rhyw fath o arwydd yn dweud 'Dyma'r hyn yr ydym yn ei wneud, rydym yn cydnabod bod plant wrth wraidd ein polisi'. Rwy'n gwybod bod rhai dinasoedd wedi gwneud rhywbeth tebyg. Maen nhw wedi defnyddio logos i hyrwyddo eu polisïau—polisïau ar fwydo ar y fron, rwy'n meddwl, ac mae pobl yn aml â pholisïau sy'n dangos bod pobl anabl yn cael eu croesawu, ond rwy'n meddwl tybed a allem gael logo cyffredinol a allai gwmpasu plant ym mhob rhan o Gymru.

I also think it's important that children are at the core of all decision making. Looking at the Measure and looking at the children's rights impact assessments that we've discussed here today, it's inevitable, I suppose, that the biggest number and the biggest rise have been in education and social services and the smallest numbers in economic development, business development and finance. I expect that is partly reflected because there's less legislation in those subjects, but I also think that it's absolutely vital to have children's voices very strong in those areas. So, for example, we've had today, in one of the previous debates, a discussion on the metro system, and I brought up Cardiff bus station. I want to find out, really, how much children had been consulted in terms of the metro, for example, because that will obviously have a huge impact on children's lives because of the amount of travelling that young people and children do to go back and forth to school, out to leisure facilities, first jobs and all this sort of thing. It's absolutely vitally important. So, I think we've got to be sure that we do involve children in that process. And, of course, in terms of the new bus station in Cardiff, that, again, is going to be a very important place for children as a transport hub for children and young people. So, I think we've got to make sure that they're involved in these sorts of projects as well as the ones we more traditionally think of children and young people being involved in, that is education and social services.

Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig bod y plant wrth galon pob penderfyniad. O edrych ar y Mesur ac edrych ar asesiadau o effaith ar hawliau plant yr ydym wedi eu trafod yma heddiw, mae'n anochel, am wn i, bod y nifer mwyaf a'r cynnydd mwyaf wedi bod ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol a'r niferoedd lleiaf o ran datblygu economaidd, datblygu busnes a chyllid. Mae'n siŵr gen i bod hynny'n adlewyrchu yn rhannol y ffaith bod llai o ddeddfwriaeth yn y meysydd hynny, ond rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn hollol hanfodol sicrhau bod lleisiau plant i'w clywed yn gryf iawn yn y meysydd hynny. Felly, er enghraifft, rydym wedi cael heddiw, yn un o'r dadleuon blaenorol, drafodaeth ar y system fetro, ac fe soniais i am orsaf fysiau Caerdydd. Rwyf am gael gwybod, mewn gwirionedd, faint o blant yr ymgynghorwyd â nhw o ran y metro, er enghraifft, oherwydd bydd yn amlwg yn cael effaith enfawr ar fywydau plant oherwydd faint o deithio y mae pobl ifanc a phlant yn ei wneud i fynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, allan i gyfleusterau hamdden, swyddi cyntaf a'r math yma o bethau. Mae'n gwbl hanfodol. Felly, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn sicr ein bod yn cynnwys plant yn y broses honno. Ac, wrth gwrs, o ran yr orsaf fysiau newydd yng Nghaerdydd, mae'r fan honno, unwaith eto, yn mynd i fod yn lle pwysig iawn i blant fel canolfan cludiant ar gyfer plant a phobl ifanc. Felly, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni wneud yn siŵr eu bod yn cymryd rhan yn y mathau hyn o brosiectau, yn ogystal â'r rhai yr ydym yn eu cysylltu'n fwy traddodiadol â phlant a phobl ifanc, hynny yw addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

18:03 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to say as well that I welcome the fact that we are here today discussing a compliance report and that we should all be very proud that Wales is one of the first countries to actually incorporate these rights within its legislation. But I think a compliance report as well needs to actually be quite truthful and honest with regard to the position, and whilst I accept what the Minister says with regard to progress, it was the case, of course, that the 2011 compliance report outlined the obligations under article 12 of the convention with regard to the participation of children and young people. Although I accept what you say regarding the steps that you're now taking, we did, of course, have a situation during the course of this Assembly whereby the Parliament or the representative body that was set up for us to consult with children and young people was done away with. Time will tell whether or not the processes that are now being put in place will actually replicate that representation.

Hoffwn i ddweud hefyd fy mod yn croesawu'r ffaith ein bod ni yma heddiw yn trafod adroddiad cydymffurfiaeth ac y dylem i gyd fod yn falch iawn bod Cymru'n un o'r gwledydd cyntaf mewn gwirionedd i ymgorffori'r hawliau hyn o fewn ei deddfwriaeth. Ond rwy'n credu bod angen i adroddiad cydymffurfio hefyd fod yn eithaf gonest mewn gwirionedd o ran y sefyllfa, a thra fy mod yn derbyn yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud o ran symud ymlaen, yr oedd yn wir, wrth gwrs, fod adroddiad cydymffurfio 2011 yn amlinellu'r rhwymedigaethau o dan erthygl 12 o'r confensiwn o safbwynt cyfranogiad plant a phobl ifanc. Er fy mod yn derbyn yr hyn a ddywedwch am y camau yr ydych yn eu cymryd yn awr, fe gawsom, wrth gwrs, sefyllfa yn ystod y Cynulliad hwn lle cafwyd gwared ar y Senedd neu'r corff cynrychiadol a sefydlwyd er mwyn i ni gael ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Amser a ddengys a fydd y prosesau sydd bellach yn cael eu rhoi ar waith mewn gwirionedd yn ailgreu'r gynrychiolaeth honno.

I think as well that the CRIAs—there has been criticism previously of the amount of training that was given to Government staff and to Government Ministers in the past. So, if we're being told that attention is now being given to making good that deficiency, then, of course, I welcome that as well. But there is a danger that we become process-driven. I remember my days in local authorities. Although the Minister says that you can go through a process and it won't always come out with the result that you might have hoped for, if you're the person being consulted, the thing can become process-driven—that you go through a tick-box exercise. I remember that from my days where one of the decision logs, as far as local authorities were concerned, was that you'd gone through an equalities impact assessment. Some of those were better than others. I think, on that basis, it would be quite brave of the Government to actually undertake to publish these assessments so that the strengths and weaknesses of those assessments, in particular, can be actually addressed. But I think what we would really want to reach is a situation where the outcomes for children and young people are actually addressed through the rights that we've given them as individuals. I have to say, given that earlier on this afternoon we were discussing a situation where there's been a 472 per cent increase in the number of children and young people waiting for referral through the CAMHS system, we have to be brave enough in these compliance reports to actually identify those areas where we're not doing as well, as a Government, as we would have hoped to have done. Even though perhaps in instances that might be by way of explaining why that situation has arisen in CAMHS, for example where we've been discussing the numbers of referrals et cetera, we should actually be identifying in these reports areas that we feel we should be doing more in. I think that that's particularly with regard to child poverty. So, whilst we can commend the Government on the extension of the Flying Start programme, for example, it still has to be a worry that 15 per cent of our children and young people are being brought up in households that are in severe poverty, and 31 per cent of our children and young people are actually being brought up in households where they are being brought up in poverty.

Rwy'n meddwl yn ogystal bod y CRIA—cafwyd beirniadaeth o'r blaen o faint o hyfforddiant a roddwyd i staff Llywodraeth a Gweinidogion y Llywodraeth yn y gorffennol. Felly, os ydym yn cael gwybod bod sylw yn cael ei roi i wneud iawn am y diffyg hwnnw, yna, wrth gwrs, rwy'n croesawu hynny hefyd. Ond mae perygl y byddwn yn dod i gael ein gyrru gan broses. Rwy'n cofio fy nyddiau mewn awdurdodau lleol. Er bod y Gweinidog yn dweud y gallwch chi fynd drwy broses ac ni fydd bob amser yn rhoi'r canlyniad yr ydych wedi gobeithio amdano, os mai chi yw'r sawl yr ymgynghorir ag ef, gall y peth ddod i gael ei yrru gan broses—byddwch yn cymryd rhan mewn ymarferiad ticio'r blychau. Rwy'n cofio mai un o'r logiau penderfyniad, cyn belled ag yr oedd awdurdodau lleol yn y cwestiwn, oedd y byddech yn mynd drwy asesiad effaith cydraddoldeb. Roedd rhai o'r rheiny yn well nag eraill. Rwy'n meddwl, ar y sail honno, y byddai'n eithaf dewr i'r Llywodraeth ymgymryd â chyhoeddi'r asesiadau hyn fel y gellir mynd i'r afael â chryfderau a gwendidau'r asesiadau hynny, yn arbennig. Ond rwy'n credu mai'r hyn y byddem yn wir am ei gyrraedd yw sefyllfa lle'r eir i'r afael â chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc trwy'r hawliau yr ydym wedi'u rhoi iddynt fel unigolion. Mae'n rhaid i mi ddweud, o ystyried ein bod yn gynharach y prynhawn yma yn trafod sefyllfa lle bu 472 y cant o gynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n aros am atgyfeiriad drwy'r system CAMHS, mae'n rhaid i ni fod yn ddigon dewr yn yr adroddiadau cydymffurfio hyn i nodi'r meysydd hynny lle nad ydym ni fel Llywodraeth yn gwneud cystal ag y byddem wedi gobeithio ei wneud. Hyd yn oed efallai mewn achosion pan fo modd esbonio pam bod sefyllfa wedi codi yn CAMHS, er enghraifft lle rydym wedi bod yn trafod nifer yr atgyfeiriadau et cetera, dylem mewn gwirionedd fod yn nodi yn yr adroddiadau hyn y meysydd y teimlwn y dylem fod yn gwneud mwy ynddynt. Credaf fod hynny'n benodol o berthnasol mewn cysylltiad â thlodi plant. Felly, er ein bod yn gallu canmol y Llywodraeth am ymestyn y rhaglen Dechrau'n Deg, er enghraifft, mae'n dal i fod yn bryder bod 15 y cant o'n plant a phobl ifanc yn cael eu magu mewn cartrefi sydd mewn tlodi difrifol, a 31 y cant o'n plant a phobl ifanc mewn gwirionedd yn cael eu magu mewn cartrefi sydd mewn tlodi.

We really need to understand how we can actually effect improvements in that area. I have to say that many of us are worried with regard to the budget, which will be coming through next week, because if some of the rumours that we hear with regard to the further reforms in welfare, and particularly with regard to tax credits, we're going to have even more of a job, as a Government here in Wales, to actually address some of these poverty issues. Whilst I welcome the position that the Conservatives have taken with regard to the rights of the child, I would echo what Jocelyn Davies has said: it's all very well to recognise the rights of the child whilst you actually campaign for the rights of all human beings perhaps not to be given the recognition that they're currently given.

Mae gwir angen i ni ddeall sut y gallwn sicrhau gwelliannau yn y maes hwnnw. Mae'n rhaid i mi ddweud bod llawer ohonom yn poeni am y gyllideb, a fydd i'w gweld yr wythnos nesaf, oherwydd os yw rhai o'r sibrydion a glywn o ran y diwygiadau pellach mewn lles, ac yn enwedig o ran credydau treth yn wir, bydd gennym hyd yn oed mwy o waith, fel Llywodraeth yma yng Nghymru, i fynd i'r afael â rhai o'r materion tlodi hyn. Er fy mod yn croesawu'r safbwynt y mae'r Ceidwadwyr wedi'i gymryd mewn perthynas â hawliau'r plentyn, byddwn yn adleisio'r hyn a ddywedodd Jocelyn Davies: digon hawdd yw cydnabod hawliau'r plentyn wrth i chi ymgyrchu dros hawliau pob bod dynol efallai i beidio â chael y gydnabyddiaeth y maent yn ei chael ar hyn o bryd.

18:08

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

So, we will be supporting the amendment, but I do think that we need to actually be truthful in where we're at, going forward, because otherwise there is a danger that we actually subscribe to the strategies and the documents rather than the outcomes that we deliver for our children and young people.

Felly, byddwn yn cefnogi'r gwelliant, ond rwy'n meddwl bod angen i ni fod yn onest o ran lle yr ydym, wrth symud ymlaen, oherwydd fel arall mae perygl ein bod yn tanysgrifio i'r strategaethau a'r dogfennau yn hytrach na'r canlyniadau yr ydym yn eu cyflawni ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

In supporting the Welsh Conservative amendment I'd just like to take a look at that part of the report that deals, in actually just very few words, with how the due regard principle is considered at local level.

Wrth gefnogi gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig hoffwn i edrych ar y rhan o'r adroddiad sy'n ymdrin, mewn dim ond ychydig iawn o eiriau mewn gwirionedd, gyda'r modd y mae'r egwyddor o sylw dyledus yn cael ei hystyried ar lefel leol.

The public services Minister may recall that I asked him a question about this some months ago. While all our functions in this Assembly are informed by the requirement to give due regard to children's rights, as set out in the convention, much of the delivery of policy is carried out by local authorities, health boards and so on, which are not necessarily subject to that obligation. There's a risk that the Government's objectives, or even the Assembly's objectives, may not be achieved because our public sector may be subject to other pressures, particularly financial ones, which means that children's rights may slip down the list of priorities. The public services Minister was generous enough to say that he recognised that challenge and that he would consider it further, but I was—I have to say—a little disappointed to hear Jane Hutt, the former children and equalities Minister, in the business statement earlier today feel that, in response to Andrew R.T. Davies' question —. Well, she was unable to say that children's rights should trump financial pressures. I think that would have been an opportunity for her to do that.

Efallai y bydd y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus yn cofio imi ofyn cwestiwn iddo am hyn rai misoedd yn ôl. Er bod ein holl swyddogaethau yn y Cynulliad hwn yn cael eu llywio gan y gofyniad i roi sylw dyledus i hawliau plant, fel y nodir yn y confensiwn, mae llawer o'r polisi yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac yn y blaen, nad ydynt o reidrwydd yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth honno. Mae perygl na fydd amcanion y Llywodraeth, neu amcanion y Cynulliad hyd yn oed, yn cael eu cyflawni oherwydd y gall ein sector cyhoeddus fod yn agored i bwysau eraill, yn enwedig pwysau ariannol, sy'n golygu y gall hawliau plant lithro i lawr y rhestr o flaenoriaethau. Roedd y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus yn ddigon hael i ddweud ei fod yn cydnabod yr her honno ac y byddai'n ei hystyried ymhellach, ond yr oeddwn—mae'n rhaid i mi ddweud—braidd yn siomedig o glywed Jane Hutt, y cyn-Weinidog plant a chydraddoldeb, yn y datganiad busnes yn gynharach heddiw yn teimlo, mewn ymateb i gwestiwn Andrew R. T. Davies—. Wel, nid oedd yn gallu dweud y dylai hawliau plant drechu pwysau ariannol. Rwy'n credu y byddai hynny wedi bod yn gyfle iddi wneud hynny.

The Minister for transport may remember the case of Tomos James, a schoolboy in my region, who was denied free transport to school by Swansea council because it had identified a walking route for him, which was less than three miles from school but which was, to the lay observer, completely unsuitable for an 11-year-old boy to walk on his own. The guidance followed by councils at that time, developed in England and using old case law, did not reflect the convention, but Swansea council was not prepared to improve on that and to look at Tomos's case from the perspective of children's rights. I thank the transport Minister for taking the arguments that I raised in my short debate at that time and for introducing, in June last year, new guidance, which did reflect children's rights.

Efallai y bydd y Gweinidog trafnidiaeth yn cofio achos Tomos James, bachgen ysgol yn fy rhanbarth i, y gwadwyd cludiant am ddim i'r ysgol iddo gan gyngor Abertawe am ei fod wedi nodi llwybr cerdded iddo, a oedd yn llai na thair milltir o'r ysgol, ond a oedd, i'r arsylwr lleyg, yn gwbl anaddas i fachgen 11 mlwydd oed ei gerdded ar ei ben ei hun. Nid oedd yr arweiniad a ddilynwyd gan gynghorau ar y pryd, a ddatblygwyd yn Lloegr yn defnyddio hen gyfraith achosion, yn gydnaws â'r confensiwn, ond nid oedd cyngor Abertawe yn barod i wella ar hynny ac i edrych ar achos Tomos o safbwynt hawliau plant. Rwy'n diolch i'r Gweinidog trafnidiaeth am gymryd y dadleuon a godais yn fy nadl fer ar y pryd ac am gyflwyno, ym mis Mehefin y llynedd, canllawiau newydd, a oedd yn adlewyrchu hawliau plant.

However, it took until this week for the Swansea council, with its own, much-vaunted children's rights scheme, to concede that Tomos had a right to a free bus to school—a whole year later. This is the same council that has just lost a judicial review for the withdrawal of free school transport to faith schools, this time on very interesting grounds of indirect racial discrimination. Children's rights, once again, were not observed. And this is a local authority that has signed up to due regard for the UNCRC.

Fodd bynnag, cymerodd tan yr wythnos hon i gyngor Abertawe, gyda'i gynllun hawliau plant clodfawr ei hun, gyfaddef bod gan Tomos hawl i fws am ddim i'r ysgol—blwyddyn gyfan yn ddiweddarach. Dyma'r un cyngor sydd newydd golli adolygiad barnwrol am ddiddymu cludiant ysgol am ddim i ysgolion ffydd, y tro hwn ar sail ddiddorol iawn o wahaniaethu hiliol anuniongyrchol. Nid oedd hawliau plant, unwaith eto, yn cael eu parchu. Ac mae hwn yn awdurdod lleol sydd wedi cytuno i roi sylw dyledus i'r CCUHP.

So, while the Government's compliance report states that

Felly, tra bod adroddiad cydymffurfiaeth y Llywodraeth yn datgan

'it appears the Welsh Government's duty is permeating to a local level with organisations identifying ways to replicate the commitment to children's rights',

'ymddengys bod dyletswydd Llywodraeth Cymru yn treiddio i lefel leol wrth i sefydliadau a mudiadau adnabod ffyrdd o efelychu'r ymrwymiad i hawliau plant',

citing Swansea and the health board in my region, I urge the Minister not to be complacent on this. When I asked the transport Minister recently whether she'd been in touch with the local authorities to ask whether they had reassessed their available walk routes to school in light of the new guidance, she explained that she had indeed written to them. What remains unclear is what local authorities have done. How many twenty-first century school applications have gone in? How many school mergers are planned on the basis of school routes assessed under the old rules?

gan nodi Abertawe a'r bwrdd iechyd yn fy rhanbarth i, rwy'n annog y Gweinidog i beidio â bod yn hunanfodlon ar hyn. Pan ofynnais i'r Gweinidog trafnidiaeth yn ddiweddar a yw hi wedi bod mewn cysylltiad â'r awdurdodau lleol i ofyn a oeddent wedi ailasesu'r llwybrau cerdded i'r ysgol yn sgil y canllawiau newydd, eglurodd yn wir ei bod wedi ysgrifennu atynt. Beth sy'n parhau'n aneglur yw'r hyn y mae awdurdodau lleol wedi'i wneud. Faint o geisiadau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain sydd wedi dod i law? Faint o gynlluniau i uno ysgolion sydd wedi'u cynllunio ar sail llwybrau ysgolion a aseswyd o dan yr hen reolau?

Neath Port Talbot County Borough Council made a virtue of getting in under the wire on this when it determined to close Cwrt Sart Community Comprehensive School and to start shuffling both primary and secondary pupils around the borough, knowing that new rules, reflecting children's rights, were coming down the line. We also see questions about children's rights, particularly the article 12 rights, which Aled Roberts referred to earlier, arise more frequently in challenges to various public consultation processes.

Aeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ati i benderfynu cau Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart a dechrau symud disgyblion cynradd ac uwchradd o amgylch y fwrdeistref, gan wybod bod y rheolau newydd, yn adlewyrchu hawliau plant, ar y gorwel. Rydym hefyd yn gweld cwestiynau am hawliau plant, yn enwedig hawliau erthygl 12, y cyfeiriodd Aled Roberts atynt yn gynharach, yn codi yn amlach mewn heriau i brosesau ymgynghori cyhoeddus amrywiol.

I'm sure that the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 will help concentrate the mind. This Assembly has legislated for public bodies to observe the rights of children and older people—thanks to Darren Millar's amendment, it's not just young people—when they carry out their own functions under the Act. We think it's time to consider extending that statutory duty to all functions of public sector bodies, answerable to this Government and to this Assembly, and not just to those captured by the social services Act. I think that you can expect to see our response to these concerns reflected in the Welsh Conservative manifesto in due course, as well as in our amendment today, and I urge all parties represented here to consider this. I therefore look forward to the Minister's views on how she thinks our duty to promote children's rights can be secured by ensuring better observance by our public sector.

Rwy'n siŵr y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn helpu i ganolbwyntio'r meddwl. Mae'r Cynulliad hwn wedi deddfu i gyrff cyhoeddus barchu hawliau plant a phobl hŷn—diolch i welliant Darren Millar, nid pobl ifanc yn unig—pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Rydym yn credu ei bod yn amser i ystyried ymestyn y ddyletswydd statudol i holl swyddogaethau cyrff y sector cyhoeddus, sy'n atebol i'r Llywodraeth hon ac i'r Cynulliad hwn, ac nid dim ond y rhai sy'n cael eu dal gan y Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol. Rwy'n meddwl y gallwch ddisgwyl gweld ein hymateb i'r pryderon hyn yn cael eu hadlewyrchu ym maniffesto'r Ceidwadwyr Cymreig maes o law, yn ogystal ag yn ein gwelliant heddiw, ac rwy'n annog pob plaid a gynrychiolir yma i ystyried hyn. Felly, rwy'n edrych ymlaen at glywed barn y Gweinidog ar sut y mae'n credu y gellir sicrhau ein dyletswydd i hyrwyddo hawliau plant trwy sicrhau gwell arferion gan ein sector cyhoeddus.

18:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply to the debate.

A'r Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

18:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank Members for their contributions to this debate. As I set out in my opening remarks, the arrangements put in place by the scheme are about having due regard for children's rights, when we, as Ministers, make our decisions. This is about the positive impact on children and young people's lives, which we all want to see.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl hon. Fel y nodais yn fy sylwadau agoriadol, mae'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y cynllun yn ymwneud â rhoi sylw dyledus i hawliau plant, pan fyddwn ni, fel Gweinidogion, yn gwneud ein penderfyniadau. Mae hyn yn ymwneud ag effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc, sy'n rhywbeth yr ydym ni i gyd am ei weld.

I'd just like to respond to some of the issues raised and to say, with regard to amendment 1, which was tabled by the Welsh Conservatives, as the report shows, much has already been done to promote public awareness of children's rights under the UNCRC. However, there's always more that we can do and, of course, we accept that. So, we're very happy, therefore, to support the amendment.

Hoffwn ymateb i rai o'r materion a godwyd a dweud, o ran gwelliant 1, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig, fel y dengys yr adroddiad, mae llawer wedi ei wneud eisoes i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o hawliau plant o dan y CCUHP. Fodd bynnag, gallwn wneud mwy bob amser ac, wrth gwrs, rydym yn derbyn hynny. Felly, rydym yn hapus iawn, gan hynny, i gefnogi'r gwelliant.

Several Members mentioned—Angela Burns, certainly, and Julie Morgan—that there is a great deal of work being done. I've been in schools where the UNCRC has been discussed. And, as Angela mentioned, here in the Senedd, we've had events. But, I think you are right: we do have a duty to raise awareness of the UNCRC. I'm working with the children's commissioner, with children's organisations and with local services to see how we can maximise our efforts and resources to best effect. We're also revising our raising awareness strategy, which focuses on developing and investing in resources, materials, training and awareness to make sure that we do have meaningful participation of children and young people. I think that's really important—that that consultation is meaningful. We're looking at that within the workings of national and local government. Suzy Davies was talking about local government, and I'll come to that a bit later on also around the decisions that affect children and young people.

Crybwyllodd nifer o Aelodau—Angela Burns, yn sicr, a Julie Morgan—bod llawer iawn o waith ar y gweill. Rwyf wedi bod mewn ysgolion sydd wedi trafod y CCUHP. Ac, fel y crybwyllodd Angela, yma yn y Senedd, rydym wedi cynnal digwyddiadau. Ond, rwy'n meddwl eich bod yn iawn: mae dyletswydd arnom i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP. Rwy'n gweithio gyda'r comisiynydd plant, gyda sefydliadau plant a gwasanaethau lleol i weld sut y gallwn wneud y defnydd mwyaf o'n hymdrechion a'n hadnoddau yn y ffordd orau. Rydym hefyd yn adolygu ein strategaeth codi ymwybyddiaeth, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu a buddsoddi mewn adnoddau, deunyddiau, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyfranogi mewn ffordd ystyrlon. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig—bod yr ymgynghoriad hwnnw yn ystyrlon. Rydym yn edrych ar hynny o fewn gwaith llywodraeth genedlaethol a lleol. Roedd Suzy Davies yn siarad am lywodraeth leol, a byddaf yn dod at hynny ychydig yn nes ymlaen hefyd o ran y penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

I also mentioned that I've commissioned an independent evaluation of the children's rights impact assessment process. That's currently being undertaken by the Wales Observatory on Human Rights of Children and Young People, reporting in September. I think that really will make a valuable contribution to the way forward.

Soniais hefyd fy mod wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r broses asesu effaith ar hawliau plant. Dyna sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a fydd yn adrodd ym mis Medi. Credaf y bydd yn gwneud cyfraniad gwirioneddol werthfawr at y ffordd ymlaen.

Several Members again mentioned the publication of CRIAs. In May 2014, all Ministers agreed to make CRIAs publicly available. So, CRIA documents relating to legislation are published on the Welsh Government website, and this is also the case for subordinate legislation, which includes, for example, regulations that are made under primary legislation. For non-legislative decisions, all completed CRIAs are listed in a newsletter that is issued on a quarterly basis, and that provides links to all published CRIAs in that quarter and lists the title of those that are available on request. CRIAs have been published at various stages, also, of different pieces of work. So, for example, consultation stage in legislation, at explanatory memorandum stage, or alongside the final published delivery and action plans, and I really do think that the scheme promotes transparency and accountability.

Unwaith eto, soniodd sawl Aelod am gyhoeddi CRIA. Ym mis Mai 2014, cytunodd yr holl Weinidogion i sicrhau bod CRIA ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae dogfennau CRIA yn ymwneud â deddfwriaeth yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ac mae hyn hefyd yn wir am is-ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys, er enghraifft, rheoliadau a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol. Ar gyfer penderfyniadau anneddfwriaethol, mae pob CRIA a gwblhawyd yn cael eu rhestru mewn cylchlythyr sy'n cael ei gyhoeddi bob chwarter, ac sy'n darparu dolenni i bob CRIA a gyhoeddwyd yn y chwarter hwnnw ac yn rhestru teitlau'r rhai sydd ar gael ar gais. Mae CRIA wedi cael eu cyhoeddi ar wahanol gyfnodau, hefyd, o wahanol ddarnau o waith. Felly, er enghraifft, yn ystod cam ymgynghori mewn deddfwriaeth, yn ystod cyfnod memorandwm esboniadol, neu ochr yn ochr â'r cynlluniau cyflenwi a gweithredu cyhoeddedig terfynol, ac rwyf wir yn meddwl bod y cynllun yn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd.

I think the report has enabled us to further reflect on our activities, and it clearly sets out the steps we are taking to continue to increase levels of awareness across Wales. I think it's really important our approach is co-ordinated, it's strategic, and we will then get the maximum value from activities. And I do hope that reassures Members of my commitment to yet further improvements in what really is a very significant year for children's rights, with the pending UN Committee on the Rights of the Child examination of the UK's progress.

Rwy'n meddwl bod yr adroddiad wedi ein galluogi i fyfyrio ymhellach ar ein gweithgareddau, ac mae'n nodi'n glir y camau yr ydym yn eu cymryd i barhau i gynyddu lefelau ymwybyddiaeth ar draws Cymru. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod ein dull wedi'i gydlynu, ei fod yn strategol, a byddwn wedyn yn elwa cymaint â phosibl ar y gweithgareddau. Ac rwy'n gobeithio bod hynny'n rhoi tawelwch meddwl i Aelodau am fy ymrwymiad i welliannau pellach eto yn yr hyn sydd wir yn flwyddyn arwyddocaol iawn i hawliau plant, gydag archwiliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o gynnydd y DU yn yr arfaeth.

We've worked hard to ensure Wales is reflected in the UK state party report. We've already published a Wales-specific report, setting out how we're delivering against UNCRC, and, as Aled Roberts said, we do have a positive story to tell in Wales, and I do look forward to us having a platform to be able to showcase the really good work that we're doing.

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod Cymru yn cael ei hadlewyrchu yn adroddiad plaid gwladwriaeth y DU. Rydym eisoes wedi cyhoeddi adroddiad sy'n benodol i Gymru, yn nodi sut yr ydym yn cyflawni yn erbyn y Confensiwn, ac, fel y dywedodd Aled Roberts, mae gennym stori gadarnhaol i'w hadrodd yng Nghymru, ac rwy'n edrych ymlaen at gael llwyfan i ni allu arddangos y gwaith gwirioneddol dda yr ydym yn ei wneud.

I'm very proud to be the Minister with lead responsibility for children and young people, and I will drive the implementation of the Measure in championing the UNCRC across all ministerial portfolios. However, all Ministers have a duty to uphold the rights of children and young people within their respective portfolios, and the commitment of each Minister, which is reflected in a change of culture and practice, is noted in the compliance report, and this aligned with the cross-party support towards the UNCRC and the obvious determination by Members and others to hold us as Ministers to account. I think that that is really testament to the political will that we have in Wales. I think this puts us in a very strong position to deliver the ultimate aim of the Measure, which is to focus on the outcomes for children and young people.

Rwy'n falch iawn o fod y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb arweiniol dros blant a phobl ifanc, a byddaf yn sbarduno'r broses o roi'r Mesur ar waith wrth hyrwyddo'r CCUHP ar draws pob portffolio gweinidogol. Fodd bynnag, mae gan bob Gweinidog ddyletswydd i gynnal hawliau plant a phobl ifanc o fewn eu portffolios eu hunain, ac mae ymrwymiad pob Gweinidog, a adlewyrchir mewn newid diwylliant ac arferion, yn cael ei nodi yn yr adroddiad cydymffurfio, ac mae hyn yn cyd-fynd â'r gefnogaeth drawsbleidiol tuag at CCUHP a'r penderfyniad amlwg gan yr Aelodau ac eraill i'n dal ni fel Gweinidogion i gyfrif. Rwy'n meddwl bod hynny wir yn dyst i'r ewyllys gwleidyddol sydd gennym yng Nghymru. Rwy'n credu bod hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa gref iawn i gyflawni nod y Mesur yn y pen draw, sef canolbwyntio ar y canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Turning to some of the other comments from Members, I don't think Jocelyn Davies and I are millions of miles apart either in relation to the issue she raised. Whilst we're not pursuing changes to legislation in the current Assembly—we don't have the mandate, it's not part of our Government's manifesto, it doesn't feature in the legislative programme—I am very committed to positive parenting. Before the summer recess, I will be making an announcement on getting a more universal approach, which I don't think we have at the moment, and I want to see that. So, before summer recess, I will be publishing a statement for Members on how we're going to take that more universal approach forward to supporting parents.

Gan droi at rai o'r sylwadau eraill gan Aelodau, nid wyf yn credu bod Jocelyn Davies a minnau filiynau o filltiroedd ar wahân ychwaith o ran y mater a godwyd ganddi. Er nad ydym yn mynd ar drywydd newidiadau i ddeddfwriaeth yn y Cynulliad cyfredol—nid yw'r mandad gennym, nid yw'n rhan o faniffesto ein Llywodraeth, nid yw'n ymddangos yn y rhaglen ddeddfwriaethol—rwy'n ymrwymedig iawn i rianta cadarnhaol. Cyn toriad yr haf, byddaf yn gwneud cyhoeddiad ar gael ymagwedd fwy cyffredinol, nid wyf yn credu ei bod gennym ar hyn o bryd, ac rwyf am weld hynny. Felly, cyn toriad yr haf, byddaf yn cyhoeddi datganiad i'r Aelodau am sut yr ydym yn mynd i ddatblygu dull mwy cyffredinol o gefnogi rhieni.

Jocelyn Davies also raised the issue regarding the HPV vaccination, and I will take that up—the Minister for Health and Social Services wasn't in the Chamber, but I will ensure those discussions are ongoing with the Minister and report back to Jocelyn Davies.

Cododd Jocelyn Davies y mater ynghylch y brechiad HPV, a byddaf yn rhoi sylw i hynny—nid oedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Siambr, ond byddaf yn sicrhau bod y trafodaethau hynny'n mynd rhagddynt gyda'r Gweinidog ac yn adrodd yn ôl i Jocelyn Davies.

Julie Morgan mentioned a child-friendly logo. Well, I'd like to think the Welsh Government logo is a child-friendly logo. We certainly consider children and young people, as I've said, in all our decisions, but, again, I thought it was quite an interesting suggestion, which we can certainly have a look at.

Crybwyllodd Julie Morgan logo cyfeillgar i blant. Wel, byddwn i'n hoffi meddwl bod logo Llywodraeth Cymru yn logo cyfeillgar i blant. Rydym yn sicr yn ystyried plant a phobl ifanc, fel yr wyf wedi dweud, yn ein holl benderfyniadau, ond, unwaith eto, rwy'n meddwl ei fod yn awgrym eithaf diddorol, ac yn sicr gallwn edrych arno.

Aled Roberts made a very important point. This morning, I met with the welfare reform stakeholders, along with several ministerial colleagues, and their concern about the further impact of £12 billion of welfare reform, we think, which is coming from the UK Government, cannot be underestimated, and it's clearly having a big impact on how we eradicate child poverty by 2020. There's no way we can say that it's not extremely challenging.

Gwnaeth Aled Roberts bwynt pwysig iawn. Y bore yma, cyfarfûm â'r rhanddeiliaid diwygio lles, ynghyd â nifer o gydweithwyr gweinidogol, ac ni ellir gorbwysleisio eu pryder am effaith pellach £12 biliwn o ddiwygio lles, rydym yn meddwl, sy'n dod o Lywodraeth y DU, ac mae'n amlwg yn cael effaith fawr ar sut yr ydym yn dileu tlodi plant erbyn 2020. Does dim ffordd y gallwn ni ddweud nad yw'n heriol dros ben.

Suzy Davies spoke about local decisions, and we would expect local authorities to consider the impact of funding decisions on children and young people within their communities. The local democratic structures that we have in place clearly have to ensure they are delivering the services required of them by the Welsh Government. Those requirements are structured within the framework of the UNCRC, through their policies and their legislation. Again, it's really a very challenging time for local government, and we do appreciate that, but, again, they have to make sure that they do work within this framework. So, I'd just like to thank Members for their contributions this afternoon.

Siaradodd Suzy Davies am benderfyniadau lleol, a byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried effaith penderfyniadau cyllido ar blant a phobl ifanc o fewn eu cymunedau. Mae'n amlwg y bydd yn rhaid i'r strwythurau democrataidd lleol sydd gennym ar waith sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gofynion hynny wedi'u strwythuro o fewn fframwaith CCUHP, drwy eu polisïau a'u deddfwriaeth. Unwaith eto, mae wir yn amser heriol iawn i lywodraeth leol, ac rydym yn gwerthfawrogi hynny, ond, unwaith eto, mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gweithio o fewn y fframwaith hwn. Felly, byddwn i'n hoffi diolch i Aelodau am eu cyfraniadau y prynhawn yma.

18:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch yn fawr, Weinidog. Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 1, felly, ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

18:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion as amended.

Cynnig NDM5798 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5798 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r cyhoedd yn gyffredinol.

To propose the National Assembly for Wales:

1. Notes the Welsh Ministers' Report on the Compliance with the duty under section 1 of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011.

2. Calls on the Welsh Government to do more to promote the United Nations Convention on the Rights of the Child to the wider public.

18:20

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does any Member object? Then the motion as amended is agreed.

A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff y cynnig fel y'i diwygiwyd ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5798 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion NDM5798 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:20

## 11. Cyfnod Pleidleisio

## 11. Voting Time

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to voting time. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we're voting on the town and country planning regulations and I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 39. There were no votes against. There were 12 abstentions. Therefore, the motion is agreed.

Rydym bellach yn symud i'r cyfnod pleidleisio. Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, rydym yn pleidleisio ar y rheoliadau cynllunio gwlad a thref a galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 39 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Roedd 12 yn ymatal. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 39, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Motion agreed: For 39, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5797

Result of the vote on motion NDM5797

18:20

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:20.*

*The meeting ended at 18:20.*